

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 27/11/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)  
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)  
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Public Service Delivery](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Llwynhelyg](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Maternity Services at Wityhush Hospital](#)

[Dadl Plaid Cymru: Addysg](#)  
[Plaid Cymru Debate: Education](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer](#)  
[Short Debate](#)

[Dadl Fer—Aildrefnwyd o 25 Medi: Manteision Canmlwyddiant Dylan Thomas i Gymru](#)  
[Short Debate—Re-scheduled from 25 September: The Benefits of the Dylan Thomas Centenary for Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Questions to the Minister for Finance

### Cosbrestru Undebwyr Llafur

### Trade Unionist Blacklisting

13:30 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa bresennol o ran polisi Llywodraeth Cymru ar fater cosbrestru undebwyr llafur? OAQ(4)0335(FIN)*

*1. Will the Minister make a statement on the current situation in regard to Welsh Government policy on the issue of trade unionist blacklisting? OAQ(4)0335(FIN)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Blacklisting is illegal and the Welsh Government is committed to eradicating it in Wales. I have issued blacklisting guidance for the Welsh public sector and expect organisations to adopt it to ensure we do not do business with firms involved in this deplorable practice.

Mae cosbrestru'n anghyfreithlon ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w ddileu yng Nghymru. Rwyf wedi cyhoeddi canllawiau ar gosbrestru i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn disgwyl i sefydliadau eu mabwysiadu er mwyn sicrhau nad ydym yn gwneud busnes gyda chwmnïau sy'n cyflawni'r arfer gwarthus hwn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:30 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer. Minister, you will be aware that some of the key companies that were involved in that process have started some sort of negotiation over the issue of compensation for the workers whose lives were blighted in that way. What discussions have you had with any of the companies that are involved, and are you able to make a statement on the current state of any discussions about how Welsh workers will be properly compensated for the way in which they were treated?
- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I understand that some 111 of the 3,000 individuals on that Consulting Association blacklist are based in Wales. Of course, we know that that blacklisting has had devastating effects on their lives. The Welsh Government is now reviewing its major contractors, seeking assurances that they confirm that they reject the practice of blacklisting. The First Minister has written to three companies involved in the Crossrail project, where there are particular concerns: Bam Nuttall, Ferrovia and Kier. They have all responded and have provided assurances that they condemn the use of blacklists. We are working with the unions to assess the prospects of the compensation scheme that has been offered by eight companies.
- 13:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Earlier this year, I highlighted a concern in the Chamber that 39 people from north Wales were on a construction industry blacklist. How will the Welsh Government be responding to and inputting to the review by Bruce Carr QC, announced by the UK Government, which will look at allegations of rogue practices by both unions and employers, including the blacklisting of workers?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We welcome the fact that the UK Government is looking at this in terms of its review and that it has been extended to include blacklisting.
- 13:32 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I thank you for the recent letter that you sent me on this subject and for your admission that the Welsh Government has spent over £230 million with companies that subscribed to the Consulting Association's blacklist since it came to light in 2009, although, as you say, some were awarded in the same year. Given the impact that blacklisting has on those it affects, do you consider self-cleansing a sufficiently robust deterrent to those companies? Could you explain to me why you will not be banning contracts with such companies in Wales, as Scotland is doing?

13:33	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Clearly, we are doing everything we can to ensure that those companies are not awarded contracts in the public sector, not just through the Welsh Government but, indeed, through our partners in the public sector. Our procurement advice note is the first to be announced in the UK and it has been warmly welcomed by the Trades Union Congress, not just the Wales TUC, and by unions across the UK. I think you also need to look to our procurement advice note. We cover blacklisting in our pre-qualification questionnaire, and we are also building wording into the terms and conditions of our contracts.	Yn amlwg, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'r cwmnïau hynny yn ennill contractau yn y sector cyhoeddus, nid yn unig drwy Lywodraeth Cymru ond, yn wir, drwy ein partneriaid yn y sector cyhoeddus. Ein nodyn cyngor ar gaffael yw'r cyntaf i gael ei gyhoeddi yn y DU ac mae wedi cael croeso cynnes gan Gyngres yr Undebau Llafur, nid dim ond TUC Cymru, ac undebau ledled y DU. Credaf fod hefyd angen i chi edrych ar ein nodyn cyngor ar gaffael. Rydym yn cwmpasu cosbrestu yn ein holiadur cyn cymhwyso, ac rydym hefyd yn cynnwys geiriad yn nhelerau ac amodau ein contractau.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Cyllideb Llywodraeth Cymru 2014-15</b>		<b>The Welsh Government's Budget 2014-15</b>	
13:33	<b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am y broses a ddefnyddiwyd wrth lunio cyllideb Llywodraeth Cymru 2014/15? OAQ(4)0345(FIN)</i>	<i>2. Will the Minister update the chamber on the process used when drawing up the Welsh Government's budget 2014/15? OAQ(4)0345(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:33	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We continue to draw on sustainable development principles and equality impact assessments to manage the impact of our decisions and to ensure that our budget allocations contribute to the economic, social and environmental wellbeing of people and communities in Wales.	Rydym yn parhau i ddilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn rheoli effaith ein penderfyniadau a sicrhau bod ein dyraniadau cyllidebol yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. We have heard a lot in this Chamber and the wider world about the Welsh Government's far-sighted and innovative ecosystems approach to development and about how we take account of the contribution of precious ecosystems in our environment to the economy of our area, with regard to such things as flood management, for example. Minister, how do you take account of this approach in ensuring sustainable development as a fundamental guiding principle when setting the Welsh Government's budgets for 2014-15?	Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydym wedi clywed llawer yn y Siambr hon a thu hwnt am ymagwedd ecosystemau bellgyrhaeddol ac arloesol Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu a sut rydym yn ystyried cyfraniad ecosystemau gwerthfawr yn ein hamgylchedd at economi ein hardal, o ran pethau fel rheoli llifogydd, er enghraifft. Weinidog, sut rydych yn ystyried y dull hwn o weithredu o ran sicrhau datblygu cynaliadwy fel egwyddor arweiniol sylfaenol wrth bennu cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I thank the Member for Swansea West for that question. Of course, we have the Wales infrastructure investment plan, which provides a strategic approach in relation to decisions about the projects that we fund. I can assure the Member that we will look at both the green and blue infrastructure of our ecosystems to better inform the strategic decision-making process, and I know that the Minister for Natural Resources and Food is leading work on this as well.	Diolch i'r Aelod dros Orllewin Abertawe am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae gennym y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, sy'n darparu dull gweithredu strategol mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch y prosiectau yr ydym yn eu hariannu. Gallaf sicrhau'r Aelod y byddwn yn edrych ar seilwaith gwyrdd a glas ein hecosystemau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol yn well, a gwn fod y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn arwain gwaith ar hyn hefyd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:34	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call on the opposition spokesperson, Paul Davies.	Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:35	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, you will note from the Finance Committee's report on the draft budget that its experience through the year has been that:	Weinidog, nodwch o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft mai ei brofiad drwy gydol y flwyddyn yw:	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

'increasing familiarity with the process of legislation has not led to improvements in financial planning.'

nad yw dod yn fwy cyfarwydd â'r broses deddfwriaethol wedi arwain at welliannau ym maes cynllunio ariannol.

Given the committee's view, what work will you and, indeed, the Government do in light of this to ensure that there is improved financial planning in the current budget process when dealing with specific legislation?

O ystyried barn y pwyllgor, pa waith y byddwch chi ac, yn wir, y Llywodraeth yn ei wneud yn sgil hyn i sicrhau bod gwell systemau cynllunio ariannol yn rhan o'r broses gyllidebol gyfredol wrth ddelio â deddfwriaeth benodol?

13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was a very welcome part of the scrutiny by the Finance Committee. Of course, we did address this as a separate part of the draft narrative in terms of the budgetary impacts of our legislative programme. Certainly, I will be looking—working with the committee, I am sure—to ensure that we are robust in terms of how we take this forward in budget planning.

Roedd hynny'n rhan bwysig iawn o waith craffu'r Pwyllgor Cyllid. Wrth gwrs, aethom i'r afael â hyn fel rhan ar wahân o'r naratif drafft o ran effeithiau cyllidebol ein rhaglen deddfwriaethol. Yn sicr—gan weithio gyda'r pwyllgor mae'n siŵr—byddaf yn ceisio sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â hyn wrth gynllunio'r gyllideb mewn ffordd gadarn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:35 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Minister for that response. I think that we also need some clarity on the outcomes expected from new legislation, and on whether the costs laid out in the budget are realistic and actually provide value for money. What mechanisms do you have in place, as Minister for Finance, to assess whether all Government departments are being financially realistic in the budget process, especially when dealing with specific legislation?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Credaf fod hefyd angen inni gael rhywfaint o eglurder ynghylch canlyniadau disgwylidig deddfwriaeth newydd, a pha un a yw'r costau a nodir yn y gyllideb yn realistig ac yn rhoi gwerth am arian mewn gwirionedd. Pa systemau sydd gennych ar waith, fel y Gweinidog Cyllid, i asesu a yw holl adrannau'r Llywodraeth yn bod yn realistig yn ariannol o ran y gyllideb, yn enwedig wrth ddelio â deddfwriaeth benodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is clear: now that we have our legislative powers, we are robust in our consideration in assessing proposals before they ever reach the point of a White Paper or, indeed, pre-Bill consultation. Again, this is a matter that is at the top of my priorities in terms of budget planning.

Mae hyn yn glir: gan fod gennym ein pwerau deddfwriaethol bellach, rydym yn gadarn wrth asesu cynigion cyn iddynt byth gyrraedd Papur Gwyn neu, yn wir, ymgynghoriad cyn Bil. Unwaith eto, mae hwn yn fater sydd ar frig fy mlaenoriaethau o ran cynllunio'r gyllideb.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:36 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as the Government must be keen to ensure that budgets that contribute to preventative spending—that is, doing something now to save money later on—are preserved as much as possible, and as Care and Repair fits the bill by promoting independence at home and preventing unnecessary hospital admissions, can you explain why its core funding has been substantially reduced in your draft budget, and is this being reconsidered?

Weinidog, gan fod yn rhaid bod y Llywodraeth yn awyddus i sicrhau bod cyllidebau sy'n cyfrannu at wariant ataliol—hynny yw, gwneud rhywbeth yn awr er mwyn arbed arian yn nes ymlaen—yn cael eu cadw cymaint â phosibl, a gan fod Gofal a Thrsio yn gwbl addas am ei fod yn hyrwyddo annibyniaeth yn y cartref ac atal derbyniadau diangen i'r ysbty, a allwch esbonio pam y mae ei gyllid craidd wedi cael ei leihau'n sylweddol yn eich cyllideb ddrafft, ac a yw hyn yn cael ei ailystyried?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, we have had a most difficult budget, with the £1.7 billion cut to our budget by the UK Government, so there have been difficult decisions that have had to be made in terms of priorities. However, I do recognise the preventative work of Care and Repair. Acknowledging that, I believe that it will benefit as a result of allocations in proposals that will come forward, particularly in relation to the pioneering intermediate care fund.

Yn amlwg, rydym wedi cael cyllideb anodd iawn, gydag £1.7 biliwn yn llai gan Lywodraeth y DU, felly bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd o ran blaenoriaethau. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod gwaith ataliol Gofal a Thrsio. Gan gydnabod hynny, credaf y bydd yn rhan o ddyraniadau mewn cynigion a gyflwynir, yn enwedig mewn perthynas â chronfa arloesol gofal canolraddol a bydd hynny'n fuddiol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:37 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

Thank you for that answer in relation to Care and Repair, Minister. Clearly, the Finance Committee identified preventative spending as an issue that the Government needs to do more work on, and Care and Repair is an important part of that. Are you solely considering using the intermediate care fund to bolster that, or are you able to find additional resources for that so as not to undermine the main purpose of that fund, which is meant to be additional funding, over and above what is currently there at the moment, to try to bridge that gap between health and social care in the community?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw mewn perthynas â Gofal a Thrwsio, Weinidog. Yn amlwg, nododd y Pwyllgor Cyllid fod gwariant ataliol yn fater y mae angen i'r Llywodraeth wneud mwy o waith arno, ac mae Gofal a Thrwsio yn rhan bwysig o hynny. A ydych ond yn ystyried defnyddio'r gronfa gofal canolraddol i gryfhau hynny, neu a allwch ddod o hyd i adnoddau ychwanegol ar gyfer hynny er mwyn peidio â thanseilio prif ddiben y gronfa honno, sef arian ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cau'r bwlch hwnnw rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned?

13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

Clearly, it is going to be up to the partners at a local level to come forward with their proposals in terms of the £50 million intermediate care fund. I am sure that the preventative role, in terms of Care and Repair, will form part of those proposals, but not to bridge or fill a gap.

The issues in terms of the national, core functions of Care and Repair are important. We are looking at that in terms of how it can maximise its efficiencies, which I know you agree will be part of ensuring that it can continue with its support in future.

Yn amlwg, mater i'r partneriaid ar lefel leol fydd cyflwyno eu cynigion o ran y gronfa gofal canolraddol gwerth £50 miliwn. Rwy'n siŵr y bydd y rôl ataliol, o ran Gofal a Thrwsio, yn rhan o'r cynigion hynny, ond nid i bontio na llenwi bwlch.

Mae'r materion o ran swyddogaethau craidd, cenedlaethol Gofal a Thrwsio yn bwysig. Rydym yn edrych ar hynny o ran sut y gall gynyddu effeithlonrwydd, a gwn eich bod yn cytuno y bydd yn rhan o sicrhau ei fod yn gallu parhau â'i gefnogaeth yn y dyfodol.

13:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

Minister, further to that, what discussions have you actually had with Care and Repair about how quickly it can put these efficiencies in place? What impact will your proposed solution to the cut have, in terms of the match funding that local government puts into Care and Repair to match the money that the Welsh Government puts in upfront?

Weinidog, ymhellach at hynny, pa drafodaethau rydych wedi'u cael mewn gwirionedd gyda Gofal a Thrwsio ynghylch pa mor gyflym y gall gyflwyno'r effeithlonrwydd hwn? Pa effaith a gaiff eich ateb arfaethedig i'r toriad, o ran yr arian cyfatebol y mae llywodraeth leol yn ei fuddsoddi mewn Gofal a Thrwsio i gyd-fynd â'r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ymlaen llaw?

13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

That is a matter for the Minister for Housing and Regeneration, but I will certainly be discussing that with him and will write to the Member on the matter.

Mae hynny'n fater i'r Gweinidog Tai ac Adfywio, ond byddaf yn sicr yn trafod hynny gydag ef a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar y mater.

**Prosiectau Cyfalaf**

**Capital Projects**

13:39 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido prosiectau cyfalaf mawr newydd? OAQ(4)0346(FIN)

3. Will the Minister make a statement regarding funding new major capital projects? OAQ(4)0346(FIN)

13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)

In October, I announced a £617.5 million package of capital investment for housing, transport and economic development initiatives.

Ym mis Hydref, cyhoeddais becyn o fuddsoddiad cyfalaf gwerth £617.5 miliwn ar gyfer mentrau tai, trafnidiaeth a datblygu economaidd.

- 13:39 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rydych yn gwybod, wrth gwrs, mwy na neb arall yn y Siambr hon pa mor bwysig fydd hi yn awr i bwerau benthyg newydd ddod i Lywodraeth Cymru i ganiatáu i ni gario ymlaen i fuddsoddi a chyllido prosiectau cyfalaf mawr. A ydych wedi gwneud astudiaeth o'r gwahaniaeth byddai pwerau amrywio'r dreth incwm yn ei wneud i allu'r Llywodraeth i fenthyg arian, a pha fwlch fyddai rhwng faint yr ydych yn gallu benthyg gyda'r pwerau dros y dreth incwm a heb y pwerau hynny? Hefyd, os ydych yn gwneud astudiaeth o'r fath, a wnewch ei gyhoeddi?
- Thank you for that response, Minister. You know, of course, better than anyone else in this Chamber how important it will be now for new borrowing powers to be available to the Welsh Government to allow us to continue to invest and to fund major capital projects. Have you carried out any study of the difference that income tax varying powers would make to the Government's ability to borrow money, and what gap would there be between what you could borrow with income tax varying powers and without those powers? If you are carrying out that study, will you also publish it?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- These are early days in terms of that kind of study, but I would certainly want to publish that. Securing early access to borrowing to help our financing—particularly in terms of the enhancement of the M4, which was a key plank of achieving that outcome—is the first step. Clearly, we are working on issues in terms of the scale of borrowing that is linked to tax devolution, starting with the smaller taxes that are going to be devolved, and then moving forward to modelling in terms of tax-varying powers.
- Megis dechrau y mae'r math hwnnw o astudiaeth, ond byddwn yn sicr yn awyddus i gyhoeddi hynny. Sicrhau mynediad cynnar at arian a gaiff ei fenthyca er mwyn helpu ein prosesau ariannu—yn enwedig o ran gwella'r M4, a oedd yn elfen allweddol o sicrhau'r canlyniad hwnnw—yw'r cam cyntaf. Yn amlwg, rydym yn gweithio ar faterion o ran faint o arian a gaiff ei fenthyca sy'n gysylltiedig â datganoli treth, gan ddechrau gyda'r trethi llai a gaiff eu datganoli, ac yna symud ymlaen at fodelu o ran pwerau amrywio trethi.
- 13:40 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Llywodraeth yn gallu gwneud astudiaeth o'r fath, achos rwyf yn meddwl y byddai hynny yn cyfoethogi'r ddadl gyhoeddus ynglŷn â grym pwerau dros y dreth incwm i yrru'r economi ac i fuddsoddi yn yr economi. Yn dilyn hynny, a ydych yn awr mewn sefyllfa i ddweud a fyddwch chi'n adolygu rhaglen gyfalaf y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y ddadl gyhoeddus ynglŷn â buddsoddi yn troi nid yn unig o gwmpas yr M4 newydd—ac mae Plaid Cymru yn dal yn amheus iawn ynglŷn â hynny—ond hefyd o gwmpas buddsoddi ar draws y genedl gyfan?
- I very much hope that the Government can carry out such a study, because I think that it would enhance the public debate on the power of income tax varying powers to drive the economy and to invest in the economy. Following on from that, are you now in a position to tell us whether you will review the Government's capital programme in order to ensure that the public debate on investment does not simply turn around the new M4—and Plaid Cymru is still very dubious about that—but also investment across the whole of Wales?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Wales infrastructure investment plan is our key vehicle for ensuring that we have strategic investment and investment priorities, which, of course, I have shared and consulted on fully with this Assembly as well as with business and our partners in the public and private sectors. On 10 December, alongside the final budget debate, we will also have—and I will be publishing this with the final debate—an update on the pipeline, that is, the pipeline of capital projects that are already planned.
- Y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru sy'n allweddol o ran sicrhau bod gennym flaenoriaethau buddsoddi a buddsoddi strategol, ac rwyf, wrth gwrs, wedi'u rhannu ac ymgynghori'n llawn arnynt gyda'r Cynulliad hwn, yn ogystal â busnesau a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ar 10 Rhagfyr, ochr yn ochr â'r ddadl derfynol ar y gyllideb, byddwn hefyd yn cael—a byddaf yn cyhoeddi hwn gyda'r ddadl derfynol—diweddariad ar y llif arfaethedig o brosiectau cyfalaf sydd eisoes wedi'u cynllunio.
- 13:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, capital investments are a crucial way of driving through improvements. My own constituency has benefited greatly from capital funding from the Welsh Government: there is a list, from new schools down to a new library in Prestatyn and many others. These are not just statistics though; they are often benefits that will change people's lives, and many have seen that. Despite all of the good work that has gone on with the Welsh Government, the Tory Government's decision to slash the capital budget has made future work very difficult. How concerned are you that the reckless slashing of budgets by the Tory Government will have a serious impact on our ability to deliver for our people in Wales?
- Weinidog, mae buddsoddiadau cyfalaf yn ffordd hanfodol o gyflawni gwelliannau. Mae fy etholaeth fy hun wedi elwa'n fawr o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru: ceir rhestr, o ysgolion newydd i lyfrgell newydd ym Mhrestatyn a llawer o rai eraill. Nid ystadegau'n unig yw'r rhain serch hynny; maent yn aml yn fuddiannau a fydd yn newid bywydau pobl, ac mae llawer wedi gweld hynny. Er gwaethaf yr holl waith da sydd wedi ei wneud gyda Llywodraeth Cymru, mae penderfyniad y Llywodraeth Doriaidd i dorri'r gyllideb gyfalaf wedi gwneud gwaith yn y dyfodol yn anodd iawn. Pa mor bryderus ydych chi y bydd proses ddi-hid y Llywodraeth Doriaidd o dorri cyllidebau yn cael effaith ddifrifol ar ein gallu i gyflawni dros ein pobl yng Nghymru?

- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- It is true, as Ann Jones says, that we have had a 33% cut to our capital budgets, and we should also reflect on the fact that additional capital that was made available to us includes financial transactions: 12% is loans and equity, which have to be repaid to the Treasury. However, I would say that our innovative finance initiatives, generating an additional £900 million investment into the Welsh economy, show that the Welsh Government is standing up for the people of Wales and ensuring that we have the infrastructure that the economy needs.
- Mae'n wir, fel y dywed Ann Jones, ein bod wedi gweld ein cyllidebau cyfalaf yn lleihau 33%, a dylem hefyd ystyried y ffaith bod cyfalaf ychwanegol a oedd ar gael inni yn cynnwys trafodion ariannol: 12% mewn benthyciadau ac ecwiti, y mae'n rhaid eu had-dalu i'r Trysorlys. Fodd bynnag, byddwn yn dweud bod ein mentrau cyllid arloesol, sy'n creu buddsoddiad ychwanegol o £900 miliwn yn economi Cymru, yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn sefyll i fyny dros bobl Cymru ac yn sicrhau bod gennym y seilwaith y mae ei angen ar yr economi.
- 13:43 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Of course, the Conservative Government—the Conservative-led Government—will be investing billions into the electrification of the main line. You announced £194 million-worth of infrastructure projects on 9 October, mainly serving south Wales. North Wales is responsible for 30% of Wales's manufacturing output, and a mere £17 million has been announced for improvements to the A55, and a £44 million Wrexham rail project is unlikely to achieve the improvements required. When you give us your statement on 10 December, Minister, will you be looking at fairer funding for north Wales?
- Wrth gwrs, bydd y Llywodraeth Geidwadol—y Llywodraeth a arweinir gan y Ceidwadwyr—yn buddsoddi biliynau yn y gwaith o drydaneiddio'r brif linell. Gwnaethoch gyhoeddi prosiectau seilwaith gwerth £194 miliwn ar 9 Hydref, yn gwasanaethu'r de yn bennaf. Mae'r gogledd yn gyfrifol am 30% o allbwn gweithgynhyrchu Cymru, a dim ond £17 miliwn sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer gwelliannau i'r A55, ac nid yw prosiect rheilffordd Wrecsam gwerth £44 miliwn yn debygol o gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen. Pan fyddwch yn rhoi eich datganiad inni ar 10 Rhagfyr, Weinidog, a fyddwch yn ystyried proses ariannu decach i'r gogledd?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- It was a £617.5 million announcement that I made on 9 October. You recognise the investment that we are putting into the A55, in terms of tunnels and route resilience. There is also the Ysbyty Glan Clwyd redevelopment and the flood and coastal risk management programme. I hope that you recognise those important allocations to north Wales. Of course, the all-Wales and pan-Wales investments that I am making in terms of Flying Start, Finance Wales, Arbed, capital loans for school, sport and leisure facilities, the e-procurement service, the social housing grant, Help to Buy, and affordable housing land. I am sure that the Member for North Wales would not disregard that investment, which will, of course, benefit north Wales.
- Cyhoeddi £617.5 miliwn a wneuthum ar 9 Hydref. Rydych yn cydnabod y buddsoddiad yr ydym yn ei wneud yn yr A55, o ran twneli a chryfhau'r ffordd. Ceir hefyd ailddatblygiad Ysbyty Glan Clwyd a'r rhaglen i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Gobeithio eich bod yn cydnabod y dyraniadau pwysig hynny i'r gogledd. Wrth gwrs, y buddsoddiadau ar gyfer Cymru gyfan yr wyf yn eu gwneud o ran Dechrau'n Deg, Cyllid Cymru, Arbed, benthyciadau cyfalaf ar gyfer cyfleusterau ysgol, chwaraeon a hamdden, y gwasanaeth e-gaffael, y grant tai cymdeithasol, Cymorth i Brynu, a thir tai fforddiadwy. Rwy'n siŵr na fyddai'r Aelod dros Ogledd Cymru yn diystyru'r buddsoddiad hwnnw, a fydd, wrth gwrs, o fudd i'r gogledd.
- 13:45 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Tra'r ydym yn sôn am fenthycia, mae'r cynllun i wella ysgolion, rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn ddibynnol iawn ar gynghorau yn benthycu yr arian. Gan ystyried y cwtogi ar gyllidebau cynghorau ar hyn o bryd, ydych chi wedi gweld unrhyw fath o broblemau ynghylch unrhyw oedi yn y rhaglen o achos y cwtogi?
- While we are discussing borrowing, the programme to improve schools, the twenty-first century schools programme, is highly dependent on councils borrowing that funding. Given the cuts in the budgets of councils at the moment, have you seen any problems arising in terms of delays in that programme as a result of those cuts?
- 13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- This is a strong partnership programme, as you are aware, Aled Roberts, between the Welsh Government and local government, and since the publication of the Wales infrastructure investment plan, we have invested an additional £100 million from our capital reserves to accelerate the twenty-first century schools programme, which is having a huge impact. We are working with our colleagues in local government to explore innovative finance opportunities, particularly through the local government borrowing initiative.
- Mae hon yn rhaglen bartneriaeth gref, fel y gwyddoch, Aled Roberts, rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, ac ers cyhoeddi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, rydym wedi buddsoddi £100 miliwn ychwanegol o'n cronfeydd cyfalaf wrth gefn i gyflymu rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sy'n cael effaith enfawr. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol i archwilio cyfleoedd cyllid arloesol, yn enwedig drwy fenter benthycia llywodraeth leol.

## Portffolio Diwylliant a Chwaraeon

## Culture and Sport Portfolio

- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad y gyllideb ddrafft i'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon? OAQ(4)0342(FIN)*
- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The proposed culture and sport budget for 2014-15, as announced in the draft budget, is just over £137 million, consisting of £121 million revenue and £16 million capital.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that statement, Minister. Across my region of Mid and West Wales, there is particular concern at the moment in theatres, from Barmouth to Builth Wells, and from Newtown across to Fishguard, about the financial sustainability of those valued arts centres. In that context, I wonder whether you would approach your colleague the Minister for Culture and Sport with regard to the possibility of a specific reference being made in the remit letter to the Arts Council of Wales, in terms of the value of rural theatre. I think that would be well received by the management teams of those theatres, and it would also send out a powerful message to local government, as they look to how they will allocate their funds in the forthcoming round.
- 13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank William Powell for that question, and I am sure that the Minister has heard it, as he is in the Chamber. The Arts Council of Wales budget has been partly protected to reflect the work that is being undertaken to implement the recommendations of the review chaired by Dai Smith on the role of arts in education, particularly in tackling poverty, which, of course, includes rural poverty.
- 13:47 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Cycling has the benefit of improving the health and wellbeing of people, while helping to reduce carbon emission in Wales. The UK Government has announced funding of £77 million over two years to increase cycling in some urban areas of England. What priority was given to promoting cycling in Wales in your discussion regarding the culture and sport budget?
- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The Minister for Economy, Science and Transport funds local authorities to provide walking and cycling infrastructure through main grant programmes. However, the pioneering Active Travel (Wales) Bill 2013, led by the Minister for Culture and Sport, will take us far further ahead in terms of investment in cycling in Wales.
4. Will the Minister make a statement on the draft budget allocation for the Culture and Sport portfolio? OAQ(4)0342(FIN)
- Mae cyllideb arfaethedig diwylliant a chwaraeon ar gyfer 2014-15, fel y'i cyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft, ychydig dros £137 miliwn, sy'n cynnwys £121 miliwn o refeniw ac £16 miliwn o gyfalaf.
- Diolch ichi am y datganiad hwnnw Weinidog. Ar draws fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae pryder arbennig ar hyn o bryd mewn theatrau, o'r Bermo i Lanfair-ym-Muallt, ac o'r Drenwydd i Abergwaun, ynghylch cynaliadwyedd ariannol y canolfannau celfyddydol gwerthfawr hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, tybed a fydddech yn cysylltu â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, o ran y posibilrwydd o gyfeiriad penodol yn ei lythyr cylch gwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru, ynglŷn â gwerth theatr wledig. Yn fy marn i, byddai hynny'n cael ei gefnogi gan dimau rheoli'r theatrau hynny, a byddai hefyd yn anfon neges bwerau i lywodraeth leol, wrth iddi ystyried sut y bydd yn dyrannu ei chyllid yn y cylch nesaf.
- Diolch i William Powell am y cwestiwn hwnnw, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed hyn, gan ei fod yn y Siambr. Mae cyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cael ei diogelu'n rhannol i adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud i weithredu argymhellion yr adolygiad a gadeiriwyd gan Dai Smith ar rôl y celfyddydau mewn addysg, yn enwedig wrth fynd i'r afael â thlodi, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys tlodi gwledig.
- Mae beicio o fudd o ran gwella iechyd a lles pobl, gan helpu i leihau allyriadau carbon yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid o £77 miliwn dros ddwy flynedd i gynyddu cyfraddau beicio mewn rhai ardaloedd trefol yn Lloegr. Pa flaenoriaeth a roddwyd i hyrwyddo beicio yng Nghymru yn eich trafodaeth ynghylch y gyllideb diwylliant a chwaraeon?
- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n ariannu awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith cerdded a beicio drwy brif raglenni grant. Fodd bynnag, bydd Bil Teithio Llesol arloesol (Cymru) 2013, o dan arweiniad y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, yn mynd â ni dipyn ymhellach o ran buddsoddi mewn beicio yng Nghymru.



13:48	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Mae buddsoddi mewn rhai meysydd, er enghraifft chwaraeon, yn gallu arwain at arbedion mewn meysydd eraill. Mae rhywun yn gallu meddwl am ganlyniadau ieuchy a fyddai, efallai, yn fwy cadarnhaol o ganlyniad i fwy o weithgarwch chwaraeon. Felly, i ba raddau y mae eich Llywodraeth chi yn fwrriadol wedi adnabod rhai o'r meysydd cyllidebol sydd â'r potensial i arbed mewn rhannau eraill o Lywodraeth, a sut ydych chi, yn sgil hynny, wedi ceisio amddiffyn y cyllidebau hynny er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau?</p>	<p>Investment in certain areas, such as sport, can lead to savings in other areas. One can think of health outcomes that would perhaps be more positive as a result of more healthy sport activity. Therefore, to what extent has your Government deliberately identified some of the financial areas that have the potential to make savings in other parts of Government, and how, as a result of that, have you tried to protect those budgets in order to ensure the best use of resources?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I welcome that question because it goes back to the importance of the Active Travel (Wales) Bill, which I am sure that the Member will recognise, but also the importance of preventative investment. That has been a key theme of this budget.</p>	<p>Croesawaf y cwestiwn hwnnw oherwydd mae'n mynd yn ôl at bwysigrwydd y Bil Teithio Llesol (Cymru), rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn ei gydnabod, ond hefyd bwysigrwydd buddsoddi ataliol. Mae hynny wedi bod yn thema allweddol yn y gyllideb hon.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Comisiwn Silk</b>		<b>Silk Commission</b>		
13:49	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p><i>5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd yn sgil adroddiad Comisiwn Silk?</i>  OAQ(4)0338(FIN)</p>	<p><i>5. Will the Minister provide an update on action the Welsh Government has taken as a result of the Silk Commission report?</i> OAQ(4)0338(FIN)</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Since the publication of the Silk commission's report last year, the Welsh Government has been making the case for a full and positive response from the UK Government. The response published last week represents an important step forward for devolution in Wales.</p>	<p>Ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Silk y llynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dadlau dros ymateb llawn a chadarnhaol gan Lywodraeth y DU. Roedd yr ymateb a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn gam pwysig ymlaen i ddatganoli yng Nghymru.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thank you for that answer, Minister. I very much welcome the developments that have taken place on Silk over the last few weeks, and I congratulate you and the First Minister on leading the debate.</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf y datblygiadau sydd wedi digwydd o ran Silk yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn fawr iawn, a hoffwn eich llongyfarch chi a'r Prif Weinidog am arwain y ddatd.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
		<p>Delivering on the recommendations in Silk will be necessary for you as a Welsh Government to deliver for the people of Wales and the Welsh economy, so can you provide an update on the next steps in devolving those powers, and can you outline any ongoing developments with the Treasury?</p>	<p>Bydd gweithredu'r argymhellion yn Silk yn angenrheidiol i chi fel Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni dros bobl Cymru ac economi Cymru, felly a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf wrth ddatganoli'r pwerau hynny, a allwch amlinellu unrhyw ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt gyda'r Trysorlys?</p>	
13:50	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I thank Rebecca Evans for that question. I was able to make a statement yesterday about this to the Assembly. The next stage is for the UK Government to publish its draft Wales Bill; it has committed to do so before the end of this session of Parliament—by the end of March of next year—but I am pressing for an earlier date. After that, the UK Government is planning to legislate within the lifetime of this Parliament. That means a Wales Bill receiving Royal Assent by the end of March 2015. I will keep the Assembly updated on progress.</p>	<p>Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn gallu gwneud datganiad ddoe am hyn i'r Cynulliad. Y cam nesaf yw y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Bil Cymru drafft; mae wedi ymrwymo i wneud hynny cyn diwedd y sesiwn Seneddol hon—erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf—ond rwy'n pwyso am ddyddiad cynharach. Ar ôl hynny, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu deddfu o fewn tymor y Senedd hon. Mae hynny'n golygu y caiff Bil Cymru Gydsyniad Brenhinol erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Byddaf yn parhau i roi'r diweddaraf i'r Cynulliad ar hynt hynny.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 13:50 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, during your statement yesterday, the shadow Minister for finance, my colleague Paul Davies, asked you whether you supported the Silk commission's recommendation that local authorities should be allowed to retain and spend a proportion or more of the business rates collected within their area to incentivise local economic growth and to encourage greater accountability. You were less than clear in your answer to Paul Davies yesterday. Can you tell us now whether you support that Silk recommendation or not?
- Weinidog, yn ystod eich datganiad ddoe, gofynnodd Gweinidog cyllid yr wrthblaid, fy nghyd-Aelod Paul Davies, a oeddech yn cefnogi argymhelliad comisiwn Silk y dylai awdurdodau lleol gael yr hawl i gadw a gwario cyfran neu fwy o'r ardrethi busnes a gesglir o fewn eu hardal i gymell twf economaidd lleol ac i annog mwy o atebolrwydd. Nid oeddech yn glir iawn yn eich ateb i Paul Davies ddoe. A allwch ddweud wrthym yn awr a ydych yn cefnogi argymhelliad Silk ai peidio?
- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is now a matter for discussion with the Minister for Economy, Science and Transport and the Minister for Local Government and Government Business in taking forward this policy agenda, in response to the very welcome support for the devolution of non-domestic rates, and building on the work of Professor Brian Morgan. The point that has been made today will be acknowledged in that context.
- Mae hwn bellach yn fater i'w drafod gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wrth fwrw ymlaen â'r agenda bolisi hon, mewn ymateb i'r gefnogaeth i ddatganoli ardrethi annomestig sydd i'w groesawu, ac adeiladu ar waith yr Athro Brian Morgan. Bydd y pwynt sydd wedi cael ei wneud heddiw yn cael ei gydnabod yn y cyd-destun hwnnw.
- 13:51 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- On borrowing powers in particular, we note that most areas of possible spend that we have talked about are concentrated on roads. Adding to a question asked earlier by my colleague Simon Thomas about the need to spread benefits throughout Wales, and considering the responsibilities of the Assembly on sustainability, could the Minister tell us whether the Government would also consider investing in railways in future, or is it just talking about improvements to the M4 and A55?
- O ran pwerau benthyca yn arbennig, nodwn fod y rhan fwyaf o'r gwariant posibl yr ydym wedi sôn amdano yn canolbwyntio ar ffyrdd. Gan ychwanegu at gwestiwn a ofynnwyd yn gynharach gan fy nghyd-Aelod, Simon Thomas, am yr angen i ledaenu manteision ledled Cymru, ac wrth ystyried cyfrifoldebau'r Cynulliad o ran cynaliadwyedd, a allai'r Gweinidog ddweud wrthym a fyddai'r Llywodraeth hefyd yn ystyried buddsoddi yn y rheilffyrdd yn y dyfodol, neu a yw ond yn sôn am y gwelliannau i'r M4 a'r A55?
- 13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is fair to say, in response to your question, that early access to borrowing has been granted in response to particular infrastructure projects that were identified, not just the enhancement to the M4 but also to the A55. The enhancement to the M4 is subject to ongoing consultation. Clearly, our borrowing opportunities must be reflected in the whole of the Wales infrastructure investment plan, within our devolved powers, and that goes across the whole economic, social and public infrastructure. That will include the opportunities through the metro, for example, which is an example of integrated transport.
- Mae'n deg dweud, mewn ymateb i'ch cwestiwn, fod mynediad cynnar at arian a gaiff ei fenthyca wedi'i roi mewn ymateb i brosiectau seilwaith penodol a nodwyd, nid dim ond y gwelliant i'r M4 ond hefyd i'r A55. Mae'r gwaith o wella'r M4 yn destun ymgynghori parhaus. Yn amlwg, rhaid i'n cyfleoedd benthyca gael eu hadlewyrchu yng nghynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn ei gyfanrwydd, o fewn ein pwerau datganoledig, ac mae hynny'n cynnwys y seilwaith economaidd, gymdeithasol a chyhoeddus gyfan. Bydd hynny'n cynnwys y cyfleoedd drwy'r metro, er enghraifft, sy'n enghraifft o drafnidiaeth integredig.
- 13:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Given the announcement on the devolution of business rates and your answer to a previous question, when can we expect to see any policy announcements or policy intentions coming from the Welsh Government following discussions between the Minister for local government and the Minister for economic development with regard to how the Welsh Government intends to use these new powers? I am sure that it will not take very long, given that you have had many months to consider what you would do with those powers should they be granted, and I look forward to an early announcement.
- O ystyried y cyhoeddiad ar ddatganoli ardrethi busnes a'ch ateb i gwestiwn blaenorol, pryd y gallwn ddisgwyl gweld unrhyw gyhoeddiadau polisi neu fwriadau polisi gan Lywodraeth Cymru yn sgil trafodaethau rhwng y Gweinidog Llywodraeth leol a'r Gweinidog datblygu economaidd o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau newydd hyn? Rwy'n siŵr na fydd yn cymryd yn hir iawn, gan eich bod wedi cael nifer o fisoedd i ystyried yr hyn y byddech yn ei wneud gyda'r pwerau hynny pe baent yn cael eu rhoi, ac edrychaf ymlaen at gyhoeddiad cynnar.

13:53	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I would certainly wish to bring an early announcement to the Chamber, but it will also be subject to consultation and scrutiny from Members.</p>	<p>Byddwn yn sicr yn dymuno dod â chyhoeddiad cynnar i'r Siambr, ond bydd hefyd yn destun ymgynghori a chraffu gan Aelodau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cyllido Teg</b>		<b>Fair Funding</b>	
13:53	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>6. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau cyllido teg i Gymru? OAQ(4)0347(FIN)</i></p>	<p><i>6. What plans does the Minister have to ensure fair funding for Wales? OAQ(4)0347(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The joint statement on financial reform, issued last year by the Welsh Government and the UK Government, was an important step forward. The UK Government's announcement of new borrowing powers for Wales is a further significant stride towards achieving a fairer funding settlement for Wales.</p>	<p>Mae'r datganiad ar y cyd ar ddiwygio ariannol, a gyhoeddwyd y llynedd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn gam pwysig ymlaen. Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch pwerau benthyca newydd i Gymru yn gam sylweddol pellach tuag at gyflawni setliad cyllido tecach i Gymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:54	<p><b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am sure that the Minister would agree that fair funding for Wales also means fair funding for the rest of the UK, including the regions in England and Scotland. Does she think that if we were to arrive at that situation, and if there were disputes about what the funding should be, there should be an independent body that would determine how those disputes were settled?</p>	<p>Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod cyllid teg i Gymru hefyd yn golygu cyllid teg i weddill y DU, gan gynnwys rhanbarthau Lloegr a'r Alban. A yw'n credu pe baem yn cyrraedd y sefyllfa honno, a phe bai anghydfodau ynglŷn â chyllid, y dylai fod corff annibynnol a fyddai'n penderfynu sut y câi'r anghydfodau hynny eu datrys?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:54	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the Member for Cardiff North for that question. This issue was addressed by the Holtham commission in terms of having an independent body to determine finance allocation. In terms of her main point, we are looking at the position of Wales—that is our primary focus—but I support the principle that funding should be applied in a fair way in every part of the UK—in Scotland, Northern Ireland, Wales and the English regions—and I support the development of a needs-based formula, on which, of course, Gerry Holtham did a great deal of work.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Ymdriniwyd â'r mater hwn gan gomisiwn Holtham o ran cael corff annibynnol i benderfynu ar ddyrannu cyllid. O ran ei phrif bwynt, rydym yn edrych ar sefyllfa Cymru—dyna ein prif ffocws—ond cefnogaf yr egwyddor y dylai arian gael ei gymhwyso mewn ffordd deg ym mhob rhan o'r DU—Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr—a chefnogaf ddatblygu fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, y gwnaeth Gerry Holtham, wrth gwrs, lawer iawn o waith arno.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:55	<p><b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We can talk about fair funding for Wales, but I want to ensure that there is fair funding within Wales and fair funding that is allocated equally across the country. This is how it should be. North Wales and the rural areas do not get their fair share of funding. Of the Communities First clusters, 85% are in south Wales—[Interruption.]—all the north Wales counties received provisional settlements with cuts above the average, and the Federation of Small Business has said that, with the timescale required to fund the M4 proposals, it is hard to see how the Welsh Government could fund infrastructure works to aid north Wales. Minister, in your statement on 10 December, will you commit to fair funding across Wales?</p>	<p>Gallwn siarad am gyllid teg i Gymru, ond rwyf am sicrhau bod cyllid teg o fewn ffiniau Cymru a chyllid teg a ddyrennir yn gyfartal ar draws y wlad. Dyma sut y dylai fod. Nid yw'r gogledd na'r ardaloedd gwledig yn cael eu cyfran deg o gyllid. O'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, mae 85% ohonynt yn y de—[Torri ar draws.]—cafodd holl siroedd y gogledd setliadau dros dro gyda thoriadau yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi dweud, gyda'r amserlen ofynnol i ariannu cynigion yr M4, ei bod hi'n anodd gweld sut y gallai Llywodraeth Cymru ariannu seilwaith i gynorthwyo'r gogledd. Weinidog, yn eich datganiad ar 10 Rhagfyr, a wnech ymrwymo i gyllid teg ym mhob rhan o Gymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is hard to respond to that question—certainly from those on that side of the Chamber, whom we know do not take responsibility for the £1.7 billion cut to our Welsh Government block grant. In terms of the allocation of funding, we seek to allocate, through our formula, on the basis of need. Of course, that applies not only to social needs, but economic needs. Every local authority in Wales benefits from a Welsh Labour programme for government, and I am proud that they continue to do so.
- Mae'n anodd ymateb i'r cwestiwn hwnnw—yn sicr gan y rhai ar yr ochr honno o'r Siambr, y gwyddom na wnaethant gymryd cyfrifoldeb am y toriad o £1.7 biliwn i grant bloc Llywodraeth Cymru. O ran dyrannu cyllid, rydym yn ceisio dyrannu, drwy ein fformiwla, ar sail angen. Wrth gwrs, mae hynny'n wir nid yn unig am anghenion cymdeithasol, ond anghenion economaidd. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn elwa o raglen Lywodraethu Llafur Cymru, ac rwy'n falch eu bod yn parhau i wneud hynny.
- 13:57 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, yesterday, Alistair Darling, the former Chancellor and chair of the Scotland 'no' campaign said that he does not support reforming Barnett. If Labour wins in 2015, what will be the position of our Welsh Minister for Finance, the Welsh Government and Welsh Labour Party?
- Weinidog, ddoe, dywedodd Alistair Darling, y cyn-Ganghellor a chadeirydd yr ymgyrch 'na' yn yr Alban nad yw'n cefnogi diwygio Barnett. Os yw Llafur yn ennill yn 2015, beth fydd safbwynt ein Gweinidog Cyllid yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a Plaid Lafur Cymru?
- 13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will repeat my position again: Wales is not served by the Barnett formula. That remains my view, and it is not just my view. It remains the view of Lord Barnett himself and the House of Lords committee. The evidence is quite clear: Barnett does no favours, to us or to other parts of the UK. So, Barnett reform remains our long-term goal.
- Gwnaf ailadrodd fy safbwynt eto: nid yw Cymru yn cael ei gwasanaethu gan fformiwla Barnett. Dyna fy marn o hyd, ac nid dim ond fy marn i ydyw. Dyna farn yr Arglwydd Barnett ei hun a phwyllgor Tŷ'r Arglwyddi o hyd. Mae'r dystiolaeth yn eithaf clir: nid yw Barnett o unrhyw fudd i ni nac i rannau eraill o'r DU. Felly, diwygio Barnett yw ein nod hirdymor.
- 13:57 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Voluntary organisations in my constituency have endeavoured to access funds from the Centre for Social Action in the Cabinet Office, which is administered via a charity called Nesta, which I have not heard of before. My constituents have been knocked back on the grounds that these grants are only available to those who can show significant benefit to the English taxpayer. While, as Jeff Cuthbert informs me, all parts of the UK are technically able to apply, no consequential funding has been provided to the Welsh Government. How can we ensure that voluntary organisations are not disadvantaged just because they are serving Welsh communities, even if they wish to serve English communities as well?
- Mae mudiadau gwirfoddol yn fy etholaeth wedi ymdrechu i gael gafael ar gronfeydd gan y Ganolfan Gweithredu Cymdeithasol yn Swyddfa'r Cabinet, sy'n cael eu gweinyddu drwy elusen o'r enw Nesta, nad wyf wedi clywed amdani o'r blaen. Mae fy etholwyr wedi cael eu gwrthod ar y sail bod y grantiau hyn ond ar gael i'r rhai sy'n gallu dangos budd sylweddol i'r trethdalwr yn Lloegr. Er, fel y dywed Jeff Cuthbert wrthyf, y gall pob rhan o'r DU yn dechnegol wneud cais, nid oes unrhyw arian canlyniadol wedi cael ei roi i Lywodraeth Cymru. Sut y gallwn sicrhau nad yw mudiadau gwirfoddol yn cael eu rhoi o dan anfantais dim ond oherwydd eu bod yn gwasanaethu cymunedau Cymru, hyd yn oed os ydynt yn dymuno gwasanaethu cymunedau Lloegr hefyd?
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Jenny Rathbone for that question. I will certainly look into this with the Minister for Communities and Tackling Poverty.
- Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn hwnnw. Byddaf yn sicr yn ymchwilio i hyn gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

## Cyllideb Cyfalaf

## Capital Budget

- 13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0330(FIN)*
- 7. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's capital budget? OAQ(4)0330(FIN)*
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh Government's draft budget 2014-15 was published in October, and set out our capital spending plans for 2014-15 and our indicative plans for 2015-16.
- Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 ym mis Hydref, gan nodi ein cynlluniau gwariant cyfalaf ar gyfer 2014-15 a'n cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16.

13:59	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, you will be aware that today marks the anniversary of the devastating floods that took place in north Wales in communities such as St Asaph and Ruthin in my constituency and elsewhere in rural parts of Conwy and Denbighshire. What consideration have you given to using the new borrowing powers that will be devolved to the National Assembly as a result of the action being taken by the UK Government towards expanding the investment that is available for flood protection measures in communities such as those in my constituency that were devastated last year?	Weinidog, byddwch yn ymwybodol ein bod heddiw yn nodi'r llyfogydd dinistriol a ddigwyddodd yn y gogledd mewn cymunedau fel Llanelwya a Rhuthun yn fy etholaeth ac mewn rhannau gwledig o Gonwy a Sir Ddinbych. Pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i ddefnyddio'r pwerau benthyca newydd a fydd yn cael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r camau a gymerir gan Lywodraeth y DU tuag at ehangu'r buddsoddiad sydd ar gael ar gyfer mesurau amddiffyn rhag llyfogydd mewn cymunedau fel y rhai yn fy etholaeth a wynebodd ddifrod mawr y llynedd?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:59	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> In response to Darren Millar and in recognition of the devastation that was inflicted on those communities, and, of course, on many communities across Wales, I can say that we are investing an additional £20 million in terms of vital flood and coastal defence improvements. That is benefitting an estimated 2,000 homes and businesses across Wales, including those in your region and constituency. Of course, borrowing is not a panacea; we have to pay back what we borrow. So, this has to be an integrated part of our Wales infrastructure plan, our innovative finance routes, borrowing and our capital programme.	Mewn ymateb i Darren Millar a chan gydnabod y difrod a achoswyd yn y cymunedau hynny, ac, wrth gwrs, mewn llawer o gymunedau ledled Cymru, gallaf ddweud ein bod yn buddsoddi £20 miliwn ychwanegol o ran gwella amddiffynfeydd rhag llyfogydd ac amddiffynfeydd arfordirol hanfodol. Mae hynny'n effeithio ar tua 2,000 o gartrefi a busnesau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai yn eich rhanbarth a'ch etholaeth chi. Wrth gwrs, nid yw benthyca yn ateb pob problem; rhaid inni ad-dalu'r hyn yr ydym yn ei fenthylg. Felly, rhaid i hyn fod yn rhan annatod o'n cynllun seilwaith i Gymru, ein llwybrau cyllid arloesol, benthyca a'n rhaglen gyfalaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Adroddiad Comisiwn Silk</b>		<b>Silk Commission Report</b>	
14:00	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Comisiwn Silk? OAQ(4)0339(FIN)</i>	<i>8. Will the Minister make a statement on the UK Government's response to the Silk Commission report? OAQ(4)0339(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:00	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Gwnes i ddatganiad ddoe ynghylch ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad y comisiwn Silk. Mae'n newyddion da i Gymru ac yn newyddion da i'r Deyrnas Unedig.	I made a statement on the UK Government's response to the Silk commission report yesterday. It is good news for Wales and good news for the UK.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:00	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch. Y rheswm a gynigiwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig dros beidio â datganoli treth teithwyr awyr a gosod yr amod 'lockstep' ar dreth incwm oedd peidio rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru greu mantais economaidd i Gymru. Pe bai Llafur yn rhan o Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl 2015, a fyddai argymhellion Silk yn cael eu derbyn yn llawn?	Thank you. The reason put forward by the United Kingdom Government for not devolving air passenger duty and placing the lockstep condition on income tax was to not give the Welsh Government an opportunity to create an economic advantage for Wales. If Labour were part of the UK Government post 2015, would the Silk recommendations be accepted in full?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:01	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am disappointed that we did not get long-haul air passenger duty. We made a good case for it. I am also disappointed about the lockstep model. It will not allow us to vary rates independently. We got the same arrangement as Scotland; we cannot change one rate without moving all of the others to the same degree. Of course, I gave my commitment yesterday that I am continuing to press for implementation of those reforms and recommendations with the UK Government.	Rwy'n siomedig na chawsom doll teithwyr awyr teithiau hir. Cyflwynwyd achos da dros hynny gennym. Rwyf hefyd yn siomedig ynghylch y model 'lockstep'. Ni fydd yn caniatáu inni amrywio cyfraddau'n annibynnol. Cawsom yr un trefniant â'r Alban; ni allwn newid un gyfradd heb symud pob un o'r lleill i'r un graddau. Wrth gwrs, ddoe ymrwymais i barhau i bwysio am weithredu'r diwygiadau a'r argymhellion hynny gyda Llywodraeth y DU.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:01	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Minister, with the announcement on Silk and the devolution of stamp duty land tax in particular, I appreciate that legislation and other matters have to be conducted before these powers are transferred to you in their entirety, but you have talked time and again about how the Welsh Government would like to reform these taxes. Now that they are coming your way, you are able to do that. Could you give us an idea of the line of thinking that the Welsh Government is taking, as to what type of reform you are talking about when you are looking at these particular taxes to make them more innovative and more Welsh-focused?</p>	<p>Weinidog, gyda'r cyhoeddiad ar Silk a datganoli treth tir y doll stamp yn benodol, sylweddolaf fod angen pasio deddfwriaeth ac ymdrin â materion eraill cyn i'r pwerau hyn gael eu trosglwyddo ichi yn eu cyfanrwydd, ond rydych wedi sôn dro ar ôl tro am sut y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi diwygio'r trethi hyn. Nawr eu bod ar y ffordd, gallwch wneud hynny. A allech roi syniad inni o feddylfryd Llywodraeth Cymru, ynghylch y math o ddiwygiadau yr ydych yn sôn amdanynt pan edrychwch ar y trethi penodol hyn er mwyn eu gwneud yn fwy arloesol a sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar sefyllfa Cymru?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We have had the advantage of consultation with the business sector, with house builders and the construction industry. Already, they are coming up with very clear indications of how they would like to see stamp duty land tax reform taken forward, and getting rid of the slab nature of stamp duty land tax is one key point, while looking at opportunities in terms of the needs of house buyers. This is something that we can immediately move forward on with clearer discussion, now that we will have the tax devolved.</p>	<p>Rydym wedi gallu manteisio ar ymgynghori â'r sector busnes, ag adeiladwyr tai ac â'r diwydiant adeiladu. Maent eisoes yn nodi'n glir iawn sut y byddent yn hoffi gweld treth tir y doll stamp yn cael ei diwygio, ac mae cael gwarded ar natur slab treth tir y doll stamp yn un pwynt allweddol, tra'n edrych ar gyfleoedd o ran anghenion prynwyr tai. Mae hyn yn rhywbeth y gallwn fwrw ymlaen yn syth gydag ef gyda thrafodaeth gliriach, gan fod y dreth wedi cael ei datganoli erbyn hyn.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Dyraniad y Gyllideb</b></p>		<p><b>Budget Allocation</b></p>	
14:02	<p><b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ynglyn â'r dyraniad i'r portffolio hwnnw yn y gyllideb ddrafft? OAQ(4)0332(FIN)</i></p>	<p><i>9. What discussions has the Minister had with the Minister for Local Government and Government Business regarding the budget allocation to that portfolio in the draft budget? OAQ(4)0332(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I regularly meet the Minister for Local Government and Government Business to discuss a range of issues including budget allocations to that portfolio.</p>	<p>Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i drafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys dyraniadau cyllidebol i'r portffolio hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<p><b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. As you will know, the recent draft budget stripped around £96 million from the local government budget, giving the Minister much less money to work with. In my area, Monmouthshire County Council received the third worst settlement with a 4.4% reduction in its budget. What discussions have you had with the Minister for Local Government and Government Business to ensure that well-performing councils, such as Conservative-led Monmouthshire, which will meet their targets this year, will not end up subsidising other Welsh councils that are less prudent with their delivery and finances in future years?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae'r gyllideb ddrafft ddiweddar wedi tynnu tua £96 miliwn o gyllideb llywodraeth leol, gan roi llawer llai o arian i'r Gweinidog. Yn fy ardal i, cafodd Cyngor Sir Fynwy y trydydd setliad gwaethaf gyda 4.4% o ostyngiad yn ei gyllideb. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i sicrhau na fydd cynghorau sy'n perfformio'n dda, fel Sir Fynwy a arweinir gan y Ceidwadwyr, a fydd yn cyrraedd eu targedau eleni, yn cymorthdalau cynghorau eraill yng Nghymru yn y pen draw sy'n llai darbodus o ran cyflawni a chyllid yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:03	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Through successive budgets, we have been doing all that we can to mitigate the impact of UK Government spending cuts, going back to that £1.7 billion of cuts to our block grant, to protect the public services on which many people, the length and breadth of Wales, rely. I am sure that Monmouthshire will continue to serve its people and communities in the way that you describe.</p>	<p>Drwy gyllidebau olynol, rydym wedi bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru effaith toriadau gwariant Llywodraeth y DU, yn mynd yn ôl i'r £1.7 biliwn o doriadau i'n grant bloc, er mwyn amddiffyn y gwasanaethau cyhoeddus y mae llawer o bobl, ar hyd a lled Cymru, yn dibynnu arnynt. Rwy'n siŵr y bydd Sir Fynwy yn parhau i wasanaethu ei phobl a'i chymunedau yn y ffordd yr ydych yn disgrifio.</p>
14:04	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, we acknowledge that local government budgets were adjusted to take into account the cuts coming down from the Tories in London. I am pleased that this Welsh Government has always protected funding to local schools, with a rise of over 1% above any rate of change in the amount that goes to councils. However, I was disappointed that council officials ran to the media within hours of the publication of your draft budget to denounce Welsh Government's protection of health and education, even before elected members in their own councils could discuss that. What discussions have you had with both the Minister for local government and the Minister for education on the need to protect education funding across local authorities?</p>	<p>Weinidog, rydym yn cydnabod bod cyllidebau llywodraeth leol wedi'u haddasu i ystyried y toriadau gan y Torïaid yn Llundain. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru bob amser wedi diogelu cyllid i ysgolion lleol, gyda chynnydd o dros 1% yn uwch nag unrhyw gyfradd o newid yn y swm a roddir i gynghorau. Fodd bynnag, roeddwn yn siomedig bod swyddogion y cyngor wedi mynd at y cyfryngau o fewn oriau i gyhoeddi eich cyllideb ddrafft i ladd ar fesurau Llywodraeth Cymru i ddiogelu iechyd ac addysg, hyd yn oed cyn i aelodau etholedig yn eu cynghorau eu hunain allu trafod hynny. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog llywodraeth leol a'r Gweinidog addysg ar yr angen i ddiogelu cyllid addysg ym mhob awdurdod lleol?</p>
14:05	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Local authorities are very clear on what we expect in terms of the protections that we have afforded the schools budgets, and we have clear monitoring arrangements to ensure that funding is used to deliver our commitment to grow school funding by 1% above changes to the budget overall.</p>	<p>Mae awdurdodau lleol yn glir iawn ynghylch yr hyn rydym yn ei ddisgwyl o ran diogelu cyllidebau ysgolion, ac mae gennym drefniadau monitro clir i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ein hymrwymiad i gynyddu cyllid ysgolion 1% uwchlaw'r newidiadau i'r gyllideb gyffredinol.</p>
14:05	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ddiweddar wedi cyhoeddi meysydd y mae'n ystyried eu torri er mwyn cwrdd â'i sefyllfa gyllidebol. Mae'n edrych ar y posibilrwydd o dorri llyfrgelloedd, meysydd chwarae, mannau croesi y tu allan i ysgolion, canolfannau cymunedol ac yn y blaen er mwyn trio arbed £400,000, ond, ar yr un pryd, mae'r cyngor yn dal i wario £138,000 ar rôl maer y sir. A ydych chi'n meddwl bod gwario swm o'r fath yn yr hinsawdd sydd ohoni yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian?</p>	<p>Wrexham County Borough Council has recently announced areas that it is considering for cuts in order to meet its budgetary situation. It is looking at the possibility of cutting libraries, playing fields, crossings outside schools, community centres and so on in order to try to save £400,000 but, simultaneously, the council is still spending £138,000 on the role of the county's mayor. Do you think that spending such a sum in the current climate represents the best value for money?</p>
14:06	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>These are matters for local authorities in terms of their priorities. I am sure that all Members will agree that the fact that we are mitigating the impact of planned reductions to the Supporting People programme will help some of the most vulnerable people in those communities served by our local authorities.</p>	<p>Mae'r rhain yn faterion i awdurdodau lleol o ran eu blaenoriaethau. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno y bydd y ffaith ein bod yn lliniaru effaith y gostyngiadau arfaethedig i'r rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y cymunedau hynny a wasanaethir gan ein hawdurdodau lleol.</p>
	<b>Cyllideb yr UE</b>	<b>EU Budget</b>
14:06	<b>Mick Antoniw</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb yr UE o ran sut y mae'n effeithio ar Gymru? OAQ(4)0336(FIN)</p>	<p>10. Will the Minister provide an update on the EU Budget as it effects Wales? OAQ(4)0336(FIN)</p>

- 14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Last week, I issued a statement about the political agreements reached in Europe on the multi-annual financial framework, the legislative packages for the structural funds and the rural development plan—worth £2.3 billion to Wales.
- Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad am y cytundebau gwleidyddol a gafwyd yn Ewrop ar y fframwaith ariannol amlflwydd, y pecynnau deddfwriaethol ar gyfer y cronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig—gwerth £2.3 biliwn i Gymru.
- 14:06 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, many projects in my constituency benefit from the support of various streams of EU funding. Do you share the concerns that I have that the uncertainty that is being created about the possibility of the UK's withdrawal from the EU will create uncertainty over future investment opportunities and future spending programmes within Wales?
- Weinidog, mae llawer o brosiectau yn fy etholaeth yn cael cymorth o wahanol ffrydiau arian yr UE. A ydych yn rhannu'r pryderon sydd gennyf y bydd yr ansicrwydd sy'n cael ei greu am y posibilrwydd y bydd y DU yn tynnu'n ôl o'r UE yn creu ansicrwydd ynghylch cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol a rhaglenni gwariant yn y dyfodol yng Nghymru?
- 14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now have certainty about the allocation of structural funds to Wales—up £2.3 billion—and I know that that will increase the confidence about, and the recognition of, the importance of the European Union to Wales. We are recognising that future EU funds are worth over £2.3 billion to structural and rural development funds, along with annual direct farm payments of around £300 million.
- Erbyn hyn mae gennym sicrwydd ynghylch dyrannu cronfeydd strwythurol i Gymru—£2.3 biliwn yn fwy—a gwn y bydd hynny'n cynyddu hyder ynglŷn â phwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd i Gymru a chydabyddiaeth o hynny. Rydym yn cydnabod y bydd cronfeydd yr UE yn y dyfodol yn werth dros £2.3 biliwn i gronfeydd datblygu strwythurol a gwledig, ynghyd â thaliadau fferm uniongyrchol blynyddol o tua £300 miliwn.
- 14:07 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, given the almost universal recognition that funding from previous EU spending rounds, spent through various programmes and all under the control and supervision of your Government, has been very badly spent, underused or, in some cases, such as those of the All Wales Ethnic Minority Association and the regeneration investment fund for Wales, there have been serious allegations of maladministration and wastage, and since you hold the purse strings, what absolute assurances can you give this Chamber that you are ready, now that the EU budget has been agreed, to prevent any further waste and maladministration when commissioning and supervising EU finance for Wales for the future benefit of the people of Wales?
- Weinidog, o gofio'r gydnabyddiaeth gyffredinol bron bod cyllid o gylchoedd gwario blaenorol yr UE, a wariwyd drwy raglenni amrywiol ac i gyd o dan reolaeth a goruchwyliaeth eich Llywodraeth chi, wedi cael ei wario'n wael iawn, ei danddefnyddio neu, mewn rhai achosion, megis cyllid Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a chronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, bu honiadau difrifol o gamweinyddu a gwastraff, a gan mai chi sy'n rheoli'r cronfeydd, pa sicrwydd llwyr y gallwch ei roi i'r Siambr hon eich bod yn barod, gan fod cyllideb yr UE wedi ei chytuno, i atal unrhyw wastraff a chamweinyddu arall wrth gomisiynu a goruchwyllo cyllid yr UE i Gymru er budd pobl Cymru yn y dyfodol?
- 14:08 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am disappointed that Byron Davies was not able to meet the Minister for Europe. I was pleased to meet, as I am sure that your leader was, David Lidington on Monday, who came with me to see the value of the way in which we invested our structural funds over the last seven years and to recognise that Cardiff University received yet another Queen's anniversary prize for a research centre, in terms of a EU-backed renewable energy project. Do you support that investment, Byron Davies, in terms of the impact that it is having on research, economy and the businesses that I met from your region that had benefited from European structural funds and the compliance with which we have delivered those structural funds?
- Rwy'n siomedig na fu modd i Byron Davies gyfarfod â Gweinidog Ewrop. Roeddwn yn falch o gyfarfod, fel eich arweinydd mae'n siŵr gennyf, â David Lidington ddydd Llun, a ddaeth gyda mi i weld gwerth y ffordd y gwnaethom fuddsoddi ein cronfeydd strwythurol dros y saith mlynedd diwethaf ac i gydnabod bod Prifysgol Caerdydd wedi ennill gwobr pen-blwydd y Frenhines arall ar gyfer canolfan ymchwil, o ran prosiect ynni adnewyddadwy a gefnogir gan yr UE. A ydych yn cefnogi'r buddsoddiad hwnnw, Byron Davies, o ran yr effaith y mae'n ei chael ar ymchwil, yr economi a'r busnesau y cyfarfûm â hwy o'ch rhanbarth a oedd wedi elwa o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd a'r gydymffurfiaeth yr ydym wedi'i sicrhau wrth ddogosbarthu'r cronfeydd strwythurol hynny?



14:09 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, pe baem ni ond yn edrych ar y cronfeydd strwythurol y mae Cymru wedi bod yn eu derbyn ers 2000, buasem yn gweld bod buddsoddiad eithriadol o bwysig wedi bod yn ein cymunedau ac mae'r buddsoddiad hwnnw wedi creu swyddi ac yn cynnal swyddi ar hyn o bryd. Un peth yw dweud y gellid bod wedi gwneud yn well gyda'r buddsoddiad hwnnw ac, fel gwrthblaid am gyfnod helaeth o'r cyfnod hwnnw, byddem ni'n dweud hynny ac yn dweud bod gwersi i'w dysgu, ond mae gwneud datganiad cwbl gyffredinol bod yr arian i gyd wedi ei wario'n wael yn gwbl afresymol ac yn anghyfrifol, oherwydd mae'r buddsoddiadau hynny wedi gwneud gwahaniaeth i economi Cymru.

Minister, if we were to look only at the structural funds that Wales has been in receipt of since 2000, we would see that there has been an exceptionally important investment in our communities and that investment has created jobs and sustains those jobs at present. It is one thing to say that more could have been done with that investment and, having been in opposition for a great deal of that period, I would say that and would say that there are lessons to be learned, but to make a blanket statement that all the money has been spent badly is completely unreasonable and irresponsible, because those investments have made a difference to the economy of Wales

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You have played your part, particularly in the Committee of the Regions, in ensuring that we are held to account, and across this Chamber and in committee engagement, in terms of the spend of our structural funds. I know that you will have recognised and welcomed the impact. It is about the impact of the investment on our economy. If you look at EU projects, you will find that we have already assisted nearly 12,000 businesses, created 7,000 businesses, and helped to create 22,000 jobs.

Rydych wedi chwarae eich rhan, yn enwedig ym Mhwyllgor y Rhanbarthau, i sicrhau ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif, ac yn y Siambur hon ac mewn pwyllgorau, o ran gwariant ein cronfeydd strwythurol. Gwn y byddwch wedi cydnabod a chrosawu'r effaith a gafodd. Mae'n ymwneud ag effaith y buddsoddiad ar ein heconomi. Os ydych yn edrych ar brosiectau'r UE, gwelwch ein bod eisoes wedi cynorthwyo bron 12,000 o fusnesau, wedi creu 7,000 o fusnesau, ac wedi helpu i greu 22,000 o swyddi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cronfa Gymdeithasol Ewrop

## European Social Fund

14:10 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*11. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddaeth i Gymru yng nghyfnod ariannol 2012-13? OAQ(4)0331(FIN)*

*11. Will the Minister confirm how much European Social Funding came to Wales in the 2012-13 financial period? OAQ(4)0331(FIN)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

During 2012-13, Wales drew down nearly £51 million of the European social fund. We met all of our annual N+2 ESF targets agreed with the Commission for 2012-13.

Yn ystod 2012-13, hawliodd Cymru bron £51 miliwn o gronfa gymdeithasol Ewrop. Cyflawnwyd pob un o'n targedau N +2 ESF blynyddol y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn ar gyfer 2012-13.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her response. Yet again, it is an example of Wales gaining from membership of the European Union. Following the reductions planned for 2014-15 financial year, will the Minister for Finance work with the Minister for Education and Skills to increase the amount of ESF funding going into further education colleges in Wales?

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb. Unwaith eto, mae'n enghraifft o Gymru ar ei hennill o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn y gostyngiadau a gynlluniwyd ar gyfer blynyddyn ariannol 2014-15, a wnaiff y Gweinidog Cyllid weithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynyddu faint o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n mynd i golegau addysg bellach yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly will, and I thank Mike Hedges for his questions and observations. Clearly, the commitment to the further education sector of £22 million of ESF and ERDF funds shows how we are supporting those key developments.

Gwnaf hynny, a hoffwn ddiolch i Mike Hedges am ei gwestiynau a'i sylwadau. Yn amlwg, mae'r ymrwymiad i'r sector addysg bellach o £22 miliwn o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac ERDF yn dangos sut rydym yn cefnogi'r datblygiadau allweddol hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:11	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> If we look at the 2007 to 2013 projects funded under the European social fund, we see that there are 110 approved projects, but only two of these were awarded to the private sector. Of the £412 million in the European social funding for this period, only £772,000 went to the private sector. Minister, what action will you be taking to promote private sector involvement in the next round of European social funding?	Os edrychwn ar brosiectau 2007-2013 a ariannwyd o dan y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd, gwelwn fod 110 o brosiectau a gymeradwywyd, ond dim ond dau o'r rhain a ddyfarnwyd i'r sector preifat. O'r £412 miliwn yn y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod hwn, dim ond £772,000 aeth i'r sector preifat. Weinidog, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i hyrwyddo cyfranogiad y sector preifat yn y cylch nesaf o arian cymdeithasol Ewropeaidd?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:11	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I was very glad to announce, along with my colleague, the Minister for Natural Resources and Food, the new single programme monitoring committee with full private sector representation, and to comment on the fact that the private sector has benefited from the £160 million apprenticeship programme backed with £95 million from the European social fund since 2007.	Roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi, ynghyd â'm cyd-Weinidog, y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, y pwyllgor monitro rhaglenni sengl newydd â chynrychiolaeth lawn o'r sector preifat, a nodi'r ffaith bod y sector preifat wedi elwa o'r rhaglen brentisiaeth gwerth £160 miliwn a gefnogir gan £95 miliwn o gronfa gymdeithasol Ewrop ers 2007.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Diwylliant a Chwaraeon</b>		<b>Culture and Sport</b>	
14:12	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniad y gyllideb i'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon? OAQ(4)0333(FIN)</i>	<i>12. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the Culture and Sport portfolio? OAQ(4)0333(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:12	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The culture and sport portfolio for this financial year, as identified in the June supplementary budget, is almost £140 million, consisting of £126 million revenue and £14 million capital.	Mae'r portffolio diwylliant a chwaraeon ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, fel y'i nodwyd yng nghyllideb atodol Mehefin, bron yn £140 miliwn, sy'n cynnwys £126 miliwn o refeniw a £14 miliwn o gyfalaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:12	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am very grateful to the Minister for the reply. The 2014 NATO conference, which will be held in Newport next September, allows a unique opportunity to showcase Welsh culture and heritage. Is the Minister minded to increase the culture and sport portfolio to provide support for events related of this conference?	Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am yr ateb. Mae cynhadledd NATO yn 2014, a fydd yn cael ei chynnal yng Nghasnewydd fis Medi nesaf, yn gyfle unigryw i arddangos diwylliant a threftadaeth Cymru. A yw'r Gweinidog o blaid cynyddu'r portffolio diwylliant a chwaraeon er mwyn cefnogi digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gynhadledd hon?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:12	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Clearly, we are restrained by our budgets, but I know that the Minister for Economy, Science and Transport is working very closely with Newport in ensuring that we are able to support this important conference opportunity for the whole of Wales.	Yn amlwg, cawn ein cyfyngu gan ein cyllidebau, ond gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio'n agos iawn gyda Chasnewydd i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r cyfle pwysig hwn i Gymru gyfan a ddaw yn sgil y gynhadledd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Cyllidebau Adrannol</b>		<b>Departmental Budgets</b>	
14:13	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>13. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'i chyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch cyllidebau adrannol? OAQ(4)0344(FIN)</i>	<i>13. What discussions has the Minister had with her cabinet colleagues regarding departmental budgets? OAQ(4)0344(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We have discussed the financial situation regularly at Cabinet. In determining departmental allocations, we took into account the challenges and priorities across all budgets.
- Rydym wedi trafod y sefyllfa ariannol yn rheolaidd yn y Cabinet. Wrth benderfynu ar ddyraniadau adrannol, gwnaethom ystyried yr heriau a'r blaenoriaethau ym mhob cyllideb.
- 14:13 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Hoffwn ofyn yn benodol am y trafodaethau yr ydych chi wedi'u cael ynglŷn â'r effaith ar yr iaith Gymraeg o ran y cyllidebau adrannol. Mae'n ymddangos i lawer ohonom fod y toriadau o ran y gyllideb i'r Gymraeg yn sylweddol iawn. Yn wir, dywedodd y comisiynydd iaith nad oedd hithau wedi cael unrhyw drafodaethau ynglŷn â'r toriad yn ei chyllideb, ond dim ond cael gwybod amdano y gwnaeth. A gynhaliwyd asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg cyn i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud gan Weinidogion?
- I wish to ask you specifically about the discussions and negotiations that you have had on the impact on the Welsh language in terms of the departmental budgets. It appears to many of us that the cuts in terms of the budget for the Welsh language are substantial. Indeed, the language commissioner said that she had not had any discussions about the cut to her budget; she was only informed. Was any assessment of the impact on the Welsh language carried out before these decisions were taken by Ministers?
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We are committed to considering the impact of action, particularly budgetary discussions on the Welsh language and Welsh-speakers. In fact, I am meeting with the Welsh Language Commissioner to look at European social fund and structural fund opportunities shortly. Our approach will be strengthened by the Welsh language Measure from 2015-16 in terms of the duty in terms of statutory obligations.
- Rydym wedi ymrwymo i ystyried effaith gweithredu, yn enwedig trafodaethau cyllidebol ar yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Yn wir, rwy'n cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg i edrych ar gyfleoedd cronfa gymdeithasol a chronfa strwythurol Ewropeaidd yn fuan. Bydd ein hymagwedd yn cael ei chryfhau gan Fesur y Gymraeg o 2015-16 o ran y ddyletswydd o ran rhwymedigaethau statudol.
- 14:14 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I heard your reply to Rhodri Glyn Thomas but, more broadly, how do you measure the effect of cutting the budget of one portfolio on the policy objectives of another, and how do you plan to make that information more readily accessible in the documentation that accompanies the draft budget?
- Weinidog, clywais eich ateb i Rhodri Glyn Thomas, ond, yn fwy cyffredinol, sut rydych yn mesur effaith torri cyllideb un portffolio ar amcanion polisi un arall, a sut rydych yn bwriadu sicrhau bod y wybodaeth honno'n fwy hygyrch yn y ddogfennaeth a gyhoeddir ar y cyd â'r gyllideb ddrafft?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that Suzy Davies has read, in depth I am sure, our equality impact assessment and the way in which we are now integrating our impact assessments, which include looking at not only issues in terms of equality, but socioeconomic aspects and, indeed, the Welsh language.
- Gwn fod Suzy Davies wedi darllen, yn fanwl mae'n siŵr, ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r ffordd yr ydym yn awr yn integreiddio ein hasesiadau o effaith, sy'n cynnwys edrych nid yn unig ar faterion o ran cydraddoldeb, ond agweddau economaidd-gymdeithasol ac, yn wir, yr iaith Gymraeg.

## Cyllideb Llywodraeth Cymru

## Welsh Government Budget

- 14:15 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau gwariant ataliol a amlinellir yng nghyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0341(FIN)*
- 14. Will the Minister make a statement on preventative spending measures outlined in the Welsh Government Budget? OAQ(4)0341(FIN)*
- 14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We are committed to making the maximum use of our available resources to deliver the outcomes that we want to see for Wales, and that is why a preventative approach underpins all our spending plans.
- Rydym wedi ymrwymo i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r canlyniadau yr ydym am eu gweld dros Gymru, a dyna pam mai dull ataliol sy'n sail i'n holl gynlluniau gwariant.

14:15	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that answer, Minister. You will be aware, of course, that the Finance Committee raised concerns that preventative spending measures should be handled more consistently across all ministerial portfolios. Could you tell us how you are ensuring that that is going to be the case?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y Pwyllgor Cyllid wedi codi pryderon y dylai mesurau gwariant ataliol gael eu trin yn fwy cyson ar draws yr holl bortffolios gweinidogol. A allech ddweud wrthym sut rydych yn sicrhau mai dyma sy'n digwydd?</p>
14:15	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>This is something that underpins, as I have said, our spending decisions in the priorities that are set out in this challenging budget. I welcome the fact that the Finance Committee also seeks to do work with us to ensure that we can take this preventative spend further in future budgets.</p>	<p>Mae hyn yn rhywbeth sydd wrth wraidd ein penderfyniadau gwario yn y blaenoriaethau a nodir yn y gyllideb heriol hon fel rwyf wedi'i ddweud. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cyllid hefyd yn ceisio gweithio gyda ni i sicrhau ein bod yn gallu datblygu'r gwariant ataliol hwn ymhellach mewn cyllidebau yn y dyfodol.</p>
14:15	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, as noted by the Office for Budget Responsibility's fiscal sustainability report, the biggest challenge for the UK, looking further ahead, is the ageing population, which will require increasing levels of support. Can you tell us what specific steps the Welsh Government is taking to assess the long-term fiscal sustainability of its policies, and how do preventative spending measures fit in with those priorities, given the demographic concerns?</p>	<p>Weinidog, fel y nodwyd yn adroddiad cynaliadwyedd ariannol Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, yr her fwyaf i'r DU, wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, yw'r boblogaeth sy'n heneiddio, a fydd yn gofyn am lefelau cynyddol o gymorth. A allwch ddweud wrthym pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i asesu cynaliadwyedd ariannol hirdymor ei pholisïau, a sut mae mesurau gwario ataliol yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hynny, o ystyried y pryderon demograffig?</p>
14:16	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>This is very clearly important in terms of our forecasting—and I thank the Member for that question—clearly, on forecasting impacts, but not just on current population estimates but in terms of future prospects for pressures on services, particularly for our health and social care budgets.</p>	<p>Mae hyn yn amlwg iawn yn bwysig o ran ein rhagamcanu—a diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw—yn amlwg, o ran effeithiau rhagamcanu, ond nid yn unig ar amcangyfrifon y boblogaeth ar hyn o bryd ond o ran rhagolygon y dyfodol ar gyfer pwysau ar wasanaethau, yn enwedig ar gyfer ein cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
	<b>Caffael Cyhoeddus</b>	<b>Public Procurement</b>
14:16	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth caffael cyhoeddus i Gymru? OAQ(4)0337(FIN)</p>	<p>15. Will the Minister make a statement on the value of public procurement to Wales? OAQ(4)0337(FIN)</p>
14:16	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Public procurement in Wales is worth approximately £4.3 billion per year. Clearly, how we spend this is of vital importance to the economy and is why procurement features in our programme for government commitments.</p>	<p>Mae caffael cyhoeddus yng Nghymru yn werth tua £4.3 biliwn y flwyddyn. Yn amlwg, mae'r ffordd yr ydym yn ei wario yn hanfodol bwysig i'r economi a dyna pam mae caffael yn rhan o ymrwymadau ein rhaglen lywodraethu.</p>

14:17 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ateb. Yn sicr, mae'n elfen ganolog a phwysig iawn. Codais gyda chi rai wythnosau yn ôl y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio fframwaith gaffael y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil a gwerthuso, gan nad oes fframwaith penodol Cymreig. Un cwmni yn unig o Gymru sydd ar y fframwaith hwnnw. Ers hynny, a ydych chi wedi cael cyfle i ystyried a ydych chi am barhau i ddefnyddio fframwaith y Deyrnas Unedig, sydd i bob pwrpas yn allgau nifer o gwmnïau o Gymru, ynteu a yw'n fwrriad gan eich Llywodraeth yn awr i ddatblygu fframwaith penodol Cymreig ar gyfer y maes hwn i sicrhau bod mwy o gwmnïau o Gymru yn cael cystadlu am y gwaith a bod mwy o'r arian hwnnw'n cael aros yn economi Cymru?

Thank you for your reply. It is certainly a central and important element. A few weeks ago, I raised with you the fact that the Welsh Government is using the United Kingdom's procurement framework for research and evaluation, as there is no specific Welsh framework. There is only one Welsh company on that framework. Since then, have you had time to consider whether you are to continue using the UK framework, which, to all intents and purposes, excludes Welsh companies, or does your Government intend to develop a specific Welsh framework in this field so that more Welsh companies are able to compete for the work and so that more of that money is able to remain in the Welsh economy?

14:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

We are certainly examining the position, and we clearly recognise that it is important that we see Welsh companies on wider frameworks, but it is also to ensure that there is recognition and understanding of the opportunities in frameworks within Wales and also in the UK. Research and evaluation are key to that study that we are undertaking.

Rydym yn sicr yn edrych ar y sefyllfa, ac, yn amlwg, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ein bod yn gweld cwmnïau o Gymru ar fframweithiau ehangach, ond mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd mewn fframweithiau yng Nghymru a hefyd yn y DU. Mae ymchwil a gwerthuso yn allweddol i'r astudiaeth honno yr ydym yn ei chynnal.

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, and briefly, is Janet Finch-Saunders.

Yn olaf, ac yn fyr, Janet Finch-Saunders.

14:18 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, in an attempt to introduce transparency to public sector procurement, the UK Government has introduced Contracts Finder, which holds whole contract documents for framework agreements awarded since January 2011, thereby showing taxpayers how their money is spent, on what, and the procurement trail. What actions are you taking to embed a similar level of transparency in the Welsh public sector through the national procurement service?

Weinidog, mewn ymgais i gyflwyno tryloywder i gaffael yn y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno 'Contracts Finder', sy'n dal dogfennau contract cyfan ar gyfer cytundebau fframwaith a ddyfarnwyd ers mis Ionawr 2011, a thrwy hynny yn dangos i drethdalwyr sut mae eu harian yn cael ei wario, ar beth, a'r llwybr caffael. Pa gamau rydych chi eu cymryd i ymgorffori tryloywder tebyg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy'r gwasanaeth caffael cenedlaethol?

14:18 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, the launch of the national procurement service by Lesley Griffiths and me last week demonstrates a unique way forward for common and repetitive spend that will save £25 million a year from public sector contracts. It will be transparent and open, and it is the only one of its kind in the UK.

Yn amlwg, mae lansio'r gwasanaeth caffael cenedlaethol gan Lesley Griffiths a minnau yr wythnos diwethaf yn dangos ffordd unigryw ymlaen ar gyfer gwariant cyffredin ac ailadroddus a fydd yn arbed £25 miliwn y flwyddyn o gontractau sector cyhoeddus. Bydd yn dryloyw ac yn agored, a dyma'r unig un o'i fath yn y DU.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

### Gwasanaethau Tân ac Achub

14:19 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ar ddyfodol Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru? OAQ(4)0355(LG)

## Questions to the Minister for Local Government and Government Business

### Fire and Rescue Services

1. What discussions has the Minister had on the future of Fire and Rescue Services across Wales? OAQ(4)0355(LG)

- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
 I meet with the chairs of fire and rescue authorities and with chief fire officers on a regular basis to discuss all matters relating to the management and provision of fire and rescue services in Wales. Rwy'n cyfarfod â chadeiryddion awdurdodau tân ac achub a chyda phrif swyddogion tân yn rheolaidd i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud â rheoli a darparu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.
- 14:19 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Byddwch yn gwybod, felly, bod toriadau yn cael eu cynnig ym mhob gwasanaeth tân ac achub, ond yn enwedig yn fy ardal i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pryder yn rhedeg o Drefyclo i Bontiets ynglŷn â dyfodol hynny. Wrth drafod â chadeiryddion a phrif swyddogion tân, a ydych wedi ei gwneud yn glir wrthynt am yr angen i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn ddiogel, beth bynnag a fo am y newidiadau sy'n deillio yn sgîl y toriadau? Yn ail, a ydych wedi eich bodloni eich hun, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol yn genedlaethol, fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y gwahanol rannau o Gymru o leiaf yn cwrrd â gofynion diogelwch? You will know, therefore, that cuts are being proposed in all fire and rescue services, but particularly in my area, Mid and West Wales. There is concern from Knighton to Pontyates about the future. In your discussions with the chairs and chief fire officers, have you made it clear that they need to ensure that the service is safe, whatever the changes stemming from the cuts? Secondly, are you content, as Minister with national responsibility, that what is being proposed in various parts of Wales meets safety requirements at the very least?
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Obviously, fire and rescue authorities are not immune to the financial challenges that all our public services in Wales are facing, but clearly safety has to be a priority. During my discussions with the chairs and the chief fire officers it is very important that I am reassured that that is indeed the case. Yn amlwg, nid yw awdurdodau tân ac achub yn ddiogel rhag yr heriau ariannol y mae ein holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu, ond yn amlwg rhaid i ddiogelwch fod yn flaenoriaeth. Yn ystod fy nhrafodaethau â chadeiryddion a phrif swyddogion tân, mae'n bwysig iawn fy mod yn dawel fy meddwl mai felly y mae.
- 14:20 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Minister, North Wales Fire and Rescue Service currently shares premises for its control room activities with North Wales Police at Crud y Dderwyn on the St Asaph business park. There are reports now that North Wales Police are considering moving away from this joint control room due to the high costs. What discussions have you had with both the North Wales Fire and Rescue Service management team, the authority, and with North Wales Police about what the future of the control room location would be without having the police and the fire service jointly in that one building? What discussions would you have with those if they were to return to independent service control rooms? Weinidog, ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhannu safle ar gyfer ei weithgareddau ystafell reoli â Heddlu Gogledd Cymru yng Nghrud-y-Dderwyn ar barc busnes Llanellwy. Ceir adroddiadau erbyn hyn bod Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried symud i ffwrdd o'r ystafell reoli ar y cyd hon oherwydd y costau uchel. Pa drafodaethau a gawsoch gyda thîm rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yr awdurdod, a chyda Heddlu Gogledd Cymru am ddyfodol lleoliad yr ystafell reoli pe na bai'r heddlu a'r gwasanaeth tân yno ar y cyd mewn un adeilad? Pa drafodaethau y byddech yn eu cael gyda'r rheini pe baent yn dychwelyd i ystafelloedd rheoli gwasanaeth annibynnol?
- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 I have not had any specific discussions around the issue. I had heard a rumour about it, and I have asked my officials to look into it. If that were the case, then I would wish to have discussions, because we are trying to encourage collaboration, not move away from it. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol ynghylch y mater hwn. Roeddwn wedi clywed si am y peth, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymchwilio i hynny. Pe bai hynny'n wir, yna byddwn yn dymuno cael trafodaethau, oherwydd rydym yn ceisio annog cydweithredu, nid symud i ffwrdd oddi wrtho.

14:21

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Minister will, I hope, be aware from a previous Cabinet role, Montgomery fire station hosts a co-responder unit, which is a critically important service for the Newtown and Welshpool areas. The Minister may also be aware that the Mid and West Wales Fire and Rescue Service is considering proposals to close that station. What discussions have you had with your colleague the Minister for Health and Social Services about the status of that service being maintained at Montgomery, because it may well be that if the fire service closes that station for financial reasons, it will have an implication on other Welsh Government services. I am very keen that there should be a joined-up approach in this matter.

Fel y bydd y Gweinidog, gobeithio, yn ymwybodol yn sgil rôl flaenorol yn y Cabinet, mae gorsaf dân Trefaldwyn yn cynnal uned cyd-ymatebwyr, sy'n wasanaeth hanfodol bwysig i ardaloedd y Drenewydd a'r Trallwng. Efallai y bydd y Gweinidog hefyd yn ymwybodol bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystyried cynigion i gau'r orsaf honno. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynnal statws y gwasanaeth hwnnw yn Nhrefaldwyn, oherwydd mae'n ddigon posibl, pe bai'r gwasanaeth tân yn cau'r orsaf honno am resymau ariannol, y caiff effaith ar wasanaethau eraill Llywodraeth Cymru. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod gweithredu cydgyssylltiedig yn y mater hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have not had any specific discussions with the Minister for Health and Social Services around this issue, but obviously, if concerns are raised, we will do so.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwn, ond yn amlwg, pe bai pryderon yn cael eu codi, byddwn yn gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you are aware that Mid and West Wales Fire and Rescue Service is currently consulting on its draft annual improvement plan. Page 10 of that plan says,

'We are planning to make savings in the way that we do things but there will be no reduction in response to incidents'.

Meanwhile, at public meetings, the fire authority is admitting that, if Knighton fire station was to close, response times to fires in Knighton and the Teme Valley and the rural hinterland, as well as a response to road traffic accidents, will increase. Are you concerned that the authority can say one thing in a paper and another in a public meeting with very concerned constituents?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ei gynllun gwella blynyddol drafft. Dywed tudalen 10 o'r cynllun hwnnw,

Rydym yn bwriadu gwneud arbedion yn y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, ond ni fydd unrhyw ostyngiad yn yr ymateb i ddigwyddiadau.

Yn y cyfamser, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, mae'r awdurdod tân yn cyfaddef, os bydd gorsaf dân Trefyclo yn cau, y bydd amseroedd ymateb i danau yn Nhrefyclo a Dyffryn Tefeidiad a'r gefnwlod, yn ogystal ag ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd, yn cynyddu. A ydych yn pryderu y gall yr awdurdod ddweud un peth mewn papur a rhywbeth arall mewn cyfarfod cyhoeddus ag etholwyr pryderus iawn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is very important that the public are aware of what fire and rescue authorities are proposing. They are autonomous, independent bodies. They need to determine the risks and the required provision of services in their geographical area. I know that they have been out to consultation and I know that they are having public meetings. It is very important, again, that safety is a priority, and that that message is given to the public.

Credaf ei bod yn bwysig iawn bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn y mae awdurdodau tân ac achub yn ei gynig. Maent yn gyrff ymreolaethol, annibynnol. Mae angen iddynt benderfynu ar y risgiau a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn eu hardal ddaearyddol. Gwn eu bod wedi cynnal ymgynghoriad, a gwn eu bod yn cael cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'n bwysig iawn, unwaith eto, bod diogelwch yn flaenoriaeth, a bod y neges yn cael ei rhoi i'r cyhoedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23	<p><b>Lynne Neagle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You will be aware that there is a vigorous campaign under way to save the second fire engine at Cwmbran. Indeed, it has now emerged that the fate of the crew will not be decided at the meeting in December as planned because of the huge volume of responses received to the public consultation. While I realise that you cannot comment directly on these proposals, would you agree with me that this tremendous public response, and the underlying strength of feeling that it demonstrates, must be taken fully into account when decisions to remove services are being considered?</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol bod ymgyrch egniol ar y gweill i achub yr ail injan dân yng Nghwmbrân. Yn wir, mae bellach wedi dod i'r amlwg na fydd tynged y criw yn cael ei phenderfynu yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn ôl y bwriad oherwydd y nifer enfawr o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Er fy mod yn sylweddoli na allwch roi sylwadau uniongyrchol ar y cynigion hyn, a fydddech yn cytuno â mi bod yn rhaid ystyried yn llawn ymateb aruthrol y cyhoedd, a'r teimladau cryf a ddangoswyd, pan fydd penderfyniadau i ddileu gwasanaethau yn cael eu hystyried?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:23	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Absolutely. I think that fire and rescue authorities need to take consultation responses into consideration. It has to be a meaningful consultation and therefore they must take them into account. I will go back to what I said in my previous answers—it is really important that fire and rescue authorities undertake robust risk assessments to enable them to consider the impact of the decisions on the safety of the public and the safety and wellbeing of their staff.</p>	<p>Cytunaf yn sicr. Credaf fod angen i awdurdodau tân ac achub ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhaid iddo fod yn ymgynghoriad ystyrion ac felly rhaid eu hystyried. Byddaf yn mynd yn ôl at yr hyn a ddywedais yn fy atebion blaenorol—mae'n wirioneddol bwysig bod awdurdodau tân ac achub yn cynnal asesiadau risg cadarn i'w galluogi i ystyried effaith y penderfyniadau ar ddiogelwch y cyhoedd a diogelwch a lles eu staff.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Pobl Hŷn a Cham-drin yn y Cartref</b></p>		<p><b>Older People and Domestic Abuse</b></p>	
14:24	<p><b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bobl hyn a cham-drin yn y cartref? OAQ(4)0344(LG)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on older people and domestic abuse? OAQ(4)0344(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>This Government recognises the devastating impact that domestic abuse and violence can have on the most vulnerable in our society, including older people. To tackle this, legislation will be introduced in June 2014 and will include proposals for the prevention, protection and support of all victims, regardless of age.</p>	<p>Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod yr effaith enbyd y gall cam-drin domestig a thrais ei chael ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2014 a bydd yn cynnwys cynigion ar gyfer atal, diogelu a chefnogi pob dioddefwr, waeth beth fo'i oedran.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:24	<p><b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We talk so little about domestic violence experienced by older people, and there is so little research into it, that you could almost be forgiven for thinking that domestic violence stops at 60. How is the Welsh Government seeking to better understand the scale and the nature of the problem in Wales? How are you ensuring that victims are identified and supported?</p>	<p>Am ein bod yn sôn cyn lleied am drais domestig a brofir gan bobl hŷn, ac am mai prin yw'r ymchwil iddo, gallai rhywun faddau ichi bron am feddwl bod trais domestig yn dod i ben yn 60 oed. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio deall maint a natur y broblem yng Nghymru yn well? Sut rydych yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:25	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Welsh Government understands that older people can be more vulnerable to domestic abuse, which can take many forms. It includes neglect, psychological and sexual abuse and financial mistreatment. Perpetrators are often a friend or a member of the family or even a care worker, sadly. We also recognise the different needs and experiences of victims. We know, for example, that older women are less likely to report experiences of domestic abuse. This is why the proposed Bill is so critical and crucial, because it will support our intention for relevant public bodies to address violence against women, domestic abuse and sexual violence.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn deall y gall pobl hŷn fod yn fwy agored i gael eu cam-drin yn y cartref, a all gymryd sawl ffurf. Mae'n cynnwys esgeulustod, cam-drin seicolegol a rhywiol a chamddefnydd ariannol. Fe'i gwneir yn aml gan ffrind neu aelod o'r teulu neu hyd yn oed weithiwr gofal, yn anffodus. Rydym hefyd yn cydnabod gwahanol anghenion a phrofiadau dioddefwyr. Gwyddom, er enghraifft, fod menywod hŷn yn llai tebygol o roi gwybod am brofiadau o gam-drin domestig. Dyma pam mae'r Bil a gynigir mor hanfodol a hollbwysig, gan y bydd yn cefnogi ein bwriad i gyrrff cyhoeddus perthnasol fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



I am also aware of the access to justice pilot project evaluation report—there are 10 recommendations coming from that—as we progress with the Bill. The Deputy Minister for Social Services is also looking at that report as she goes forward with the development of the safeguarding provisions in the social services and well-being Bill. That will ensure that we have a much more coordinated and robust response to elder abuse.

Rwy'n ymwybodol hefyd o adroddiad gwerthuso'r prosiect pilot mynediad at gyfiawnder—mae 10 argymhelliad yn deillio o hynny—wrth inni fwrw ymlaen â'r Bil. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn edrych ar yr adroddiad hwnnw wrth iddi fwrw ymlaen â datblygu darpariaethau diogelu yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol a llesiant. Bydd hynny'n sicrhau y bydd ymateb mwy cydgysylltiedig a chadarn i gam-drin ymhlith yr henoed.

14:26 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, some health and social care professionals tend not to understand domestic violence as an issue for older women. As a result, injuries may be assumed to be caused by age-related conditions rather than by violence. What discussions have you had with your ministerial colleagues to ensure that health and social care professionals are aware that older women can be victims of domestic violence and are fully trained to handle such cases in Wales?

Weinidog, mae rhai gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn tueddu i beidio â deall bod trais domestig yn broblem i ferched hŷn. O ganlyniad, gellir tybio mai cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran yn hytrach na thrais sy'n achosi anafiadau. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Weinidogion i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol y gall menywod hŷn ddiodef trais domestig ac y cânt eu hyfforddi'n llawn i ymdrin ag achosion o'r fath yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You raise a very important point. You will have just heard me say in my answer to Rebecca Evans that both I and the Deputy Minister for Social Services are looking at the access to justice pilot project evaluation report as we develop safeguarding provisions in both of our Bills. Those discussions are ongoing.

Rydych yn codi pwynt pwysig iawn. Byddwch newydd fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Rebecca Evans, fy mod i a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych ar adroddiad gwerthuso'r prosiect pilot mynediad at gyfiawnder wrth inni ddatblygu darpariaethau diogelu yn y ddau Fil sydd gennym. Mae'r trafodaethau hynny yn mynd rhagddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that every Assembly Member here would support a campaign to stop elderly people being exposed to scams. What action can the Welsh Government take to protect older people from being financially abused by certain ruthless and heartless individuals?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddai pob Aelod Cynulliad yma yn cefnogi ymgyrch i atal pobl oedrannus rhag cael eu hamlygu i sgamiau. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i amddiffyn pobl hŷn rhag cael eu cam-drin yn ariannol gan rai unigolion didostur a chalongaled?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, you raise a very important point. One of our programme for government commitments is to extend no-cold-calling zones. I have been to visit one in the Rhondda Cynon Taf area and saw that older people feel much safer in their homes. That is the purpose of those zones and we are looking to extend them. I am looking at bids coming in at the moment. We hope to extend it by March of next year.

Unwaith eto, rydych yn codi pwynt pwysig iawn. Un o ymrwymadau ein rhaglen lywodraethu yw ymestyn ardaloedd dim galw diwahoddiad. Rwyf wedi ymweld ag un yn ardal Rhondda Cynon Taf lle y gwelais fod pobl hŷn yn teimlo'n llawer mwy diogel yn eu cartrefi. Dyna bwrpas yr ardaloedd hynny ac rydym yn ystyried eu hymestyn. Rwy'n edrych ar gynigion sy'n dod i law ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio ei ymestyn erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Adolygiad Williams

## Williams Review

14:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ystyriaethau yn adolygiad Williams o ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0347(LG)*

*3. Will the Minister make a statement on the considerations in the Williams review on the future of public services in Wales? OAQ(4)0347(LG)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:28	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>We look forward to receiving the Williams commission's report, which has been considering a range of issues in relation to the governance and delivery of public services in Wales.</p>	<p>Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad comisiwn Williams, sydd wedi bod yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Mick Antoniw</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, town and community councils, particularly in constituencies such as mine in Pontypridd, play quite a valued role in community life. What are your views on the future role of community and town councils?</p>	<p>Weinidog, mae cyngorau tref a chymuned, yn enwedig mewn etholaethau fel fy etholaeth ym Mhontypridd, yn chwarae rôl eithaf gwerthfawr ym mywyd y gymuned. Beth yw eich barn ar rôl cyngorau tref a chymuned yn y dyfodol?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:28	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I recognise and value the importance of community and town councils. Just this week, on Monday, I met with One Voice Wales, the organisation that represents town and community councils. You referred to the Williams review in your original question. This is not a central part of that remit, but I hope that he looks at community councils. It is something that I am very interested in looking at in the future.</p>	<p>Rwy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyngorau tref a chymuned. Dim ond yr wythnos hon, ar ddydd Llun, cyfarfûm ag Un Llais Cymru, y corff sy'n cynrychioli cyngorau tref a chymuned. Cyfeiriasoch at adolygiad Williams yn eich cwestiwn gwreiddiol. Nid yw hyn yn rhan ganolog o'r cylch gwaith hwnnw, ond gobeithio y bydd yn edrych ar gynghorau cymuned. Mae'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio ei ystyried yn y dyfodol.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:29	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, the remit of the commission on public service governance and delivery is wide ranging, encompassing how public services delivery meets the needs of the people of Wales, their sustainability, their optimal delivery in ensuring efficiency, effectiveness, accessibility and supporting continuous improvement. Do you agree with comments already circulating, made by you and other Ministers, with regard to the Williams report, that there has been too great a focus on the implications of the commission's report on local government reorganisation only and not enough on the future delivery of all public services here in Wales?</p>	<p>Weinidog, mae cylch gwaith y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn eang, yn cwmpasu sut y gall y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ddiwallu anghenion pobl Cymru, eu cynaliadwyedd, y ffordd orau posibl o'u darparu er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, hygyrchedd a chefnogi gwelliant parhaus. A gytunwch â'r sylwadau a wnaed eisoes, gennych chi a Gweinidogion eraill, o ran adroddiad Williams, sef bod gormod o ffocws wedi bod ar oblygiadau adroddiad y comisiwn ar ad-drefnu llywodraeth leol yn unig a dim digon ar ddarparu'r holl wasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru yn y dyfodol?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:29	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I certainly have not made comments, as you referred to, and I cannot think of any other comments that have come from Ministers. We await the report from the commission, which is due to be delivered to the First Minister by the end of this year or early January. I will not speculate on what it will recommend.</p>	<p>Yn sicr, nid wyf wedi gwneud sylwadau, fel y soniasoch, ac ni allaf feddwl am unrhyw sylwadau eraill a wnaed gan Weinidogion. Rydym yn aros am yr adroddiad gan y comisiwn, y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog erbyn diwedd y flwyddyn hon neu ar ddechrau mis Ionawr. Nid wyf am ddyfalu ynghylch yr hyn y bydd yn ei argymhell.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:30	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>A fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu ar argymhellion adolygiad Williams cyn etholiadau 2016?</p>	<p>Would the Welsh Government consider implementing the recommendations of the Williams review before the 2016 elections?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:30	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I refer you to my previous answer. We are awaiting the report to the First Minister, which is due by the end of this year or early January. We will see what the recommendations are and then we will set out our approach.</p>	<p>Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol. Rydym yn aros am yr adroddiad i'r Prif Weinidog, y mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn hon neu ar ddechrau mis Ionawr. Cawn weld beth fydd yr argymhellion a wedyn byddwn yn nodi ein dull gweithredu.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:30	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black, to ask question 4.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black, i ofyn cwestiwn 4.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<b>Llywodraeth Leol</b>	<b>Local Government</b>	
14:30	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>4. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(4)0342(LG)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on her plans to reorganise local government? OAQ(4)0342(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:30	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>My priority is to support the delivery of more efficient and effective public services right across Welsh local government, not to focus on structure.</p>	<p>Fy mlaenoriaeth yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol ym mhob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru, ac nid canolbwyntio ar strwythur.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:30	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister, but the setting up of the Williams commission has clearly stated an intention on the part of your Government to focus on structure. What we are interested in is the sort of timescale over which that will take place. Are we looking at a response to that commission before the 2016 elections, or is it your intention to put that response into your manifesto for those elections?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond drwy sefydlu comisiwn Williams datganwyd bwriad clir ar ran eich Llywodraeth i ganolbwyntio ar strwythur. Yr hyn yr hoffem ei wybod yw'r math o amserlen ar gyfer hynny. A allwn ddisgwyl ymateb i'r comisiwn hwnnw cyn etholiadau 2016, neu ai eich bwriad yw rhoi'r ymateb hwnnw yn eich maniffesto ar gyfer yr etholiadau hynny?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:31	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I do not think that I will be sharing with Peter Black our manifesto commitments for the 2016 elections. You, like a lot of your fellow elected councillors across Wales, have linked the commission on public service governance and delivery to local government reorganisation, and I have gone to great lengths to discuss that with many of them. I go back to the point that I am not going to speculate on what will be recommended or what the Welsh Government's response will be. We will await the report and we will then set out our approach.</p>	<p>Ni chredaf y byddaf yn rhannu ein hymrwymiadau maniffesto ar gyfer etholiadau 2016 â Peter Black. Rydych chi, fel llawer o'ch cyd-gynghorwyr etholedig ledled Cymru, wedi cysylltu'r comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus ag ad-drefnu llywodraeth leol, ac rwyf wedi mynd i drafferth mawr i drafod hynny gyda llawer ohonynt. Ailadroddaf y pwynt nad wyf am ddyfalu ynghylch yr hyn a argymhellir na beth fydd ymateb Llywodraeth Cymru. Arhoswn am yr adroddiad ac yna byddwn yn nodi sut y bwriadwn weithredu.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:31	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call the opposition spokesperson—oh, I beg your pardon, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid—o, mae'n ddrwg gennyf, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:31	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Presiding Officer. Fortunately, Minister, you will not just be sharing it with me, but the entire Chamber and whoever happens to be watching it online. Given that the indications are that the commission will be making a representation in terms of restructuring, have you lined up all of the ducks in terms of local government itself and talked to local government leaders about how they will be responding to that and how you will be working together to put into effect the recommendations of that commission?</p>	<p>Diolch ichi, Lywydd. Yn ffodus, Weinidog, ni fyddwch yn ei rannu â minnau yn unig, ond â'r Siambr gyfan a phwy bynnag a fydd yn digwydd ei wyllo ar-lein. O ystyried mai'r arwyddion yw y bydd y comisiwn yn gwneud sylwadau o ran ailstrwythuro, a ydych wedi rhoi trefn ar bethau o ran llywodraeth leol ei hun ac wedi siarad ag arweinwyr llywodraeth leol ynghylch sut y byddant yn ymateb i hynny a sut y byddwch yn cydweithio i weithredu argymhellion y comisiwn hwnnw?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:32	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I go back to my previous answer: I am not going to speculate on the recommendations. I have not had specific conversations about the recommendations. You have said that there are indications, but that is obviously your take on it and we will all await the report.	Af yn ôl at fy ateb blaenorol: ni fwriadaf ddyfalu ynghylch yr argymhellion. Nid wyf wedi cael sgrysiâu penodol am yr argymhellion. Dywedasoch fod arwyddion, ond eich barn chi yw hynny a bydd pob un ohonom yn aros am yr adroddiad.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	It is now the opposition spokesperson, Janet Finch-Saunders.	Tro llefarydd yr wrthblaid ydyw yn nawr, Janet Finch-Saunders.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Thank you, Presiding Officer. Although the overall focus is on the delivery of our public services here in Wales, the Williams commission was established to look at the structure of local government as one aspect of its remit, yet you have said publicly that 22 councils may not be sustainable and the First Minister has said that he does not believe that anyone still believes in maintaining the 22-council local authority structure. Minister, is it not the case that you have already started to pre-empt the findings of this independent commission?	Diolch ichi, Lywydd. Er bod y ffocws cyffredinol ar ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru, sefydlwyd comisiwn Williams i edrych ar strwythur llywodraeth leol fel un agwedd ar ei gylch gwaith, ac eto rydych wedi dweud yn gyhoeddus nad yw 22 o gynghorau yn gynaliadwy o bosibl ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud nad oes neb, yn ei farn ef, yn dal i gredu mewn cynnal strwythur llywodraeth leol sy'n cynnwys 22 o gynghorau. Weinidog, onid yw'n wir eich bod eisoes wedi dechrau achub y blaen ar ganfyddiadau'r comisiwn annibynnol hwn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I have not, but I think that other Members in this Chamber have.	Nid wyf wedi gwneud hynny, ond credaf fod Aelodau eraill yn y Siambr hon wedi gwneud hynny.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Minister, is it not a fact that we would not be discussing a reorganisation that may potentially cost £500 million if your collaboration agenda was more than, as described by your leader of Labour-run Blaenau Gwent, hot air? In its committee evidence, the Wales Audit Office said that urgent decisions need to be taken and transformative change implemented to ensure the continued delivery of our statutory services. Furthermore—	Weinidog, onid y gwir yw na fyddem yn trafod ad-drefnu a all o bosibl gostio £500 miliwn pe bai eich agenda cydweithio yn fwy na malu awyr, fel y'i disgrifwyd gan eich arweinydd yng nghyngor Blaenau Gwent sydd dan reolaeth y blaid Lafur? Yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen gwneud penderfyniadau brys a rhoi newidiadau trawsnewidiol ar waith er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau statudol yn parhau i gael eu darparu. At hynny—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Are you coming to the question?	A ydych yn dod at y cwestiwn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Yes. Furthermore, Hedley McCarthy said that this Welsh Government—	Ydw. Ar ben hynny, dywedodd Hedley McCarthy fod y Llywodraeth Cymru hon—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Are you coming to the question?	A ydych yn dod at y cwestiwn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Yes. This Welsh Government is either unwilling or unable to tackle the excessive regulation identified in the Beecham report. Is it not the case that this is less about local government reorganisation than the Welsh Government's disorganisation?	Ydw. Mae'r Llywodraeth Cymru hon yn amharod i fynd i'r afael â'r rheoleiddio gormodol a nodwyd yn adroddiad Beecham neu'n methu â gwneud hynny. Onid yw'n wir bod a wnelo hyn yn llai ag ad-drefnu llywodraeth leol nag anhrefn Llywodraeth Cymru?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:33	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No.</p> <p>I answered 'no'.</p>	<p>Nac ydy.</p> <p>Atebais 'na'.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I beg your pardon; there was background noise.</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf; roedd sŵn cefndir.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I understand.</p>	<p>Rwy'n deall yn iawn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, bu i Swyddfa Archwilio Cymru ddweud wrthym yn ei thystiolaeth bod perygl gwirioneddol na allai rhai cyngorau gyflawni eu dyletswyddau statudol o fewn pump i 10 mlynedd. A ydych yn credu bod hynny'n asesiad cywir o'r sefyllfa?</p>	<p>Minister, the Wales Audit Office told us in its evidence that there was a real risk that some councils would not be able to undertake their statutory duties within five to 10 years. Do you believe that that is an accurate assessment of the situation?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>No, I would not say that that is my assessment, having held this portfolio for the few months that I have held it. I certainly have discussions with the Wales Audit Office. It is obviously an area that concerns me, if you think about our decreasing budgets and the increase in demand on services. It is something that we have to watch very closely.</p>	<p>Na, ni fyddwn yn dweud mai hynny yw fy asesiad, ar ôl bod yn gyfrifol am y portffolio hwn am yr ychydig fisoedd yr wyf wedi bod yn gyfrifol amdano. Yn sicr rwyf wedi cael trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n amlwg yn faes sy'n peri pryder imi, os meddylwch am ein cyllidebau sy'n lleihau a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni gadw llygad barcud arno.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod y sefyllfa yn argyfyngus ac felly bod angen gweithredu ar fyrder. Pan fydd adroddiad Williams yn cael ei gyhoeddi, pryd fyddwch yn ymateb i'r argymhellion hynny? Rwy'n gwybod bod gennyh, yn eich maniffesto, ymrwymiad i beidio â newid strwythurau llywodraeth leol tan ar ôl yr etholiadau nesaf, ond a ydych yn mynd i weithredu ar unwaith i sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud a bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i gyflawni eu dyletswyddau statudol?</p>	<p>The Wales Audit Office said that the situation is critical and that therefore urgent action is required. When the Williams report is published, when will you respond to those recommendations? I know that you have a commitment in your manifesto not to change the structures of local government until after the next elections, but are you going to take action immediately in order to ensure that savings are made and that local authorities are in a better position to undertake their statutory duties?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:35	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Once we have had the report, which is going to the First Minister, as I have said, at the end of this year or early in January, we will obviously have to look very closely at the recommendations. We will then set out our approach, once we have had a chance to give it thorough consideration.</p>	<p>Unwaith y byddwn wedi cael yr adroddiad, sydd i'w gyflwyno i Prif Weinidog, fel y dywedais, ar ddiwedd y flwyddyn hon neu ar ddechrau mis Ionawr, bydd yn rhaid edrych yn ofalus ar yr argymhellion. Yna byddwn yn nodi sut y bwriadwn weithredu, ar ôl inni gael cyfle i'w ystyried yn drwyadl.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

## Gwasanaethau Cyhoeddus

## Public Services

- 14:35 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*5. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chynghorau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru am gydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill? OAQ(4)0356(LG)*  
*5. What discussions has the Minister had with Councils in Mid and West Wales regarding cooperating with other public services? OAQ(4)0356(LG)*
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Through my public service leadership group, we collectively identify, discuss and promote the wider adoption of good collaborative practices in order to improve public services. The regional collaboration lead for mid and west Wales supports the public services in the region to work together to improve their performance through collaboration and the sharing of good practice.  
Drwy fy ngrŵp arwain gwasanaethau cyhoeddus, rydym ar y cyd yn nodi, yn trafod ac yn hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu arferion cydweithredol da yn ehangach er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r arweinydd cydweithredol rhanbarthol dros ganolbarth a gorllewin Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth i weithio gyda'i gilydd i wella eu perfformiad drwy gydweithio a rhannu arfer da.
- 14:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Mae'n siŵr, fel minnau, y byddwch yn croesawu'r ffaith bod cronfa gofal canolradd wedi cael ei sefydlu yn sgîl y cytundeb rhwng fy mhlaidd i a phlaidd y Llywodraeth ynglŷn â gofal, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n gadael ysbytai. Mae'r arian hwn yn cael ei ddosbarthu, fel yr wyf i yn ei ddeall, drwy lywodraeth leol ac mae werth tua £8 miliwn yn y rhanbarth yr wyf yn ei gynrychioli. Ym mha ffordd yn awr y mae arian fel hyn yn gallu arwain at fwy o gydweithio ac, efallai, yn y pen draw, at rywbeth llawer mwy 'seamless' rhwng gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd?  
I am sure, as I do, that you would welcome the fact that there is an intermediate care fund that has been established in the light of the agreement between my party and the party of Government in terms of care, particularly for those people leaving hospital. This funding is to be distributed, as I understand it, through local government and it is worth some £8 million in the region that I represent. How will funding such as this lead to greater collaboration and maybe ultimately lead to something far more seamless between social care, local authorities and the health service?
- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Obviously, discussions are taking place around the funding for this specific fund between my department and that of the Deputy Minister for Social Services. I had a meeting this morning with officials, and we are looking very closely at this funding. This funding is for one year only, and I think that it is very important that what is set in place is sustainable; we do not want something to take place that then cannot continue. We have to have very careful discussions about how this funding will be distributed.  
Yn amlwg, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch ariannu'r gronfa benodol hon rhwng fy adran i ac adran y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Cefais gyfarfod y bore yma gyda swyddogion, ac rydym yn rhoi ystyriaeth ddwys i'r cyllid hwn. Mae'r cyllid hwn am flwyddyn yn unig, a chredaf ei bod yn bwysig sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei roi ar waith yn gynaliadwy; nid ydym am i rywbeth ddigwydd na all barhau wedyn. Rhaid inni gael trafodaethau gofalus iawn ynghylch sut y caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu.
- 14:37 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
The future provision of public conveniences is a significant issue in my constituency at the moment, as is how the collaborative relationship between Powys County Council and many town and community councils will operate to keep these vital services open. The county council wants the town and community councils to take on these services. I raised with you previously the question of whether the Welsh Government was prepared to maintain the grant scheme with regard to public conveniences, which have operated for many years. You said that you would look at this during your budget discussions. Can you update me, please, on how these discussions have progressed? Clearly, if town and community councils are to take them on, they need to be armed with this kind of information.  
Mae darparu cyfleusterau cyhoeddus yn y dyfodol yn fater o bwys yn fy etholaeth ar hyn o bryd, yn yr un modd â sut y bydd y gydberthynas gydweithredol rhwng Cyngor Sir Powys a llawer o gynghorau tref a chymuned yn gweithredu i sicrhau bod y gwasanaethau hollbwysig hyn yn parhau i fod ar gael. Yn y gorffennol, rwyf wedi codi'r cwestiwn ynghylch pa un a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon cynnal y cynllun grant o ran cyfleusterau cyhoeddus, sydd wedi bod ar waith ers blynnyddoedd lawer. Dywedasoeh y byddech yn ystyried hyn yn ystod eich trafodaethau ar y gyllideb. A allwch roi'r newyddion diweddaraf imi, os gwelwch yn dda, ar sut y mae'r trafodaethau hyn wedi mynd rhagddynt? Yn amlwg, os bydd cynghorau tref a chymuned yn ymgymryd â hwy, rhaid sicrhau eu bod yn meddu ar y math hwn o wybodaeth.

14:38	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Yes, I think that you are quite right: where the public conveniences are being taken over by community councils or town councils, they need to know where the funding is coming from. We had a specific grant for the funding of public conveniences, which I have rolled out into the revenue support grant so that local authorities can make those decisions at a local level.</p>	<p>le, credaf eich bod yn hollol iawn: os yw cynghorau cymuned neu gynghorau tref yn mynd yn gyfrifol am y cyfleusterau cyhoeddus, mae angen iddynt wybod o ble y daw'r arian. Cawsom grant penodol ar gyfer ariannu cyfleusterau cyhoeddus, yr wyf wedi ei gyflwyno yn y grant cynnal refeniw fel y gall awdurdodau lleol wneud y penderfyniadau hynny yn lleol.</p>
	<b>Cam-drin Domestig a Thrais</b>	<b>Domestic Abuse and Violence</b>
14:38	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod? OAQ(4)0348(LG)</p>	<p>6. What is the Welsh Government doing to raise awareness of domestic abuse and violence against women? OAQ(4)0348(LG)</p>
14:38	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Events around White Ribbon Day this month serve as a reminder of the importance of raising awareness around this issue. Key to this are the Welsh Government's publicity campaigns. Recent campaigns have coincided with student freshers' week and major autumn sporting events. I will shortly launch our Christmas television campaign.</p>	<p>Mae digwyddiadau o ran Diwrnod Rhuban Gwyn y mis hwn yn fodd i'n hatgoffa o bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth ynghylch y mater hwn. Mae ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd Llywodraeth Cymru yn allweddol i hyn. Mae ymgyrchoedd diweddar wedi cyd-daro ag wythnos y glas i fyfyrwyr a digwyddiadau chwaraeon mawr yn yr hydref. Byddaf yn lansio ein hymgyrch deledu dros y Nadolig cyn bo hir.</p>
14:39	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you for that. The campaign, which promoted an anti-violence message and highlighted the all-Wales domestic abuse helpline, has, I think, generally been welcomed by everyone. However, statistics continue to show that only a small proportion of incidents of abuse and sexual violence are ever reported; therefore, can I ask what steps the Welsh Government is taking to strengthen the support services provided to victims of abuse and, importantly, to provide easy access to those services?</p>	<p>Diolch ichi am hynny. Credaf fod yr ymgyrch, a oedd yn hybu neges wrth-drais ac a dynnodd sylw at linell gymorth cam-drin domestig Cymru gyfan, wedi cael ei chrosawu gan bawb. Fodd bynnag, mae'r ystadegau yn parhau i ddangos mai dim ond cyfran fechan o achosion o gam-drin a thrais rhywiol a gofnodir byth; felly, a allaf ofyn pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r gwasanaethau cymorth a ddarperir i ddiodefwr cam-drin ac, yn hollbwysig, i sicrhau y gall pobl gael gafael yn hawdd ar y gwasanaethau hynny?</p>
14:39	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Welsh Government is actively working to increase the reporting of domestic violence. I think that key to that is increasing awareness through publicity campaigns, but it is also about improving the response to, and support for, people who have suffered domestic abuse. We continue to work with relevant statutory and voluntary organisations to encourage all victims to come forward. I also have discussions with the chief constables and the police and crime commissioners on a regular basis. It is often a topic that we discuss, because they have a huge role to play in this area.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ceisio cynyddu nifer yr achosion o drais domestig a gaiff eu cofnodi. Credaf fod cynyddu ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn allweddol i hynny, ond mae a wnelo hefyd â gwella'r ymateb i bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, a'u cefnogi. Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau statudol a gwirfoddol perthnasol i annog pob dioddefwr i gysylltu â'r heddlu. Rwyf hefyd yn cael trafodaethau gyda phrif gwnstabiliaid a'r comisiynywyr heddlu a throseddau yn rheolaidd. Mae'n aml yn bwnc yr ydym yn ei drafod, gan fod ganddynt rôl enfawr i'w chwarae yn y maes hwn.</p>

14:40

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague Sandy Mewies raised a very interesting point about the fact that an awful lot of this is not reported. It could be termed almost low-level, but it is constant and pervasive. What are you doing about recognising flags that might indicate that a man or a woman is very vulnerable to the prospect of domestic abuse, thereby getting in before the event happens, or before it starts to escalate, to give them support on how to have more assertiveness, more self-esteem and to make them aware that there is a place that they can go to if they reach a situation when it becomes too bad?

Cododd fy nghyd-Aelod Sandy Mewies bwynt diddorol iawn am y ffaith nad yw llawer iawn o hyn yn cael ei gofnodi. Gellid ei alw'n lefel isel bron, ond mae'n gyson ac yn gyffredin. Beth yr ydych yn ei wneud ynghylch cydnabod arwyddion a allai awgrymu bod dyn neu fenyw yn agored iawn i'r posibilrwydd o gam-drin domestig, gan ymyrryd felly cyn iddo ddiwydd, neu cyn iddo ddechrau gwaethygu, er mwyn eu cefnogi i fod yn fwy pendant, magu mwy o hunan-barch a'u gwneud yn ymwybodol bod rhywle ar gael y gallant fynd iddo os aiff pethau yn rhy wael?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You may be aware of our policy to ask and act, where we encourage public sector services in particular to ensure that that happens, for instance, in A&E departments. On Monday, I visited the Cardiff and Vale University Local Health Board—the University Hospital of Wales—where they have a workplace policy that is supporting employees of the health board. That morning, as I went to launch the service, two people had disclosed to them, because they were aware that they could just go over and get advice. What I was told was that, previously, they would just have been handed a leaflet, but because they have this very robust policy in place, they were able to passport these people straight away. They told me that, previously, they had helped somebody who they thought was at risk to go to a refuge before she had suffered another level of abuse. I think that it is really important that we do have these policies in place.

Efallai eich bod yn ymwybodol o'n polisi i ofyn a gweithredu, lle yr anogwn wasanaethau yn y sector cyhoeddus, yn enwedig, i sicrhau bod hynny'n digwydd, er enghraifft, mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Ddydd Llun, ymwelais â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro—Ysbyty Athrofaol Cymru—lle mae ganddo bolisi yn y gweithle sy'n cefnogi gweithwyr y bwrdd iechyd. Y bore hwnnw, wrth imi lansio'r gwasanaeth, roedd dau berson wedi datgelu achos o gam-drin iddynt, oherwydd roeddent yn ymwybodol y gallent fynd yno a chael cyngor. Yr hyn a ddywedwyd wrthyf oedd y byddent, yn y gorffennol, wedi cael taflen yn unig, ond oherwydd bod y polisi cadarn iawn hwn ar waith ganddo, roeddent yn gallu cyfeirio'r bobl hyn yn syth. Mae'r bwrdd wedi dweud wrthyf ei fod, yn y gorffennol, wedi helpu rhywun a oedd mewn perygl yn ei farn ef i fynd i loches cyn iddi ddioddef lefel arall o gam-drin. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod y polisiâu hyn ar waith gennym.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome the effort to raise public awareness and, of course, to foster public intolerance of domestic abuse—particularly the campaigns during the six nations championship. I wonder whether there has been any evaluation of the effectiveness of that. As was mentioned earlier, prosecution rates are low, but successful prosecutions are even rarer. Perhaps you would tell us what you are able to do to press the police and the prosecution services, so that we can have more successful prosecutions?

Croesawaf yn fawr yr ymdrech i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac, wrth gwrs, i feithrin anoddefgarwch ymhlith y cyhoedd o gam-drin domestig—yn enwedig yr ymgyrchoedd yn ystod pencampwriaeth y chwe gwlad. Tybed a fu unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd hynny. Fel y soniwyd yn gynt, mae cyfraddau erlyn yn isel, ond mae erlyniadau llwyddiannus hyd yn oed yn fwy prin. Efallai y gallech ddweud wrthym beth y gallwch ei wneud i roi pwysau ar yr heddlu a'r gwasanaethau erlyn, fel y gallwn gael mwy o erlyniadau llwyddiannus?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that is a very important point. I have discussed with the chief constables and the police and crime commissioners how we can get those successful prosecutions. Certainly, the figures are up. That phrase 'public intolerance' is really important. I think that we need to make sure that everybody recognises that domestic abuse is not acceptable behaviour. On the campaign in relation to the sporting events, the message is that no matter how much alcohol has been drunk, no matter what the result of that match is, it is not acceptable. We will be evaluating the campaign after its completion.

Credaf fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Rwyf wedi trafod â'r prif gwnstabiliaid a'r comisiynwyr heddlu a throseddu sut y gallwn sicrhau'r erlyniadau llwyddiannus hynny. Yn sicr, mae'r ffigurau wedi gwella. Mae'r ymadrodd hwnnw 'anoddefgarwch ymhlith y cyhoedd' yn bwysig iawn. Credaf fod angen inni sicrhau bod pawb yn cydnabod nad yw cam-drin domestig yn ymddygiad derbyniol. O ran yr ymgyrch mewn perthynas â'r digwyddiadau chwaraeon, y neges yw, ni waeth faint o alcohol sydd wedi cael ei yfed, ni waeth beth fo canlyniad y gêm honno, nid yw'n dderbyniol. Byddwn yn gwerthuso'r ymgyrch ar ôl iddi ddog i ben.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:43	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, signposting and awareness are obviously important, but one issue that seems to prevent women from reporting incidents of domestic abuse is the stigma that still surrounds the issue. Many victims speak of feeling a sense of shame or humiliation that they have been a victim. What action can the Welsh Government take to tackle that stigma itself and ensure that both victims and society at large understand that violence against women is never the fault of the victim?</p>	<p>Weinidog, mae cyfeirio ac ymwybyddiaeth yn bwysig yn amlwg, ond un mater sydd fel petai'n atal menywod rhag rhoi gwybod am ddiogwyddiadau o gam-drin domestig yw'r stigma sy'n dal i fod yn gysylltiedig â hyn. Mae llawer o ddiodeffwyr yn sôn am ymdeimlad o gywilydd neu warth eu bod wedi bod yn ddiodeffwr. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r stigma hwnnw ei hun a sicrhau bod diodeffwyr a chymdeithas yn gyffredinol yn deall nad bai'r diodeffwr byth yw trais yn erbyn menywod?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:43	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Absolutely. You were at Llandaff Cathedral on Monday for White Ribbon Day where we heard a member of the public speak who had accessed our services. She spoke so powerfully about her experience and how she felt that stigma and shame. It was only after accessing services that she felt able to go out and what an advocate she is now. I think that we need to keep raising awareness. We have got a good story to tell of the work that we are doing as a Government and you can be assured of my commitment to this agenda.</p>	<p>Yn sicr. Roeddech yn Eglwys Gadeiriol Llandaff ddydd Llun ar gyfer Diwrnod Rhuban Gwyn lle y clywsom aelod o'r cyhoedd yn siarad a oedd wedi defnyddio ein gwasanaethau. Siaradodd mor rymus am ei phrofiad a sut yr oedd yn teimlo'r stigma a'r cywilydd hwnnw. Dim ond ar ôl defnyddio'r gwasanaethau yr oedd yn teimlo y gallai fynd allan a bellach mae'n eiriolwr gwych. Mae gennym stori dda i'w hadrodd am y gwaith yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth a gallwch fod yn sicr o'm hymrwymiad i'r agenda hon.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol</b>		<b>Local Public Services</b>	
14:44	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0340(LG)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the delivery of local public services in west Wales? OAQ(4)0340(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:44	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Our programme for government sets out our aim to support the delivery of efficient and effective services across Wales, including west Wales.</p>	<p>Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi ein bwriad i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar draws Cymru, gan gynnwys y gorllewin.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:44	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I have received representations from constituents, particularly vulnerable constituents, regarding the recent change to fortnightly black-bag bin collections in Pembrokeshire. There are concerns around the collection of contained waste, such as nappies and so on. Will you tell us what guidance the Welsh Government is issuing to local authorities, so that vulnerable and disabled people are fully supported and that contained waste is appropriately collected from households?</p>	<p>Weinidog, cefais sylwadau gan etholwyr, etholwyr, yn enwedig etholwyr sy'n agored i niwed, am y newid diweddar i gasgliadau biniau bagiau du bob pythefnos yn Sir Benfro. Mae pryderon ynghylch casglu gwastraff cynwysedig, fel clytiau ac yn y blaen. A wneuch chi ddweud wrthym pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau lleol, fel y gellir cefnogi pobl sy'n agored i niwed a rhai anabl yn llawn a bod gwastraff cynwysedig yn cael ei gasglu'n briodol o gartrefi?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:44	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, guidance is issued and I think that it is very important that contained waste is collected. I know that fortnightly black-bag bin collection is common across Wales, and, certainly, in Wrexham it has been in place for many years. It is about ensuring that people are aware of what is happening around their collections, but contained waste is obviously something very specific, and guidance is issued.</p>	<p>Yn wir, caiff canllawiau eu rhoi a chredaf ei bod yn bwysig iawn bod gwastraff cynwysedig yn cael ei gasglu. Gwn fod casglu biniau bagiau du bob pythefnos yn gyffredin ledled Cymru, ac, yn sicr, yn Wrecsam, mae wedi bod ar waith ers blynnyddoedd lawer. Mae a wnelo â sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o ran eu casgliadau, ond mae gwastraff cynwysedig yn amlwg yn rhywbeth penodol iawn, a rhoddir canllawiau yn ei glych.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:45	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, mae'r setliad ariannol ar gyfer awdurdodau lleol gwledig yn y gorllewin gyda'r setliad ariannol anoddaf, ac maent yn profi rhai o'r toriadau llymaf. A allwch chi esbonio i mi pam mae awdurdodau lleol gwledig wedi wynebu'r toriadau llymaf gan eich Llywodraeth chi am y flwyddyn ariannol nesaf?</p>	<p>Minister, the financial settlement for rural local authorities in west Wales is among the most difficult financially, and they have some of the greatest cuts. Can you explain to me why rural local authorities have faced the most stringent cuts from your Government for the next financial year?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:45	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The local government settlement is based on a formula, which I will not explain now in answer to your question, and on population. It is a formula that is reached with local government, and nobody complained to me about the formula this year. I do not know whether that had happened previously, but, certainly, that formula has been in place for a long time.</p>	<p>Mae'r setliad llywodraeth leol yn seiliedig ar fformiwla, na wnaef ei egluro yn awr mewn ateb i'ch cwestiwn, ac ar boblogaeth. Mae'n fformiwla y penderfynir arni gyda llywodraeth leol, ac ni wnaeth neb gwyno wrthyf am y fformiwla eleni. Ni wn a oedd hynny wedi digwydd o'r blaen, ond, yn sicr, mae'r fformiwla honno wedi bod ar waith ers amser hir.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Setliad Cyllideb Llywodraeth Leol</b>		<b>Local Government Budget Settlement</b>	
14:46	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag arweinwyr cyngorau ynglŷn â setliad cyllideb llywodraeth leol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0352(LG)</i></p>	<p><i>8. What discussions has the Minister had with Council leaders regarding the Welsh Government's local government budget settlement? OAQ(4)0352(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I hold regular discussions with council leaders on a range of issues, including local government funding. The most recent meeting of the partnership council for Wales included items on the local government settlement and related funding matters.</p>	<p>Cynhaliad drafodaethau rheolaidd ag arweinwyr cyngorau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyllid llywodraeth leol. Roedd cyfarfod diweddaraf cyngor partneriaeth Cymru yn cynnwys eitemau ar setliad llywodraeth leol a materion cyllid cysylltiedig.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn ystod y cyfarfod hwnnw, Weinidog, a wnaethoch chi drafod yr argyfwng sy'n wynebu'r awdurdodau tân? Mae'n amlwg y bydd llawer iawn mwy o gydweithio yn gorfod digwydd rhwng llywodraeth leol a'r awdurdodau tân i ddiogelu'r gwasanaethau hynny, a bydd yn rhaid i gyngorau gyfrannu mwy o arian. A yw hynny wedi cael ei ystyried yn y setliad?</p>	<p>During that meeting, Minister, did you discuss the crisis facing the fire authorities? Obviously, a great deal more collaboration will have to take place between local authorities and the fire authorities in order to safeguard those services, and the councils will have to contribute more funding. Has that been considered in the settlement?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I cannot remember whether that was discussed specifically at the partnership council, but, certainly, I have had discussions with local authorities and fire rescue authorities about this issue, and I know that, at an official level, those discussions are taking place.</p>	<p>Ni allaf gofio a drafodwyd hynny yn benodol yn y cyngor partneriaeth, ond, yn sicr, rwyf wedi cael trafodaethau ag awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub am y mater hwn, a gwn, ar lefel swyddogol, fod y trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:47 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the TaxPayers' Alliance has outlined 201 ways for local authorities to work smarter and more efficiently, for example, by sharing office space, and cutting spending on advertising and council-run newspapers. Guilford council has saved £10,000 a year just by re-assessing its subscriptions to magazines. In view of the poor settlement that you have awarded to our local authorities, what guidance have you given to our local authorities with regard to prioritising efficiency and smarter working patterns, as opposed to cutting services or passing on the burden in council tax increases to our hard-pressed families?

Weinidog, mae Cynghrair y Trethdalwyr wedi amlinellu 201 o ffyrdd i awdurdodau lleol weithio'n fwy craff ac yn fwy effeithlon, er enghraifft, drwy rannu gofod swyddfa, a thorri gwariant ar hysbysebu a phapurau newydd y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae Cyngor Guilford wedi arbed £10,000 y flwyddyn drwy ailasesu ei danysgrifiadau i gylchgronau. O ystyried y setliad gwael yr ydych wedi ei ddyfarnu i'n hawdurdodau lleol, pa ganllawiau a roesoch i'n hawdurdodau lleol o ran blaenoriaethu effeithlonrwydd a phatrymau gwaith callach, yn hytrach na chwtdogi ar wasanaethau neu drosglwyddo'r baich o ran cynnydd yn y dreth yngor i'n teuluoedd sydd dan bwysau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The poor settlement, as you call it, is in direct response to the huge budget cuts this Government has suffered from the UK coalition Government. In relation to guidance, you will be aware that I am a massive advocate of good and best practice, and, if any of the 201 ways outlined by the TaxPayers' Alliance are good practice, I would hope that all councils and local authorities would look at them. I have told them that I do not want them to salami-slice services; it is really important that they look at transformational change. It is a very challenging settlement; I would be the first to say that. As they go through their budget discussions, I hope that they will look at that.

Mae'r setliad gwael, fel y'i gelwir gennych, mewn ymateb uniongyrchol i'r toriadau enfawr yn y gyllideb y mae'r Llywodraeth hon wedi eu hwynebu o ganlyniad i Lywodraeth glymblaid y DU. Mewn perthynas â chanllawiau, byddwch yn ymwybodol fy mod yn eiriolwr brwd dros arfer da ac arfer gorau, ac, os bydd unrhyw un o'r 201 o ffyrdd a amlinellwyd gan Gynghrair y Trethdalwyr yn arfer da, gobeithio y byddai pob cyngor ac awdurdod lleol yn ei hystyried. Rwyf wedi dweud wrthynt nad newidiadau tameidiog i'r gwasanaethau yr wyf am eu gweld ganddynt; mae'n hollbwysig eu bod yn edrych ar weddnewid pethau. Mae'n setliad heriol iawn; fi fyddai'r cyntaf i ddweud hynny. Wrth iddynt gynnal eu trafodaethau ar y gyllideb, gobeithio y byddant yn edrych ar hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

## The Delivery of Public Services

14:48 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0346(LG)*

*9. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Wales? OAQ(4)0346(LG)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our programme for government sets out our approach to supporting the delivery of efficient and effective services that meet the needs of people in Wales.

Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi ein dull o gefnogi'r broses o gyflwyno gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:48 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in April, the commission on public governance and delivery was established, with the aim to support the improvement in services against the background of financial and demand pressures. I know that you are aware, for example, that, in the last month in Wrexham, we have heard proposals for closing social centres and playgrounds, stopping school patrol crossings and the other matters mentioned by Llyr Huws Gruffydd to the Minister for Finance earlier.

Weinidog, ym mis Ebrill, sefydlwyd y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r nod o gefnogi'r gwelliant mewn gwasanaethau yn erbyn cefndir o bwysau ariannol a gofynion. Gwn eich bod yn ymwybodol, er enghraifft, ein bod ni, yn ystod y mis diwethaf yn Wrecsam, wedi clywed cynigion i gau canolfannau cymdeithasol a meysydd chwarae, rhoi'r gorau i hebrnygwyr croesfannau ysgol a'r materion eraill a gyfeiriwyd at y Gweinidog Cyllid yn gynharach gan Llyr Huws Gruffydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Since April, the commission has held nine meetings and has produced a progress report that notes that it has not yet come to any conclusion. It has gathered evidence, but, in nine months, it has taken no action. Given what you have just told us about good practice, what are you doing to make sure that this commission on public governance and delivery actually delivers?

Ers mis Ebrill, mae'r comisiwn wedi cynnal naw cyfarfod ac wedi cynhyrchu adroddiad cynnydd sy'n nodi nad yw wedi dod i unrhyw gasgliad eto. Mae wedi casglu tystiolaeth, ond, mewn naw mis, nid yw wedi cymryd unrhyw gamau gweithredu. O ystyried yr hyn yr ydych newydd ei ddweud wrthym am arfer da, beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod y comisiwn hwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd?

14:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will have heard me say that the commission is reporting at the end of this year, or early January, to the First Minister. We will then take a collective approach, as a Government, to it. However, you are missing the point rather, because what I have told local authorities is, 'Forget Williams for now—you need to keep looking at transformational change, look at good practice and sharing good practice, and you need to look at how you can do more with less'. So, I do not think that you need to link the two from a performance and delivery aspect at all.

Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud y bydd y comisiwn yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn, neu ddechrau mis Ionawr, i'r Prif Weinidog. Yna byddwn yn mabwysiadu ymagwedd ar y cyd, fel Llywodraeth, tuag ato. Fodd bynnag, rydych yn camddeall ychydig, oherwydd yr hyn yr wyf wedi ei ddweud wrth awdurdodau lleol yw, 'Anghofiwch Williams am y tro—bydd angen ichi barhau i edrych ar weddnewid pethau, edrych ar arfer da a rhannu arfer da, a bydd angen ichi ystyried sut y gallwch wneud mwy gyda llai'. Felly, ni chredaf fod angen ichi gysylltu'r ddau o safbwynt perfformio a chyflawni o gwbl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:50 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae llywodraeth leol yn wynebu penderfyniadau anodd yn y blynyddoedd i ddod, ond, o ystyried y drafodaeth rydym yn mynd i'w chael yn nes ymlaen yn y Siambr ar godi lefel llwyddiant Cymru mewn profion PISA, pa arweiniad mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i awdurdodau lleol, a pha ddisgwyliadau fydd arnynt i gynnal y gwariant ar addysg o fewn eu cyllidebau?

Local government is facing some difficult decisions in the years to come, but, given the discussion that we are going to have later on in the Chamber on increasing Wales's attainment in PISA tests, what guidance does the Welsh Government intend to give to local authorities, and what expectations will be placed upon them to sustain expenditure on education within their budgets?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:50 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is predominantly a matter for the Minister for Education and Skills, and, obviously, we work very closely together. Local government is very clear about the need to protect the 1% that we give it specifically for education services.

Mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hynny yn bennaf, ac, yn amlwg, rydym yn cydweithio'n agos iawn. Mae llywodraeth leol yn glir iawn am yr angen i warchod yr 1% a roddwn iddi yn benodol ar gyfer gwasanaethau addysg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:51 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, there is great concern in local government regarding governance and ensuring that any model that comes out of the Williams commission reflects local political decision-making, rather than that of quangos. Given the difficulty as far as the Government's arrangements on current collaborative projects are concerned, will you commit to local political representation being maintained in any structures put forward by the commission?

Weinidog, mae pryder mawr mewn llywodraeth leol ynghylch llywodraethu a sicrhau bod unrhyw fodel sy'n deillio o gomisiwn Williams yn adlewyrchu penderfyniadau gwleidyddol lleol, yn hytrach na chwangos. O ystyried yr anhawster ynghylch trefniadau'r Llywodraeth o ran prosiectau cydweithredol cyfredol, a wnewch chi ymrwymo i gynnal cynrychiolaeth wleidyddol leol mewn unrhyw strwythurau a gyflwynir gan y comisiwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I do not want to speculate on what will come out of the Williams commission. We will await the recommendations, and you will see what our approach is after that.

Unwaith eto, nid wyf am ddyfalu ynghylch yr hyn a fydd yn deillio o gomisiwn Williams. Gwnawn aros am yr argymhellion, a chewch weld beth a wnawn ar ôl hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we will group questions 10 and 12 as you requested, as we have got there in time.

Weinidog, byddwn yn grwpio cwestiynau 10 a 12 yn unol â'ch cais, gan ein bod wedi cyrraedd yno mewn pryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Pensiynau'r Gwasanaeth Tân

## Fire Service Pensions

14:51	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynglŷn â'r trafodaethau ar bensiynau'r Gwasanaeth Tân? OAQ(4)0350(LG)</i></p>	<p><i>10. What steps is the Welsh Government taking regarding the Fire Service pension discussions? OAQ(4)0350(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>			
<p><i>12. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â phensiynau diffoddwyr tân? OAQ(4)0345(LG)</i></p>		<p><i>12. What discussions has the Minister had regarding firefighters' pensions? OAQ(4)0345(LG)</i></p>	
14:51	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have met Fire Brigades Union representatives on a number of occasions, most recently on 12 November. All discussions have been both positive and constructive, and I have given a clear message of our commitment to affordable and sustainable public service pensions that are fair to all public service workers.</p>	<p>Rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân sawl gwaith, yn fwyaf diweddar ar 12 Tachwedd. Mae pob trafodaeth wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol, ac rwyf wedi rhoi neges glir ynglŷn â'n hymrwymiad i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus fforddiadwy a chynaliadwy sy'n deg i bob gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:52	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, yn yr anghydfod hwn ynglŷn â phensiynau diffoddwyr tân, rydych yn negodi gyda nhw ochr yn ochr â Llywodraeth San Steffan, ac rydych wedi cymryd y penderfyniad i beidio â chynnig cyfundrefn bensiynau ar wahân yng Nghymru. Yn ystod yr anghydfod, a ydych yn gallu rhagweld unrhyw sefyllfa yn codi lle byddwch yn ystyried bod yn rhaid i chi gymryd camau ar wahân a chreu system wahanol yng Nghymru er lles a diogelwch ein diffoddwyr tân?</p>	<p>Minister, in this dispute regarding firefighters' pensions, you are negotiating with them side by side with the Westminster Government, and you have taken the decision not to offer them a separate pension system in Wales. During the dispute, do you anticipate any situation arising where you would consider that you would have to take separate steps and a create a different system in Wales for the benefit and protection of our firefighters?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:52	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We are in a very difficult position in relation to that, because any significant changes could mean that HM Treasury would end the annually managed expenditure funding support of Welsh firefighter pensions, which would leave the Welsh Government liable to find any additional costs in the future. We are not talking about an insignificant amount of money here—we are talking about a very large sum. One aspect where we can be different is to pursue a common fitness standard in Wales, on which I have had very constructive discussions with the FBU, as has the First Minister. We are making some good progress in relation to this, with officials having initial discussions with the chief fire officers.</p>	<p>Rydym mewn sefyllfa anodd iawn mewn perthynas â hynny, oherwydd gallai unrhyw newidiadau sylweddol olygu y byddai Trysorlys EM yn terfynu cymorth ariannol y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru, a fyddai'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ddod o hyd i unrhyw gostau ychwanegol yn y dyfodol. Nid ydym yn sôn am swm bach o arian o ran hynny—rydym yn sôn am swm mawr iawn. Un agwedd lle y gallwn weithredu'n wahanol yw mynd ar drywydd safon ffitrwydd gyffredin yng Nghymru, yr wyf wedi cael trafodaethau adeiladol iawn ag Undeb y Brigadau Tân yn ei chylch, fel y cafodd y Prif Weinidog hefyd. Rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd da mewn perthynas â hyn, ac mae swyddogion wedi cael trafodaethau cychwynnol â'r prif swyddogion tân.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:53	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call Bethan Jenkins.</p>	<p>Galwaf ar Bethan Jenkins.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:53	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Is this question 12?</p>	<p>Ai cwestiwn 12 yw hwn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:53	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We have grouped questions 10 and 12. Can you ask your supplementary question, not the tabled question, because that has been asked?</p>	<p>Rydym wedi grwpio cwestiynau 10 a 12. A allwch ofyn eich cwestiwn atodol, nid y cwestiwn a gyflwynwyd, gan fod hwnnw eisoes wedi ei ofyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a></p>

- 14:53 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwyf wedi cael gwybod wrth weithredu gyda phobl sy'n gweithio o fewn y system atal tân fod o leiaf un awdurdod tân—Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru—wedi bod yn recriwtio dynion a menywod ifanc sy'n cael eu talu £1,000 i hyfforddi am bythefnos yng Nghaerdydd, rhag ofn bod dynion a menywod tân sydd eisoes yn gweithio yn y system yn mynd ar streic. A ydych yn ymwybodol o'r weithred hon, oherwydd mae'r FBU, yr undeb sy'n cynrychioli gweithwyr tân, yn poeni am y risg y bydd hynny yn ei greu i bobl yn eu cymunedau, sef fod pobl mor amhrofiadol yn mynd allan i sefyllfaoedd danjerus iawn yn ein cymunedau lleol?
- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I will certainly look into that, and I will write to the Member.
- 14:54 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, regarding the ongoing pensions dispute, it is my belief that the new proposals being driven through by the UK Government's fire Minister, Brandon Lewis, are not of an equitable standard, and certainly do not do anything to assist those firefighters who, at the age of 55, could have asked to take their pension and have left. It brings into question the capability of older firefighters to respond to incidents until the age of 60, something that they never signed up to when they took their contract some 20-odd years ago. I accept that the Welsh Government's hands are tied due to the UK Treasury pension rules, and I think that the FBU probably wants an England-and-Wales-based pension scheme. However, what representations have you made to the Minister for fire, Brandon Lewis, and to his senior colleague, Eric Pickles, about the way in which they are damaging the prospects for a settlement in this dispute?
- 14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have certainly had discussion with Brandon Lewis. I have also corresponded with him quite significantly over the past few months. I have made it very clear to Brandon Lewis and to the FBU that I want to see a negotiated settlement to this trade dispute. You acknowledge that our position is heavily reliant on maintaining parity with other firefighter schemes. I have had some very constructive discussions with the FBU. I have told it that my door is open. I met with it last on 12 November, I think, and I am very happy to continue those discussions.

Minister, I have been informed in working with people who work in the fire service that at least one fire authority—the South Wales Fire and Rescue Service—has been recruiting young men and women who are paid £1,000 to train for a fortnight in Cardiff, in case firefighters already working within the system go on strike. Are you aware of this action, because the FBU, the union representing firefighters, is concerned about the risk that poses to people in their communities of people with so little experience going out to very dangerous situations in our local communities?

Byddaf yn sicr yn edrych ar hynny, a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

Weinidog, o ran yr anghydfod parhaus ynghylch pensiynau, nid yw'r cynigion newydd sy'n cael eu hyrwyddo gan Weinidog tân Llywodraeth y DU, Brandon Lewis, yn fy marn i, o safon deg, ac yn sicr nid ydynt yn gwneud dim i helpu'r diffoddwyr tân hynny a allai, yn 55 oed, fod wedi gofyn am gael cymryd eu pensiwn a gadael. Mae'n codi amheuaeth ynghylch gallu diffoddwyr tân hyn i ymateb i ddiwyddiadau nes eu bod yn 60 oed, rhywbeth na wnaethant erioed gytuno iddo pan ymrwymwyd i'w contract tua 20 mlynedd yn ôl. Derbyniad na all Llywodraeth Cymru wneud dim oherwydd rheolau pensiwn Trysorlys y DU, a chredaf fod Undeb y Brigadau Tân, siŵr o fod, am gael cynllun pensiwn yn seiliedig ar Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, pa sylwadau a gyflwynwyd gennyh i'r Gweinidog tân, Brandon Lewis, ac i'r Gweinidog, Eric Pickles, am y ffordd y maent yn peryglu'r rhagolygon ar gyfer setliad yn yr anghydfod hwn?

Rwyf yn sicr wedi cael trafodaeth â Brandon Lewis. Rwyf hefyd wedi gohebu ag ef yn eithaf helaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn i Brandon Lewis ac i Undeb y Brigadau Tân fy mod am weld setliad a gyd-drafodwyd i'r anghydfod llafur hwn. Rydych yn cydnabod bod ein safbwynt yn dibynnu llawer iawn ar gynnal cydraddoldeb â chynlluniau diffoddwyr tân eraill. Rwyf wedi cael rhai trafodaethau adeiladol iawn ag Undeb y Brigadau Tân. Rwyf wedi dweud wrtho fy mod yn barod i hwyluso hyn. Y tro olaf imi gyfarfod â'r undeb oedd ar 12 Tachwedd, fe gredaf, ac rwy'n barod iawn i barhau â'r trafodaethau hynny.

14:56	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The previous UK Government put the cost of future public pension payments at £15 billion a year, but the Office for Budget Responsibility has since revealed that that should have been £26 billion, meaning that £11 billion a year was hidden from Government accounts. Will you, therefore, join me in regretting that that happened? Had the Government come clean earlier, there could have been a gradual series of measures to make the cost of public sector pensions more manageable, rather than our having to take action all at once, albeit action that will at least leave firefighters with defined pension benefits, unlike the majority of the private sector workforce.</p>	<p>Amcanodd Llywodraeth flaenorol y DU y byddai taliadau pensiwn cyhoeddus yn y dyfodol yn costio £15 biliwn y flwyddyn, ond mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi datgelu ers hynny y dylai'r swm fod wedi bod yn £26 biliwn y flwyddyn, sy'n golygu bod £11 biliwn y flwyddyn wedi ei hepgor o gyfrifon y Llywodraeth. A wneuch chi, felly, ymuno â mi i resynu bod hynny wedi digwydd? Pe bai'r Llywodraeth wedi cyfaddef yn gynt, gellid bod wedi rhoi cyfres raddol o fesurau ar waith i wneud cost pensiynau yn y sector cyhoeddus yn haws eu trin, yn hytrach na gorfod cymryd yr holl gamau gweithredu ar unwaith, er y bydd y camau gweithredu hynny yn cadw buddiannau pensiwn diffiniedig i ddiffoddwyr tân, yn wahanol i'r rhan fwyaf o weithwyr yn y gweithlu sector preifat.</p>
14:56	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, I am here to speak on behalf of the Welsh Government, and I remain committed to public service pension schemes that are affordable, sustainable and fair for all public service workers.</p>	<p>Wel, rwyf yma i siarad ar ran Llywodraeth Cymru, ac rwy'n ymrwymedig o hyd i gynlluniau pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn deg i holl weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus.</p>
14:57	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, you referred earlier to the fitness principles. In Scotland, you will know that that worked very well between the trade union and the Government there. So, can I suggest that you will be helpful in working towards those principles?</p>	<p>Weinidog, cyfeiriwyd yn gynharach at yr egwyddorion ffitrwydd gennyh. Yn yr Alban, byddwch yn gwybod i hynny weithio'n dda iawn rhwng yr undeb llafur a'r Llywodraeth yno. Felly, a allaf awgrymu y byddwch yn barod i weithio tuag at yr egwyddorion hynny?</p>
14:57	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Yes, absolutely. Both the First Minister and I are very keen to pursue a common fitness standard. I mentioned that officials have had initial discussions with chief fire officers as employers, as well as representative bodies, and we will ensure that those conversations continue.</p>	<p>Gwnaf, ar bob cyfrif. Mae'r Prif Weinidog a minnau yn awyddus iawn i ddilyn safon ffitrwydd gyffredin. Soniais fod swyddogion wedi cael trafodaethau cychwynnol â phrif swyddogion tân fel cyflogwyr, yn ogystal â chyrrff cynrychioliadol, a byddwn yn sicrhau bod y trafodaethau hynny'n parhau.</p>
	<b>Trais Domestig</b>	<b>Domestic Violence</b>
14:57	<b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>11. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd yn y chwe mis nesaf i leihau nifer yr achosion o drais domestig na roddir gwybod amdanynt? OAQ(4)0343(LG)</i></p>	<p><i>11. What action will the Minister take in the next six months to reduce the number of unreported cases of domestic violence? OAQ(4)0343(LG)</i></p>
14:57	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Welsh Government is working with partners such as the police and the all-Wales helpline to increase the reporting of domestic violence. We are raising awareness through publicity campaigns and improving the response and support to people suffering such abuse, including through workplace policies implemented across the Welsh public service.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid megis yr heddlu a llinell gymorth Cymru gyfan i gynyddu nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am drais domestig. Rydym yn codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyhoedduswydd ac yn gwella'r ymateb a'r gefnogaeth i bobl sy'n cael eu cam-drin felly, gan gynnwys trwy bolisiau yn y gweithle a roddwyd ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.</p>

- 14:57 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that reply, Minister. Witnessing domestic violence has a damaging effect on the development of children. By recognising the signs of this damage, teachers can encourage the reporting of incidents of violence against women. What discussions has the Minister had with the Minister for education to ensure that each school has one fully trained staff member with expertise in domestic violence scenarios to enable pupils to go to that person in search of assistance and to report incidents of violence?
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae bod yn dyst i drais domestig yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad plant. Drwy gydnabod arwyddion y niwed hwn, gall athrawon annog plant i roi gwybod am achosion o drais yn erbyn menywod. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog addysg er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol un aelod o staff wedi'i hyfforddi'n llawn ag arbenigedd mewn sefyllfaoedd trais domestig i alluogi disgyblion i fynd at y person hwnnw i ofyn am gymorth a rhoi gwybod am ddiwyddiadau o drais?
- 14:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have had several discussions with the Minister for Education and Skills around this issue. You will be aware that one of the proposals in the White Paper for the ending violence against women, domestic abuse and sexual violence Bill is that we improve education and awareness in our schools. Those discussions with my colleague are ongoing.
- Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn. Byddwch yn ymwybodol mai un o'r cynigion yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol yw ein bod yn gwella addysg ac ymwybyddiaeth yn ein hysgolion. Mae'r trafodaethau hynny â'm cyd-Weinidog yn parhau.
- 14:58 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there is obviously a need to encourage more victims to come forward, but some victims are not always aware that they are being abused. What is the Government doing to raise awareness of what actually constitutes domestic abuse? Yes, it can be physical abuse, but it can also be emotional, psychological, sexual or even financial abuse.
- Weinidog, mae'n amlwg bod angen annog mwy o ddiodeffwyr i ddod ymlaen, ond nid yw rhai diodeffwyr bob amser yn ymwybodol eu bod yn cael eu cam-drin. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â thrais domestig mewn gwirionedd? Gall fod yn gam-drin corfforol, ond gall hefyd fod yn gamdriniaeth emosiynol, seicolegol, rhywiol neu hyd yn oed yn gamdriniaeth ariannol.
- 14:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You will have heard my answer to Rebecca Evans's question earlier about the different levels of abuse. You raise a very important point, that people perhaps do not recognise that they are being abused. We have several policies: I mentioned Ask and Act, we had a good debate yesterday in the Chamber on 10,000 Safer Lives, there are the workplace policies and we have our helpline. My commitment to this agenda is recognised in the fact that I have increased the budget next year from £3.6 million to £4 million in a very difficult financial situation, because I think it is so important that we continue to raise awareness of the horrendous crimes that are taking place.
- Byddwch wedi clywed fy ateb i gwestiwn Rebecca Evans yn gynharach am y gwahanol lefelau o gam-drin. Fe godwch bwynt pwysig iawn, sef nad yw pobl efallai yn ymwybodol eu bod yn cael eu cam-drin. Mae gennym sawl polisi: Soniais am Ask and Act, cawsom dda dda ddoe yn y Siamb ar 10,000 o Fywydau Diogelach, mae polisiau'r gweithle ar gael ac mae gennym ein llinell gymorth. Mae'r ffaith fy mod wedi cynyddu'r gyllideb y flwyddyn nesaf o £3.6 miliwn i £4 miliwn mewn sefyllfa ariannol anodd iawn yn dangos fy ymrwymiad i'r agenda hon, oherwydd credaf ei bod mor bwysig ein bod yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r troseddau erchyll sy'n cael eu cyflawni.

## Rheoli Asedau

## Asset Management

- 15:00 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli asedau mewn llywodraeth leol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0354(LG)*
- 13. Will the Minister make a statement on asset management in Local Government in Mid and West Wales? OAQ(4)0354(LG)*
- 15:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- All local authorities in Wales should have robust asset management plans in place. Under the direction of the public service leadership group, the national assets working group works with local authorities to encourage and promote best practice in asset management.
- Dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru roi cynlluniau rheoli asedau cadarn ar waith. O dan gyfarwyddyd grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, mae'r gweithgor asedau cenedlaethol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i annog a hyrwyddo arfer gorau mewn rheoli asedau.



15:00

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that statement. In the context of the current financial climate, it is a regrettable fact that a number of local facilities, whether they are schools, public conveniences or, indeed, highway depots and similar facilities, will, in fact, be closed in the time to come. In that context, Minister, will you consider refreshing the guidance that you give to local authorities on expediting the disposal of surplus assets held by local authorities? That is partly because of the benefit that it would bring to local communities not to be next to boarded up premises for prolonged periods, and because of the opportunities that it would bring in terms of retail or, indeed, the housing potential of those premises.

Diolch ichi am y datganiad hwnnw. Yng nghyd-destun yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n ffaith anffodus y bydd nifer o gyfleusterau lleol, boed yn ysgolion, cyfleusterau cyhoeddus, neu, yn wir, ddepos priffyrdd a chyfleusterau tebyg, mewn gwirionedd, yn cael eu cau ymhen amser. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a wnewch chi ystyried ailwampio'r canllawiau a roddwch i awdurdodau lleol ar gyflymu'r broses o waredu asedau dros ben a ddelir gan awdurdodau lleol? Mae hynny'n rhannol oherwydd y budd y byddai hynny'n ei roi i gymunedau lleol o beidio â bod wrth ymyl safle ag estyllod ar y drysau a'r ffenestri am gyfnodau estynedig, ac oherwydd y cyfleoedd y byddai'n hynny eu cynnig o ran manwerthu neu, yn wir, botensial y safleoedd hynny o ran tai.

15:01

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

This is something that I have had discussions with local authorities about over the past few months, because some of them have made decisions, for instance, to mothball buildings, so that when the financial climate improves, they could perhaps sell those properties on. That is a very important point that you have raised.

Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi ei drafod ag awdurdodau lleol dros yr ychydig fisoedd diwethaf, oherwydd mae rhai ohonynt wedi gwneud penderfyniadau, er enghraifft, i roi adeiladau gwag o'r neilltu, fel y gallent, pan fydd yr hinsawdd ariannol yn gwella, werthu'r eiddo hynny o bosibl. Mae hynny'n bwynt pwysig iawn a godwyd gennyh.

15:01

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Wales Audit Office tells us that the Welsh public sector spends over £500 million per annum managing assets, therefore I think that it is crucial that we see value for money for the Welsh taxpayer. As a Government, you correctly point out that there is a responsibility on public sector leaders to engage with this agenda. Could you therefore tell us, Minister, what the Welsh Government is doing to encourage local government leaders to engage with this particular agenda?

Dywed Swyddfa Archwilio Cymru wrthym fod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £500 miliwn y flwyddyn ar reoli asedau, felly credaf ei bod yn bwysig ein bod yn gweld gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Fel Llywodraeth, rydych yn nodi'n gywir bod cyfrifoldeb ar arweinwyr y sector cyhoeddus i ymwneud â'r agenda hon. Felly, a allech ddweud wrthym, Weinidog, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog arweinwyr llywodraeth leol i ymwneud â'r agenda benodol hon?

15:01

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I mentioned the public service leadership group, and the national assets working group within that, and I think that you are right that, certainly from an assets point of view, there are big efficiency savings to be made, for instance in fleet and transport. I know that the group is led by Dr Helen Paterson, the chief executive of Wrexham County Borough Council, and she has come forward with some excellent examples of best practice, which I encourage all local authorities to look at.

Soniais am grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, a'r gweithgor asedau cenedlaethol o fewn hynny, a chredaf eich bod yn iawn, yn sicr o safbwynt asedau, fod arbedion mawr i'w gwneud o ran effeithlonrwydd, er enghraifft o ran fflydau a thrafnidiaeth. Gwn fod y grŵp yn cael ei arwain gan Dr Helen Paterson, prif weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac mae wedi cyflwyno rhai enghreifftiau ardderchog o arfer gorau, yr wyf yn annog pob awdurdod lleol i edrych arnynt.

It is important for each authority—and I know that each authority has its own strategy—to gain best value from its assets.

Mae'n bwysig i bob awdurdod—a gwn fod gan bob awdurdod ei strategaeth ei hun—gael y gwerth gorau o'i asedau.

**Pwysau Ariannol**

**Financial Pressure**

15:02

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*14. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i leihau'r baich ar lywodraeth leol yn ystod yr adeg hon o bwysau ariannol nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen? OAQ(4)0353(LG)*

*14. Will the Minister outline what steps she is taking to ease the burden on Local Government during this time of unprecedented financial pressure? OAQ(4)0353(LG)*

15:02	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Over the past three years, Welsh Government support for local government has increased compared with a reduction in England. The better settlement in Wales over this period has allowed authorities in Wales to invest in the transformational change needed to maintain and improve local services in the tough financial climate that we are in.</p>	<p>Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol wedi cynyddu ond yn Lloegr mae wedi lleihau. Mae'r setliad gwell yng Nghymru dros y cyfnod hwn wedi caniatáu i awdurdodau yng Nghymru fuddsoddi yn y gweddnewidiad sydd ei angen i gynnal a gwella gwasanaethau lleol yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:02	<p><b>Lynne Neagle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>While there is understand that we have been left with little choice but to pass on some of the swingeing cuts handed down from the Conservatives in Westminster, clearly this year's local government settlement is incredibly challenging. Would you agree with me, Minister, that it is now more important than ever that we do not place unnecessary burdens on councils and that we give them the maximum possible notice about specific grants, for example, and work with them to deliver on aspirations like the living wage, which will be very challenging in the current climate?</p>	<p>Er y deallwn nad oedd gennym lawer o ddewis ond trosglwyddo rhywfaint o'r toriadau ysgubol a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn San Steffan, mae'n amlwg bod setliad llywodraeth leol eleni yn eithriadol o heriol. A fydech yn cytuno â mi, Weinidog, ei bod yn bwysicach nag erioed nad ydym yn rhoi beichiau diangen ar gynghorau a'n bod yn rhoi'r rhybudd mwyaf posibl iddynt am grantiau penodol, er enghraifft, ac yn gweithio gyda hwy i gyflawni dyheadau fel y cyflog byw, a fydd yn heriol iawn yn yr hinsawdd sydd ohoni?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:03	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, you are absolutely right. As I have gone forward with the local government settlement, I have tried to put as much flexibility into that as I can. We have transferred approximately £145 million-worth of specific grants into the revenue support grant just in this Assembly term. I think that it is really important that we can give them that information as early as possible.</p>	<p>Byddwn, rydych yn hollol iawn. Wrth imi ddatblygu'r setliad llywodraeth leol, rwyf wedi ceisio rhoi cymaint o hyblygrwydd ynddo ag y gallaf. Rydym wedi trosglwyddo gwerth tua £145 miliwn o grantiau penodol i'r grant cynnal referniw yn unig yn ystod y tymor Cynulliad hwn. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn gallu rhoi'r wybodaeth honno iddynt cyn gynted ag y bo modd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Agenda Cydweithio</b>		<b>Collaboration Agenda</b>	
15:03	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr agenda cydweithio i lywodraeth leol? OAQ(4)0341(LG)</p>	<p>15. Will the Minister make a statement on the collaboration agenda for local government? OAQ(4)0341(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Collaboration continues to be a key part of our reform programme to support the delivery of public services, including those led by local government.</p>	<p>Mae cydweithio yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n rhaglen ddiwygio i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai a arweinir gan lywodraeth leol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. In terms of collaboration, what evidence do you have of collaboration being led by public services outside of local government, but involving local government, apart from in Gwent?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. O ran cydweithio, pa dystiolaeth sydd gennych o gydweithio yn cael ei arwain gan wasanaethau cyhoeddus y tu allan i lywodraeth leol, ond yn cynnwys llywodraeth leol, ar wahân i Went?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:04	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>When I undertook my visits over the summer to all local authorities, I saw some excellent examples outside of Gwent. I can think of one very good example in Merthyr, where they had an extra care facility that worked collaboratively with housing associations and health boards. So, I know that there are some very good examples going forward in Wales. That is just one example off the top of my head that is outside of Gwent.</p>	<p>Yn ystod fy ymweliadau dros yr haf â phob awdurdod lleol, gwelais rai enghreifftiau gwych y tu allan i Went. Gallaf feddwl am un enghraifft dda iawn ym Merthyr, lle roedd ganddynt gyfleuster gofal ychwanegol a oedd yn gweithio ar y cyd â chymdeithasau tai a byrddau iechyd. Felly, gwn fod rhai enghreifftiau da iawn yn cael eu datblygu yng Nghymru. Un enghraifft yn unig o'r tu allan i Went yw honno y gallaf ei nodi yn awr.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

### Bwlch Cyflog

15:04 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*1. A wnaiff y Comisiwn ddarparu dadansoddiad o unrhyw fwlch cyflog rhwng cyflogeion gwrywaidd a benywaidd y Cynulliad? OAQ(4)0077(AC)*

15:05 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*  
May I thank the Member for the Vale of Clwyd for the question? Every year, we undertake a full equal pay review for staff employed by the Assembly Commission and we publish the findings in our annual equality report. This consistently shows a pay lead for women over men. The most recent review shows that, as at 31 March 2013, the total median salary for female employees was 31.6% ahead of male employees.

15:05 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank you for that response. That is very welcome news, Commissioner. I held an event at the Senedd on Equal Pay Day on 7 November. From 7 November onwards, those not receiving equal pay will work for nothing until the end of the year. At that meeting, we were told about an equality pay audit that can be undertaken and that, while undertaking that, most organisations find a discrepancy somewhere that they did not know existed. Could I ask that the Commission looks at doing a full pay audit to investigate whether or not the pay gap is correct and could I ask that you consider publishing any equal pay data in any future copy of the annual report or your statement of accounts?

15:06 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
As I said, a full equal pay audit is conducted annually by our human resources professionals. Our annual report and accounts do cross-refer to the detailed information provided in the equality plan, which is also published annually, but we can certainly consider whether we also publish more detail in the annual report, as requested by the Member.

### Cynllun Prentisiaethau

15:06 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*2. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am gynllun prentisiaethau'r Cynulliad? OAQ(4)0078(AC)*

## Questions to the Assembly Commission

### Pay Gap

*1. Will the Commission provide an analysis of any pay gap between male and female employees of the Assembly? OAQ(4)0077(AC)*

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am y cwestiwn Bob blwyddyn, rydym yn cynnal adolygiad cyflog cyfartal llawn ar gyfer staff a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad ac rydym yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol. Mae hyn yn dangos yn gyson bod merched ar y blaen i ddyinion o ran cyflog. Dengys yr adolygiad diweddaraf fod cyfanswm y cyflog canolrif ar gyfer merched 31.6% ar y blaen i gyflog dynion.

Diolch ichi am yr ymateb hwnnw. Mae hynny'n newyddion da, Gomisiynydd. Cynhaliâs ddigwyddiad yn y Senedd ar Ddiwrnod Cyflog Cyfartal ar 7 Tachwedd. O 7 Tachwedd ymlaen, bydd y rhai hynny nad ydynt yn cael cyflog cyfartal yn gweithio am ddim tan ddiwedd y flwyddyn. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedwyd wrthym am archwiliad cyflog cyfartal y gellir ei gynnal ac, wrth gynnal hwnnw, fod y rhan fwyaf o sefydliadau yn dod o hyd i anghysondeb rywle nad oeddent yn gwybod ei fod yn bodoli. A gaf ofyn i'r Comisiwn ystyried gwneud archwiliad cyflog llawn i ganfod a yw'r bwlch cyflog yn iawn ac a allwn ofyn ichi ystyried cyhoeddi unrhyw ddata ar gyflog cyfartal mewn unrhyw gopi yn y dyfodol o'r adroddiad blynyddol neu eich datganiad o gyfrifon?

Fel y dywedais, cynhelir archwiliad cyflog cyfartal llawn yn flynyddol gan ein gweithwyr proffesiynol ym maes adnoddau dynol. Mae ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon yn croesgyfeirio at y wybodaeth fanwl a ddarperir yn y cynllun cydraddoldeb, sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol, ond gallwn yn sicr ystyried a allwn hefyd gyhoeddi mwy o fanylion yn yr adroddiad blynyddol, yn unol â chais yr Aelod.

### Apprenticeship Scheme

*2. Will the Commission make a statement on the Assembly's apprenticeship scheme? OAQ(4)0078(AC)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:06

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

I would like to thank the Member for Mid and West Wales for his question. Following the success of last year's pilot scheme, we aim to recruit a further six apprentices to start training with us early in 2014. We believe that the Assembly's apprenticeship scheme opens up opportunities for young people, develops their skills and expertise, and, most importantly, includes recognised qualifications.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei gwestiwn. Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot y llynedd, rydym yn anelu at recriwtio chwe phrentis arall i ddechrau hyfforddi gyda ni yn gynnar yn 2014. Credwn fod cynllun prentisiaeth y Cynulliad yn creu cyfleoedd i bobl ifanc, yn datblygu eu sgiliau a'u harbenigedd, ac, yn bwysicaf oll, yn cynnwys cymwysterau cydnabyddedig.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i'r Comisiynydd am yr ateb hwnnw. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus a'n bod ni yn symud ymlaen yn awr. A ydych yn cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd mae prentisiaethau yn gallu llwyddo? Yn ail, ym mha ffordd y gall swyddfeydd Aelodau Cynulliad hefyd gyfrannu at y cynllun hwn?

I thank the Commissioner for that response. I welcome the fact that the scheme has been successful and that we are now progressing. Are you collaborating with other public bodies in Wales in terms of how apprenticeships can succeed? Secondly, how are the offices of Assembly Members able to contribute to this scheme?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Member for that further question. May I take the last point first? I cannot honestly say that I know how individual Assembly Members could contribute to this scheme. I know that a great many Assembly Members offer internships of various types and, of course, paid internships are the really important key, and that is what we need to drive towards. As each Assembly Member is, if you like, a unique business in their own right, what influence we could have over how you might be able to offer an apprenticeship scheme or how we might support you in it, I do not know. Having said all of that, I would like to go back to have a chat to the HR team about it, because, if nothing else, an Assembly Member's office may be a very good place for an apprentice to go to learn some further skills.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn pellach hwnnw. A gaf ymdrin â'r pwynt olaf yn gyntaf? Ni allaf ddweud yn onest fy mod yn gwybod sut y gallai Aelodau Cynulliad gyfrannu at y cynllun hwn. Gwn fod nifer fawr o Aelodau Cynulliad yn cynnig interniaethau o wahanol fathau ac, wrth gwrs, interniaethau â thâl yw'r allwedd hollbwysig, a dyna'r hyn sydd angen inni anelu ato. Gan fod pob Aelod Cynulliad, os mynnwch, yn fusnes unigryw yn ei rinwedd ei hun, ni wn pa ddylanwad y gallem ei gael dros y ffordd efallai y byddech yn gallu cynnig cynllun prentisiaeth neu sut y gallem eich cefnogi ynddo. Wedi dweud hynny, hoffwn fynd yn ôl i gael sgwrs â'r tîm Adnoddau Dynol am y peth, oherwydd, yn sicr, gall swyddfa Aelod Cynulliad fod yn lle da iawn i brentis fynd i ddysgu rhai sgiliau pellach.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the cross-public services collaboration, we take advice from and work closely with all manner of public services, and our apprenticeship scheme is run and funded, in the main, by the Welsh Government, and we rely on an awful lot on it to ensure that we meet all those public service targets.

O ran cydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cymerwn gyngor gan bob math o wasanaeth cyhoeddus ac rydym yn gweithio'n agos gyda hwy, a chaiff ein cynllun prentisiaeth ei redeg a'i ariannu, ar y cyfan, gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn dibynnu llawer iawn arni er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl dargedau gwasanaethau cyhoeddus hynny.

I would like to add that of the four apprentices that we had last year, three of them have found permanent placements within the Assembly and one is on a temporary contract, and all four of them will be mentoring our new intake. Finally, I would also like to say that we are going to go ahead to put together a graduate training programme as well. Again, I will take those points on board, and maybe we can look at how we can learn from other public sector organisations to make that really successful.

Hoffwn ychwanegu, o blith y pedwar prentis a oedd gennym y llynedd, fod tri ohonynt wedi llwyddo i gael lleoliadau parhaol o fewn y Cynulliad ac mae un ar gytundeb dros dro, a bydd y pedwar ohonynt yn mentora'r rhai newydd a dderbyniwn. Yn olaf, hoffwn hefyd ddweud y byddwn yn mynd ati i lunio rhaglen hyfforddi i raddedigion hefyd. Unwaith eto, byddaf yn ystyried y pwyntiau hynny, ac efallai y gallwn edrych ar sut y gallwn ddysgu gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod hynny'n llwyddiannus iawn.

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

*The following amendments have been selected:  
amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones.*

## **Welsh Conservatives Debate: Public Service Delivery**

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones.*

Cynnig NDM5370 William Graham

Motion NDM5370 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

To propose that the National Assembly for Wales

1. Yn nodi ei bod yn adeg o newid o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio systemau.

1. Notes that it is time of change in public service delivery, requiring system reform.

2. Yn cydnabod:

2. Recognises:

a) y potensial i gydgyhyrchu wella cyflenwad gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddol.

a) the potential for co-production to dramatically improve public service delivery.

b) ymrwymiad presennol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan asedau sy'n eiddo cyhoeddus y potensial i aros mewn perchnogaeth gymunedol yng Nghymru.

b) the current Welsh Government commitment to ensuring that publicly owned assets have the potential to stay in community ownership in Wales.

3. Yn gresynu:

3. Regrets:

a) nad oes digon yn cael ei wneud i sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o gynlluniau megis Trosglwyddo Asedau Cymunedol neu'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.

a) not enough is being done to ensure that communities are aware of schemes such as the Community Asset Transfer or Community Facilities and Activities Programme.

b) bod Cymru yn methu â rhannu llwyddiant yr Agenda Anghenion Cymunedol mewn rhannau eraill o'r DU.

b) that Wales is failing to share the success of the Community Rights Agenda in other parts of the UK.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) hyrwyddo cydgynhyrchu fel ffordd hyfyw o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

a) promote co-production as a viable means to deliver public services following the publication of the findings of the Commission on Public Service Governance and Delivery.

b) archwilio dichonoldeb mabwysiadu agweddau pellach ar y Ddeddf Lleoliaeth yng Nghymru.

b) examine the feasibility of adopting further aspects of the Localism Act in Wales.

15:09

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

As stated at this month's packed Cardiff conference on co-producing resilient communities: building confidence and capacity, it is time for change in service delivery by seeing everyone as equal partners in local services—breaking down the barriers between people who provide services and those who use them.

Fel y nodwyd yn y gynhadledd orlawn yng Nghaerdydd y mis hwn ar gyd-greu cymunedau cryf: adeiladu hyder a gallu, mae'n amser ar gyfer newid yn y gwasanaethau a ddarperir drwy weld pawb fel partneriaid cyfartal mewn gwasanaethau lleol—dileu'r rhwystrau rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Co-production in social services, healthcare and other services means going beyond models of service-user consultation towards the development of a model of service delivery intended to impact on service users and on wider social systems. Co-producing public services with users and communities is about better delivery of health, social services and other services to an ageing population, to people facing illness and disability, to the economically inactive, and to those living in social isolation. It is about prevention and reablement via personal and community responsibility and localism. It is also about sustainable social, economic and community regeneration.

As the Wales Council for Voluntary Action states, the

‘Welsh Government currently lacks a clear and future looking vision or narrative for why it works with the third sector.

Such a vision could be co-production, which provides a different way of delivering public services in the future.

Welsh Government and the sector need to refresh current engagement mechanisms to develop, promote and monitor a “Programme for Action” based upon co-production and common ground.’

The WCVA report on citizen-directed support for vulnerable groups states that this

‘begins with the person, not the service; providing voice, control and independence, through safe, sustainable and economically viable responses to support planning ... It is about people being in control of the support they need to live the life they choose.’

The report also states that there is

‘scope for local authorities, health boards and the third sector to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs, and add value by drawing on community resources.’

Co-Production Wales told me that the key issues for it are the genuinely transformative nature of co-production. It states that is not just a nice add-on but a new way of operating for the Government as well as for public service professionals and citizens themselves. It states that it is the holistic, social model nature of the approach that makes explicit links between health, environment, housing, education and communities, which therefore requires shared budgets, or at least an appreciation of the extent to which early action can prevent crisis.

Mae cyd-gynhyrchu mewn gwasanaethau cymdeithasol, gofal iechyd a gwasanaethau eraill yn golygu mynd y tu hwnt i fodolau o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth tuag at ddatblygu model o ddarparu gwasanaethau y bwriedir iddynt effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac ar systemau cymdeithasol ehangach. Mae'n ymwneud â chyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus gyda defnyddwyr a chymunedau â darpariaeth well o wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill i boblogaeth sy'n heneiddio, i bobl sy'n wynebu salwch ac anabledd, i bobl economaidd anweithgar, ac i'r rhai sy'n byw mewn arwahanrwydd cymdeithasol. Mae'n ymwneud ag atal ac ail-alluogi drwy gyfrifoldeb personol a chymunedol a thrwy leoliaeth. Mae hefyd yn ymwneud ag adfywio cymdeithasol, economaidd a chymunedol cynaliadwy.

Fel y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ei nodi

Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru weledigaeth neu naratif clir sy'n edrych i'r dyfodol ar gyfer pam y mae'n gweithio gyda'r trydydd sector.

Gallai gweledigaeth o'r fath olygu cyd-gynhyrchu, sy'n cynnig ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sector adfywio dulliau ymgysylltu presennol i ddatblygu, hyrwyddo a monitro “Rhaglen Weithredu” yn seiliedig ar gyd-gynhyrchu a thir cyffredin.

Mae adroddiad CGGC ar gymorth sydd wedi'i gyfeirio at y dinesydd ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn nodi bod hyn yn

dechrau gyda'r person, nid y gwasanaeth; gan roi llais, rheolaeth ac annibyniaeth, drwy ymatebion diogel, cynaliadwy a hyfw yn economaidd i gefnogi prosesau cynllunio ... Mae'n ymwneud â phobl mewn rheolaeth o'r cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod

cyfle i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector weithio'n llawer mwy creadigol er mwyn datblygu gwasanaethau gwell sy'n agosach i bobl, yn fwy ymatebol i anghenion, ac sy'n ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol.

Dywedodd Cydgynhyrchu Cymru wrthyf mai'r hyn sy'n bwysig iddo ef yw natur drawsnewidiol cydgynhyrchu. Mae'n datgan nad rhyw ychwanegiad deniadol yw hynny ond ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus a dinasysddion eu hunain. Mae'n datgan mai natur model cyfannol, cymdeithasol y dull sy'n gwneud cysylltiadau amlwg rhwng iechyd, yr amgylchedd, tai, addysg a chymunedau, sydd felly yn golygu bod angen cyllidebau a rennir, neu o leiaf werthfawrogiad o'r graddau y gall gweithredu'n gynnar atal argyfwng.

It also identified the need for the state to remain in a supporting role, with a shared responsibility rather than an abdication of responsibility. Co-production only works if we are actually all in it together.

At the recent Cardiff co-production conference, Western Australia's mental health commissioner talked about how Australia has embraced co-production and local area co-ordination. He said that we have to decide whether we are adding on a programme or reforming the system. He said that instead of fitting people into programmes, co-production gets to know somebody, building supports around them and bringing people up to the same level of power, while building in systematic safeguards for people who are vulnerable.

He went on to say that this is principled precise work around citizen participation, citizenship, rights and responsibilities. He also emphasised that good political leadership was needed to safeguard and develop the programme and that there was well-evidenced work on the savings generated. He further emphasised the need to assist people to access services via personal budgets.

The Social Services and Well-being (Wales) Bill will extend the powers relating to direct payments to make them easier to use and to strengthen the support arrangements available to individuals. However, I understand that it will not allow health and social services direct payments to be pooled into personal budgets, despite these having been rolled out in England and Scotland. As MS Society Cymru has stated, direct payments alone do not offer the freedom that personal budgets in self-directed support could do.

As Labour and the SNP have recognised in England and Scotland, this is not about privatisation or the downgrading of public services, but about making our public services sustainable and building better lives.

Speaking at the Cardiff co-production conference, the founder of Community Links and director of the Early Action Taskforce stated that structures and systems were more complex than they need to be and that they should be preventing problems rather than dealing with the consequences, building a fence at the top of the cliff rather than providing an ambulance at the bottom.

He stated that we can either cut to crisis-led services or deliver systemic change. He also highlighted the well-evidenced work of the savings generated by co-production. As he said, we need leadership driven by dreams, judged on delivery, but he added that the fear is that we do not react quickly enough, or that we respond with an additional programme rather than changing systems and structures and reforming services.

Mae hefyd yn nodi'r angen i'r wladwriaeth barhau i gael rôl gefnogol, gan rannu cyfrifoldeb yn hytrach na'i ymwrthod. Dim ond os bydd pawb ohonom yn cydweithio go iawn y bydd cydgyhyrchu yn gweithio.

Yn y gynhadledd cydgyhyrchu ddiweddar yng Nghaerdydd, siaradodd comisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia am y ffordd y mae Awstralia wedi croesawu cydgyhyrchu a chydgyssylltu mewn ardaloedd lleol. Dywedodd bod yn rhaid inni benderfynu a ydym yn ychwanegu at raglen neu'n diwygio'r system. Dywedodd yn hytrach na gosod pobl mewn rhaglenni, bod y broses gydgyhyrchu yn dod i adnabod rhywun, yn adeiladu cefnogaeth o'u cwrmpas ac yn codi pobl i fyny i'r un lefel o bŵer, tra'n ymgorffori mesurau diogelu systematig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Aeth ymlaen i ddweud bod hwn yn waith manwl egwyddorol ynghylch cyfranogiad y dinesydd, dinasyddiaeth, hawliau a chyfrifoldebau. Pwysleisiodd hefyd fod angen arweiniad gwleidyddol da i ddiogelu a datblygu'r rhaglen a bod gwaith gyda thystiolaeth dda ar yr arbedion a gynhyrchir. Pwysleisiodd ymhellach yr angen i gynorthwyo pobl i gael gafael ar wasanaethau drwy gyllidebau personol.

Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ymestyn y pwerau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn haws eu defnyddio ac i atgyferthu'r trefniadau cymorth sydd ar gael i unigolion. Fodd bynnag, deallaf na fydd yn caniatáu i daliadau uniongyrchol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gael eu cyfuno i mewn i gyllidebau personol, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u cyflwyno yn Lloegr a'r Alban. Fel y mae Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru wedi datgan, nid yw taliadau uniongyrchol ar eu pen eu hunain yn cynnig y rhyddid y gallai cyllidebau personol mewn cymorth hunangyfeiriedig ei wneud.

Fel y mae Llafur a'r SNP wedi ei gydnabod yn Lloegr a'r Alban, nid ymwneud â phreifateiddio neu israddio gwasanaethau cyhoeddus yw hyn, ond ymwneud â sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac adeiladu bywydau gwell.

Wrth siarad yn y gynhadledd ar gydgyhyrchu yng Nghaerdydd, dywedodd sylfaenydd Cysylltiadau Cymunedol a chyfarwyddwr y Tasglu Gweithredu Cynnar fod strwythurau a systemau yn fwy cymhleth nag y mae angen iddynt fod ac y dylent fod yn atal problemau yn hytrach na delio â'r canlyniadau, adeiladu ffens ar ben y clogwyn yn hytrach na darparu ambiwlans ar y gwaelod.

Dywedodd y gallwn naill ai dorri i wasanaethau a arweinir gan argyfwng neu gyflwyno newid systemig. Tynnodd sylw hefyd at y gwaith gyda thystiolaeth dda a ddaw o'r arbedion sy'n deillio o gydgyhyrchu. Fel y dywedodd, mae angen arweinyddiaeth a ysgogir gan freuddwydion, a fernir yn ôl cyflawniad, ond ychwanegodd mai'r ofn yw nad ydym yn ymateb yn ddigon cyflym, neu ein bod yn ymateb gyda rhaglen ychwanegol yn hytrach na newid systemau a strwythurau a diwygio gwasanaethau.

In this context, we must heed statements in the new Carnegie UK Trust report, 'The Enabling State: From Rhetoric to Reality', which stated that the effective services for vulnerable groups programme in Wales was interesting in that it was the most top-down case study in its collection, and that its interviewees repeatedly spoke about the challenges from overcoming bureaucratic hurdles or aligning programmes to fit with someone else's objectives.

The Welsh Government's Communities First programme is about bringing projects and networks together. The joint Wales Council for Voluntary Action and Community Development Cymru paper 'Communities First—A Way Forward' found that enabling communities to move beyond programmes and establish their own community organisations would provide the community-owned dimension so often sought but so seldom achieved in building a better Wales. The Welsh Government rejected that. However, as Monmouthshire County Council told the Cardiff conference on co-production through local area co-ordination, it is about helping people live the lives they choose and to stay strong by connecting with them in communities, having different conversations with them, establishing what matters to them, intervening earlier and then evaluating as you go along, based upon the impact on people's lives. As the Wales Council for Voluntary Action has said,

'the traditions of Community action, mutual aid and co-operation in Wales are part of our social and cultural history',

adding, however, that

'to move beyond rhetoric to action does mean a greater sharing of responsibilities between Government, Communities and Citizens'.

Taking power out of the hands of Government and giving it to individuals, enterprises and charities in our communities can help us to provide better services more efficiently, benefiting the most vulnerable.

The co-production approach was not designed for an age of austerity, but rather for any age of social and economic aspiration—yes, delivering more for less at a time of deficit reduction, but also delivering more for the same when budgets are stable and more for more when budgets are growing. In contrast, however, what has been termed 'the third sector' has increasingly been seen as a vehicle for delivering strategy and programmes as an extension of Welsh Government. All too often, money has washed over a community rather than watering its roots. As the former Archbishop of Canterbury said here last year,

'society is a neutral word with no moral value'

but,

'community does have a moral value'.

Yn y cyd-destun hwn, rhaid inni ystyried datganiadau yn adroddiad newydd Ymddiriedolaeth Carnegie UK, 'The Enabling State: From Rhetoric to Reality', a nododd fod y rhaglen gwasanaethau effeithiol ar gyfer grwpiau agored i niwed yng Nghymru yn ddiddorol gan mai dyma'r astudiaeth oedd yn gweithredu fwyaf o'r brig i lawr yn ei gasgliad, a bod ei gyfweleion yn siarad dro ar ôl tro am yr heriau o oresgyn rhwystrau biwrocraidaidd neu alinio rhaglenni i gyd-fynd ag amcanion rhywun arall.

Mae a wnelo rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru â dod â phrosiectau a rhwydweithiau at ei gilydd. Canfu papur Cydgyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Datblygu Cymunedol Cymru 'Cymunedau yn Gyntaf—Y Ffordd Ymlaen' y byddai galluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni a sefydlu eu sefydliadau cymunedol eu hunain yn darparu'r dimensiwn sy'n eiddo i'r gymuned a gaiff ei geisio mor aml ond a gaiff ei gyflawni mor anaml yn y broses o adeiladu Cymru well. Gwrthododd Llywodraeth Cymru hynny. Fodd bynnag, fel y dywedodd Cyngor Sir Fynwy yn y gynhadledd yng Nghaerdydd ar gydgyngyrchu drwy gydgyssylltu ardaloedd lleol, mae'n ymwneud â helpu pobl i fyw'r bywydau y maent yn ei ddewis a pharhau yn gryf drwy gysylltu â hwy mewn cymunedau, cael sgysiaid gwahanol â hwy, gan sefydlu'r hyn sy'n bwysig iddynt, ymyrryd yn gynharach ac yna werthuso wrth i chi fynd ymlaen, yn seiliedig ar yr effaith ar fywydau pobl. Fel y dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,

mae traddodiadau Gweithredu cymunedol, cymorth ar y cyd a chydweithredu yng Nghymru yn rhan o'n hanes cymdeithasol a diwylliannol,

ychwanegodd, fodd bynnag, bod

symud y tu hwnt i rethreg i weithredu yn golygu rhannu mwy o gyfrifoldebau rhwng y Llywodraeth, Cymunedau a Dinasyddion.

Gall y broses o gymryd pŵer o ddwylo'r Llywodraeth a'i roi i unigolion, mentrau ac elusennau yn ein cymunedau ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau yn fwy effeithlon, gan roi budd i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Ni chafodd y dull cydgynhyrchu ei gynllunio ar gyfer oes o gynni, ond yn hytrach ar gyfer unrhyw oes o ddyhead cymdeithasol ac economaidd—ie, gan ddarparu mwy am lai mewn cyfnod o leihau'r diffyg, ond hefyd ddarparu mwy am yr un faint pan fydd cyllidebau yn sefydlog a mwy am fwy pan fydd cyllidebau'n codi. Mewn gwrthgyferbyniad, fodd bynnag, mae'r hyn a alwyd yn 'drydydd sector' yn cael ei ystyried fwyfwy yn gyfrwng i gyflwyno strategaeth a rhaglenni fel estyniad o Lywodraeth Cymru. Yn rhy aml, mae arian wedi golchi dros gymuned yn hytrach na dyfrio ei wreiddiau. Fel y dywedodd cyn Archesgob Caergaint yma y llynedd,

mae cymdeithas yn air niwtral heb unrhyw werth moesol

ond,

mae gwerth moesol i gymuned.



He went on to say that in order to turn society into a community, people must take responsibility for one another. Community must push back against managerial and functional approaches, preparing people to understand themselves and the society they inhabit, not to be cogs in the wheel. Although he said that there has been important progress in state welfare, there is also a problem about dependency and assuming that someone else is responsible for our problems. Wales needs realignment: a new era of local determinism, using individual and social entrepreneurship to reclaim public life, build social capital and deliver better lives.

An implicit belief that the state is in the business of fixing broken people and communities, imposing systems that are appropriate to institutional management, simply does not work. Public and independent service providers do not deal with commodities; they deal with relationships. The public sector has been transactionalised, when it is cheaper and more efficient to know the people in our communities and to deliver with them. Government must learn a better method: better-value services delivering more by understanding what matters and by designing backwards, using the front end as the process design system. Until we start putting outcomes before processes, individuals before programmes and communities before the state, devolution will never deliver for Wales. We must end the legacy of a Victorian divide between stagnation and aspiration. Power to the people.

Aeth ymlaen i ddweud er mwyn troi cymdeithas yn gymuned, bod yn rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb am ei gilydd. Rhaid i gymuned wthio yn ôl yn erbyn dulliau rheoli a swyddogaethol, paratoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas y maent yn byw ynddi, yn hytrach na bod yn neb o bwys yn y drefn. Er iddo ddweud y bu cynnydd pwysig yn y wladwriaeth les, mae problem hefyd mewn perthynas â dibyniaeth a thybio mai rhywun arall sy'n gyfrifol am ein problemau. Mae angen adlinio ar Gymru: cyfnod newydd o benderfyniad lleol, gan ddefnyddio entrepreneuriaeth unigol a chymdeithasol i adennill bywyd cyhoeddus, adeiladu cyfalaf cymdeithasol a sicrhau bywydau gwell.

Yn syml, nid yw'r gred ymhlyg bod y wladwriaeth yn y busnes o drwsio pobl a chymunedau sydd wedi torri, gan orfodi systemau sy'n briodol i brosesau rheoli sefydliadol, yn gweithio. Nid yw darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac annibynnol yn delio â nwyddau; maent yn delio â chydberthnasau. Mae'r sector cyhoeddus wedi cael ei droi'n faes trafodaethol, pan fydd yn rhatach ac yn fwy effeithlon i adnabod y bobl yn ein cymunedau ac i gyflawni gyda hwy. Rhaid i'r Llywodraeth ddysgu dull gwell: gwasanaethau gwerth gwell yn darparu mwy drwy ddeall beth sy'n bwysig a thrwy gynllunio am yn ôl, gan ddefnyddio'r rheng flaen fel y system cynllunio proses. Hyd nes y byddwn yn dechrau rhoi canlyniadau cyn prosesau, unigolion cyn rhaglenni a chymunedau cyn y wladwriaeth, ni fydd datganoli byth yn cyflawni dros Gymru. Rhaid inni ddod â'r etifeddiaeth o raniad Fictoraidd rhwng diffyg twf a dyhead i ben. Pŵer i'r bobl.

15:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*3. Calls on the Welsh Government:*

*a) sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o gynlluniau megis Trosglwyddo Asedau Cymunedol a'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.*

*a) to ensure more awareness of schemes such as the Community Asset Transfer and Community Facilities and Activities Programme.*

*b) datblygu polisi asedau cymunedol cynhwysfawr sydd wedi'i deilwra ar gyfer anghenion Cymru.*

*b) to develop a comprehensive community assets policy that is tailored to Welsh needs.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Dileu pwynt 4b) a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4b) and replace with:*

*sicrhau bod yr agendâu lleoliaeth a throsglwyddo asedau cymunedol yn ddiamau yn grymuso cymunedau ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ffordd o breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus.*

*ensure that the localism and community transfer agendas genuinely empower communities and are not used as a vehicle for the privatisation of public services.*

15:18

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiad welliannau 1 a 2.

I move amendments 1 and 2.

Hoffwn yn y lle cyntaf ddiolch yn fawr iawn i Mark Isherwood am yr adroddiad llawn a gawsom o'r gynhadledd y bu ynnddi yn ddiweddar yng Nghaerdydd. Mae'n amlwg ei bod yn gynhadledd a oedd wedi ei gyffroi ef i raddau helaeth iawn. Ar ddiwedd ei berorasiwn, fe'i clywsom yn galw arnom i weithredu yn ein cymunedau.

Rwy'n croesawu'r ddatl hon a osodwyd gan y Ceidwadwyr—nid wyf yn gwneud hynny'n aml iawn—a dweud rhywbeth hwyrach nad wyf yn credu y byddaf yn ei ddweud eto yn y Cynulliad, sef fy mod yn cytuno i raddau helaeth â'r sydd yn y cynnig, ac yn cytuno i raddau helaeth â'r hyn y mae Mark Isherwood wedi ei ddweud. Os gallwn sicrhau sefyllfa lle mae llywodraeth leol yn cydweithredu gyda grwpiau cymunedol i ychwanegu gwerth at y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r gymuned, mae hynny, wrth reswm, i'w groesawu, gan fod gan grwpiau cymunedol lawer iawn i'w gynnig i'r broses honno, oherwydd mae ganddynt wybodaeth ar y ddaear o'r anghenion sy'n bodoli. Yn aml iawn mae cryn bellter rhwng y gymuned a'r asiantaeth sy'n ceisio gwasanaethu'r gymuned honno ac, yn aml iawn, nid yw'r swyddogion sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny mewn perthynas agos â'r gymuned ac â'r bobl er mwyn bod yn ymwybodol o'r anghenion hynny.

Mae llawer iawn y cynnig hwn yr ydym yn ei groesawu. Mae'r cynghorau o dan arweiniad Plaid Cymru eisoes wedi bod yn gweithredu rhai o raglenni'r Llywodraeth yng nghyd-destun trosglwyddo asedau cymunedol a hefyd gyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Mae hynny yn rhywbeth yr ydym ni fel plaid yn ei groesawu ac yn gweld gwerth mawr ynddo.

Lle rwy'n gwahaniaethu gyda'r Blaid Geidwadol yw'r gymhariaeth hon â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Mae'r sefyllfa yn Lloegr yn dra gwahanol i'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'r setliad o ran cyllideb llywodraeth leol wedi bod yn llawer iawn mwy llym yn Lloegr. Mae'r toriadau yn ddyfnach yn y fan honno, ac felly maent wedi cael eu gorfodi, ac nid er mwyn ychwanegu gwerth at y gwasanaethau y maent yn eu darparu, i edrych i drosglwyddo'r gwasanaethau hynny o'r cyfrifoldeb statudol i grwpiau cymunedol. Byddai'n gamgymeriad i ni yng Nghymru rithro i drosglwyddo'r gwasanaethau hyn i gyd i'n cymunedau ni heb wneud asesiad llawn o'r anghenion sy'n bodoli.

Pan ydych yn edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd eisoes yng Nghymru, lle mae gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i'r gymuned, yn aml iawn, a bron yn ddiethriad mewn gwirionedd, mae'r grwpiau cymunedol hynny yn cadw rhywfaint o ddibyniaeth ar asiantaethau fel cynghorau er mwyn cael cyngor, adnoddau ac arian i sicrhau eu bod yn gallu parhau i gynnig y gwasanaethau hynny. Felly, mae'r bartneriaeth honno yn eithriadol o bwysig os ydym yn mynd i sicrhau ein bod yn cyfoethogi'r gwasanaethau hyn wrth eu trosglwyddo i'r gymuned. Mae perygl, er bod Mark Isherwood wedi osgoi dweud hyn, mai'r hyn y mae'n awgrymu yn y cynnig hwn yw bod hon yn ffordd hwylus iawn i awdurdodau lleol i gael gwared â llawer iawn o'r gwasanaethau statudol y maent yn gorfod eu cyflawni ar hyn o bryd. Mae'n rhaid inni osgoi'r opsiwn hynny oherwydd ni fyddai hynny yn ychwanegu unrhyw fath o werth i'r gwasanaethau hynny.

In the first place, I wish to thank Mark Isherwood for the full report that we received from the conference that he attended recently in Cardiff. It is obvious that it was a conference that had excited him very much indeed. At the end of his peroration, we heard him call us to action in our communities.

I welcome this debate that has been tabled by the Conservatives—I do not do that very often—and perhaps say something that I do not believe that I will be saying again in this Assembly, that is, that I agree to a great extent with the contents of the motion, and that I agree to a great extent with what Mark Isherwood said. If we can secure a position where local government collaborates with community groups to add value to the service offered to the community, that is, naturally, to be welcomed, as community groups have a great deal to offer to that process, because they have the knowledge of the needs that exist on the ground. Very often, there is a great distance between the community and the agency that is attempting to serve that community and, very often, the officers responsible for delivering those services are not in a close relationship with the community and the people in order to be aware of those needs.

There is a great deal in this motion that we welcome. Plaid Cymru-led councils have already been implementing some of the Government programmes in the context of transferring community assets and also community facilities and activities. That is something that we as a party welcome and in which we see great value.

I differ with the Conservative Party regarding the comparison with the situation in England. The situation in England is quite different to the one in Wales. The local government settlement has been much more stringent in England. The cuts have been deeper there, and so they have been compelled, and not in order to add value to the services that they deliver, to look to transfer those services from the statutory responsibility to the community groups. It would be a mistake for us in Wales to rush to transfer all of these services to our communities without carrying out a full assessment of the needs that exist.

When you look at what has already happened in Wales, where services have been transferred to the community, very often, and almost without exception in fact, those community groups retain some dependency on agencies such as councils in order to receive advice, resources and funding to ensure that they can continue to offer those services. So, that partnership is exceptionally important if we are to ensure that we are going to enrich these services as they are transferred to the community. There is a risk, although Mark Isherwood avoided saying this, that what is implied in this motion is that this is a very convenient way for local authorities to be rid of many of the statutory services that they have to deliver at present. We must avoid that option because that would not add any kind of value to those services.

Felly, rwy'n croesawu cryn lawer sydd yn y cynnig. Rwy'n meddwl bod ein gwelliannau—ni wnaeth Mark ddweud a fyddai ei blaid yn derbyn ein gwelliannau—yn cryfhau'r cynnig sydd wedi ei osod, gan y byddent yn sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r rhaglenni hyn a mwy o wybodaeth amdanynt, ac yn sicrhau bod asesiad clir yn cael ei wneud er mwyn sicrhau nad eu trosglwyddo er mwyn osgoi'r cyfrifoldeb y mae hyn yn ei olygu, ond cyfoethogi'r gwasanaethau hynny trwy ddefnyddio'r adnodd lleol.

So, I welcome a great deal of the motion. I believe that our amendments—Mark did not say whether his party will accept our amendments—strengthen the motion that has been tabled, as they will ensure that there is a great deal more awareness of these programmes and more information disseminated about them, and ensure that there is a clear assessment in order to ensure that they are not just being transferred to avoid the responsibility, but to enhance those services by using local resources.

15:23

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The balance of responsibilities between the public sector and the community is something that we come back to time and again in this Chamber. We talk an awful lot about partnerships. Wales is awash with partnerships between the state and the third sector, and some of that works particularly well. One thing I can say, I think, about my time living and working in mid Wales is that, if you live in a part of Wales where the Welsh Government is not giving your public sector institutions an awful lot of attention or money, there is a real imperative to build purposeful relationships, built on joint commitment and vision, where partners can think creatively about how to tackle pretty intimidating problems locally. That is no excuse for underfunding, of course, Minister, and I do not argue that that part of Wales is immune from the defensiveness and personality clashes, and some of the silo mentality and empire building, that can be found in our public service delivery in other parts of the country. Parts of my region still have very high levels of socioeconomic deprivation despite millions of pounds and euros being poured into it.

I would not say that such spending has been entirely unfruitful, but I do not think that you would argue that it has been particularly good value for money either. There is a frustration about how partnerships work in reality and how they are evaluated. Perhaps I can mention AWEMA and Plas Madoc once again. That frustration has to be real—if people are coming, in that region, to a Welsh Conservative Assembly Member to express their concerns that the money coming into that region is tied up in arrangements that they see as heavily influenced by local Labour party networks, with community and third sector organisations nervous of challenging those with their hand on the cheque book, then I think it is something that needs to be taken seriously.

I am not bringing any evidence of that to the Chamber today, but I raise the observation in this debate for a reason. If Wales is to look meaningfully at partnership working, we need to be conscious of that perception and alert to any evidence. We have to accept that partnership is not all about service level agreements and tendering and the usual suspects. It is certainly not about local authorities setting up community bodies that their officers control and fund to the detriment of existing community bodies that already do that work.

Mae cydbwysedd cyfrifoldebau rhwng y sector cyhoeddus a'r gymuned yn rhywbeth yr ydym yn dod yn ôl ato dro ar ôl tro yn y Siambr hon. Rydym yn sôn llawer iawn am bartneriaethau. Mae Cymru yn fôr o bartneriaethau rhwng y wladwriaeth a'r trydydd sector, ac mae rhai o'r rheini'n gweithio'n arbennig o dda. Un peth y gallaf ei ddweud am fy amser yn byw ac yn gweithio yn y canolbarth yw, os ydych yn byw mewn rhan o Gymru lle nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi llawer o sylw neu arian i'ch sefydliadau sector cyhoeddus, mae rheidrydd gwirioneddol i feithrin cydberthnasau pwrpasol, wedi'u hadeiladu ar ymroddiad a gweledigaeth ar y cyd, lle gall partneriaid feddwl yn greadigol am sut i fynd i'r afael â phroblemau yn eithaf brawychus yn lleol. Nid yw hynny'n esgus i danariannu, wrth gwrs, Weinidog, ac nid wyf yn dadlau bod y rhan honno o Gymru yn ddiogel rhag y natur amddiffynnol a'r gwrthdaro personoliaeth, a rhywfaint o'r meddylfryd seilo ac achosion o ehangu terfynau y gellir eu gweld yn y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir mewn rhannau eraill o'r wlad. Ceir lefelau uchel iawn o amddifadedd economaidd-gymdeithasol mewn rhannau o'm rhanbarth o hyd er gwaethaf y ffaith bod miliynau o bunnoedd ac ewros yn cael eu harllwys i mewn iddo.

Ni fyddwn yn dweud bod gwariant o'r fath wedi bod yn gwbl ddiiffrwyth, ond ni chredaf y byddech yn dadlau ei fod wedi bod yn werth arbennig o dda am arian ychwaith. Mae rhwystredigaeth ynghylch sut mae partneriaethau yn gweithio mewn gwirionedd a sut y cânt eu gwerthuso. Efallai y gallaf sôn am AWEMA a Phlasmadog unwaith eto. Mae honno'n rhwystredigaeth real—os yw pobl yn mynd, yn y rhanbarth hwnnw, at Aelod Cynulliad y Ceidwadwyr Cymreig i fynegi eu pryderon bod yr arian sy'n dod i mewn i'r rhanbarth yn cael ei glymu mewn trefniadau y maent o'r farn bod rhwydweithiau lleol y blaid Lafur yn dylanwadu'n drwm arnynt, gyda sefydliadau cymunedol a thrydydd sector yn nerfus o herio'r rheini sydd â'u llaw ar y llyfr siec, yna credaf ei fod yn rhywbeth y mae angen ei gymryd o ddifrif.

Nid wyf yn dod ag unrhyw dystiolaeth o'r math hwn i'r Siambr heddiw, ond codaf y sylw yn y ddadl hon am reswm. Os yw Cymru am edrych yn ystyrlon ar brosesau gweithio mewn partneriaeth, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r canfyddiad hwnnw ac yn effro i unrhyw dystiolaeth. Rhaid inni dderbyn bod partneriaethau yn ymwneud â mwy na chytundebau lefel gwasanaeth a thendro a'r un hen wyneb. Yn sicr, nid yw'n ymwneud ag awdurdodau lleol yn sefydlu cyrff cymunedol a reolir ac a ariennir gan eu swyddogion ar draul cyrff cymunedol presennol sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The well-respected Carnegie Institute has little patience with the rhetoric-reality gap—as it calls it—that still surrounds the concept of community empowerment. It has some valuable ideas about how to overcome persistent inequalities and, what it calls, an implementation deficit disorder—in case you had not had enough jargon. It specifically highlights that co-produced public services, which Mark Isherwood was referring to earlier, really do focus on services built around empowered citizens and communities.

It also acknowledges that the ability that communities have to act depends on where they are and their own capacities and capabilities. It cautions that if we are not careful, it is those with fat wallets and sharp elbows who will benefit most from the shift to people power. That is the source of frustration I referred to earlier and where the Government can act effectively by rigorous monitoring and evaluation.

Breaking down the barriers between the people who provide services and those who use them is at the heart of this—being part of the design of the delivery as well as the delivery. I know that I have said that before in the Chamber but I do not mind saying it again. It creates ownership of both problem and solution and gives an incentive to be part of preventing a problem from arising in the first place.

Of course, for example, that does not translate to a person diagnosed with an illness. You cannot use co-production to argue that they should suddenly claim responsibility for clinical decisions. However, consider this example: the Welsh Government and the NHS in Wales, to date, are reluctant to accept that treatment and rehabilitation are separate. They keep the control and direction of both in-house, even if certain assistance is procured from the third sector—maybe that is a way of retaining control of the finances in-house as well.

The national cancer survivorship pilot initiative also found this in England a few years ago, but they succeeded in overcoming it. The initiative arose from evidence that highly medicalised support was not meeting all cancer survivors' needs following diagnosis and treatment, nor was it providing value for money. These unmet needs of cancer survivors are indeed medical, but they are also psychological, social, spiritual, financial and informational. By accepting that rehabilitation is not primarily a medical issue, Macmillan, the DWP and the NHS worked equally and together to meet those needs, reducing considerably the high number of people who, after diagnosis, either resign or are pushed out of employment. Surely, that is the sort of example we want from our public services. It is an example of taxpayers paying for a result for a patient rather than a cash grab for providers.

Nid oes gan Sefydliad Carnegie sy'n uchel ei barch lawer o amynedd â'r bwch rhwng rhethreg a realiti—fel y'i gelwir ganddo—sy'n amgylchynu'r cysyniad o rymuso cymunedau o hyd. Mae ganddo syniadau gwerthfawr am sut i oresgyn anghydraddoldebau parhaus ac, yr hyn y mae'n ei alw yn anhwylder diffyg gweithredu—rhag ofn nad ydych wedi cael digon o jargon. Mae'n nodi'n benodol bod gwasanaethau cyhoeddus a gyd-gynhyrchir, y cyfeiriodd Mark Isherwood atynt yn gynharach, yn wirioneddol yn canolbwyntio ar wasanaethau a adeiladwyd o gwmpas grymuso dinasyddion a chymunedau.

Mae hefyd yn cydnabod bod y gallu sydd gan gymunedau i weithredu yn dibynnu ar eu lleoliad a'u hadnoddau a'u galluoedd eu hunain. Mae'n rhybuddio, os na fyddwn yn ofalus, mai'r rheini sydd â waledi trwchus a phenelinoedd miniog fydd yn elwa fwyaf ar y newid i bŵer pobl. Dyna ffynhonnell y rhwystredigaeth y cyfeiriais ati yn gynharach a lle y gall y Llywodraeth weithredu'n effeithiol trwy fonitro a gwerthuso'n drylwyr.

Mae chwalu'r rhwystrau rhwng y bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio yn ganolog i hyn—bod yn rhan o'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth yn ogystal â'r ddarpariaeth ei hun. Gwn fy mod wedi dweud hynny o'r blaen yn y Siambr, ond nid oes ots gennyf ei ddweud eto. Mae'n creu perchnogaeth o'r broblem a'r ateb ac yn rhoi cymhelliant i fod yn rhan o broses o atal problem rhag codi yn y lle cyntaf.

Wrth gwrs, er enghraifft, nid yw hynny'n berthnasol i unigolyn sydd wedi cael diagnosis o salwch. Ni allwch ddefnyddio cydgynhyrchu i ddadlau y dylent yn sydyn hawlio cyfrifoldeb am benderfyniadau clinigol. Fodd bynnag, ystyriwch yr enghraifft hon: hyd yma, mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru wedi bod yn amharod i dderbyn bod y driniaeth a'r broses adsefydlu ar wahân. Maent yn cadw rheolaeth a chyfarwyddyd o'r ddau yn fewnol, hyd yn oed os caiff cymorth penodol ei gaffael o'r trydydd sector—efallai bod hynny'n ffordd o gadw rheolaeth ar gyllid yn fewnol hefyd.

Canfu'r fenter beilot goresi cancer cenedlaethol hyn yn Lloegr ychydig flynyddoedd yn ôl hefyd, ond llwyddasant i'w oresgyn. Cododd y fenter o dystiolaeth nad oedd cymorth wedi'i feddyginiaethu'n sylweddol yn diwallu anghenion pawb sydd wedi goresi cancer ar ôl iddynt gael diagnosis a thriniaeth, nid oedd ychwaith yn darparu gwerth am arian. Mae'r anghenion hyn na chânt eu diwallu sydd gan oroeswyr cancer yn feddygol yn wir, ond maent hefyd yn seicolegol, cymdeithasol, ysbrydol, ariannol ac yn seiliedig ar wybodaeth. Drwy beidio â derbyn nad mater meddygol yn unig yw'r broses adsefydlu, cydweithiodd Macmillan, DWP a'r GIG yn gyfartal i ddiwallu'r anghenion hynny, gan leihau yn sylweddol y nifer uchel o bobl sydd, ar ôl diagnosis, naill ai'n ymddiswyddo neu'n cael eu gwrthio allan o gyflogaeth. Yn sicr, dyna'r math o enghraifft, rydym am ei chael gan ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n enghraifft o drethdalwyr yn talu am ganlyniad i glaf yn hytrach na chipio arian parod i ddarparwyr.

This debate gives us a good opportunity to debate how we deliver our public services. Although I do not support the Conservative resolution because of some of its latter parts, I am very glad that co-production is mentioned as it gives us the opportunity to debate this important way forward and recognise that co-production is already being used in some aspects of our public services, involving the people who use them in their design and delivery. The partnership between the public and the state is very important.

The term 'co-production' first came from the United States, where it was used as a way of explaining why the crime rate went up when the police came off the beat and went into patrol cars. The police need the community as much as the community needs the police. It is about working together, in the same way as doctors need patients as much as patients need doctors.

I think that it is very important to look at the most difficult areas of public policy and service delivery and see how co-production principles are used or could be used. In what I am saying, I am relying on ideas put forward by Shaun Kelly, who is an experienced social work manager who has written on this subject. I think that if you looked at how you involve children, families and social services departments, you would see that prevention and early intervention would often embody the principles of co-production.

However, when you get to child protection registers, or accommodating a child in local authority care, it is much more difficult to continue with the principles of co-production, and the gulf between the family and the social services opens. Many describe the involvement of social workers, for example, in their lives as something to be feared and put off; they do not see it as an opportunity to work together to get a joint resolution. They feel that there is a big imbalance of power. I think that that is a very difficult area of the work and the services that we provide.

So, how could we address this, bearing in mind the co-production principles? These principles are embedded in the principles of social work and the principles of empowerment and partnership. However, the service is moving to a situation where the pressure to avoid risks, particularly in child protection, is so great that there is a danger that it becomes heavily bureaucratised. There is such public distress, among us, as well, when a tragedy happens, and there is such pressure to avert future tragedies, that it is very difficult to continue these very good principles of co-production in such a difficult situation.

Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle da inni drafod sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau cyhoeddus. Er nad wyf yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr oherwydd rhai o'i rannau olaf, rwy'n falch iawn bod cydgyhyrchu yn cael ei grybwyll gan ei fod yn rhoi cyfle i drafod y ffordd bwysig hon ymlaen a chydabod bod cydgyhyrchu eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn rhai agweddau ar ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y bobl sy'n eu defnyddio yn eu prosesau cynllunio a darparu. Mae'r bartneriaeth rhwng y cyhoedd a'r wladwriaeth yn bwysig iawn.

Daeth y term 'cydgyhyrchu' gyntaf o'r Unol Daleithiau, lle cafodd ei ddefnyddio fel ffordd o egluro pam y cododd y gyfradd droseddau pan ddaeth yr heddlu oddi ar y strydoedd ac i mewn i geir patrôl. Mae angen y gymuned ar yr heddlu gymaint ag y mae angen yr heddlu ar y gymuned. Mae'n ymwneud â chydweithio, yn yr un modd ag y mae angen deifion ar feddygon gymaint ag y mae angen meddygon ar gleifion.

Credaf ei bod yn bwysig iawn edrych ar y meysydd anoddaf o bolisi cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir a gweld sut y caiff egwyddorion cydgyhyrchu eu defnyddio neu sut y gellid eu defnyddio. O ran yr hyn yr wyf yn ei ddweud, rwy'n dibynnu ar syniadau a gyflwynwyd gan Shaun Kelly, sy'n rheolwr gwaith cymdeithasol profiadol sydd wedi ysgrifennu ar y pwnc hwn. Credaf os edrychwch ar sut rydych yn cynnwys plant, teuluoedd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, y byddech yn gweld y byddai atal ac ymyrraeth gynnar yn aml yn ymgorffori egwyddorion cydgyhyrchu.

Fodd bynnag, mewn perthynas â chofrestrau amddiffyn plant, neu osod plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, mae'n llawer anoddach parhau ag egwyddorion cydgyhyrchu, ac mae'r bwch rhwng y teulu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn agor. Mae llawer yn disgrifio cyfraniad gweithwyr cymdeithasol yn eu bywydau, er enghraifft, fel rhywbeth i'w ofni a'i ohirio; nid ydynt yn ei weld fel cyfle i gydweithio er mwyn dod i benderfyniad ar y cyd. Maent yn teimlo bod anghydbwysedd pŵer mawr. Credaf fod hwnnw'n faes anodd iawn o'r gwaith a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Felly, sut y gallem fynd i'r afael â hyn, gan gadw mewn cof yr egwyddorion cydgyhyrchu? Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori yn yr egwyddorion gwaith cymdeithasol ac egwyddorion grymuso a phartneriaeth. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn symud i sefyllfa lle mae'r pwysau i osgoi peryglon, yn enwedig ym maes amddiffyn plant, mor fawr fel bod perygl ei fod mynd yn fiwrocataidd iawn. Mae cymaint o ofid cyhoeddus, yn ein plith, yn ogystal, pan fydd trychineb yn digwydd, ac mae cymaint o bwysau i osgoi trychinebau yn y dyfodol, fel ei bod yn anodd iawn parhau â'r egwyddorion da hyn o gydgyhyrchu mewn sefyllfa mor anodd.

We all know that the media blames social workers; they are either seen as too zealous in intervening or they are inadequate and do not intervene early enough. I declare an interest, as I am an ex-social worker and I worked in child protection. Anxiety is a major force in the system, and this leads to defensive practice. I think that we should seriously look at how we can reconnect and develop co-productive principles in these very difficult areas, where you are working in areas of acute distress.

However, to succeed in those areas, I think that it is absolutely vital that we continue to work with the co-productive principles, where we are working with, rather than doing to. We must reassert the involvement of families at an early stage of planning: involving children in planning about their own lives, where possible. We must not be too afraid to work in a collaborative way.

A lot of good work has been done by multi-agency working in the courts; for example, the family drug and alcohol courts have a contract between the court and the whole family, which has resulted in more children in care being reunited with their families. I saw such a drugs court in England and in New York, which was very inspirational. The judge, you felt, was working with the people who were appearing before the court.

So, I think that it is very difficult, but I do think that we have to tackle these co-production issues in those very difficult areas, such as child protection.

15:34

## **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#)

First, I thank Mark Isherwood for bringing this subject to the Assembly today. I think that his Liberal Democrat roots are clearly showing, because co-production, of course, is very much a liberal principle, although I am afraid that he did wrap it up a bit in Blairite jargon.

My problem with the motion, as it is set out, is that this is treating co-production as another system of delivery when, clearly, if it is to work properly, it has to operate organically in empowering individuals and enabling them to take control of the services themselves if necessary. I think that it is difficult to look at co-production as a means to deliver public services per se across the whole of the public sector. Certainly, as has just been illustrated by Julie Morgan, it does have a number of contributions to make in a number of services across Wales; it is already in use in many places, where people are working with authorities to deliver services either in partnership or on their behalf.

Gŵyr pawb ohonom fod y cyfryngau yn beio gweithwyr cymdeithasol; maent naill ai yn cael eu gweld yn rhy eiddgar i ymyrryd neu maent yn annigonol ac nid ydynt yn ymyrryd yn ddigon cynnar. Rwy'n datgan buddiant, gan fy mod yn gyn weithiwr cymdeithasol a bùm yn gweithio ym maes amddiffyn plant. Mae pryder yn rym mawr yn y system, ac mae hyn yn arwain at arfer amddiffynnol. Credaf y dylem edrych o ddirif ar sut y gallwn ailgysylltu a datblygu egwyddorion cydgynhyrchiol yn y meysydd anodd hyn, lle rydych yn gweithio mewn meysydd o drallod aciwt.

Fodd bynnag, er mwyn llwyddo yn y meysydd hynny, credaf ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn parhau i weithio gyda'r egwyddorion cydgynhyrchiol, lle'r ydym yn gweithio gyda phobl, yn hytrach na gwneud pethau iddynt. Rhaid inni ailddatgan cyfranogiad teuluoedd ar gam cynnar o gynllunio: gan gynnwys plant wrth gynllunio ar gyfer eu bywydau eu hunain, lle y bo'n bosibl. Rhaid inni beidio â bod yn rhy ofnus i weithio mewn ffordd gydweithredol.

Gwnaed llawer o waith da drwy weithio aml-asiantaeth yn y llysoedd; er enghraifft, mae gan y llysoedd teulu ar gyfer cyffuriau ac alcohol gontract rhwng y llys a'r teulu cyfan, sydd wedi arwain at fwy o blant mewn gofal yn cael eu haduno gyda'u teuluoedd. Gwelais lys cyffuriau o'r fath yn Lloegr ac yn Efrog Newydd, a oedd yn ysbrydoledig iawn. Roeddech yn teimlo bod y barnwr yn gweithio gyda'r bobl a oedd yn ymddangos gerbron y llys.

Felly, credaf ei bod yn anodd iawn, ond rwyf yn credu bod yn rhaid inni fynd i'r afael â'r materion cydgynhyrchu hyn yn y meysydd anodd hynny, megis amddiffyn plant.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Mark Isherwood am ddod â'r pwnc hwn i'r Cynulliad heddiw. Credaf fod ei wreiddiau gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amlwg, gan fod cydgynhyrchu, wrth gwrs, yn egwyddor rhyddfrydol iawn, er fy mod yn ofni ei fod wedi ei lapio mewn jargon Blairaidd braidd.

Fy mhroblem gyda'r cynnig, fel ag y mae, yw bod hyn yn trin cydgynhyrchu fel system gyflenwi arall pan mae'n amlwg, os yw am weithio'n iawn, bod yn rhaid iddi weithredu mewn modd organig i rymuso unigolion a'u galluogi i gymryd rheolaeth o'r gwasanaethau eu hunain os oes angen. Credaf ei bod yn anodd edrych ar gydgynhyrchu fel modd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fel y cyfryw ar draws y sector cyhoeddus cyfan. Yn sicr, fel y dangoswyd gan Julie Morgan, mae ganddo nifer o gyfraniadau i'w gwneud mewn nifer o wasanaethau ledled Cymru; mae eisoes yn cael ei defnyddio mewn nifer o lefydd, lle mae pobl yn gweithio gydag awdurdodau i ddarparu gwasanaethau naill ai mewn partneriaeth neu ar eu rhan.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

A good example of the possibilities is that seen in a discussion that I had with Neath Port Talbot council recently about its proposed closure of libraries. What it is looking to do is to get local community councils, or the communities themselves, to run the libraries and to take them over, rather than them being run by the council. Admittedly, it is a measure that is being forced upon it by the financial crisis in which the council finds itself, but it has clearly led to a situation where it is now talking to local communities about how those communities can deliver a service themselves and put it into practice. I think that key, in a sense, to co-production is making sure that we put in prevention measures early enough and intervene early to make sure that we do not have that situation being forced on us, but that we actually plan ahead for it as part of a public service delivery programme.

When I saw the title of this debate, I did a bit of research, and I found a blog by an author—he is a Liberal Democrat author, but I am sure that he is very good for all that—who had a problem with co-production. He said that co-production is one of those buzz words that echo down the corridors of Whitehall without necessarily touching the walls. It is an important critique of public services and a set of linked proposals to find the untapped resources that can save public services in the next generation, but there is a danger that it just goes into so many official documents that the idea at the heart of it gets rendered meaningless, especially when it gets bundled up with the rhetoric of empowerment.

He goes on to say that despite all the talk from Parliament, from the very top of Governments over the past 15 years, people's lives are not that very different. The power has failed to transfer. Apart from some notable exceptions, the empowerment agenda has not succeeded. Far from being another form of empowerment, co-production is a critique of it. It is a potential explanation of why conventional empowerment has failed. The co-production agenda suggests that the power imbalance has remained, because people have stayed passive. They have not been encouraged to deliver services alongside professionals.

I think that that is a very valid point. We have talked about empowerment for many years; it was obviously part of the Blairite agenda—if I dare use that word. Clearly, the idea was to encourage people to take control of their own communities and the services that come to those communities. Unfortunately, because people have not felt the need to do so, they have not had that imperative thrust upon them. Effectively, that empowerment agenda has fallen by the wayside. I think that the danger is that co-production will go the same way.

As a Liberal Democrat, I support—

Gwelwyd enghraifft dda o'r posibiladau mewn trafodaeth a gefais gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn ddiweddar ynghylch y broses arfaethedig i gau llyfrgelloedd. Yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud yw cael cyngorau cymuned lleol, neu'r cymunedau eu hunain, i redeg y llyfrgelloedd ac i gymryd rheolaeth ohonynt, yn hytrach na'u bod yn cael eu rhedeg gan y cyngor. Rhaid cyfaddef, mae'n fesur sy'n cael ei orfodi arno yn sgil yr argyfwng ariannol y mae'r cyngor yn ei wynebu, ond mae'n amlwg ei fod wedi arwain at sefyllfa lle mae bellach yn siarad â chymunedau lleol am sut y gall y cymunedau hyn ddarparu gwasanaeth eu hunain a'i roi ar waith. Credaf mai'r hyn sy'n allweddol, ar ryw ystyr, i gydgyhyrchu yw gwneud yn siŵr ein bod yn sefydlu mesurau atal yn ddigon cynnar ac yn ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa honno yn cael ei gorfodi arnom, ond ein bod mewn gwirionedd yn cynllunio ymlaen llaw ar ei chyfer fel rhan o raglen o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Pan welais deitl y ddadl hon, gwnes ryw faint o ymchwil, a deuthum o hyd i flog gan awdur—mae'n awdur sy'n Ddemocrat Rhyddfrydol, ond rwy'n siŵr ei fod yn dda iawn er gwaethaf hynny—yr oedd ganddo broblem gyda chydgyhyrchu. Dywedodd fod cydgynhyrchu yn un o'r geiriau ffasiynol hynny sy'n atseinio i lawr coridorau Whitehall heb gyffwrdd y waliau o reidrwydd. Mae'n feirniadaeth bwysig o wasanaethau cyhoeddus a chyfres o gynigion sy'n gysylltiedig er mwyn dod o hyd i'r adnoddau sydd heb eu cyffwrdd a all achub gwasanaethau cyhoeddus yn y genhedlaeth nesaf, ond mae perygl ei fod yn mynd i mewn i gymaint o ddogfennau swyddogol fel y collir ystyr y syniad creiddiol, yn enwedig pan gaiff ei fwndelu i fyny gyda'r rhethreg o rymuso.

Â ymlaen i ddweud, er gwaethaf yr holl siarad o'r Senedd, o frig Llywodraethau'r 15 mlynedd diwethaf, nad yw bywydau pobl yn wahanol iawn. Mae'r pŵer wedi methu â throsglwyddo. Heblaw am rai eithriadau nodedig, nid yw'r agenda grymuso wedi llwyddo. Ymhell o fod yn ffurf arall o rymuso, mae cydgynhyrchu yn feirniadaeth ohono. Mae'n esboniad posibl o pam mae grymuso confensiynol wedi methu. Mae'r agenda cydgynhyrchu yn awgrymu bod yr anghydbwysedd pŵer yn parhau, oherwydd bod pobl wedi parhau i fod yn oddefol. Nid ydynt wedi cael eu hannog i ddarparu gwasanaethau ochr yn ochr â gweithwyr profesiynol.

Credaf fod hynny'n bwynt dilys iawn. Rydym wedi sôn am rymuso ers blynyddoedd lawer; roedd yn amlwg yn rhan o'r agenda Blairaidd—os meiddiaf ddefnyddio'r gair hwnnw. Yn amlwg, y syniad oedd annog pobl i gymryd rheolaeth o'u cymunedau eu hunain a'r gwasanaethau a ddarperir i'r cymunedau hynny. Yn anffodus, gan nad yw pobl wedi teimlo'r angen i wneud hynny, nid ydynt wedi gorfod gwneud hynny. I bob pwrpas, mae'r agenda grymuso wedi mynd yn angof. Credaf mai'r perygl yw y bydd yr un peth yn digwydd i gydgyhyrchu.

Fel Democrat Rhyddfrydol, rwy'n cefnogi—

15:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A dderbyniwch ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:38	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, certainly, Mike.</p>	<p>Gwnaf, yn sicr, Mike.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:38	<p><b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Is not one of the big problems that co-production is between very small organisations or small groups of people and very large councils?</p>	<p>Onid un o'r problemau mawr yw bod cydgyhyrchu rhwng sefydliadau bach iawn neu grwpiau bach o bobl a chynghorau mawr iawn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:38	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>If I did not know better, Mike, I might have thought that you read my brief, Mike. [Laughter.] As Liberal Democrats, we support the principle of co-production. If we want to empower people to play an active part in building the services that they receive, they have to be encouraged to play that part and be supported by the professionals and staff that they are working with. I think that, as Mike has said, it works better on a local, small scale rather than the big scale that is envisaged by the motion.</p> <p>One of the things that we do support is the Localism Act, empowering cities and other local areas. That Act has seen a programme of decentralisation of power to local government in decades. I am going to mention another thing that I often mention in this Chamber, namely tax increment financing, which, of course, is a form of empowerment where you empower local authorities by enabling them to take control of perceived revenues from redevelopment and use that money to invest and make that redevelopment come about.</p> <p>I think, Presiding Officer, that this is a very big subject and a very big agenda. Certainly, I think that we need to make a start on it and I hope that the Government will at least listen to it.</p>	<p>Pe na wyddwn yn wahanol, Mike, byddwn wedi meddwl eich bod wedi darllen fy mrieff. [Chwerthin.] Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym yn cefnogi'r egwyddor o gydgyhyrchu. Os ydym am rymuso pobl i chwarae rhan weithredol yn adeiladu'r gwasanaethau a gânt, rhaid iddynt gael eu hannog i chwarae'r rhan honno a chael eu cefnogi gan y gweithwyr proffesiynol a'r staff sy'n cydweithio â hwy. Credaf, fel y dywedodd Mike, ei fod yn gweithio'n well ar raddfa leol, fach yn hytrach na'r raddfa fawr a ragwelir gan y cynnig.</p> <p>Un o'r pethau yr ydym yn ei gefnogi yw'r Ddeddf Lleoliaeth, grymuso dinasoedd ac ardaloedd lleol eraill. Mae'r Ddeddf honno wedi arwain at raglen o ddatganoli grym i lywodraeth leol dros ddegawdau. Rwyf am sôn am rywbeth arall yr wyf yn aml yn sôn amdano yn y Siambr hon, sef ariannu drwy gynyddu treth, sydd, wrth gwrs, yn fath o rymuso lle rydych yn rhoi grym i awdurdodau lleol drwy eu galluogi i gymryd rheolaeth o refeniw canfyddedig o ailddatblygu a defnyddio'r arian hwnnw i fuddsoddi a rhoi'r broses aildatblygu ar waith.</p> <p>Lwydd, credaf fod hwn yn bwnc mawr iawn ac yn agenda fawr iawn. Yn sicr, credaf fod angen inni fwrw ati a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth o leiaf yn gwrandao arno.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:39	<p><b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am pleased to take part in this debate. I hope that the Labour Government will learn something about what can be achieved if communities are trusted and empowered. I have to say that, on the whole, in our devolution experience of public service delivery in Wales, there has been a very one dimensional, top-down, command-and-control-led approach. That is not just a Welsh Conservative view; that is a recurring view of organisations looking in at what we are doing here in Wales. The Government here has been dogmatically tied to a very stale view of state delivery that is some 40 years out of date. It is very staid in its approach, and it seems unwilling, in my view, to positively borrow best-practice models that are being delivered elsewhere, whether that be in the UK or in other parts of the world.</p>	<p>Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth Lafur yn dysgu rhywbeth am yr hyn y gellir ei gyflawni os ymddiriedir mewn cymunedau ac os cânt eu grymuso. Rhaid imi ddweud, ar y cyfan, yn ein profiad o ddatganoli'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, y gwelwyd dull un dimensiwn, o'r brig i lawr, sy'n seiliedig ar orchymyn a rheoli. Nid dim ond barn y Ceidwadwyr Cymreig yw hynny; dyna hefyd farn a welir dro ar ôl tro gan sefydliadau sy'n edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yma wedi glynu'n athrawiaethol at farn hen iawn o ddarpariaeth gan y wladwriaeth sydd tua 40 mlynedd ar ei hôl hi. Mae'n ddull digyffro iawn, ac yn fy marn i, mae'n ymddangos yn amharod i fabwysiadu'n gadarnhaol fodelau arfer gorau sy'n cael eu cyflwyno mewn mannau eraill, boed hynny yn y DU neu mewn rhannau eraill o'r byd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



To give the Government some credit, I welcomed the First Minister's actions in establishing the Williams commission to look at the future of public service governance and delivery. However, despite what Williams recommends regarding the future shape of Welsh local government, it has not changed the fact that those new authorities will still be required to be inventive and pioneering, shaping solutions for how services can be delivered more effectively and efficiently.

I have heard a number of times over the last two and a half years in this Chamber that the Welsh Government is an enabling Government, and that self-affirming mantra has probably been used more than most by the Minister for Natural Resources and Food. However, if it was an enabling Government, and if it truly believed in self-determination, as I do, I would be looking to devolve more powers, not just to local authorities, but beyond that, to local town and community councils and other sectors in our community. Governments here, since devolution, have been very centralist Governments, in my view. The Carnegie UK Trust has undertaken an extensive examination of co-production activity across the UK. My colleague Mark Isherwood has already quoted from its paper, 'The Enabling State: From Rhetoric to Reality'. The paper presents various case studies from across the UK, making its case for how co-production could be expanded in each nation. In examining Wales, the report focused on the public service leadership group and the effective services for vulnerable groups programme, and it states that the

'programme in Wales is interesting in that it is the most 'top down' example in our collection.'

One of the interviewees raised concerns about whether this style of approach could effectively catalyse the radical changes in service delivery that define a more enabling approach. It also states that of all Governments taking part in the co-production project, Wales operates with the most Government-directed system of any of the countries involved. While the report is insightful on a range of things on the issues of top-down Government, it does not tell us anything that we do not already know: centralisation of power and control is a pre-disposition of this Government. However, I am an optimist, so I believe that things can change if this Government has the political will to do that. However, I am not expecting a wholesale transfer of public services to communities or that this Government will open up the door to the private sector to assist in shaping new delivery models, but it could start by developing the co-production agenda further with the third sector in Wales. I think that that would be a very good place to start. For the Government, that would be a safe place to start, because it wants a stronger relationship with you on this agenda and has made that point expressly clear in its recent evidence to you in your relationship review. I will end with a quote from the Wales Council for Voluntary Action that Mark Isherwood opened with:

Er mwyn rhoi rhywfaint o glod i'r Llywodraeth, croesewais gamau'r Prif Weinidog wrth sefydlu comisiwn Williams i edrych ar ddyfodol llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyn y mae Williams yn ei argymhell ynglŷn â siâp llywodraeth leol Cymru yn y dyfodol, nid yw wedi newid y ffaith y bydd yn dal yn ofynnol i'r awdurdodau newydd hynny fod yn ddyfeisgar ac arloesol, gan lunio atebion ar gyfer sut y gellir darparu gwasanaethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Rwyf wedi clywed sawl gwaith yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf yn y Siambr hon bod Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth sy'n galluogi, ac mae'n debyg mai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd sydd wedi defnyddio'r mantra hunan-gadarnhaol hwn fwyaf. Fodd bynnag, pe byddai'n Llywodraeth sy'n galluogi, a phe byddai wir yn credu mewn hunan-benderfyniad, fel yr wyf i'n ei wneud, byddwn yn awyddus i ddatganoli mwy o bwerau, nid dim ond i awdurdodau lleol, ond y tu hwnt i hynny, i gynghorau tref a chymuned lleol ac i sectorau eraill yn ein cymuned. Mae Llywodraethau yma, ers datganoli, wedi bod yn Llywodraethau canoliaethol iawn, yn fy marn i. Mae Ymddiriedolaeth Carnegie y DU wedi cynnal archwiliad helaeth o weithgarwch cydgynhyrchu ledled y DU. Mae fy nghyd-Aelod Mark Isherwood eisoes wedi dyfynnu o'i phapur, 'The Enabling State: From Rhetoric to Reality'. Mae'r papur hwn yn cyflwyno amrywiaeth o astudiaethau achos o bob cwr o'r DU, gan wneud ei achos drws sut y gellid ehangu cydgynhyrchu ym mhob gwlad. Wrth archwilio Cymru, canolbwyntiodd yr adroddiad ar y grŵp arwain gwasanaethau cyhoeddus a'r rhaglen gwasanaethau effeithiol ar gyfer grwpiau agored i niwed, ac mae'n nodi bod y

rhaglen yng Nghymru yn ddiddorol gan mai hon yw'r enghraifft sydd fwyaf o'r brig i lawr yn ein casgliad.

Cododd un o'r rhai a gyfwelwyd bryderon ynghylch a allai'r math hwn o ddull gatalyddu'n effeithiol y newidiadau radical yn y gwasanaethau a ddarperir sy'n diffinio dull mwy galluogol. Mae hefyd yn nodi o'r holl Lywodraethau sy'n cymryd rhan yn y prosiect cydgynhyrchu, mai Cymru sy'n gweithredu gyda'r system a gyfeirir fwyaf gan y Llywodraeth yn unrhyw un o'r gwledydd sy'n cymryd rhan. Er bod yr adroddiad yn graff ar amrywiaeth o bethau mewn perthynas â Llywodraeth o'r brig i lawr, nid yw'n dweud unrhyw beth wrthym nad ydym yn ei wybod yn barod: mae'r Llywodraeth hon yn dueddol o ganoli pŵer a rheolaeth. Fodd bynnag, rwy'n optimydd, felly rwy'n credu y gall pethau newid os bydd gan y Llywodraeth hon yr ewyllys gwledyddol i wneud hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus gael eu trosglwyddo yn eu cyfanrwydd i gymunedau nac y bydd y Llywodraeth hon yn agor y drws i'r sector preifat gynorthwyo wrth lunio modelau cyflenwi newydd, ond gallai ddechrau drwy ddatblygu'r agenda cydgynhyrchu ymhellach gyda'r trydydd sector yng Nghymru. Credaf y byddai hynny'n lle da iawn i ddechrau. Byddai'n lle diogel i'r Llywodraeth ddechrau, gan ei bod am gael perthynas gryfach gyda chi ar yr agenda hon ac mae wedi egluro hynny yn ei dystiolaeth ddiweddar ichi yn eich adolygiad o gydbertynas. Rwyf am orffen gyda dyfyniad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a ddefnyddiodd Mark Isherwood ar y dechrau:

'Welsh Government and the sector need to refresh current engagement mechanisms to develop, promote and monitor a Programme for Action based upon co-production and common ground.'

I hope that the Government will do just that.

15:44

## **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Localism is about decentralisation. It is about transferring power from central Government to local authorities. More importantly to my mind, it is about empowering communities so that they have a bigger say in the issues that matter to them. The coalition agreement of May 2010 states that

'the time has come to disperse power more widely in Britain today'.

I agree with this.

The Localism Act 2011 set out a series of measures with the potential to achieve a substantial shift of power towards local people. It phased in six rights under the community rights agenda. I wish to address my remarks this afternoon to just two of these rights, namely the community right to challenge and the community right to bid.

First, on the community right to challenge, innovation in public services can offer greater value for taxpayers' money and better results for local communities. The best councils in Wales are constantly on the lookout for new and better ways to design and deliver local services. Many recognise the potential of social enterprises and community groups to provide high-quality services at good value. They work together to deliver these services. However, in some cases, people have found their good ideas overlooked and there is little opportunity to contribute to improve services in the way they wish. Voluntary and community groups can feel neglected when, in fact, they carry out some of the most innovative and effective work. We should be encouraging such groups to become more involved. The Localism Act gives groups and individuals the right to express an interest in taking over the running of a local authority service. This makes it easier for local groups to put forward good and innovative ideas and drive forward the improvement in local services.

Secondly, on the right to bid, every community is home to buildings or amenities that play a vital role in local life. These include community centres, libraries, swimming pools, village shops, markets—which are very important to the local economy—and pubs. The closure of these assets can present a real loss to the community. Community groups often need more time to organise a bid and to raise money than the private enterprises that may be bidding against them.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sector adfywio dulliau ymgysylltu presennol i ddatblygu, hyrwyddo a monitro Rhaglen Weithredu yn seiliedig ar gydgyhyrchu a thir cyffredin.

Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn gwneud hynny.

Mae a wnelo lleoliaeth â datganoli. Mae'n ymwneud â throsglwyddo pŵer o Lywodraeth ganolog i awdurdodau lleol. Yn bwysicach yn fy meddwl i, mae'n ymwneud â grymuso cymunedau er mwyn iddynt gael mwy o lais yn y materion sy'n bwysig iddynt hwy. Nododd cytundeb y glymblaid o fis Mai 2010

mae'r amser wedi dod i wasgaru pŵer yn fwy eang ym Mhrydain heddiw.

Cytunaf â hyn.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn nodi cyfres o fesurau sydd â'r potensial o symud pŵer yn helaeth tuag at bobl leol. Cyflwynodd chwe hawl yn raddol o dan yr agenda hawliau cymunedol. Hoffwn gyfeirio fy sylwadau y prynhawn yma at ddim ond dwy o'r hawliau hyn, sef hawl y gymuned i herio a hawl y gymuned i wneud cais.

Yn gyntaf, o ran hawl y gymuned i herio, gall arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus gynnig mwy o werth am arian trethdalwyr a chanlyniadau gwell i gymunedau lleol. Mae'r cynghorau gorau yng Nghymru yn gyson yn chwilio am ffyrdd newydd a gwell o gynllunio a darparu gwasanaethau lleol. Mae llawer yn cydnabod potensial mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel am werth da. Maent yn cydweithio i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae pobl wedi gweld bod eu syniadau da yn cael eu hanwybyddu ac nid oes llawer o gyfle i gyfrannu at y broses o wella gwasanaethau yn y ffordd y maent yn dymuno. Gall grwpiau gwirfoddol a chymunedol deimlo eu bod yn cael eu hesgeuluso pan maent, mewn gwirionedd, yn cyflawni rhywfaint o'r gwaith mwyaf arloesol ac effeithiol. Dylem annog grwpiau o'r fath i gymryd mwy o ran. Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn rhoi'r hawl i grwpiau ac unigolion fynegi diddordeb mewn cymryd rheolaeth o'r gwaith o redeg gwasanaeth awdurdod lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i grwpiau lleol gyflwyno syniadau da ac arloesol ac yn rhoi hwb i'r gwelliant mewn gwasanaethau lleol.

Yn ail, o ran yr hawl i wneud cais, mae pob cymuned yn cynnwys adeiladau neu amwynderau sy'n chwarae rhan hanfodol mewn bywyd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, pyllau nofio, siopau pentref, marchnadoedd—sy'n bwysig iawn i'r economi leol a thafarndai. Gall cau'r asedau hyn arwain at golled wirioneddol i'r gymuned. Yn aml, mae angen mwy o amser ar grwpiau cymunedol i drefnu cais ac i godi arian o gymharu â'r mentrau preifat a allai fod yn gwneud cais yn eu herbyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Localism Act requires local authorities to maintain a list of assets of community value. These will have been nominated by the local communities themselves. Should these listed assets come up for sale or have a change of ownership, community groups will have the time to develop a bid and to raise the funds required to keep these assets as part of local life, which is very important to keep the customs, traditions and values within the societies, communities and villages of Wales. I believe that these rights should be extended to Wales to enhance the existing community asset transfer programme and the community facilities and activities programme. The Welsh Government has chosen not to introduce sections 87 to 108 of the Act in Wales. I call on the Minister to look at this once again to make sure that Wales is not left behind, and so that local communities have their own say, have their own values within their own hands, and say what they want to do for the best, suitable for their own needs. I call on the Minister to look at this once again.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw rhestr o asedau o werth cymunedol. Bydd y rhain wedi cael eu henwebu gan y cymunedau lleol eu hunain. Pe byddai'r asedau rhestredig hyn yn mynd ar werth neu'n newid perchnogaeth, caiff grwpiau cymunedol amser i ddatblygu cais ac i godi'r arian sydd ei angen i gadw'r asedau hyn fel rhan o fywyd lleol, sy'n bwysig iawn er mwyn cadw'r arferion, y traddodiadau a'r gwerthoedd o fewn cymdeithasau, cymunedau a phentrefi Cymru. Credaf y dylai'r hawliau hyn gael eu hymestyn i Gymru er mwyn gwella'r rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol bresennol a'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chyflwyno adrannau 87 i 108 o'r Ddeddf yng Nghymru. Galwaf ar y Gweinidog i edrych ar hyn unwaith eto er mwyn gwneud yn siŵr nad yw Cymru'n cael ei gadael ar ôl, ac felly bod cymunedau lleol yn cael dweud eu dweud eu hunain, yn gallu rheoli eu gwerthoedd eu hunain, a dweud beth y maent am ei wneud am y gorau, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion eu hunain. Galwaf ar y Gweinidog i edrych ar hyn unwaith eto.

The community rights agenda is true devolution. This devolution means real power in the hands of people. As my friend Mark Isherwood said, 'Power to the people', which we are all here for. We must cut down on all this red tape. I hope that this Assembly will support this motion.

Mae'r agenda hawliau cymunedol yn enghraifft o ddatganoli gwirioneddol. Mae'r datganoli hwn yn golygu gwir bŵer yn nwylo'r bobl. Fel y dywedodd fy nghyfaill Mark Isherwood, 'Pŵer i'r bobl', a dyna pam mae pob un ohonom yma. Rhaid inni leihau'r holl ficrocratiaeth hon. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad hwn yn cefnogi'r cynnig hwn.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for local government, Lesley Griffiths, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth leol, Lesley Griffiths, i siarad ar ran y Llywodraeth.

15:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

The Welsh Government's position in this debate stems from our belief in the value of our public services in Wales. Ours is an approach rooted in co-operation, not competition, and a belief in the benefits of pooling our collective efforts to meet the common challenges that we all face.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn y ddatl hon yn deillio o'n cred yng ngwerth ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cydweithredu sydd wrth wraidd ein dull ni, nid cystadleuaeth, a chred yn y buddiannau a geir o grynhoi ein hymdrechion ar y cyd i ateb yr heriau cyffredin y mae pob un ohonom yn eu hwynebu.

The importance that we attach to public services is demonstrated by our commitment to support front-line services today, and to ensure that they are sustainable for the future. The perfect storm of the deep and lasting pressures on all our budgets due to decisions by the UK coalition Government, coupled with rising demands and expectations of our public services, means that they have to undergo transformational change.

Mae'r pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar wasanaethau cyhoeddus yn cael ei ddangos yn ein hymrwymiad i gefnogi gwasanaethau rheng flaen heddiw, ac i sicrhau eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol. Mae storm enfawr y pwysau dwfn a pharhaus ar ein holl gyllidebau o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth glymblaid y DU, ynghyd â gofynion a disgwyliadau cynyddol ein gwasanaethau cyhoeddus, yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu trawsnewid.

The Welsh Government is proud of our approach, which ensures that this change is founded on our values of fairness and social justice and is developed in partnership with communities and people across Wales. Every single day, public services save lives and change lives for the better. We believe that public services need to be built on transparency and accountability and that the voices of service users need to be heard loud and clear. We have a strong record in Wales of public service professionals supporting people and communities to be directly involved in the design and delivery of public services. These public services need to be responsive to service users' needs. It is this approach that will achieve the genuine involvement of people and communities.

The motion before you, tabled by the Welsh Conservative Party, does not reflect this ethos—not surprisingly—and neither does it acknowledge the benefits and achievements of the Welsh Government's approach of co-operation and partnership, and the progress that we have made in relation to this agenda. I therefore call on Members to reject the motion. We also oppose both amendments from Elin Jones. While they do more closely reflect the approach that we are taking in Wales, I do not believe that the original motion can be amended to address its obvious flaws.

'Co-production' is one of those chameleon terms, which seems to take on the colours of those who use it. We have Peter Black's description—he called it a 'buzz word'—but for Welsh Conservative colleagues, today's debate has made clear that their view of co-production is as an antidote to collective provision and as a means to extricate the state from its responsibilities to the most vulnerable. By contrast, our vision of co-production is built on substance, not aspiration. I think that Julie Morgan's contribution clearly demonstrated that. It views local government and all our public services as an enabler, to protect and support our people and our communities across Wales. Our understanding of co-production is giving citizens a greater voice to express their needs and give them meaningful control over the decisions affecting their day-to-day lives. I totally reject the idea that any model built on competitive choice is right for Wales.

Nationally, there are a number of important examples that illustrate our commitment to co-production.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'n dull o weithredu, sy'n sicrhau bod y newid hwn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol ac yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â chymunedau a phobl ledled Cymru. Bob dydd, mae gwasanaethau cyhoeddus yn achub bywydau ac yn newid bywydau er gwell. Credwn fod angen adeiladu gwasanaethau cyhoeddus ar dryloywder ac atebolrwydd a bod angen i leisiau defnyddwyr gwasanaethau gael eu clywed yn uchel ac yn glir. Mae gennym hanes cryf yng Nghymru o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi pobl a chymunedau i gymryd rhan uniongyrchol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus hyn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Y dull hwn a fydd yn sicrhau cyfranogiad gwirioneddol gan bobl a chymunedau.

Nid yw'r cynnig sydd ger eich bron, a gyflwynwyd gan Blaid Geidwadol Cymru, yn adlewyrchu'r ethos hwn—nid yw hyn yn syndod—ac nid yw ychwaith yn cydnabod buddiannau a chyflawniadau dull Llywodraeth Cymru o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, a'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud mewn perthynas â'r agenda hon. Felly, galwaf ar yr Aelodau i wrthod y cynnig. Rydym hefyd yn gwrthwynebu'r ddau welliant gan Elin Jones. Er eu bod yn adlewyrchu'n agosach y dull rydym yn ei fabwysiadu yng Nghymru, ni chredaf y gellir diwygio'r cynnig gwreiddiol i fynd i'r afael â'i ddiffygion amlwg.

Mae 'cydgynhyrchu' yw un o'r termau cameleonaid hynny, y mae'n ymddangos ei fod yn mabwysiadu lliwiau'r rhai sy'n ei ddefnyddio. Mae gennym ddisgrifiad Peter Black—fe'i galwodd yn 'air ffasiynol'—ond i gyd-Aelodau Ceidwadwyr Cymreig, mae dadl heddiu wedi dangos bod eu barn ynghylch cydgynhyrchu yn mynd yn groes i ddarpariaeth ar y cyd ac fel ffordd o ryddhau'r wladwriaeth o'i chyfrifoldebau tuag at y rhai mwyaf agored i niwedd. Ar y llaw arall, mae ein gweledigaeth o gydgynhyrchu wedi ei adeiladu ar sylwedd, nid dyhead. Credaf fod cyfraniad Julie Morgan wedi dangos hynny'n glir. Mae'n ystyried llywodraeth leol a'n holl wasanaethau cyhoeddus yn alluogwr, i ddiogelu a chefnogi ein pobl a'n cymunedau ledled Cymru. Mae ein dealltwriaeth o gydgynhyrchu yn rhoi mwy o lais i ddinasyddion fynegi eu hanghenion ac yn rhoi rheolaeth ystyrion iddynt dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwrthodaf yn llwyr y syniad bod unrhyw fodel a adeiladwyd ar ddewis cystadleuol yn iawn i Gymru.

Yn genedlaethol, mae nifer o enghreifftiau pwysig sy'n dangos ein hymrwymiad i gydgynhyrchu.

15:52

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Do you agree with Co-production Wales that this is about shared responsibility, rather than abdication of public sector responsibility, which is the argument that we are putting today?

A gytunwch â Chydgynhyrchu Cymru bod hyn yn ymwneud â chyfrifoldeb ar y cyd, yn hytrach nag ymwrthod â chyfrifoldeb yn y sector cyhoeddus, sef y ddadl yr ydym yn ei chyflwyno heddiu?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:52

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

It is about shared responsibility, but it is not about just passing over services. It is about having that transformational change that we have brought into our public services.

Mae'n ymwneud â rhannu cyfrifoldeb, ond mae'n golygu mwy na throsglwyddo gwasanaethau. Mae'n ymwneud â sicrhau'r trawsnewidiad hwnnw yr ydym wedi ei gyflwyno yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I want to give some examples of our commitment to co-production. It is a central part of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, which is intended to embed in law our commitment to ensuring that social services are based on this approach, at both an individual and a service level. Our Families First programme places emphasis on a family-focused approach, where service users and their needs are placed at the heart of service delivery. Communities First is clearly such an example.

I saw excellent examples of strong and committed co-production and collaborative working during my visits to local authorities over the summer. One example was Beaumaris leisure centre, which is now being run as a not-for-profit social enterprise by volunteers. It offers a range of activities, including fitness and cultural activities, and works in partnership with local surgeries and Betsi Cadwaladr University Local Health Board to provide GP-referral rehabilitation sessions.

You talked about grant schemes that are in the portfolio of my colleague Jeff Cuthbert, the community facilities and activities programme and the community asset transfer fund. They are now closed to new applications. Far from needing additional promotion, both schemes were very successful and demand outstripped the funding available. We are able to find projects that have benefited from CFAP right across all local authority areas and in all of our constituencies and regions.

Co-operation and co-production, not division and competition; that is the Welsh Labour Government approach.

15:54 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

Rwyf am roi rhai enghreifftiau o'n hymrwymiad i gydgyhyrchu. Mae'n rhan ganolog o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), y bwriedir iddo ymgorffori yn y gyfraith ein hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar y dull hwn, ar lefel unigol a lefel gwasanaeth. Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn rhoi pwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, lle mae defnyddwyr gwasanaeth a'u hanghenion yn cael eu rhoi wrth wraidd y gwasanaethau a ddarperir. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn amlwg yn enghraifft o hyn.

Gwelais enghreifftiau ardderchog o gydgyhyrchu cryf ac ymrwymedig yn ystod fy ymweliadau ag awdurdodau lleol dros yr haf. Un enghraifft oedd canolfan hamdden Biwmares, sydd bellach yn cael ei rhedeg fel menter gymdeithasol ddielw gan wirfoddolwyr. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ffitrwydd a gweithgareddau diwylliannol, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â meddygyfeydd lleol a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu sesiynau adsefydlu drwy atgyfeiriad gan feddygon teulu.

Soniasoch am gynlluniau grant sydd ym mhortffolio fy nghyd-Aelod Jeff Cuthbert, y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol a'r gronfa trosglwyddo asedau cymunedol. Maent bellach wedi rhoi'r gorau i dderbyn ceisiadau newydd. Nid oedd angen i'r ddau gynllun gael cyhoeddusrwydd pellach o bell ffordd, ac roeddent yn llwyddiannus iawn ac roedd mwy o alw na'r cyllid sydd ar gael. Gallwn ddod o hyd i brosiectau sydd wedi elwa ar y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol ym mhob ardal awdurdod lleol ac ym mhob un o'n hetholaethau a'u rhanbarthau.

Cydweithredu a chyd-gynhyrchu, nid rhannu a chystadlu; dyna yw dull Llywodraeth Lafur Cymru.

15:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No.

It is an approach driven by the values of protecting the vulnerable and is based on equity and fairness. It is based on recognising and building on the strengths of our communities, rather than cutting them adrift and leaving them to tackle their problems alone. I give way.

A wnech ildio?

Na wnaif.

Mae'n ddull a gaiff ei yrru gan werthoedd amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac mae'n seiliedig ar gydraddoldeb a thegwch. Mae'n seiliedig ar gydnabod cryfderau ein cymunedau ac adeiladu arnynt, yn hytrach na'u taflu o'r neilltu a gadael iddynt fynd i'r afael â'u problemau ar eu pen eu hunain. Ildiaf.

15:54 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fail to see which part of our motion refers to competition and division, which you are constantly saying that we are talking about here today. It seems that you are not a million miles away from us in terms of your view on co-production. With which part of our motion can you not agree?

Ni allaf weld pa ran o'n cynnig sy'n cyfeirio at gystadlu a rhannu, yr ydych yn dweud yn gyson ein bod yn sôn amdanynt yma heddiw. Mae'n ymddangos nad yw eich barn ar gydgyhyrchu mor wahanol â hynny i'n barn ni. Pa ran o'n cynnig na allwch gytuno arni?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are several parts, and I said at the outset why I did not agree with it. It is because I do not think that you recognise the progress that we have made. You only have to look at what came out of David Cameron's mouth while he was sitting on a golden throne at some banquet, preaching about austerity: he wants to ensure that this austerity period continues and he clearly said that we need to do more with less, not just now, but permanently. It is about the transformational change that is needed in our public services that you do not recognise.

Another difference in our approach, which I can clearly demonstrate, is epitomised by the abolishment of council tax benefit by the UK Government, which then unceremoniously shifted the problem of supporting the most vulnerable to local and devolved governments. In England, we have had the development of individual schemes, which, for many councils, has meant duplication, and a postcode lottery around levels of support. By contrast, in Wales, our council tax reduction scheme rests on a national framework and, with additional funding from us, has ensured that that support is sustained for the most vulnerable in our society.

It is the Welsh Government and this Assembly that decide on the policies that we adopt in relation to public services, not the UK Government. Where there are elements of the Localism Act that align with our approach, we have introduced them—for instance, those in line with our commitment to transparency and accountability. I am currently consulting on revised guidance on pay policy statements under the Localism Act, with sensible proposals about how local authorities should take decisions on officers' pay, particularly those in highly paid positions.

However, we have our own vision for public services firmly rooted in what works best for Wales. What I want to see are high quality, effective and sustainable public services and I am very proud of the progress that we have made in laying the foundations for public sector reform in Wales. Yes, we still await the findings of the Williams commission, but we must not take our eyes off the ball. I believe that we have fostered a genuine spirit of engagement and co-production with public service partners and employees, as well as with our communities and the people of Wales. Remaining true to this approach will ensure that, together, we achieve the changes required and we continue to deliver high-quality citizen-centred services for all, not choice for the few.

Through this and through being true to our values of fairness and social justice, we can help to ensure that our public services are the best that they can be, and continue to make a real difference to people's lives.

Mae sawl rhan, a dywedais ar y dechrau pam nad oeddwn yn cytuno ag ef. Mae oherwydd na chredaf eich bod yn cydnabod y cynnydd yr ydym wedi'i wneud. Does ond rhaid i chi edrych ar yr hyn a ddywedodd David Cameron pan oedd yn eistedd ar orsedd aur mewn rhyw wledd, yn pregethu am lymder: mae am sicrhau bod y cyfnod hwn o lymder yn parhau a dywedodd yn glir bod angen inni wneud mwy gyda llai, nid dim ond nawr, ond yn barhaol. Mae'n ymwneud â'r trawsnewidiad sydd ei angen yn ein gwasanaethau cyhoeddus nad ydych yn ei gydnabod.

Caiff gwahaniaeth arall yn ein dulliau o weithredu, y gallaf ei ddangos yn glir, ei gynrychioli gan broses Llywodraeth y DU o ddiddymu budd-dal treth gyngor, a drosglwyddodd yn ddiseremoni y broblem o gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i niwed i lywodraethau lleol a datganoledig. Yn Lloegr, gwelsom gynlluniau unigol yn cael eu datblygu, sydd, i lawer o gynghorau, wedi golygu dyblygu gwaith, a loteri codau post mewn perthynas â lefelau o gefnogaeth. Ar y llaw arall, yng Nghymru, mae ein cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn dibynnu ar fframwaith cenedlaethol a, gyda chyllid ychwanegol gennym ni, mae wedi sicrhau bod y cymorth yn cael ei gynnal i'r sawl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn sy'n penderfynu ar y polisiâu yr ydym yn eu mabwysiadu mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, nid Llywodraeth y DU. Lle mae elfennau o'r Ddeddf Lleoliaeth sy'n cyd-fynd â'n dull, rydym wedi eu cyflwyno—er enghraifft, y rhai sy'n unol â'n hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd. Ar hyn o bryd rwy'n ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar ddatganiadau polisi tâl o dan y Ddeddf Lleoliaeth, gyda chynigion synhwyrol am sut y dylai awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ar dâl swyddogion, yn enwedig y rhai sydd mewn swyddi cyflog uchel.

Fodd bynnag, mae ein gweledigaeth ein hunain ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wedi'i gwreiddio'n gadarn yn yr hyn sy'n gweithio orau i Gymru. Yr hyn yr wyf am ei weld yw gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel, ac rwy'n falch iawn o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth osod y sylfeini ar gyfer diwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Ydym, rydym yn dal i aros am ganfyddiadau comisiwn Williams, ond rhaid inni gadw ein golwg ar y nod. Credaf ein bod wedi meithrin ysbryd gwirioneddol o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gyda phartneriaid a chyfogeion gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â gyda'n cymunedau a phobl Cymru. Drwy lynu at y dull hwn byddwn yn sicrhau, gyda'n gilydd, ein bod yn cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol ac rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bawb, nid rhoi dewis i'r ychydig.

Drwy hyn a thrwy fod yn driw i'n gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol, gallwn helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus cystal ag y gallant fod, ac yn parhau i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Janet Finch-Saunders to reply to the debate.

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i ymateb i'r ddadl.

I thank Mark Isherwood for opening up this debate, focusing on effective public service delivery by means of co-production and the importance of empowering our communities and our residents too. Julie James and Peter Black endorsed the co-production part of our motion, and, in some parts, the community right to bid.

Today's debate is about setting out our stall on handing power back to our communities. The Conservatives believe that power belongs at the most local level, but in recent history, here in Wales, this has coalesced at too high and too central a level. A process of decentralisation is now needed to give this power back to our communities where it rightly belongs.

In Wales, the right to empower communities has not become a central thread within the Welsh Government as regards our communities. On the community asset transfer allowing local authorities to transfer publicly owned assets to communities, there are no publicly available case studies to demonstrate its success, or otherwise. The community facilities and activities programme has provided funding for 860 projects, and yet it has not undergone a single review since 2007, with sparse information on its future.

I was heartened to hear that Rhodri Glyn Thomas AM endorsed and agreed with the main thrust of the community rights and co-production principles that we advocate today. The successes of localism include abolishing regional strategies and the comprehensive area agreements. Suzy Davies eloquently talked about silo working as negative, and evaluation partnerships and the better use of our resources for our communities. This is about the removal of some 4,700 top-down targets associated with local area agreements. We want to see a Wales where local communities are given greater control over their own destinies.

The Localism Act has established community rights, empowering communities and protecting and developing what is important to them. The community right to bid enables communities to list local amenities, such as pubs, as Mohammad Asghar very eloquently pointed out, leisure centres and post offices, as assets of community value on local authority registers, offering protection for communities when community assets are faced with closure or demolition through a six-month moratorium enabling local groups to bid or challenge these decisions. The right to bid allows community groups to develop a business plan and obtain funding or grants to take over and run a much valued community asset. The Campaign for Real Ale has highlighted the beneficial effect of this on saving local pubs, with over 100 listed this year alone in England as part of its List Your Local campaign. Compare that with Wales, where this right does not exist: between September 2012 and March 2013, two pubs closed here every week. It is shameful.

Diolch i Mark Isherwood am agor y ddadl hon, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol trwy gydgyhyrchu a phwysigrwydd grymuso ein cymunedau a'n trigolion hefyd. Cymeradwyodd Julie James a Peter Black y rhan o'n cynnig oedd yn ymwneud â chydgyhyrchu, ac, mewn rhai rhannau, hawl y gymuned i wneud cais.

Mae dadl heddiw yn ymwneud â nodi ein safbwynt ar drosglwyddo pŵer yn ôl i'n cymunedau. Cred y Ceidwadwyr fod pŵer yn perthyn ar y lefel fwyaf lleol, ond yn ddiweddar, yma yng Nghymru, mae hyn wedi uno ar lefel rhy uchel a rhy ganolog. Bellach, mae angen proses o ddatganoli i roi'r pŵer hwn yn ôl i'n cymunedau lle y dylai fod.

Yng Nghymru, nid yw'r hawl i rymuso cymunedau wedi dod yn edau ganolog o fewn Llywodraeth Cymru o ran ein cymunedau. O ran trosglwyddo asedau cymunedol lle caniateir i awdurdodau lleol drosglwyddo asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd i gymunedau, nid oes unrhyw astudiaethau achos ar gael i'r cyhoedd i ddangos ei lwyddiant, neu fel arall. Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi darparu cyllid ar gyfer 860 o brosiectau, ac eto nid yw wedi bod yn destun yr un adolygiad ers 2007, a phrin yw'r wybodaeth am ei dyfodol.

Cefais fy nghalonogi o glywed bod Rhodri Glyn Thomas AC yn cymeradwyo ac yn cytuno gyda phrif fyrddw yr hawliau cymunedol ac egwyddorion cydgyhyrchu yr ydym yn eu hargymell heddiw. Mae llwyddiannau lleoliaeth yn cynnwys diddymu strategaethau rhanbarthol a'r cytundebau ardal cynhwysfawr. Siaradodd Suzy Davies yn huawdl am weithio heb ymwneud ag eraill fel rhywbeth negyddol, a phartneriaethau gwerthuso a gwel defnydd o'n hadnoddau ar gyfer ein cymunedau. Mae a wnelo hyn â dileu tua 4,700 o dargedau o'r brig i lawr sy'n gysylltiedig â chytundebau ardal lleol. Rydym am weld Cymru lle mae cymunedau lleol yn cael mwy o reolaeth dros eu tynged eu hunain.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth wedi sefydlu hawliau cymunedol, gan rymuso cymunedau a diogelu a datblygu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hawl y gymuned i wneud cais yn galluogi cymunedau i restru amwynderau lleol, megis tafarndai, fel y soniodd Mohammad Asghar yn huawdl iawn, canolfannau hamdden a swyddfeydd post, fel asedau o werth cymunedol ar gofrestrau awdurdodau lleol, sy'n cynnig diogelwch i gymunedau pan fydd asedau cymunedol yn wynebu cael eu cau neu eu dymchwel drwy foratoriwm chwe mis sy'n galluogi grwpiau lleol i wneud cais neu herio'r penderfyniadau hyn. Mae'r hawl i wneud cais yn galluogi grwpiau cymunedol i ddatblygu cynllun busnes a sicrhau arian neu grantiau i gymryd rheolaeth o ased cymunedol gwerthfawr iawn a'i redeg. Mae'r Ymgyrch dros Gwrw Go lawn wedi tynnu sylw at effaith fanteisiol hyn ar achub tafarndai lleol, gyda mwy na 100 yn cael eu rhestru eleni yn unig yn Lloegr fel rhan o'i hymgyrch List Your Local. Cymharwch hynny â Chymru, lle nad yw'r hawl hon yn bodoli: rhwng mis Medi 2012 a mis Mawrth 2013, roedd dwy dafarn yn cau yma bob wythnos. Mae'n gwilyddus.

On our high streets, where Wales has the highest shop vacancy rate at 17.5%—

Ar y stryd fawr, lle mae gan Gymru y gyfradd uchaf o siopau gwag, sef 17.5% -

16:00	<b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Will you give way?	A wnewch ildio?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:00	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes.	Gwnaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:01	<b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> You mentioned the valuable work of CAMRA in this area. Would you also recognise the valuable work of the Pub is The Hub—[Interruption.]—to try to increase the amount of work that it is doing in Wales in order to save rural pubs and help them to diversify into community centres, libraries, et cetera?	Soniasoch am waith gwerthfawr CAMRA yn y maes hwn. A fydech hefyd yn cydnabod gwaith gwerthfawr Pub is The Hub—[Torri ar draws.]—wrth geisio cynyddu faint o waith y mae'n ei wneud yng Nghymru er mwyn achub tafarndai gwledig a'u helpu i arallgyfeirio i fod yn ganolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, ac ati?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:01	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Absolutely. It is organisations such as that that need our and the Welsh Government's support.  On our high streets, where Wales has the highest shop vacancy rate at 17.5%, community rights could be used to safeguard these properties from becoming empty husks. They could be reinvigorated, providing sources of local employment and prosperity that would restore the economy of our Welsh high streets.  The right does not apply exclusively to rural communities. In London, the proposed redevelopment of the Southbank undercroft would have meant relocating the skate park. The campaigning group Long Live Southbank was unhappy with this and started a petition to save it, attracting 64,000 signatories and successfully listing the park as an asset of community value in July this year. That cannot and will not happen in Wales.  The community rights agenda empowers all communities to tell local authorities what is important to them. Russell George highlighted that currently we have state delivery, implemented by this Welsh Government, and it is considered now to be some 40 years out of date. He also highlighted our calls to devolve more power right back to the people. The Localism Act 2011 has also empowered the children and youth action committee in Milton Keynes to obtain feasibility study funding to tackle poverty and improve the outlook for young people on the Lakes estate, where 51.5% of children are classed as living in poverty. This has only been possible since the passage of the Localism Act.	Gwnaf yn wir. Sefydliadau fel hyn y mae angen i ni a Llywodraeth Cymru eu cefnogi.  Ar y stryd fawr, lle mae gan Gymru y gyfradd uchaf o siopau gwag, sef 17.5%, gellid defnyddio hawliau cymunedol i warchod yr eiddo hyn rhag dadfeilio. Gellid eu hadfywio, gan ddarparu ffynonellau cyflogaeth lleol a ffyniant a fyddai'n adfer economi yn y stryd fawr yng Nghymru.  Nid dim ond i gymunedau gwledig y mae'r hawl yn berthnasol. Yn Llundain, byddai'r broses arfaethedig o ailddatblygu claddgell Southbank wedi golygu adleoli'r parc sglefrio. Mae'r grŵp ymgyrchu Long Live Southbank yn anhapus â hyn ac wedi dechrau deiseb i'w achub, gan ddenu 64,000 o lofnodwyr a llwyddodd i restru'r parc fel ased o werth cymunedol ym mis Gorffennaf eleni. Ni all hynny ac ni fydd hynny yn digwydd yng Nghymru.  Mae'r agenda hawliau cymunedol yn grymuso pob cymuned i ddweud wrth awdurdodau lleol beth sy'n bwysig iddi. Amlgodd Russell George fod gennym ddarpariaeth gan y wladwriaeth ar hyn o bryd, a weithredir gan Lywodraeth Cymru, ac ystyrir ei bod bellach tua 40 mlynedd ar ei hôl hi. Tynnodd sylw hefyd at ein galwadau i ddatganoli mwy o bŵer yn ôl i'r bobl. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 hefyd wedi grymuso'r pwyllgor gweithredu plant a phobl ifanc yn Milton Keynes i gael cyllid astudiaeth dichonoldeb i fynd i'r afael â thlodi a gwella rhagolygon i bobl ifanc ar ystâd Lakes, lle mae 51.5% o blant yn cael eu dosbarthu yn rhai sy'n byw mewn tlodi. Dim ond ers pasio'r Deddf Lleoliaeth y mae hyn wedi bod yn bosibl.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>



I have to say that there is a difference between us and the Welsh Government. During your contribution, Minister, you mentioned communities twice, yet you mentioned public services and service users several times. We believe that it is about communities, about the person and about the people within these communities—power to the people. You believe in power to your own Government. Having such an approach as the Localism Act in Wales could have saved the Welsh National Tennis Centre in August for the 40,000 people in Cardiff who were inspired by Andy Murray's historic Wimbledon victory.

In Scotland, communities have been handed greater powers to buy land, leading to new landowners managing 500,000 acres of formerly publicly owned land. The community right to buy land was introduced under the ethos that, when Scottish communities purchase the land on which people live and work, they are free to reinvigorate and improve the prospects of future generations. It is so popular that discussions are currently ongoing about expanding it to include communities of over 10,000 people.

The Localism Act has also rooted out a greater priority for transparency by establishing a statutory duty to publish senior salaries, requiring councils to publish spending of above £500, very much like Monmouthshire does already, encouraging more open procurement through Contracts Finder, and allowing access to town hall accounts for 20 days a year. You do not even want this transparency. As a result—

Rhaid i mi ddweud bod gwahaniaeth rhyngom ni a Llywodraeth Cymru. Yn ystod eich cyfraniad, Weinidog, dim ond dwywaith y gwnaethoch sôn am gymunedau, ac eto gwnaethoch sôn am wasanaethau cyhoeddus a defnyddwyr gwasanaethau sawl gwaith. Credwn fod a wnelo hyn â chymunedau, â'r person a'r bobl yn y cymunedau hyn—pŵer i'r bobl. Rydych yn credu mewn pŵer i'ch Llywodraeth eich hun. Gallai mabwysiadu dull fel y Ddeddf Lleoliaeth yng Nghymru fod wedi achub Canolfan Tennis Genedlaethol Cymru ym mis Awst i'r 40,000 o bobl yng Nghaerdydd a gafodd eu hysbrydoli gan fuddugoliaeth hanesyddol Andy Murray yn Wimbledon.

Yn yr Alban, mae cymunedau wedi cael mwy o bwerau i brynu tir, gan arwain at dirfeddianwyr newydd yn rheoli 500,000 erw o dir a fu gynt yn eiddo cyhoeddus. Cyflwynwyd yr hawl gymunedol i brynu tir o dan yr ethos, pan fydd cymunedau yn yr Alban yn prynu tir lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, maent yn rhydd i adfywio a gwella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol. Mae mor boblogaidd fel bod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd i'w ehangu i gynnwys cymunedau o fwy na 10,000 o bobl.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth hefyd wedi cyflwyno mwy o flaenoriaeth ar gyfer tryloywder drwy sefydlu dyletswydd statudol i gyhoeddi cyflogau uwch, gan ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi gwariant o fwy na £500, yn debyg iawn i'r hyn y mae Sir Fynwy yn ei wneud yn barod, gan annog prosesau caffael mwy agored drwy Contracts Finder, a chaniatáu mynediad i gyfrifon neuaddau tref am 20 diwrnod y flwyddyn. Nid ydych chi am gael y tryloywder hwn hyd yn oed. O ganlyniad—

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Your time is coming to an end.

Mae eich amser yn dod i ben.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:04 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a result, 80% of local authorities in England reported that the Localism Act had increased their public accountability. The Welsh Government must look at how communities in Wales can be empowered to protect their pub, save their shops and retain their recreational facilities. We believe in giving people the chance to determine for themselves the things that matter. We believe that the community rights agenda is one such way of handing power back, and I ask you to reverse your decision not to support our communities, and to back this motion.

O ganlyniad, dywedodd 80% o awdurdodau lleol yn Lloegr fod y Ddeddf Lleoliaeth wedi cynyddu eu hatebolrwydd cyhoeddus. Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar sut y gellir grymuso cymunedau yng Nghymru i ddiogelu eu tafarn, achub eu siopau a chadw eu cyfleusterau hamdden. Credwn mewn rhoi cyfle i bobl benderfynu drostynt eu hunain ynghylch y pethau sy'n bwysig iddynt. Credwn fod yr agenda hawliau cymunedol yn un ffordd o'r fath o drosglwyddo pŵer yn ôl, a gofynnaf ichi newid eich penderfyniad i beidio â chefnogi ein cymunedau, ac i gefnogi'r cynnig hwn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that the motion be agreed without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb welliant. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:05.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:05.*

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Llwynhelyg

Cynnig NDM5371 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn mynegi pryder ynghylch ddyfodol gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Llwynhelyg.

2. Yn nodi'r effaith y byddai absenoldeb gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ei chael ar wasanaethau craidd eraill yn yr ysbyty, megis gofal pediatrig a gofal brys.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) cymryd camau gweithredu brys i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd yn Llwynhelyg; a

(b) sicrhau bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cyfathrebu ei gynlluniau ar gyfer cyfeiriad strategol y gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg mewn modd effeithiol a diamwys.

# Welsh Conservatives Debate: Maternity Services at Withybush Hospital

Motion NDM5371 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales

1. Expresses concern over the future of consultant-led maternity services at Withybush Hospital.

2. Notes the impact the absence of consultant led maternity services would have on other core services at the hospital, such as paediatric and emergency care.

3. Calls on the Welsh Government to:

(a) take urgent action to secure the future of core services at Withybush; and

(b) ensure that Hywel Dda Health Board communicates effectively and unambiguously their plans for the strategic direction of services at Withybush Hospital.

16:05

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to open this debate on behalf of the Welsh Conservatives, and I move the motion tabled in the name of my colleague, William Graham.

Once again, we are discussing future services at Withybush hospital; it was only in March of this year that I put forward the case for retaining the special care baby unit at the hospital. Of course, we are still awaiting a decision from the Minister on its future. However, what we have discovered in the past few weeks is even more worrying, with the threat to consultant-led maternity services, the threat to full-time paediatrics, and the threat to our full-time accident and emergency department. This is a hugely worrying time for the constituents and communities that I represent. Today, we look to the Minister and the Government for support and political leadership.

Rwy'n falch o gael agor y ddadl hon ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, a chynigiau y cynnig a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, William Graham.

Unwaith eto, rydym yn trafod gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn y dyfodol; dim ond ym mis Mawrth eleni y cyflwynais yr achos dros gadw'r uned gofal arbennig i fabanod yn yr ysbyty. Wrth gwrs, rydym yn dal i aros am benderfyniad gan y Gweinidog ynglŷn â'i dyfodol. Fodd bynnag, mae'r hyn yr ydym wedi'i ddarganfod yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn achosi hyd yn oed mwy o bryder, gyda'r bygythiad i wasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol, y bygythiad i wasanaeth paediatreg llawn amser, a'r bygythiad i'n hadran damweiniau ac achosion brys lawn amser. Mae hwn yn gyfnod o bryder mawr i'r etholwyr a'r cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli. Heddiw, rydym yn edrych ar y Gweinidog a'r Lywodraeth am gefnogaeth ac arweiniad gwleidyddol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We on this side of the Chamber believe in local health services for local people. Patients should not have to travel further for life-saving care. Let me make my position absolutely clear: I oppose plans to downgrade Withybush hospital and reject any proposals to cut the accident and emergency department and maternity services. I say 'plans', because it has become increasingly clear that these are, unfortunately, the proposals that are now in front of us. It is now a fact that the postgraduate deanery has said that trainee paediatric doctors will have to relocate onto one site in the Hywel Dda Local Health Board area as of 1 March or 1 August next year. The health board has decided that that one site will be in Glangwili in Carmarthen. As a result, I am told that, due to rota difficulties, the paediatric department will be unable to operate overnight, which will lead to a part-time paediatric department.

Clinicians and professionals have then told me that, due to the paediatrics department operating on a part-time basis, they will not be able to operate a full-time A&E department. In other words, A&E will be downgraded to operate during the day only. That is simply unacceptable for the constituents whom I represent.

Over the past few years, I have been highlighting the danger of centralising and downgrading services, but, throughout, I have been accused of scaremongering. However, it is now clear that the concerns and worries that I have been expressing on behalf of the communities that I represent are now becoming a reality. Unfortunately, we in Pembrokeshire have suffered in the past from a lack of transparency, openness and confidence in our local health board.

We all remember the document that was leaked to the press, and subsequently withdrawn, by Hywel Dda Local Health Board, the 'Rural Health Services Strategy Spend to Save Plan', which talked about the centralisation of services away from Withybush hospital. I have the document here, and it is clear from it that the only core service that the board wanted to deliver from Withybush was an urgent care centre. There would be no A&E, paediatric assessments with pending transfers to Glangwili, short-stay elective surgical services, low-risk obstetrics and midwifery-led care. In other words, what the document is, in reality, stating is that Withybush hospital should become nothing more than a cottage hospital, which is absolutely shocking.

It is clear to me that the health board is fulfilling its objectives in this document by centralising services to Carmarthen. In effect, the board is centralising services and downgrading Withybush hospital through the back door, using the paediatric difficulties to do so. Perhaps one can argue that the health board is achieving what it wants to achieve. I think that that is an absolute scandal.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu mewn gwasanaethau iechyd lleol i bobl lleol. Ni ddylai cleifion orfod teithio ymhellach i gael gofal sy'n achub bywyd. Gadewch imi wneud fy safbwynt yn hollol glir: gwrthwynebaf y cynlluniau i israddio ysbyty Llwynhelyg a gwrthodaf unrhyw gynigion i gwtogi ar yr adran damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaethau mamolaeth. Dywedaf 'cynlluniau', oherwydd ei bod wedi dod yn fwyfwy amlwg mai dyna'r cynigion, yn anffodus, sydd bellach o'n blaen. Mae bellach yn ffaith bod y ddeoniaeth ôl-raddedig wedi dweud y bydd yn rhaid i feddygon pediatrig o dan hyfforddiant symud i un safle yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda erbyn 1 Mawrth neu 1 Awst y flwyddyn nesaf. Mae'r bwrdd iechyd wedi penderfynu mai Glangwili yng Nghaerfyrddin fydd y safle hwnnw. O ganlyniad, dywedwyd wrthyf, oherwydd anawsterau gyda'r rota, na fydd yr adran bediatreg yn gallu gweithredu dros nos, a fydd yn arwain at adran bediatreg ran amser.

Mae clinigwyr a gweithwyr proffesiynol wedyn wedi dweud wrthyf, oherwydd bydd yr adran bediatreg yn gweithredu'n rhan amser, ni fyddant yn gallu gweithredu adran damweiniau ac achosion brys lawn amser. Mewn geiriau eraill, bydd yn cael ei hisraddio i weithredu yn ystod y dydd yn unig. Mae hynny'n gwbl annerbyniol i'r etholwyr yr wyf yn eu cynrychioli.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn tynnu sylw at berygl canoli ac israddio gwasanaethau, ond, drwyddi draw, rwyf wedi cael fy nghyhuddo o godi bwganod. Fodd bynnag, mae'n amlwg bellach bod y pryderon yr wyf wedi bod yn eu mynegi ar ran y cymunedau a gynrychiolaf yn dod yn realiti bellach. Yn anffodus, rydym ni yn Sir Benfro wedi dioddef yn y gorffennol oherwydd diffyg tryloywder, diffyg bod yn agored a diffyg hyder yn ein bwrdd iechyd lleol.

Rydym i gyd yn cofio'r ddogfen a gafodd ei datgelu i'r wasg, a'i thynnu'n ôl wedyn, gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sef Cynllun Gwario i Arbed y Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Gwledig, a oedd yn sôn am ganoli gwasanaethau oddi wrth ysbyty Llwynhelyg. Mae gennyf y ddogfen yma, ac mae'n amlwg o'i darllen mai'r unig wasanaeth craidd yr oedd y bwrdd am ei ddarparu o Llwynhelyg oedd canolfan gofal brys. Ni fyddai adran damweiniau ac achosion brys, asesiadau pediatrig â throsglwyddiadau i Ysbyty Glangwili, gwasanaethau llawfeddygol dewisol arhosiad byr, gofal obstetreg risg isel na gofal o dan arweiniad bydwragedd. Mewn geiriau eraill, yr hyn y mae'r ddogfen yn ei nodi, mewn gwirionedd, yw na ddylai ysbyty Llwynhelyg fod yn ddim byd mwy nag ysbyty bwthyn, sy'n hollol syfrdanol.

Mae'n amlwg i mi bod y bwrdd iechyd yn cyflawni ei amcanion yn y ddogfen hon drwy ganoli gwasanaethau yng Nghaerfyrddin. I bob pwrpas, mae'r bwrdd yn canoli gwasanaethau ac yn israddio ysbyty Llwynhelyg drwy'r drws cefn, gan ddefnyddio'r anawsterau pediatrig i wneud hynny. Efallai y gellir dadlau bod y bwrdd iechyd yn cyflawni'r hyn y mae am ei gyflawni. Credaf fod hynny'n gwbl warthus.

Only operating a part-time A&E department will undoubtedly put the lives of my constituents at risk. I cannot be clearer than that. The Welsh Institute for Health and Social Care analysis states clearly that outcomes improve significantly if patients receive the right care and treatment within the first golden hour of falling ill or being injured. However, for patients in rural areas, such as Pembrokeshire, it is highly unlikely that they will receive the right care and treatment within the first hour of falling ill if critical services are not based in Pembrokeshire. Quite simply, that could mean the difference between life and death for the people whom I represent. As a constituent told me recently, travelling from St David's to Carmarthen in an emergency situation would be similar to people in Cardiff being forced to travel to Nevill Hall Hospital in Abergavenny for emergency care. I am sure that that would quite rightly be unacceptable for the people of Cardiff. It is worth rehearsing the comments of retired Withybush hospital surgeon Peter Milewski, who said:

'If you have a heart attack in St Davids, or fall and rupture your spleen, are you really going to get to Glangwili in time? You can save lots and lots of money by centralising services at very little cost, just the death of two or three young people.'

We hear a lot in this Chamber about how we need to listen to clinicians and professionals, and that decisions need to be clinically led. Well, that is the warning from Peter Milewski, a retired professional who knows what he is talking about.

The health board tells me that it has had difficulties in recruiting staff and that is why services at Withybush are under threat, but the board has known about the postgraduate deanery's intention of moving trainee doctors to one site for over a year. One has to ask: what has it been doing to address this issue in the meantime? Obviously, not a lot. Now, I accept that there are tensions between the need of the NHS for doctors in training to keep services viable and the obligations of the postgraduate deanery, the General Medical Council, the royal colleges and others to ensure adequate levels of training, appropriate experience and career progression. That is why I believe it is essential that some of these clinical guidelines are reviewed, to ensure the viability of services in certain areas, especially in our rural communities. As I have said before, if this review does not take place, then services such as those at Withybush hospital will be lost in our communities for ever. It is high time that the Welsh Government understands that this one-size-fits-all approach is not appropriate, because delivering health services in urban areas is totally different from delivering health services in rural areas.

Bydd gweithredu adran damweiniau ac achosion brys ran amser yn unig yn sicr yn rhoi bywydau fy etholwyr mewn perygl. Ni allaf fod yn gliriach na hynny. Mae dadansoddiad Sefydliad Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dweud yn glir bod canlyniadau'n gwella'n sylweddol os bydd cleifion yn derbyn y gofal a'r driniaeth gywir o fewn yr awr aur gyntaf ar ôl mynd yn sâl neu gael anaf. Fodd bynnag, i gleifion mewn ardaloedd gwledig, megis Sir Benfro, mae'n annhebygol iawn y byddant yn cael y gofal a'r driniaeth gywir o fewn yr awr gyntaf ar ôl mynd yn sâl os nad yw gwasanaethau hanfodol wedi eu lleoli yn Sir Benfro. Yn syml iawn, gallai hynny olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli. Fel y dywedodd un o'm hetholwyr wrthyf yn ddiweddar, byddai teithio o Dyddewi i Gaerfyrddin mewn argyfwng yn debyg i bobl yng Nghaerdydd yn gorfod teithio i Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni i gael gofal brys. Rwy'n siŵr y byddai hynny'n annerbyniol i bobl Caerdydd, a hynny'n hollol deg. Mae'n werth nodi sylwadau'r cyn-lawfeddyg yn ysbyty Llwynhelyg Peter Milewski, sydd bellach wedi ymddeol, a ddywedodd:

Os cewch drawiad ar y galon yn Nhyddewi, neu os byddwch yn cwmpo ac yn torri llengig eich dueg, a ydych chi'n wir yn mynd i gyrraedd Glangwili mewn pryd? Gallwch arbed llawer iawn o arian drwy ganoli gwasanaethau am ychydig iawn o gost, dim ond marwolaeth dau neu dri o bobl ifanc.

Rydym yn clywed tipyn yn y Siambr hon am sut mae angen inni wrando ar glinigwyr a gweithwyr proffesiynol, a bod angen i benderfyniadau gael eu llywio gan glinigwyr. Wel, dyna'r rhybudd gan Peter Milewski, gweithiwr proffesiynol sydd wedi ymddeol sy'n gwybod ei bethau.

Mae'r bwrdd iechyd yn dweud wrthyf ei fod wedi cael anawsterau i recriwtio staff a dyna pam mae gwasanaethau yn Llwynhelyg o dan fygythiad, ond mae'r bwrdd wedi bod yn ymwybodol o fwriad y ddeoniaeth ôl-raddedig i symud meddygon o dan hyfforddiant i un safle ers dros flwyddyn. Rhaid gofyn: beth mae wedi bod yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y cyfamser? Dim llawer, yn amlwg. Yn awr, derbyniaf fod tensiynau rhwng anghenion y GIG am feddygon o dan hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hyfyw a rhwymedigaethau'r ddeoniaeth ôl-raddedig, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y colegau brenhinol ac eraill i sicrhau lefelau digonol o hyfforddiant, profiad priodol a dilyniant gyrfa. Dyna pam y credaf ei bod yn hanfodol bod rhai o'r canllawiau clinigol hyn yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau hyfywedd y gwasanaethau mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn ein cymunedau gwledig. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, os nad yw'r adolygiad hwn yn digwydd, yna bydd ein cymunedau yn colli gwasanaethau fel y rhai yn ysbyty Llwynhelyg am byth. Mae'n hen bryd bod Llywodraeth Cymru yn deall nad yw'r un ateb i bawb yn briodol, gan fod darparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd trefol yn hollol wahanol i ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig.

The Minister and the Welsh Government are fully aware that there has been overwhelming opposition to last year's reconfiguration proposals in Pembrokeshire, but it has now become clear that those plans were only the tip of the iceberg, because what we have discovered in the past few weeks are proposals to fundamentally downgrade core and life-saving services. The people of Pembrokeshire have already spoken, loud and clear, on this proposal to close the special care baby unit—they have staged protests outside this building, circulated petitions and attended public meetings. Up to 500 people attended a meeting last year, and 200 attended a public meeting last week in Haverfordwest, where strong feelings were expressed against the downgrading of services. However, it is now clear to me that the views of my constituents are simply being ignored. The consultation process that took place at the end of last year simply ignored the communities that I represent. Incidentally, there was no mention in that consultation document of downgrading paediatric services and downgrading A&E services. Therefore, does this mean another consultation process will now take place? Last year's consultation process was enough of a shambles and a waste of money, especially if the views of my constituents are ignored.

We have continually heard the First Minister and the Minister for health talk about safe and sustainable services. Earlier this year, the First Minister said:

'What I will defend—and I will defend it continually—is the need for safe and sustainable services in Wales. I am not going to stand back from that one, because it is exceptionally important.'

I am sure that the First Minister and the Welsh Government would acknowledge that the current services at Withybush hospital are safe and sustainable, but any movement and downgrading of services, such as consultant-led maternity services, paediatrics and A&E services, would be dangerous and unsafe for the people of Pembrokeshire. Surely, taking away core and essential services such as these from a community is downgrading the services at Withybush hospital, and to try to pretend otherwise is ridiculous. Losing these core, full-time, life-saving services in Pembrokeshire will put people's lives at risk, and, if these full-time services disappear from Pembrokeshire, it will be an absolute disgrace and a scandal.

This afternoon, we are calling for the Minister to take urgent action to secure the future of core life-saving services at Withybush hospital and to ensure that the health board effectively and unambiguously communicates its plans for the strategic direction of services at the hospital. Therefore, in closing, I hope that this debate will motivate the Welsh Government to do the right thing in standing up for my constituents. This is a hugely worrying time for my constituents and the communities that I represent. Today, we look to the Minister and to the Government for political support and political leadership. I urge Members to support our motion.

Mae'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru yn gwbl ymwybodol o wrthwynebiad y mwyafrif llethol i gynigion ad-drefnu y llynedd yn Sir Benfro, ond mae bellach wedi dod yn amlwg mai dim ond crafu'r wyneb oedd y cynlluniau hynny, oherwydd yr hyn yr ydym wedi'i ddarganfod yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yr cynigion i israddio gwasanaethau craidd sy'n achub bywydau i bob diben. Mae pobl Sir Benfro eisoes wedi lleisio barn, yn hollol glir, ynglŷn â'r cynnig hwn i gau'r uned gofal arbennig i fabanod—maent wedi protestio y tu allan i'r adeilad hwn, wedi dosbarthu deisebau ac wedi mynychu cyfarfodydd cyhoeddus. Daeth hyd at 500 o bobl i gyfarfod y llynedd, a bu 200 mewn cyfarfod cyhoeddus yr wythnos diwethaf yn Hwlfordd, lle y mynegwyd teimladau cryf yn erbyn israddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n amlwg i mi erbyn hyn bod barn fy etholwyr yn cael ei hanwybyddu'n llwyr. Gwnaeth y broses ymgynghori a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf llwyr anwybyddu'r cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli. Gyda llaw, nid yw'r ddogfen ymgynghori honno yn sôn am israddio gwasanaethau pediatrig ac israddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys. Felly, a yw hyn yn golygu y bydd proses ymgynghori arall yn cael ei chynnal yn awr? Roedd proses ymgynghori y llynedd yn dipyn o draed moch a gwastraff arian, yn enwedig os yw safbwyntiau fy etholwyr yn cael eu hanwybyddu.

Rydym wedi clywed y Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd yn sôn byth a beunydd am wasanaethau diogel a chynaliadwy. Yn gynharach eleni, dywedodd y Prif Weinidog:

'Yr hyn y gwnaf i amddiffyn—a byddaf yn ei amddiffyn yn barhaus—yw'r angen am wasanaethau diogel a chynaliadwy yng Nghymru. Nid wyf yn mynd i sefyll yn ôl o ran y mater hwnnw, gan ei fod yn eithriadol o bwysig.'

Rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gwasanaethau presennol yn ysbyty Llwynhelyg yn ddiogel ac yn gynaliadwy, ond byddai unrhyw ymgais i israddio gwasanaethau, megis gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol pediatreg a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys, yn beryglus ac yn anniogel i bobl Sir Benfro. Yn sicr, mae symud gwasanaethau craidd a hanfodol fel y rhain o gymuned yn israddio gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg, ac mae ceisio honni fel arall yn chwerthinllyd. Bydd colli'r gwasanaethau craidd, llawn amser hyn sy'n achub bywydau yn Sir Benfro yn rhoi bywydau pobl mewn perygl, ac, os bydd y gwasanaethau llawn amser hyn yn diflannu yn Sir Benfro, bydd yn hollol warthus ac yn sgandal.

Y prynhawn yma, rydym yn galw ar y Gweinidog i weithredu ar fyrder i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd sy'n achub bywydau yn ysbyty Llwynhelyg ac i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyfleu ei gynlluniau ar gyfer cyfeiriad strategol y gwasanaethau yn yr ysbyty mewn ffordd effeithiol a diamwys. Felly, wrth gloi, gobeithio y bydd y ddadl hon yn cymell Llywodraeth Cymru i wneud y peth iawn drwy amddiffyn fy etholwyr. Mae hwn yn gyfnod llawn pryder i'm hetholwyr a'r cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli. Heddiw, rydym yn troi at y Gweinidog a'r Llywodraeth i gael cefnogaeth wleidyddol ac arweiniad gwleidyddol. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You know, before the last Assembly elections, I and colleagues on these benches, and on other benches, were accused of shroud waving about the future of our hospitals when we said that the election of a Labour-led administration in Wales would lead to the downgrading of hospitals and the closing of hospitals. 'That's not the case,' said the First Minister, 'there will be no hospitals downgraded, there will be no hospitals closed.' Yet, what have we seen? Since that election we have seen community hospitals closed, including in Labour constituencies; we have seen services downgraded at hospitals, including in Labour constituencies; and we have seen services that are threatened with withdrawal at hospitals across the country.

Gwyddoch, cyn etholiadau diwethaf y Cynulliad, fy mod innau a'm cyd-Aelodau ar y meinciau hyn, a chyd-Aelodau ar y meinciau eraill, wedi cael ein cyhuddo o godi bwganod ynglŷn â dyfodol ein hysbytai pan ddywedwyd y byddai ethol gweinyddiaeth o dan arweiniad Llafur yng Nghymru yn arwain at israddio ysbytai a chau ysbytai. 'Nid yw hynny'n wir,' meddai'r Prif Weinidog, 'ni chaiff unrhyw ysbytai eu hisraddio, ni chaiff unrhyw ysbytai eu cau.' Ac eto, beth yr ydym wedi ei weld? Ers yr etholiad hwnnw rydym wedi gweld ysbytai cymuned yn cau, gan gynnwys rhai mewn etholaethau Llafur; rydym wedi gweld gwasanaethau yn cael eu hisraddio mewn ysbytai, gan gynnwys rhai mewn etholaethau Llafur, ac rydym wedi gweld bygythiad i dynnu gwasanaethau yn ôl mewn ysbytai ledled y wlad.

This chipping away of emergency services at our hospitals will not do. We are not prepared to accept this sort of treatment for patients in Wales, and we will certainly stand up for those patients in west Wales whose services are threatened at Withybush General Hospital at the moment. Withybush, of course, is 33 miles away from its nearest neighbouring hospital with a suite of services, in Carmarthen at Glangwili, and we know that minutes can mean the difference between life or death in an emergency situation, and that is why it is so important that there is a 24/7, seven days a week A&E service at Withybush to serve the needs of the people of Pembrokeshire and those people who visit Pembrokeshire as tourists on a regular basis.

Mae'r ymgais hon i gwtogi ar wasanaethau brys yn ein hysbytai yn annerbyniol. Nid ydym yn barod i dderbyn triniaeth o'r fath i gleifion yng Nghymru, a byddwn yn sic yn sefyll yn gadarn dros y cleifion hynny yn y gorllewin y mae eu gwasanaethau yn cael eu peryglu yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ar hyn o bryd. Mae Llwynhelyg, wrth gwrs, yn 33 milltir i ffwrdd o'r ysbyty cyfagos agosaf gyda chyfres o wasanaethau, yng Nghaerfyrddin yng Nglangwili, a gwyddom y gall munudau olygu'r gwahaniaeth rhwng byw neu farw mewn argyfwng, a dyna pam mae mor bwysig bod gwasanaeth damweiniau ac achosion brys ddydd a nos yn Llwynhelyg er mwyn diwallu anghenion pobl Sir Benfro a'r bobl hynny sy'n ymweld â Sir Benfro fel twristiaid yn rheolaidd.

I will take an intervention in a few moments, Joyce.

Derbyniaf ymyriad mewn ychydig, Joyce.

We know already that Hywel Dda health board has been through its consultation process. We know that it engaged with the public and told it about what it said its plans were for the future of hospital services in the Hywel Dda area. What the board said at that time was that it was committed to the retention of consultant-led maternity services, paediatric services, in-patient paediatric services at Withybush, and obstetric services at Withybush. What do we see now? The rug being pulled from underneath the patients who deserve to have those services at hand. I will take the intervention.

Gwyddom yn barod fod bwrdd iechyd Hywel Dda wedi bod drwy ei broses ymgynghori. Gwyddom iddo ymgysylltu â'r cyhoedd a dweud wrthynt am yr hyn y dywedodd ei fod yn bwriadu ei wneud o ran dyfodol gwasanaethau ysbyty yn ardal Hywel Dda. Yr hyn a ddywedodd y bwrdd ar y pryd oedd ei fod wedi ymrwymo i gadw gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol, gwasanaethau pediatrig, gwasanaethau pediatrig i gleifion mewnol yn Llwynhelyg, a gwasanaethau obstetrig yn Llwynhelyg. Beth a welwn yn awr? Y tir yn cael ei dynnu o dan draed y cleifion hynny sy'n haeddu cael y gwasanaethau hynny wrth law. Derbyniaf yr ymyriad.

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. Will you accept that what you are talking about has actually not been put forward, and that it is a hypothetical conversation that you are having here this afternoon?

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. A wnewch chi dderbyn nad yw'r hyn yr ydych yn sôn amdano wedi'i gyflwyno mewn gwirionedd, ac mai sgwrs ddamcaniaethol yr ydych yn ei chynnal y prynhawn yma?

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We know that there has been a desperate attempt to row back from the announcements that have already been made to staff, and which had already been made in the media, about certain services. You know what? I welcome them rowing back from those statements that have been made, and I look forward to announcements that say that these services will not be withdrawn. However, until that time, I am going to treat these services as under threat, and we will do what we can to protect them to the hilt.

We know that in terms of maternity care, for example, there has been a rising number of births in Wales for a number of years, including the number of deliveries— Minister, I know you are disagreeing with me—at Withybush hospital, which has increased in the latest published figures. We are told by Hywel Dda that for 30% of births midwife-led care is perfectly acceptable, but for 70% of births it will be necessary for consultants to be involved. Are the people in Hywel Dda who run that health board seriously suggesting that 70% of the 1,400 mothers who are able to have their babies delivered at Withybush are going to now have to have those services delivered 30-odd miles down the road in Glangwili? I just do not see the sense of it.

We know that the special care baby unit, which I have visited with my colleague Paul Davies in the past, is already set to be lost to Withybush; that would be an absolute disaster. Sixteen per cent more babies were treated in that special care baby unit in 2012 compared with 2011, and that trend shows no sign of abating. I think, Minister, that what you need to do is intervene and, in the words of the consultant obstetrician Chris Overton, you need to end this madness.

Gwyddom fod ymgais anobeithiol i ymbellhau oddi wrth y cyhoeddiadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud i staff, ac a oedd eisoes wedi eu gwneud yn y cyfryngau, am rai gwasanaethau. A wyddech chi beth? Croesawaf y ffaith eu bod yn ymbellhau oddi wrth y datganiadau hynny sydd wedi cael eu gwneud, ac edrychaf ymlaen at gyhoeddiadau sy'n dweud na fydd y gwasanaethau hyn yn cael eu tynnu'n ôl. Fodd bynnag, tan yr amser hwnnw, bwriadaf drin y gwasanaethau hyn fel rhai sydd o dan fgygythiad, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w diogel i'r carn.

Gwyddom, o ran gofal mamolaeth, er enghraifft, fod nifer cynyddol o enedigaethau yng Nghymru ers rhai blynyddoedd, gan gynnwys nifer y genedigaethau— Weinidog, gwn eich bod yn anghytuno â mi—yn ysbyty Llwynhelyg, sydd wedi cynyddu yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd. Mae Hywel Dda yn dweud wrthym bod gofal o dan arweiniad bydrwagedd yn berffaith dderbyniol yn achos 30% o enedigaethau, ond y bydd angen ymwneud gan feddygon ymgynghorol yn achos 70% o enedigaethau. A yw'r bobl yn Hywel Dda sy'n rhedeg y bwrdd iechyd yn awgrymu o ddirif y bydd 70% o'r 1,400 o famau sy'n gallu rhoi genedigaeth yn Llwynhelyg yn mynd i gael y gwasanaethau hynny ryw 30 milltir i lfwydd yng Nglangwili bellach? Ni allaf weld synnwyr hynny.

Gwyddom fod yr uned gofal arbennig i fabanod, yr wyf wedi ymweld â hi yng nghwmni fy nghyd-Aelod, Paul Davies, yn y gorffennol, eisoes yn mynd i gael ei chau yn Llwynhelyg; byddai hynny'n drychineb llwyr. Cafodd 16 y cant yn fwy o fabanod eu trin yn yr uned gofal arbennig honno i fabanod yn 2012 o gymharu â 2011, ac nid oes unrhyw arwydd bod y duedd honno yn lleihau. Credaf, Weinidog, mai'r hyn y mae angen ichi ei wneud yw ymyrryd ac, yng ngeiriau'r obstetregydd ymgynghorol Chris Overton, mae angen ichi roi diwedd ar y gwallgofrwydd hwn.

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am going to jump ahead to the final point about the importance of communication. Last week's clarification on Prince Philip Hospital is, I think, a case in point. The Minister has confirmed that the Llanelli emergency department will be clinically led by doctors and delivered in conjunction with emergency nurse practitioners. People, staff and patients alike understand what that means and they have confidence in planning ahead. However, communication works two ways. On Withybush, we are awaiting the health board's final plans. Until then, we are debating rumours not facts. We all, and that includes opposition Members, must be honest and clear about that.

Let me say first of all that I absolutely support the plan for a level 2 neonatal unit in the Hywel Dda area. The fact is, at the moment, we do not have level 2 neonatal support in the Hywel Dda area. I support that because it is safe and sustainable for those babies and their mothers. It is a level of service that is not there now. That is a fact.

Rwyf am neidio ymlaen at y pwynt olaf ynglŷn â phwysigrwydd cyfathrebu. Mae'r eglurhad yr wythnos diwethaf ynglŷn ag Ysbyty'r Tywysog Philip, fe gredaf, yn enghraifft o hyn. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau y bydd yr adran achosion brys yn Llanelli yn cael ei harwain yn glinigol gan feddygon a'i darparu ar y cyd ag ymarferwyr nyrso brys. Mae pobl, staff a chleifion fel ei gilydd, yn deall yr hyn y mae hynny'n ei olygu ac mae ganddynt hyder i gynllunio ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae cyfathrebu yn gweithio ddwy ffordd. O ran Llwynhelyg, rydym yn aros am gynlluniau terfynol y bwrdd iechyd. Tan hynny, trafod sibrydion yr ydym nid ffeithiau. Rhaid i bob un ohonom, ac mae hynny'n cynnwys Aelodau'r gwrthbleidiau, fod yn onest ac yn glir am hynny.

Gadewch imi ddweud yn gyntaf oll fy mod yn llwyr gefnogi'r cynllun ar gyfer uned babanod newydd-anedig lefel 2 yn ardal Hywel Dda. Y ffaith amdani yw, ar hyn o bryd, nad oes darpariaeth lefel 2 ar gyfer babanod newydd-anedig yn ardal Hywel Dda. Cefnogaf hynny am ei bod yn ddiogel ac yn gynaliadwy i'r babanod hynny a'u mamau. Mae'n lefel o wasanaeth nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hynny'n ffaith.

The Withybush maternity unit is the crucial missing piece of the puzzle. Until Hywel Dda submits its proposal to the Welsh Government we cannot assess the overall plan. Those plans will be submitted to the Welsh Government before the end of the year. Hywel Dda has said that the proposed models will meet the necessary standard of safety and sustainability. That claim will rightly be scrutinised.

I do, however, completely understand why people are anxious to head off perceived threats to services. Serious questions will have to be answered if the health board's plan goes beyond what was originally proposed during the consultation process. Either consultation is genuine public engagement or it is not. What is clear to me is that Withybush must retain a service that can stabilise mother and baby when complications occur. That is a red line and a promise that has been given in the Chamber.

On a wider point about patient transport, I urge the Minister, when Hywel Dda does submit its proposals, to consider carefully the question of transport. In particular, how the plans will affect ambulance and other hospital transport services. Patients who are reliant on public transport must also be considered in all of this.

Finally, as somebody who lives in Haverfordwest, I please ask the opposition, when they are bringing forward debates of this kind, not to whip up hysteria on what might be, but talk sensibly about the way forward. This is doing untold damage. I live in the area. I get the phone calls. I have already had the queries. That is my plea today.

Yr uned famolaeth yn Llwynhelyg yw'r darn coll hanfodol. Hyd nes y bydd Hywel Dda yn cyflwyno ei gynnyg i Lywodraeth Cymru ni allwn asesu'r cynllun cyffredinol. Bydd y cynlluniau hynny'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn. Mae Hywel Dda wedi dweud y bydd y modelau a gynigir yn cyrraedd y safon angenrheidiol o ran diogelwch a chynaliadwyedd. Bydd craffu ar yr haerid hwnnw, a hynny'n gwbl briodol.

Fodd bynnag, deallaf yn llwyr pam mae pobl yn awyddus i gael gwared ar fgythiadau canfyddedig i wasanaethau. Bydd cwestiynau difrifol i'w hateb os bydd cynllun y bwrdd iechyd yn mynd y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol yn ystod y broses ymgynghori. Naill ai mae ymgynghoriad yn ymgysylltu â'r cyhoedd o ddifrif neu mae'n methu â gwneud hynny. Yr hyn sy'n amlwg imi yw bod yn rhaid i Lwynhelyg gadw gwasanaeth a all sefydlogi mam a'i baban pan fydd cymhlethdodau. Mae hynny'n ddiameddrol ac yn addewid a roddwyd yn y Siambr.

O ran pwynt ehangach ynglŷn â chludo cleifion, anogaf y Gweinidog, pan fydd Hywel Dda yn cyflwyno ei gynigion, i ystyried yn ofalus fater cludiant. Yn benodol, sut y bydd y cynlluniau yn effeithio ar wasanaethau ambiwlans a gwasanaethau cludo cleifion eraill i'r ysbty. Rhaid i gleifion sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus hefyd gael eu hystyried yn hyn i gyd.

Yn olaf, fel rhywun sy'n byw yn Hwlfordd, gofynnwch i'r wrthblaid, pan fydd yn cyflwyno dadleuon o'r fath, beidio â chodi cynnen ynghylch yr hyn a allai ddigwydd, ond siarad yn synhwyrol am y ffordd ymlaen. Mae hyn yn gwneud niwed difesur. Rwy'n byw yn yr ardal. Rwy'n cael y galwadau ffôn. Rwyf eisoes wedi cael ymholiadau. Dyna fy mhle heddiw.

16:23

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to participate in this debate today. I take issue with the previous contribution about whipping up hysteria. It is a fact that these proposals are out there. It is a fact that clinicians at the coalface are reporting on the terms of engagement, the contractual changes that are happening and the service changes that will happen in the spring of next year.

I appreciate that the Member for Mid and West Wales says that she lives in Haverfordwest. I respect that position. However, you only need to go onto the Facebook page, which has over 7,000 'likes', to see real, hard and fast examples of people's concerns and issues about the proposals that are being put forward. The slow drip effect either through the media or through the poor communication from the health board is fuelling those concerns; it is not the opposition parties that are whipping up hysteria.

What opposition parties are doing and what elected Members are doing, especially the two constituency Members for Pembrokeshire, Angela Burns and Paul Davies, is representing the views of their constituents. What we are lacking is clear leadership from the Welsh Government, in particular the Minister for health, to get on top of the effects of Hywel Dda health board mismanagement in that part of Wales.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Anghytunaf â'r cyfraniad blaenorol ynghylch codi cynnen. Y ffaith amdani yw bod y cynigion hyn yn cael eu hystyried. Y ffaith amdani yw bod dinigwyr ar y rheng flaen yn rhoi gwybod am y telerau penodi, y newidiadau cytundebol sy'n digwydd a'r newidiadau i wasanaethau a fydd yn digwydd yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Gwn fod yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn dweud ei bod yn byw yn Hwlfordd. Parchaf y safbwynt hwnnw. Fodd bynnag, dim ond mynd ar y dudalen Facebook, lle mae dros 7,000 wedi nodi 'hoffi' y mae angen ichi ei wneud er mwyn gweld enghreifftiau gwirioneddol a phendant o bryderon pobl ynglŷn â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r ffordd y mae pobl yn cael gwybod am bethau fesul darn naill ai drwy'r cyfryngau neu drwy gyfathrebu gwael gan y bwrdd iechyd yn dwysáu'r pryderon hynny; nid y gwrthbleidiau sy'n codi cynnen.

Yr hyn y mae'r gwrthbleidiau yn ei wneud a'r hyn y mae Aelodau etholedig yn ei wneud, yn enwedig y ddau Aelod etholaethol dros Sir Benfro, Angela Burns a Paul Davies, yw cynrychioli barn eu hetholwyr. Yr hyn sy'n ddiffygiol yw arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y Gweinidog iechyd, i ymdrin ag effeithiau camreoli bwrdd iechyd Hywel Dda yn y rhan honno o Gymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



The motion before us today is a very simple and straightforward motion—one that I hope will find favour across the Chamber. I hope that people will show concern over the future of consultant-led maternity services at Withybush hospital, as expressed in point 1. Point 2 notes the impact that the absence of consultant-led maternity services would have. Surely, that is a logical point to have, and I hope that I will see no disagreement across the Chamber with those two points.

I would very much hope that the latter points that are on the order paper today, which call on the Welsh Government to take action, are again something that all Members can endorse, because surely what we need is the Welsh Government to work proactively with the health board to secure those core services. Above all, as the Member for Mid and West Wales pointed out, it is about the health board communicating with the communities in west Wales to ensure that they are fully informed and that when a consultation process is undertaken that that process is real and has an effect on the process. Again, I cannot see how anyone in the Chamber can disagree with the final point in this motion.

We look, therefore, to all Members in the Chamber to support this motion. I will be most interested to see how the Members for Mid and West Wales in the Government party vote this afternoon, and how another Member—the Member for Llanelli, who is also affected by the proposals in Hywel Dda—will vote on such a motion that can, hopefully, have an unanimous vote behind it and activate the Government to start engaging.

If you actually look at the figures for the maternity unit in Withybush, as touched on earlier, you will see that there has been an increased use of the service. We are not looking at a unit that has a declining service; we are looking at a unit that has increased capacity and increased demand being placed on it. I think that the critical consideration that was touched on by my colleague Paul Davies in his opening remarks was the importance of looking at the geography of west Wales. You cannot look at health provision in a south-Wales-centric view.

If you do the mileage from Withybush hospital to Carmarthen, you are talking about 33 miles. Where I live in the Vale of Glamorgan, 33 miles to the west of me would mean me having to access services in Swansea. Taking 33 miles east of me would mean me having to go to Newport. Even in south Wales, where there are good transport connections, that is a completely impractical option, I would suggest to you. Those are the considerations that surely should be taken on board when the Minister and the health board are devising the service configuration for the support of services in west Wales.

Mae'r cynnig sydd ger ein bron heddiw yn un syml iawn—ac yn un a fydd yn cael ei gefnogi, gobeithio, ym mhob rhan o'r Siambr. Gobeithio y bydd pobl yn dangos pryder ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Llwynhelyg, fel y'i mynegwyd ym mhwynt 1. Mae pwynt 2 yn nodi'r effaith y byddai diffyg gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ei chael. Yn sicr, mae hynny'n bwynt rhesymegol i'w wneud, a gobeithio na welaf unrhyw anghytuno yn y Siambr ynglŷn â'r dda bwynt hynny.

Gobeithiaf yn fawr iawn bod y pwyntiau olaf sydd ar y papur gorchymyn heddiw, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu, unwaith eto yn rhywbeth y gall pob Aelod ei gymeradwyo, oherwydd yr hyn sydd ei angen arnom, mae'n rhaid, yw bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i weithio gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau'r gwasanaethau craidd hynny. Yn anad dim, fel y nododd yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, mae'n ymwneud â'r bwrdd iechyd yn cyfathrebu â chymunedau yn y gorllewin i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn a phan fydd proses ymgynghori fod y broses honno yn un wirioneddol sy'n cael effaith ar y broses. Unwaith eto, ni allaf weld sut y gall unrhyw un yn y Siambr anghytuno â'r pwynt olaf yn y cynnig hwn.

Rydym yn disgwyl, felly, i bob Aelod yn y Siambr gefnogi'r cynnig hwn. Bydd gennyf ddi-ddordeb mawr mewn gweld sut y bydd yr Aelodau dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru ym mhlaidd y Llywodraeth yn pleidleisio y prynhawn yma, a sut mae Aelod arall—yr Aelod dros Lanelli, y mae cynigion Hywel Dda yn effeithio arno hefyd—yn pleidleisio ar gynnig o'r fath, a all, gobeithio, gael ei dderbyn yn unfrydol ac ysgogîr Llywodraeth i ddechrau ymgysylltu.

Os ydych yn edrych ar y ffigurau ar gyfer yr uned famolaeth yn Llwynhelyg mewn gwirionedd, fel y crybwyllwyd yn gynharach, fe welwch fod cynnydd yn y defnydd o'r gwasanaeth. Nid ydym yn edrych ar uned lle mae'r galw am y gwasanaeth yn lleihau, rydym yn edrych ar uned sydd ag adnoddau cynyddol lle mae galw cynyddol amdano. Credaf mai'r ystyriaeth hollbwysig a grybwyllwyd gan fy nghyd-Aelod, Paul Davies yn ei sylwadau agoriadol oedd pwysigrwydd ystyried daearyddiaeth y gorllewin. Ni allwch edrych ar y ddarpariaeth iechyd drwy lygaid de Cymru.

Os cyfrifwch y milltiroedd rhwng ysbyty Llwynhelyg a Chaerfyrddin, rydych yn sôn am 33 milltir. Lle rwy'n byw ym Mro Morgannwg, byddai 33 milltir i'r gorllewin i mi yn golygu y byddai'n rhaid imi ddefnyddio gwasanaethau yn Abertawe. Byddai 33 milltir i'r dwyrain i mi yn golygu y byddai'n rhaid imi fynd i Gasnewydd. Hyd yn oed yn y de, lle ceir cysylltiadau trafnidiaeth da, mae hynny'n hollol anymarferol, fe ddywedwn i. Dyma'r ystyriaethau y dylid yn sicr eu hystyried pan fydd y Gweinidog a'r bwrdd iechyd yn pennu'r drefn i gefnogi gwasanaethau yn y gorllewin.

Above all, we have to listen to the concerns of constituents and the clinicians involved, because a lot of the concerns are clinician led—my colleague Darren Millar touched on consultants in the hospital pointing out that we need to put a stop to this madness. I am sure that those words were not used lightly, and that they were coming from a professional who is working day in, day out in those services.

So, the motion before us today is simple: it is calling on the Assembly's united support to preserve services in this part of Wales. It highlights quite clearly the demand in that area for these services and the need for the Government to show real political leadership.

Yn anad dim, rhaid inni wrando ar bryderon etholwyr a'r clinigwyr dan sylw, oherwydd daw llawer o'r pryderon o du'r clinigwyr—soniodd fy nghyd-Aelod Darren Millar am feddygon ymgynghorol yn yr ysbyty yn nodi bod angen inni roi terfyn ar y gwallgofrwydd hwn. Nid ar chwarae bach y defnyddiwyd y geiriau hynny mae'n siŵr gennyf, a hynny gan weithiwr proffesiynol sy'n gweithio bob dydd yn y gwasanaethau hynny.

Felly, mae'r cynnig sydd ger ein bron heddiw yn syml: mae'n galw ar gefnogaeth unedig y Cynulliad i gadw gwasanaethau yn y rhan hon o Gymru. Mae'n nodi'n glir y galw yn yr ardal am y gwasanaethau hyn a'r angen i'r Llywodraeth ddangos arweiniad gwleidyddol gwirioneddol.

- 16:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Conclude now, please. Goffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 16:28 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
That is why I am pleased to support this motion, and I urge Members to support it as well this afternoon. Dyna pam rwy'n falch o gefnogi'r cynnig hwn, ac anogaf yr Aelodau i'w gefnogi hefyd y prynhawn yma.
- 16:28 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Hoffwn ddweud ar y dechrau y bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw. Rydym yn cefnogi'r geiriad, os nad naws anffodus rhai o'r trafodaethau sydd wedi digwydd hyd yma. I would like to say first of all that Plaid Cymru will support today's motion. We support the wording, if not the unfortunate tone of some of the discussions that have taken place so far.
- Nid oes dwywaith, wrth gwrs, fod cryn anhapusrwydd am ddyfodol gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg wedi'i fynegi gan nifer o bobl yn lleol dros gyfnod. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd y newidiadau arfaethedig yn adroddiad y panel a benodwyd gan y Gweinidog i benderfynu ar gynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ac, mae'n rhaid dweud, yn rhannol oherwydd rhai o'r datganiadau gan y bwrdd hwnnw dros y misoedd diwethaf sydd wedi arwain at ddrysych ac ansicrwydd yn yr ardal. Bu nifer o etholwyr o sir Benfro yn cysylltu â mi yn ddiweddar gyda'u hofnau a'u pryderon am ddyfodol yr ysbyty. There is no doubt, of course, that some disquiet about the future of services in Withybush hospital has been expressed by several people locally over a period of time. This is partly because of the proposed changes in the report by the panel that was appointed by the Minister to decide on the plans for Hywel Dda Local Health Board and partly, it has to be said, because of some of the statements made by that board over the past few months, which have led to confusion and uncertainty in the area. Many constituents from Pembrokeshire have been in touch with me recently to express their concern and fears about the future of the hospital.
- Y sibrydion diweddaraf i mi eu clywed oedd bod yr uned frys i fod i gau ym mis Awst y flwyddyn nesaf. Y cwestiwn cyntaf, felly, sydd gen i i'r Gweinidog heddiw yw gofyn iddo gadarnhau y bydd yr uned frys yn parhau yn ysbyty Llwynhelyg, yn ôl y cynllun sydd wedi'i baratoi gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Nid oes modd gwahanu dyfodol ysbyty Llwynhelyg oddi wrth weddill y ddarpariaeth yn sir Benfro. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n meddwl bod cau uned mân anafiadau Dinbych-y-pysgod yn peri pryder i mi, ac yn destun tristwch i mi hefyd, achos nid wyf yn siŵr iawn sut yr ydym yn mynd i arbed pobl rhag cyflwyno yn anghywir i uned frys yn Llwynhelyg neu Glangwili wrth gau unedau mân anafiadau. Mae'n mynd yn erbyn y dystiolaeth a'r anogaeth gan y Gweinidog i bobl cael eu trin yn briodol, ac, yn aml iawn, wrth gwrs, mae uned mân anafiadau, megis yr un yn Ninbych-y-pysgod, yn llawer mwy priodol nag unedau brys lle mae modd goresgyn y gwasanaeth. The latest rumours that I have heard is that the emergency unit is to close in August next year. Therefore, the first question that I have for the Minister is whether he can confirm that the emergency unit will remain at Withybush hospital, according to the plan that has been prepared by the Hywel Dda Local Health Board. It is not possible to separate the future of Withybush hospital from the rest of the provision in Pembrokeshire. In this context, closing the minor injuries unit in Tenby causes me concern, and it is also a matter of sadness for me, because I am not quite sure how we are going to stop people from presenting incorrectly in an A&E in Withybush or Glangwili when we are closing minor injuries units. It goes against the evidence and the encouragement by the Minister for people to be treated appropriately, and, very often, of course, a minor injuries unit, such as the one in Tenby, is far more appropriate than the A&E units where the service can be overrun.

Mae'r ail gwestiwn sydd yn codi yn ymwneud â gofal babanod yn yr ysbyty. Y cefndir, wrth gwrs, yw argymhelliad y panel a sefydlwyd gan y Gweinidog a oedd yn argymhell sefydlu gofal lefel 2 newydd yng Nglangwili a symud y gofal o Lwynhelyg i Langwili. Roedd hynny yn ddibynnol ar dri phrif beth. Y peth cyntaf oedd hyfforddiant a staffio priodol, ac roedd y diffyg o ran paratoi gweithlu yn broblem gennyf i yng nghynlluniau Hywel Dda. Yr ail beth oedd eglurder ar y gwasanaethau obstetreg a fyddai'n aros yn Llynhelyg ac ym Mronglais. Y trydydd peth oedd datblygu gwasanaeth cludo babanod bach 24 awr.

Nid ydym eto wedi cael eglurder gan y bwrdd iechyd am y priodoldeb a phresenoldeb y tri pheth yna ond, eto i gyd, mae'r symud a'r canoli yn mynd yn eu blaen. Rwyf yn meddwl bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi bod yn wael iawn yn ddiweddar am gyfathrebu ei neges, cyfathrebu'r hyn y mae eisiau ei ddweud, ac yn wael am gyfathrebu ag Aelodau Cynulliad, er ei fod erbyn hyn wedi penodi aelod o'r bwrdd i fod yn fan cyswllt i Aelodau'r Cynulliad. Mae wedi bod yn wael hefyd wrth roi un stori i feddygon, stori arall i'r wasg a stori arall i'r cyhoedd. Yng nghanol hynny, mae'r sibrydion, y storiâu a'r ofnau yn codi, fel sydd wedi ei amlygu yn y ddadl y prynhawn yma.

Y peth olaf sydd gennyf i'w ddweud ynglŷn â hwn yw bod pryder wrth i chi dynnu gwasanaethau fesul un oddi wrth un ysbyty, neu yn eu canoli—ac mae rhesymau da weithiau dros wneud hynny—eich bod yn gwanhau'r ysbyty canolog fel ysbyty cyffredinol. Rydym am weld ysbyty Llynhelyg yn aros fel ysbyty cyffredinol ac yn parhau i wasanaethu pobl sir Benfro. Mae problem pellter rhwng Llynhelyg, Glangwili a Bronglais.

The second question that arises is on neonatal services in the hospital. The background to this is the recommendation of the panel that was established by the Minister that recommended establishing a new level 2 service in Glangwili, and moving it from Withybush to Glangwili. That was dependent on three main things. The first was appropriate training and staffing, and the lack of workforce preparation was a problem for me in Hywel Dda's plans. The second thing was clarity on the obstetric services that would remain in Withybush and in Bronglais. The third thing was the development of a 24-hour transportation service for newborn babies.

We have not yet had any clarity from the health board on the appropriateness and availability of those three things, but the centralisation is progressing. I do think that the Hywel Dda Local Health Board has been exceptionally weak recently in communicating its message, communicating what it has to say, and it has been very poor in communicating with Assembly Members, although it has now appointed a member of the board to be a link with Assembly Members. It has also been weak in giving one story to clinicians, another to the press and another to the public. In all of that, you do get these rumours and fears and stories, as has been highlighted in today's debate.

The final thing that I have to say about this is that there is concern that as you remove services service-by-service from a hospital, or centralise them—and there may sometimes be good reasons for doing so—you weaken that central hospital as a general hospital. We want to see Withybush hospital remaining as a general hospital and continuing to serve the people of Pembrokeshire. There is a problem in terms of distance between Withybush, Glangwili and Bronglais.

16:32 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Very quickly.

Yn gyflym iawn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:32 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Member for Mid and West Wales for taking the intervention. Would he not also agree that while we are talking a lot about the future, this has a real impact on current delivery of currently non-threatened services and the quality of those services?

Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am dderbyn yr ymyriad. Oni fyddai hefyd yn cytuno, er ein bod yn sôn cryn dipyn am y dyfodol, fod hyn yn cael effaith wirioneddol ar ddarpariaeth y gwasanaethau nad ydynt o dan fgythyad ac ansawdd y gwasanaethau hynny?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:32 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n meddwl bod gan yr Aelod bwynt yn hynny o beth. Yr hyn yr wyf am ei danlinellu yw pa mor bwysig ydyw i ni weld y neges wledig yn cael ei gydnabod mewn ardaloedd gwledig—y ffaith mai dim ond y mis hwn y mae'r targedau ambiwlans wedi eu cyrraedd am y tro cyntaf mewn blwyddyn a mwy, y ffaith nad oes gennyf wasanaeth ambiwlans awyr dibynadwy; mae'n ddibynadwy fel gwasanaeth, ond nid yw ar gael drwy'r dydd a'r nos ac ym mhob tywydd. Rwyf yn meddwl bod hynny yn rhywbeth i'w ystyried.

I think that the Member does have a point in that regard. I want to highlight how important it is that we see the issues of rurality being acknowledged in rural areas—the fact that ambulance targets have been achieved only this month for the first time in over a year, the fact that we do not have an entirely dependable air ambulance service; it is certainly dependable as a service, but it is not available 24 hours a day in all weathers. That is something to be considered.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Y peth olaf i'w ystyried yng nghyd-destun Llwynhelyg yw natur yr hewl sydd yn mynd o Lwynhelyg i Langwili, neu'r ffordd arall. Mae'r hewl ar gau weithiau oherwydd damweiniau. Mae eisiau bod yn saff, felly, fod darpariaeth ar y ddau ben o'r hewl honno.

From our perspective in Plaid Cymru, we once had a very strong rural health plan, approved by the previous Government, which I believe is still in force. I think that that rural health plan shows how we should develop delivering rural health and district general hospitals in rural Wales. I hope that the scaremongering will cease, but it has to cease on the basis of proper management and information from Hywel Dda health board and a proper appreciation of the real changes that are needed.

The last thing to be considered in the context of Withybush is the nature of the road from Withybush to Glangwili, or from Glangwili to Withybush. That road is often closed due to accidents. We need to be sure, therefore, that we have provision at both ends of that corridor.

O'n safbwynt ni ym Mhlaid Cymru, bu gennym gynllun iechyd gwledig cryf iawn unwaith, a gymeradwywyd gan y Llywodraeth flaenorol, ac sydd, fe gredaf, yn dal i fod mewn grym. Credaf fod y cynllun iechyd gwledig hwnnw yn dangos sut y dylem ddatblygu darpariaeth iechyd gwledig ac ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru wledig. Gobeithio y bydd y codi bwganod yn dod i ben, ond rhaid i hynny ddigwydd ar sail rheoli a gwybodaeth briodol gan fwrdd iechyd Hywel Dda a dealltwriaeth briodol o'r newidiadau gwirioneddol sydd eu hangen.

16:33

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to thank my colleague Paul Davies for moving this motion. I believe that he, together with others, has captured all of the key issues surrounding the very serious concerns about the future of consultant-led maternity services at Withybush. I share his view that the Welsh Government must take urgent action to secure the future of core services at Withybush hospital.

I want to focus my brief comments mainly on the knock-on effect that this will have on services for the people who reside in South Wales West. It has to be accepted that people who use the consultant-led maternity services at Withybush will still need these services. I fear that Morriston Hospital may well be put under additional pressure.

I would like to know specifically, when the Minister responds, what work has been undertaken to ascertain the effect surrounding consultant-led maternity services.

There is also the broader point that we, as Welsh Conservatives, believe in local health services for local people. Patients should not have to travel further for life-saving care. Forcing health boards to cut services is highly irresponsible and it could result in nothing less than a disaster. Our NHS should be properly resourced to enable provision of local services to local people.

I would also like to examine what research has been undertaken on the effect on expectant mothers as well as women who have recently given birth and their babies, who will have to travel further for specialist care, which could have further implications for their health. In short, I agree with the strategic vision for maternity services published by the Welsh Government in September 2011, which stated that ensuring that every woman in Wales has access to, and receives, safe, high-quality care as close to home as possible is paramount. That is all that needs to be said in this debate: ensuring that every woman in Wales has access to, and receives, safe, high-quality care as close to home as possible is paramount.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-Aelod Paul Davies am gynnig y cynnig hwn. Credaf ei fod ef, ynghyd ag eraill, wedi codi pob un o'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r pryderon mawr iawn ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Llwynhelyg. Cytunaf ag ef fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar fyrder i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd yn ysbyty Llwynhelyg.

Yn fy sylwadau byr rwyf am ganolbwyntio'n bennaf ar effaith ganlyniadol hyn ar wasanaethau i bobl sy'n byw yng Ngorllewin De Cymru. Rhaid derbyn y bydd angen gwasanaethau o hyd ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Llwynhelyg. Rwy'n ofni y gall Ysbyty Treforys gael ei roi o dan bwysau ychwanegol.

Hoffwn wybod yn benodol, pan fydd y Gweinidog yn ymateb, pa waith sydd wedi'i wneud i ganfod yr effaith ar wasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol.

Ceir hefyd y pwynt ehangach ein bod ni, fel y Ceidwadwyr Cymreig, yn credu mewn gwasanaethau iechyd lleol i bobl leol. Ni ddylai cleifion orfod teithio ymhellach ar gyfer gofal sy'n achub bywydau. Mae gorfodi byrddau iechyd i dorri gwasanaethau yn anghyfrifol iawn a gallai arwain at ddim byd llai na thrychineb. Dylai ein GIG gael adnoddau priodol er mwyn darparu gwasanaethau lleol i bobl leol.

Hoffwn hefyd ystyried pa ymchwil sydd wedi cael ei gwneud i'r effaith ar famau beichiog yn ogystal â menywod sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar a'u babanod, a fydd yn gorfod teithio ymhellach i gael gofal arbenigol, a allai arwain at oblygiadau pellach i'w hiechyd. Yn gryno, cytunaf â'r weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2011, a nododd fod sicrhau bod pob menyw yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ofal diogel o safon uchel mor agos i'w chartref â phosibl, ac yn ei gael, o'r pwys mwyaf. Dyna'r cyfan y mae angen ei ddweud yn y ddaid hon: mae sicrhau bod pob menyw yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ofal diogel o safon uchel mor agos i'w chartref â phosibl, ac yn ei gael, yn hanfodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

There is now a threat to close the consultancy-led maternity services at Withybush, creating a massive gap in accessibility to specialist treatment in Wales, which is the reverse of what your own strategic vision has set out. It is yet another perfect example of the confusion that this Labour Government has created in the health service with false promises and denying true patient care.

In closing, I will echo some of the points that the community health council has set out. First, the CHC believes that the health board's ambition to develop a neonatal level 2 unit at Glangwili hospital in Carmarthen is inappropriate and is an unattainable one in the current circumstances. Also, the CHC considers that if the health board proposals are implemented, it could result in a loss of maternity services in their entirety at Withybush, and, accordingly, a loss of A&E services. These are serious concerns that compound the anxiety with regard to these problems and the expected knock-on effect of services in Morriston Hospital in Swansea possibly being swamped. So, Welsh Labour Government, I urge you to take action now—halt these proposals, and go away and try again.

Erbyn hyn mae bygythiad i gau'r gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Llwynhelyg, gan greu bwch enfawr o ran mynediad at driniaeth arbenigol yng Nghymru, sef y gwrthwyneb i'r hyn a nodir yn eich gweledigaeth strategol eich hun. Mae'n enghraifft berffaith arall eto o'r dryswch y mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi ei achosi yn y gwasanaeth iechyd gydag addewidion gwag a gwrthod gofal cywir i gleifion.

Wrth gloi, hoffwn ategu rhai o'r pwyntiau a nodwyd gan y cyngor iechyd cymuned. Yn gyntaf, cred y CIC fod uchelgais y bwrdd iechyd i ddatblygu uned babanod newydd-anedig lefel 2 yn ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin yn amhriodol ac yn un na ellir ei gyflawni o dan yr amgylchiadau presennol. Hefyd, mae'r CIC o'r farn, pe câi cynigion y bwrdd iechyd eu rhoi ar waith, y gallai hynny arwain at golli gwasanaethau mamolaeth yn gyfan gwbl yn Llwynhelyg, ac felly hefyd wasanaethau damweiniau ac achosion brys. Mae'r rhain yn bryderon mawr sy'n dwysáu'r gofid ynghylch y problemau hyn a'r effaith ganlyniadol ddisgwyliedig ar wasanaethau yn Ysbyty Treforys yn Abertawe sef y byddant yn cael eu gorlethu o bosibl. Felly, Lywodraeth Lafur Cymru, rwy'n eich annog i gymryd camau yn awr—rhowch derfyn ar y cynigion hyn, a rhowch gynnig arall arni.

16:36

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Paul Davies and the Welsh Conservative group for bringing forward this important debate today. Once again, we find ourselves debating the future of health services in west Wales. Once again, we find ourselves lending support to those communities facing excessive centralisation and incremental downgrading. Like many other Members in this Chamber, particularly those who represent Mid and West Wales, I have become acutely aware of the concerns that exist within the Hywel Dda area in places such as Bronglais and about the further downgrading that is being contemplated at Prince Philip Hospital and at Withybush hospital, which is the subject of today's debate.

It has become abundantly clear to me that many people in west Wales feel that they are being short changed by this Welsh Government. In particular, they feel a severe lack of confidence in the Hywel Dda board in terms of its capacity to deliver the essential services that are required. As Chair of the Assembly's Petitions Committee, I am acutely aware also of the strength of feeling that exists across west Wales in this regard and of the determination of local individuals and action groups such as the save Withybush action team, to fight against the loss of key services. Only yesterday, committee members accepted a petition signed by over 200 residents calling on the decision to not undertake many orthopaedic surgery cases this winter to be reversed. We have also received a petition in recent months from around 10,000 people calling for the retention of the special-care baby unit at Withybush. Like many other constituents, it is clear that this current situation is not sustainable or safe, and we must not ask people to travel over an hour to receive consultant-led maternity services.

Diolch i Paul Davies a grŵp y Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl bwysig hon heddiw. Unwaith eto, cawn ein hunain yn trafod dyfodol gwasanaethau iechyd yn y gorllewin. Unwaith eto, cawn ein hunain yn rhoi cefnogaeth i'r cymunedau hynny sy'n wynebu canoli gormodol a israddio cynyddol. Fel llawer o Aelodau eraill yn y Siambr hon, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru, rwyf wedi dod yn ymwybodol iawn o'r pryderon sy'n bodoli o fewn ardal Hywel Dda mewn mannau megis Bronglais ac am yr israddio pellach sy'n cael ei ystyried yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac yn ysbyty Llwynhelyg, sef testun y ddatl heddiw.

Mae wedi dod yn gwbl amlwg imi fod llawer o bobl yn y gorllewin yn teimlo eu bod yn cael tro gwael gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, ceir diffyg hyder mawr ym mwrdd Hywel Dda o ran ei allu i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen. Fel Cadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad, rwy'n ymwybodol iawn hefyd o gryfder y teimladau yn y gorllewin yn hyn o beth ac o benderfyniad unigolion a grwpiau gweithredu lleol fel tîm gweithredu achub Llwynhelyg, i wrthsefyll colli gwasanaethau allweddol. Ddoe, derbyniodd aelodau'r pwyllgor ddeiseb wedi'i llofnodi gan dros 200 o drigolion yn galw am i'r penderfyniad i beidio â chynnal llawer o lawdriniaethau orthopedig dros y gaeaf gael ei wrthdroi. Rydym hefyd wedi cael deiseb yn ystod y misoedd diwethaf gan tua 10,000 o bobl yn galw am gadw'r uned gofal arbennig i fabanod yn Llwynhelyg. Fel llawer o etholwyr eraill, mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa bresennol hon yn gynaliadwy nac yn ddiogel, ac ni ddylem ofyn i bobl deithio dros awr i gael gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

When arguing for the downgrading of hospitals, those in Government will often try to set up a straw-man argument and say that those arguing in this direction oppose all change and believe that all services should continue as they are. That is simply not the reality. I very much doubt that there is anybody in this Chamber who believes that the status quo can be kept in every respect in every health board. However, when obviously flaky decisions are suggested or made, such as the threat to core services at Withybush, it is only proper that those who oppose them, do so loudly, and that those driving the potential downgrading listen to those arguments with respect. It is also vital that the CHC is left to do its duty without fear and without threat of intimidation.

One such point that is important to take account of is the future of staffing levels. For instance, losing junior doctors to Glangwili hospital on 1 April is a major blow to Withybush. As has been said in this Chamber on previous occasions, it is sometimes difficult to recruit medical staff to work in parts of rural Wales, and this problem is exaggerated by the slow pace with which some health boards proceed with recruitment. This was a question that I raised just last week in this Chamber.

I am also increasingly concerned about the number and impact of temporary agency and locum staff in hospitals across mid and west Wales. According to Dr Phil Kloer, director of clinical services in Hywel Dda, there have been as many as 160 additional winter beds that have often been managed by temporary staff in that region alone. Not only are these staff unsustainably expensive, but they are often not in a position to receive the training and updates that are necessary to work in these high-pressure environments. When a decision on a life-threatening condition has to be taken with regard to A&E, it is essential to ensure that we have the right staff in place and that they are appropriately trained.

As part of any reorganisation, we need to take a serious look at how staffing is organised, especially when there is a threat of the loss of key senior clinical staff and the knowledge capital that they represent. My colleague Kirsty Williams has frequently called for legal minimum nursing levels on Welsh wards. International evidence from Australia and Canada shows that having a legal minimum standard in place significantly improves patient outcomes. This means that patients are out of bed more quickly and that beds are freed for the treatment and recovery of others.

If services are to be sustainably delivered in the areas where they are needed, it is essential that the current staffing models change in a rational manner. However, these changes can only be successfully implemented if they carry the support of the communities across mid and west Wales.

Wrth ddadlau dros israddio ysbytai, bydd y rhai mewn grym yn aml yn ceisio cyflwyno dadl ffug gan honni bod y rhai sy'n dadlau dros y cyfeiriad hwn yn gwrthwynebu pob newid ac yn credu y dylai pob gwasanaeth barhau fel y mae. Nid felly y mae. Rwy'n amau yn fawr iawn a oes unrhyw un yn y Siambr hon yn credu y gall y sefyllfa bresennol barhau fel y mae ym mhob ffordd ym mhob bwrdd iechyd. Fodd bynnag, pan fydd penderfyniadau sy'n amlwg yn amheus yn cael eu hawgrymu neu eu gwneud, megis y bygythiad i wasanaethau craidd yn Llynwelyg, mae'n gwbl briodol bod y rhai sy'n eu gwrthwynebu, yn gwneud hynny yn groch, a bod y rhai sydd o blaid israddio posibl yn gwranddo ar y dadleuon hynny gyda pharch. Mae'n hanfodol hefyd bod y CIC yn cael llynydd i ymgymryd â'i ddyletswydd heb ofn na bygythiadau.

Un pwynt o'r fath y mae'n bwysig ei ystyried yw dyfodol lefelau staffio. Er enghraifft, mae colli meddygon iau i Langwili ar 1 Ebrill yn ergyd fawr i Llynwelyg. Fel y dywedwyd yn y Siambr hon o'r blaen, mae'n anodd weithiau recriwtio staff meddygol i weithio mewn rhannau o Gymru wledig, ac mae'r broblem hon yn cael ei dwysáu gan arafwch rhai byrddau iechyd wrth recriwtio. Roedd hwn yn gwestiwn a godais yr wythnos diwethaf yn y Siambr hon.

Rwyf hefyd yn mynd yn gynyddol bryderus am nifer y staff asiantaeth dros dro a staff locwm ac effaith hynny mewn ysbytai yn y canolbarth a'r gorllewin. Yn ôl Dr Phil Kloer, cyfarwyddwr gwasanaethau clinigol yn Hywel Dda, bu cynifer â 160 o welyau ychwanegol y gaeaf sydd yn aml wedi cael eu rheoli gan staff dros dro yn y rhanbarth hwnnw yn unig. Nid yn unig y mae staff o'r fath yn anghynaliadwy o gostus, ond yn aml nid ydynt mewn sefyllfa i gael yr hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd eu hangen i weithio yn yr amgylcheddau pwysau uchel hyn. Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniad ar gyflwr sy'n peryglu bywyd o ran damweiniau ac achosion brys, mae'n hanfodol sicrhau bod gennym y staff cywir a'u bod yn cael eu hyfforddi'n briodol.

Fel rhan o unrhyw ad-drefnu, mae angen inni edrych o ddifrif ar sut mae staffio yn cael ei drefnu, yn enwedig pan fo bygythiad o golli uwch staff clinigol allweddol a'r cyfalaf gwybodaeth sydd ganddynt. Mae fy nghyd-Aelod Kirsty Williams wedi galw yn aml am isafswm lefelau nyrsio cyfreithiol ar wardiau Cymru. Dengys tystiolaeth ryngwladol o Awstralia a Chanada fod rhoi safon ofynnol gyfreithiol ar waith yn gwella canlyniadau'n sylweddol i gleifion. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn codi o'r gwely yn gyflymach a bod y gwelyau ar gael i drin a gwella eraill.

Er mwyn i wasanaethau gael eu darparu mewn modd cynaliadwy yn yr ardaloedd lle mae eu hangen, mae'n hanfodol bod y modelau staffio presennol yn newid mewn modd rhesymegol. Fodd bynnag, dim ond os yw'r newidiadau hyn yn cael eu cefnogi gan y cymunedau yn y canolbarth a'r gorllewin y gallant gael eu gweithredu'n llwyddiannus.

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Rwy'n bwriadu bod yn gryno, gan fy mod wedi dweud eisoes yn fy natganiad i'r Cynulliad ar 24 Medi na fyddaf yn gwneud penderfyniad terfynol ar wasanaethau i fabanod newydd-anedig yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili tan ddechrau'r flwyddyn newydd. Rwyf wedi esbonio na fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud nes bod y bwrdd iechyd wedi rhoi eglurhad ynglŷn â gwasanaethau obstetreg, a bod y wybodaeth honno wedi cael ei hystyried gan y panel craffu annibynnol. Nid yw trafod a damcaniaethu ynglŷn â'r materion yma ar hyn o bryd yn helpu. Ni fydd y Llywodraeth yn cefnogi cynnig y Ceidwadwyr Cymreig heddiw.

A gaf i atgoffa'r Aelodau pam mae newid yn digwydd a pha brosesau sydd wedi cael eu dilyn? Ers imi ddod i'r swydd hon, rwyf wedi dweud yn glir nad oes dewis ond newid yn yr NHS yng Nghymru. Nid yw'r status quo yn opsiwn, gan fod y gwasanaeth iechyd heddiw yn wynebu cymaint o sialensiau gwahanol.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ond hyd yn oed petai arian ar gael i greu timau o arbenigwyr ym mhob safle, byddai'n anodd iawn cael digon o staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol. Hyd yn oed petai hŷn bosibl recriwtio'r staff, ni fyddent yn gallu defnyddio'u sgiliau arbenigol yn llawn am na fyddai llif digonol o gleifion. Felly, oni bai bod gweithredu ar frys yn digwydd, fydd yr NHS ddim yn gallu cwrrdd â gofynion cleifion yn y dyfodol. Mae hyn yn wir nid yn unig am ysbyty Llwynhelyg, ond am Gymru gyfan.

Yn dilyn proses eang o wrando a thrafod, aeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ati ar ddiwedd haf 2012 i ymgynghori ar ei gynlluniau i newid gwasanaethau iechyd. Cafodd y penderfyniadau terfynol eu gwneud ym mis Ionawr eleni, a chafodd y rheini eu hystyried gan y cyngor iechyd cymuned lleol gan ddilyn y drefn arferol. Cafodd dau fater eu cyfeirio ataf i am benderfyniad, sef y model gofal brys yn Ysbyty Tywysog Philip a'r ddarpariaeth i fabanod newydd-anedig yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili. Cafodd panel craffu annibynnol ei sefydlu ym mis Gorffennaf.

That panel reported in September and in my statement of 24 September, I set out my response. In respect of neonatal services, the panel endorsed the health board's plans to establish a level 2 neonatal unit at Glangwili hospital in Carmarthen, subject to clarification on models for obstetrics and midwifery services in the area. I therefore instructed the health board to undertake this further work, including a requirement—to follow the points that Joyce Watson made—to report on the panel's very direct recommendation that a 24-hour neonatal transport service should be introduced to Glangwili General Hospital.

I intend to be brief, given that I have already said in my statement to the Assembly on 24 September that I will not be making a final decision on services for newborn babies in Withybush and Glangwili hospitals until the start of the new year. I have explained that decisions will not be made until the health board has given an explanation regarding the obstetric services, and until that information has been considered by the independent scrutiny panel. Discussing and hypothesising about these matters at present does not help. The Government will not be supporting the Welsh Conservatives' motion today.

May I remind Members why change is happening and which processes have been followed? Since I came into post, I have said clearly that there is no choice but to change the NHS In Wales. The status quo is not an option, given that health services today face so many different challenges.

We are all aware of the financial situation facing public services across Wales, but even if money was available to create specialist teams at every site, it would be very difficult to have enough staff with the necessary skills and training. Even if it would be possible to recruit the staff, they would not be able to use those specialist skills fully because there would not be a sufficient flow of patients. Therefore, unless urgent action is taken, the NHS will not be able to meet the requirements of patients in the future. This is true not only for Withybush hospital, but for Wales as a whole.

Following an extensive process of listening and discussion, Hywel Dda Local Health Board, at the end of the summer in 2012, consulted on its plans to change health services. The final decisions were made in January this year, and those were considered by the local community health council, following the usual process. Two issues were referred to me for decision, namely the emergency care model for Prince Philip Hospital and the neo-natal provision at Withybush and Glangwili. An independent scrutiny panel was established in July.

Cyflwynodd y panel hwnnw adroddiad ym mis Medi ac yn fy natganiad ar 24 Medi, nodais fy ymateb. O ran gwasanaethau babanod newydd-anedig, cymeradwyodd y panel gynlluniau'r bwrdd iechyd i sefydlu uned babanod newydd-anedig lefel 2 yn ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, yn amodol ar gael eglurhad ynghylch modelau ar gyfer obstetreg a gwasanaethau bydwreigiaeth yn yr ardal. Felly, rhoddais gyfarwyddyd i'r bwrdd iechyd wneud y gwaith pellach hwn, gan gynnwys gofyniad—gan ddilyn y pwyntiau a wnaeth Joyce Watson—i gyflwyno adroddiad ar argymhelliad uniongyrchol iawn y panel y dylid cyflwyno gwasanaeth cludo babanod newydd-anedig 24 awr yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili.

It is the inescapable fact that the annual number of births in the Hywel Dda area is low. There are around 500 at Bronglais, 1,200 at Wthybush and 1,600 at Glangwili. The relevant royal colleges recommend, for reasons of best outcomes for mothers and babies, that any consultant should have responsibility for 500 births in any year. Arrangements at Hywel Dda currently mean that any obstetrician or gynaecologist currently in its employment would, on average, oversee 214 births in a year. That is well below half that required to meet royal college standards. Little wonder, then, that the scrutiny panel's core conclusion was that the number of live births that take place in west Wales means that it will not be possible in the future to continue providing specialist services at more than one site. That is the inescapable background to the additional work being carried out by the health board, which it intends to conclude by the first week in December. The scrutiny panel will then be reconvened. I have strengthened it by adding in a new consultant obstetrician, Mr Simon Emery, who is also the chair of the Academy of Medical Royal Colleges in Wales and is based at a west Wales hospital, in Singleton. Provided the necessary work is complete, I intend to make a further oral statement to the Assembly at the end of January next year.

I fully understand that change is often unsettling and I recognise that communities often view changes in the way healthcare is delivered with concern. I also recognise that the personal concerns of professionals at the perceived loss of their own status or service can also be a powerful obstacle to change.

I recognise that there is one part of today's motion with which I am fully in agreement, namely the need for effective and unambiguous communication by the local health board in all its work. I understand the points that Simon Thomas and other Members have made this afternoon about the need for the board to improve its performance in that area. I discussed these points directly with the chair and the chief executive of Hywel Dda health board on Monday this week and they recognised the need for clear and consistent communication with staff and their local population in the future. I hope that Members will recognise that some of the steps that they have already taken in designating a senior member of the board to communicate directly with Members of this Assembly on matters within that health board is part of their determination to make that improvement. The motion calls for unambiguous communication and I agree.

I have heard many calls this afternoon for political leadership on this matter. So, let me end with this unambiguous message. Change is coming to Wthybush hospital, as it is coming to all other parts of Wales, as we align our services to the new possibilities created by medical advances and make those advances available to all Welsh patients.

Mae'n ffaith ddiymwad bod nifer y genedigaethau y flwyddyn yn ardal Hywel Dda yn isel. Ceir tua 500 y Mronglais, 1,200 yn Llwynhelyg a 1,600 yn Ysbyty Glangwili. Mae'r colegau brenhinol perthnasol yn argymhell, am resymau sy'n ymwneud â sicrhau'r canlyniadau gorau i famau a babanod, y dylai unrhyw feddyg ymgynghorol fod yn gyfrifol am 500 o enedigaethau mewn blwyddyn benodol. Mae'r trefniadau yn Hywel Dda ar hyn o bryd yn golygu y byddai unrhyw obstetrydd neu gynaecelegydd a gyflogir gan y bwrdd, yn goruchwyllo 214 o enedigaethau mewn blwyddyn ar gyfartaledd. Mae hynny'n is o lawer na hanner y niferoedd sydd eu hangen i gyrraedd safonau'r colegau brenhinol. Nid oes rhyfedd, felly, mai casgliad craidd y panel craffu oedd bod nifer y genedigaethau byw sy'n digwydd yn y gorllewin yn golygu na fydd yn bosibl yn y dyfodol i barhau i ddarparu gwasanaethau arbenigol ar fwy nag un safle. Dyna gefndir anochel y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud gan y bwrdd iechyd, y mae'n bwriadu ei gwblhau erbyn wythnos gyntaf mis Rhagfyr. Yna bydd angen ailgynnull y panel craffu. Rwyf wedi ei atgyfnerthu drwy ychwanegu obstetrydd ymgynghorol newydd, Mr Simon Emery, sydd hefyd yn gadeirydd Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru ac wedi'i leoli mewn ysbyty yn y gorllewin, yn Singleton. Ar yr amod bod y gwaith angenrheidiol wedi'i gwblhau, bwriadaf wneud datganiad llafar pellach i'r Cynulliad ar ddiwedd mis Ionawr y flwyddyn nesaf.

Deallaf yn llwyr fod newid yn aml yn annymunol ac rwy'n cydnabod bod cymunedau yn aml yn ystyried newidiadau yn y ffordd y darperir gofal iechyd gyda phryder. Rwyf hefyd yn cydnabod y gall pryderon personol gweithwyr proffesiynol eu bod yn teimlo eu bod yn colli statws neu eu gwasanaeth eu hunain hefyd fod yn rhwystr grymus i newid.

Rwy'n cydnabod bod un rhan o gynnyg heddiw y cytunaf yn llwyr â hi, sef yr angen am gyfathrebu effeithiol a diamwys gan y bwrdd iechyd lleol yn ei holl waith. Deallaf y pwyntiau a wnaed gan Simon Thomas ac Aelodau eraill y prynhawn yma ynglŷn â'r ffaith bod angen i'r bwrdd wella ei berfformiad yn y maes hwnnw. Trafodais y pwyntiau hyn yn uniongyrchol â chadeirydd a phrif weithredwr bwrdd iechyd Hywel Dda ddydd Llun yr wythnos hon ac maent yn cydnabod bod angen cyfathrebu clir a chyson â staff a'u poblogaeth leol yn y dyfodol. Gobeithio y bydd yr Aelodau yn cydnabod bod rhai o'r camau y maent eisoes wedi eu cymryd i ddynodi uwch aelod o'r bwrdd i gyfathrebu'n uniongyrchol ag Aelodau'r Cynulliad hwn ar faterion yn y bwrdd iechyd hwnnw yn rhan o'u penderfyniad i sicrhau'r gwelliant hwnnw. Mae'r cynnyg yn galw am gyfathrebu diamwys a chytunaf.

Clywais sawl galwad y prynhawn yma am arweinyddiaeth wleidyddol ar y mater hwn. Felly, gadewch imi orffen gyda'r neges ddiamwys hon. Mae pethau yn newid yn ysbyty Llwynhelyg, fel y maent ym mhob rhan arall o Gymru, wrth inni gysoni ein gwasanaethau â'r posibilïadau newydd a grëwyd gan ddatblygiadau meddygol a sicrhau bod y datblygiadau hynny ar gael i holl gleifion Cymru.



The choice for local political leaders is similarly clear. Those who seek to adopt a 'what we have is what we hold' approach for Withybush will have removed themselves from the real debates and discussions that will shape the future for people in that part of Wales. Instead, I urge all local representatives to engage in the clinical conversations and the leadership conversations that will be necessary to go on securing safe, sustainable and successful services for the people of Pembrokeshire both at Withybush hospital and more widely, and far into the future.

Mae'r dewis i arweinwyr gwleidyddol lleol yr un mor glir. Bydd y rhai sy'n ceisio gweithredu ar sail 'yr hyn sydd gennym yw'r hyn fydd gennym' o ran Llwynhelyg wedi cefnu ar y dadleuon a'r trafodaethau gwirioneddol a fydd yn llunio'r dyfodol i bobl yn y rhan honno o Gymru. Yn lle hynny, erfyniaf ar bob cynrychiolydd lleol i gymryd rhan yn y sgysiaid clinigol a'r sgysiaid am arweinyddiaeth y bydd angen eu cael er mwyn sicrhau gwasanaethau diogel, cynaliadwy a llwyddiannus i bobl Sir Benfro yn ysbty Llwynhelyg ac yn fwy cyffredinol, ac ymhell i'r dyfodol.

16:51

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have all seen an avalanche on television; hopefully, not too many of us have seen one in person. You see that little trickle of a snowball that starts, and then gradually, the side of the cliff starts to fall away until it builds up into a great big, white waterfall that sweeps all before it. I use that analogy, because about 10 days ago, I popped into the Pets R Us or Pets for You store in Haverfordwest to buy a squeaky toy for my new dog and I met a woman who was about four months' pregnant, so she was just showing. I did not know her from Adam, and she rushed up to me and said, 'I've been told I have to have my baby in Glangwili'. 'Really?' I said, very surprised. Since then, Paul Davies and I have met with the chair of the Hywel Dda health board and his colleagues last Friday, and we discussed this further. During that intervening space, my mailbox has groaned under the weight of the people who have written to me' they are predominantly women, predominantly pregnant and who have predominantly been told that, from now on, their babies will be born in Carmarthenshire, not Pembrokeshire. They are unhappy, frightened, concerned and outraged.

They did not make this up and I would like to tell the Labour Member for Mid and West Wales, Joyce Watson, that I did not start this rumour. This came to me. What I am trying to do is find out what on earth is going on in order to go out there to reassure people that there is a future for Withybush General Hospital.

Let us be clear. Will that hospital be there in two years' time? Of course it will. Will it be there in five years' time? Well, probably. But, what will be in it? Simon Thomas, you made a very interesting comment. You asked the Minister—I do not believe that he answered you—about the rumours that you have heard about the A&E unit closing in August. I have heard those rumours and I have seen it on Facebook and Twitter. Again, this rumour has not been started by me, or Simon or Paul. This is stuff that is happening out there. Yes, Minister, I take your point that there are one or two vested interests and I do hold those vested interests to account, because I think that some of them have been very difficult and have gone around starting up stuff that is totally unnecessary. The point of this is that the health board has not made itself crystal clear and that is what it needs to do.

Rydym i gyd wedi gweld cwmp eira ar y teledu; gobeithio nad oes gormod ohonom wedi gweld un yn bersonol. Fe welwch y belen eira fach yn dechrau symud, ac yna'n raddol, mae ochr y clogwyn yn dechrau disgyn nes ei fod wedi troi'n rhaeadr fawr wen sy'n ysgubo popeth o'i flaen. Defnyddiaf y gyfatebiaeth, honno, oherwydd tua 10 diwrnod yn ôl, euthum i mewn i siop Pets R Us neu Pets for You yn Hwlfordd i brynu tegau gwichian i'm ci newydd a chyfarfwm â merch a oedd tua phedwar mis yn feichiog, felly nid oedd ond yn dechrau edrych yn feichiog. Doedd dim syniad gennyf pwy ydoedd ond dyma hi'n rhuthro tuag ataf a dweud, 'Rwyf wedi cael gwybod bod yn rhaid imi roi genedigaeth yng Nglangwili'. 'Yn wir?' meddwn gan synnu'n fawr. Ers hynny, mae Paul Davies a minnau wedi cyfarfod â chadeirydd bwrdd iechyd Hywel Dda a'i gydweithwyr ddydd Gwener diwethaf, a buom yn trafod hyn ymhellach. Yn y cyfamser, mae fy mlwch post yn orlawn o negeseuon gan bobl sydd wedi ysgrifennu ataf, merched yn bennaf, a merched beichiog yn bennaf, ac sydd wedi cael gwybod yn bennaf, o hyn ymlaen, y bydd eu babanod yn cael eu geni yn Sir Gaerfyrddin, nid yn Sir Benfro. Maent yn anfodlon, yn ofnus, yn bryderus ac yn ddig.

Nid oeddent wedi dychmygu hyn a hoffwn ddweud wrth yr Aelod Llafur dros Ganollbarth a Gorllewin Cymru, Joyce Watson, nad fi ledodd y si hwn. Cefais wybod gan eraill. Yr hyn yr wyf yn ceisio ei wneud yw cael gwybod beth ar y ddaear sy'n digwydd er mwyn rhoi sicrydd i bobl bod dyfodol i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.

Gadewch inni fod yn glir. A fydd yr ysbty hwnnw yn bodoli ymhene dwy flynedd? Wrth gwrs y bydd. A fydd yn bodoli ymhene pum mlynedd? Wel, yn ôl pob tebyg. Ond, beth fydd ynddo? Simon Thomas, gwnaethoch sylw diddorol iawn. Gofynasoch i'r Gweinidog—ni chredaf iddo roi ateb ichi—am y sibrydion a glywsoch y bydd yr uned damweiniau ac achosion brys yn cau ym mis Awst. Rwyf innau wedi clywed y sibrydion hynny ac rwyf wedi eu gweld ar Facebook a Twitter. Unwaith eto, nid fi, na Simon na Paul a ledodd y si hwnnw. Mae'r pethau hyn yn digwydd o ddirif. Weiniog, derbyniaf eich pwynt bod un neu ddau â buddianau personol ac rwy'n dwyn y rhai â'r buddianau personol hynny i gyfrif, oherwydd credaf fod rhai ohonynt wedi bod yn anodd iawn ac wedi codi cynnen yn gwbl ddiangen. Y pwynt yn hyn o beth yw nad yw'r bwrdd iechyd wedi gwneud pethau'n hollol glir, a dyna'r hyn y mae angen iddo ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I also think that it goes further than that. We have talked about babies and bumps, but I need to draw your attention to the third part of our motion, which calls on us to take urgent action to secure the future of core services at Withybush. What is a core service? What makes a core service? To me, it is very simple. We are born, we die, and there are a couple of really nasty things that seem to happen to most people in between. I would suggest to you that, as you get older, those things are dementia, something horrible to do with cancer and something to do with your heart. To me, those seem to be the core services. So, we need to have a proper discussion about what we are going to do, what we will do with that hospital and how it can maintain its importance to the people of Pembrokeshire.

Minister, I would really like to urge you to consider the fact that we believe that there should be a rural premium on that hospital. I am sure that it is not the only one; there will be one or two other hospitals dotted around Wales that serve a very fractured community in terms of location. Many people have talked about the fact that it is 33 miles from Haverfordwest to Glangwili. It is not if you are in St David's; it is a lot more than that. It is not if you are in Angle; it is a lot more than that. It is not, actually, if you are technically a little closer, but you live up in the hills, because getting out of those hills, especially on a rainy, windswept night with ice and snow around, it takes you even longer still. That hospital needs more funding. If you look at what is happening to it and put it into context, you will see that it is driven by money, not clinicians. The whole ethos of the hospital is driven by its desire to remain a training hospital.

Therefore, this is another challenge, Minister: do we really need to have it as a training hospital for babies to be born there? The reason why we are having to close some of these services or to look at the way that they are being delivered is because of the insistence of the Withybush management or the Hywel Dda management on it being a training hospital. I can understand the imperatives of the royal colleges, which are pulling our health service in one way, while the people want the health service to go the other way. They would like it to be near them. Once we have had this battle over our babies, we will be having this battle over our hearts, and then we will be having this battle over our cancer services. Already, in Withybush, we have people who have to go to Singleton for radiotherapy—I understand that it is £5 million for a radiotherapy unit—but then, every two weeks, they have got to go to Prince Philip to have their check-up, because the royal colleges or Abertawe Bro Morgannwg, which was raised earlier, will not let their surgeons be too far away from their hospitals, so they will not come to Withybush to give people a check-up. These people already have cancer and they are already in pain.

Credaf hefyd ei bod yn mynd ymhellach na hynny. Rydym wedi sôn am fabanod a mamau beichiog, ond mae angen imi dynnu eich sylw at y drydedd ran o'n cynnig, sy'n galw arnom i weithredu ar fyrder i sicrhau dyfodol gwasanaethau craidd yn Llwynhelyg. Beth yw gwasanaethau craidd? Beth sy'n gwneud gwasanaethau craidd? I mi, mae'n syml iawn. Rydym yn cael ein geni, rydym yn marw, ac mae un neu ddau o bethau cas yn digwydd i'r rhan fwyaf o bobl yn ôl pob golwg yn y canol. Byddwn yn dweud, wrth ichi fynd yn hŷn, mai dementia, rhywbeth ofnadwy sy'n ymwneud â chanser a rhywbeth sy'n ymwneud â'ch calon yw'r pethau hyn. Ymddengys i mi, mai dyna'r gwasanaethau craidd. Felly, mae angen inni gael trafodaeth go iawn am yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, yr hyn y byddwn yn ei wneud â'r ysbyty hwnnw a sut y gall barhau i fod yn bwysig i bobl Sir Benfro.

Weinidog, hoffwn eich annog i ystyried y ffaith ein bod yn credu y dylai fod premiwm gwledig ar yr ysbyty hwnnw. Rwy'n siŵr nad hwn yw'r unig un; bydd un neu ddau ysbyty arall yma ac acw ledled Cymru sy'n gwasanaethu cymuned ddigyswllt iawn o ran lleoliad. Mae llawer o bobl wedi sôn am y ffaith bod pellter o 33 milltir rhwng Hwlfordd a Glangwili. Nid felly os ydych yn Nhyddewi; mae dipyn yn fwy na hynny. Nid felly os ydych yn Angle, mae dipyn yn fwy na hynny. Nid felly, mewn gwirionedd, os ydych yn dechnegol ychydig yn nes, ond eich bod yn byw yn y mynyddoedd, oherwydd mae'n cymryd hyd yn oed mwy o amser, yn enwedig ar noson lawog yn nannedd y gwynt gyda rhew ac eira o gwmpas, os ydych yn teithio o'r mynyddoedd hynny. Mae angen mwy o gyllid ar yr ysbyty hwnnw. Os edrychwch ar yr hyn sy'n digwydd iddo a'i roi yn ei gyd-destun, fe welwch ei fod yn cael ei ysgogi gan arian, nid clinigwyr. Mae holl ethos yr ysbyty yn cael ei ysgogi gan ei awydd i barhau i fod yn ysbyty hyfforddi.

Felly, mae hon yn her arall, Weinidog: a oes wir angen iddo fod yn ysbyty hyfforddi er mwyn i fabanod gael eu geni yno? Y rheswm pam rydym yn gorfod cau rhai o'r gwasanaethau hyn neu edrych ar y ffordd y maent yn cael eu darparu yw oherwydd bod rheolwyr Llwynhelyg neu reolwyr Hywel Dda yn mynnu mai ysbyty hyfforddi ydyw. Gallaf ddeall gofynion y colegau brenhinol, sy'n tynnu ein gwasanaeth iechyd mewn un ffordd, tra bod y bobl am i'r gwasanaeth iechyd fynd i'r ffordd arall. Maent am iddo fod yn agos iddynt. Unwaith y byddwn wedi ymladd y frwydr hon dros ein babanod, byddwn yn ymladd y frwydr hon dros ein calonnau, ac yna byddwn yn ymladd y frwydr hon dros ein gwasanaethau canser. Mae pobl eisoes yn Llwynhelyg yn gorfod mynd i Singleton i gael radiotherapi—caf ar ddeall bod uned radiotherapi yn costio £5 miliwn—ond wedyn, bob pythefnos, rhaid iddynt fynd i Ysbyty'r Tywysog Philip i gael archwiliad, am na fydd y colegau brenhinol nac Abertawe Bro Morgannwg, a godwyd yn gynharach, yn caniatáu i'w llawfeddygon fod yn rhy bell i ffwrdd o'u hysbytai, felly ni fyddant yn dod i Llwynhelyg i wneud archwiliadau. Mae gan y bobl hyn ganser eisoes ac maent eisoes mewn poen.

My time is running out, Deputy Presiding Officer, but we will have to return to this. I just want to finish by saying one thing: I was elected by those people, and I do take great exception to this rumourmongering bit, because I have stood up and said, 'Change is coming'. I have stood up and said, 'We need a level 2 SCABU'. I was on the Children and Young People Committee that came up with that recommendation. I saw the evidence and I know what we need. Therefore, I do not do this lightly. However, what I will not do is have my constituents completely sidelined, and I will keep raising concerns for as long as there is breath in my body and I am their elected Member.

Mae fy amser yn mynd yn brin, Ddirprwy Lywydd, ond bydd yn rhaid inni ddychwelyd at hyn. Hoffwn orffen drwy ddweud un peth: cefais fy ethol gan y bobl hynny, ac rwy'n gweld y cyhuddiad hwn o ledu sion yn chwith iawn, oherwydd rwyf wedi sefyll i fyny a dweud, 'Mae newid ar ddod'. Rwyf wedi sefyll i fyny a dweud, 'Mae angen SCABU lefel 2 arnom'. Roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a wnaeth yr argymhelliad hwnnw. Gwelais y dystiolaeth a gwn beth sydd ei angen arnom. Felly, nid ar chwarae bach y gwnaf hyn. Fodd bynnag, yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw gweld fy etholwyr yn cael eu gwthio o'r neilltu'n gyfan gwbl, a byddaf yn parhau i godi pryderon cyhyd ag y bo anadl einioes yn fy nghorff a chyhyd ag y byddaf yn aelod etholedig drostynt.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion be agreed. Is there any objection? There is objection, therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru: Addysg

*Delholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4 a 5 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2 a 6 yn enw William Graham.*

## Plaid Cymru Debate: Education

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4 and 5 in the name of Aled Roberts, and amendments 2 and 6 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5372 Elin Jones

Motion NDM5372 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

To propose that the National Assembly for Wales

1. Yn nodi na fydd perfformiad Cymru yn erbyn PISA a mesuriadau perfformiad addysgol cenedlaethol a rhyngwladol eraill yn gwella digon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru oni bai bod cyfraddau cyrhaeddiad disgyblion o gefndir difreintiedig yn gwella'n sylweddol.

1. Notes that Wales' performance in PISA and other national and international measurements of educational performance will not improve enough to reach the Welsh Government's targets unless the attainment rates of pupils from disadvantaged backgrounds is drastically improved.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i athrawon, penaethiaid a staff cymorth newydd a phresennol ar ymyriad cynnar i wella llythrennedd, rhifedd, presenoldeb ac ymddygiad er mwyn codi cyfraddau cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig.

2. Calls upon the Welsh Government to invest in a comprehensive training programme for new and existing teachers, headteachers and support staff on early intervention to improve literacy, numeracy, attendance and behaviour in order to raise the attainment rates of disadvantaged pupils.

3. Yn croesawu cytundeb cyllideb Plaid Cymru gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru i fwy na dyblu'r cyllid a roddir fesul plentyn drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

3. Welcomes Plaid Cymru's budget agreement with the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government to more than double the funding given per child through the Pupil Deprivation Grant.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls upon the Welsh Government to:

a) cryfhau'r canllawiau ar y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithlon i godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio; a

a) strengthen the guidelines on the use of the Pupil Deprivation Grant to ensure it is used effectively and efficiently to raise the attainment of disadvantaged pupils based on evidence of what works; and

b) cryfhau'r broses o fonitro'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd.

b) strengthen the monitoring of the use of the Pupil Deprivation Grant to ensure that it is used for its intended purpose.

I move the motion.

The purpose of this motion, obviously, is to look forward to next week's Programme for International Student Assessment results, but, more importantly, to try to examine how we can raise the attainment of pupils in Wales from all backgrounds and, thereby, improve, going forward, our comparisons within PISA, but also, more widely, the way that we measure school standards in Wales.

I think that at this point, it is important to think about and be clear about what PISA does. Some people have started to suggest that it is not that important, so that we should not, somehow, measure schoolchildren in Wales by PISA. PISA tests reading, mathematical and scientific literacy in terms of general competencies, but also how pupils can apply those competencies to real-life challenges. PISA does not test how well a student has mastered a school-specific curriculum, but rather, how their skills are being used in real-life situations, and, in that regard, PISA is a very useful test. It is also a test that most of the Organisation for Economic Co-operation and Development countries take, it is one that Wales has voluntarily entered as a nation and this means that we can compare how our children not only learn, but apply that learning, within a wider range of countries with which we compete economically, and with which we also share national and cultural aspirations.

We first entered the tests in 2006, when our mean scores were something like the mean scores of the average OECD countries, but the second time that we were tested in 2009—the results came out in 2010—we had taken a step backwards. That was of great concern to the then Government and led to a commitment to see Wales raise its scores by 2015 to the top 20 in the PISA results. I asked the Minister yesterday about this, and he certainly did not resile from the top 20 ambition, although I think that it is fair to say that he made it more of an ambition than a target.

PISA, therefore, allows us to take the temperature of the education system in Wales. It can tell us if something is going wrong but it does not provide the full diagnosis.

Cynigiau y cynnig.

Diben y cynnig hwn, yn amlwg, yw edrych ymlaen at ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yr wythnos nesaf, ond, yn bwysicach, ceisio archwilio sut y gallwn godi cyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru o bob cefndir a, thrwy hynny, wella ein cymariaethau yn y dyfodol o fewn PISA, ond hefyd, yn ehangach, y ffordd rydym yn mesur safonau ysgolion yng Nghymru.

Credaf ar hyn o bryd, ei bod yn bwysig ystyried yr hyn a wna PISA a bod yn eglur am hynny. Mae rhai pobl wedi dechrau awgrymu nad yw mor bwysig â hynny, ac felly na ddylem, rywffordd, fesur plant ysgol yng Nghymru yn ôl PISA. Mae PISA yn profi sgiliau darllen, sgiliau mathemategol a gallu gwyddonol o ran cymwyseddau cyffredinol, ond hefyd sut y gall disgyblion gymhwyso'r cymwyseddau hynny at heriau go iawn. Nid yw PISA yn profi i ba raddau y mae myfyrwr wedi meistroli cwricwlwm ysgol-benodol, ond yn hytrach, sut y caiff ei sgiliau eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn, ac, yn hynny o beth, mae PISA yn brawf defnyddiol iawn. Mae hefyd yn brawf y mae'r rhan fwyaf o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei sefyll, mae'n brawf y mae Cymru wedi ymrwymo'n wirfoddol i'w sefyll fel gwlad ac mae hynny'n golygu y gallwn gymharu nid yn unig sut y mae ein plant yn dysgu, ond hefyd sut y maent yn cymhwyso'r dysgu hwnnw, o fewn amrywiaeth ehangach o wledydd yr ydym yn cystadlu â hwy'n economaidd, ac rydym hefyd yn rhannu'r un dyheadau cenedlaethol a diwylliannol â hwy.

Gwnaethom sefyll y profion am y tro cyntaf yn 2006, pan oedd ein sgoriau cymedrig yn cyfateb yn fras i sgoriau cymedrig gwledydd cyffredin y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond yr ail dro y gwnaethom sefyll y profion yn 2009—cyhoeddwyd y canlyniadau yn 2010—roeddem wedi cymryd cam yn ôl. Roedd hyn yn destun pryder mawr i'r Llywodraeth ar y pryd ac arweiniodd at ymrwymiad i wella sgoriau Cymru erbyn 2015 a'i gosod o fewn yr 20 uchaf yng nghanlyniadau PISA. Holais y Gweinidog am hyn ddoe, ac yn sicr, ni chefnodd ar yr uchelgais o fod yn yr 20 uchaf, er ei bod yn deg dweud, fe gredaf, mai uchelgais ydoedd iddo yn hytrach na tharged.

Mae PISA, felly, yn ein galluogi i fesur tymheredd y system addysg yng Nghymru. Gall ddweud wrthym os oes rhywbeth yn mynd o'i le, ond nid yw'n darparu'r diagnosis llawn.

What we expect next week, of course, are PISA results particularly focused on mathematics. I think that it is fair to say that the expectations of Wales are generally low. Professor David Reynolds has said that he does not expect us to have moved on. In fact, he said that he thinks that we would be doing quite well to hold our own. That does call into question as to whether we can conceivably reach that top-20 target by 2015. Indeed, the Welsh Government has been inconsistent in its response to the question of whether it is expecting any improvements in next week's results. I think that it is fair to say that the message, more recently, has been that it does not.

It is not just PISA that points to some difficulties, of course. Two recent reports by Estyn show that there is room for concern regarding mathematics and numeracy within our schools. An Estyn report on good practice in mathematics in October said that mathematics remains the lowest performing core subject at key stage 4 in Wales, and that progress from key stage 3 to the end of key stage 4 is weaker in mathematics than in any other core subject. It also found that attainment in mathematics at grade C and above in Wales is the lowest in the UK. So, we have room for concern facing up to next week's PISA results.

Furthermore, in its thematic reporting on mathematics and numeracy in key stages 2 and 3 back in June this year, Estyn reported that there had been very little progress in pupils' numeracy over recent years. Only a minority of primary schools and a few secondary schools had effective systems in place to track and record pupils' numeracy skills across the curriculum beyond mathematics. I think that there is an amendment tabled on tracking pupils' progress, which we support, but it is important to note that it is not just about progress within a subject, but how you use those skills across the curriculum.

The Welsh Government is currently developing new Wales-only GCSEs in key subjects—a move that we have supported—including two new mathematics qualifications. These new GCSEs will be taught in schools from September 2015 onwards. The difficulty here—if I can gently point it out to the Minister and the Chamber—is that there is a contradiction in relying on a new system to improve your educational outcome in mathematics, if you think that this can have an effect on PISA. The Minister has already said that we are too early in our educational improvement journey, as he calls it, to expect PISA to be improved next year. I think that September 2015 is too early to therefore expect that our mathematics change will have an effect on PISA very soon.

There is also a forthcoming review of the national curriculum, which will also need to take into account the lessons from PISA and other assessments. The really quite damning report, really, is the conclusion of Estyn that pupils are unable to apply numeracy skills in different contexts. That suggests to me that it is that lack of ability to apply skills, which is what PISA tests, is where we are being let down, or where we are failing in terms of international comparison.

Yr hyn a ddisgwylwn yr wythnos nesaf, wrth gwrs, yw canlyniadau PISA sy'n canolbwyntio'n benodol ar fathemateg. Credaf ei bod yn deg dweud bod y disgwyladau ar gyfer Cymru yn gyffredinol isel. Mae'r Athro David Reynolds wedi dweud nad yw'n disgwyl inni fod wedi symud ymlaen. Yn wir, dywedodd ei fod yn credu y byddem yn gwneud yn eithaf da pe baem yn llwyddo i ddal ein tir. Mae hynny'n bwrw amheuan ar ein gallu gwirioneddol i gyrraedd y targed hwnnw o fod yn yr 20 uchaf erbyn 2015. Yn wir, bu Llywodraeth Cymru yn anghyson o ran ei hymateb i ba un a yw'n disgwyl unrhyw welliannau yng nghanlyniadau'r wythnos nesaf. Credaf ei bod yn deg dweud mai'r neges, yn fwy diweddar, yw nad yw'n disgwyl hynny.

Nid dim ond PISA sy'n cyfeirio at rai anawsterau, wrth gwrs. Dengys dau adroddiad diweddar gan Estyn bod mathemateg a rhifedd yn ein hysgolion yn destun pryder. Nododd adroddiad Estyn ar arfer da mewn mathemateg ym mis Hydref mai mathemateg yw'r pwnc craidd lle ceir y perfformiad isaf o hyd yng nghyfnod allweddol 4 yng Nghymru, a bod cynnydd o gyfnod allweddol 3 hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn wannach mewn mathemateg nag mewn unrhyw bwnc craidd arall. Canfu hefyd mai perfformiad Cymru mewn mathemateg ar radd C ac uwch yw'r isaf yn y DU. Felly, mae gennym reswm dros bryderu wrth wynebu canlyniadau PISA yr wythnos nesaf.

At hynny, yn ei adroddiadau thematig ar fathemateg a rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 nôl ym mis Mehefin eleni, nododd Estyn mai prin iawn fu'r cynnydd o ran sgiliau rhifedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf. Dim ond lleiafrif o ysgolion cynradd a nifer fach o ysgolion uwchradd oedd â systemau effeithiol ar waith i olrhain a chofnodi sgiliau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm y tu hwnt i fathemateg. Credaf fod gwelliant wedi'i gyflwyno ar olrhain cynnydd disgyblion, a gefnogir gennym, ond mae'n bwysig nodi nad dim ond mater o gynnydd o fewn pwnc mohono, ond sut y caiff y sgiliau hynny eu defnyddio ar draws y cwricwlwm.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu TGAU newydd i Gymru'n unig mewn pynciau allweddol—datblygiad a gefnogwyd gennym—gan gynnwys dau gymhwyster mathemateg newydd. Caiff y cymwysterau TGAU newydd eu haddysgu mewn ysgolion o fis Medi 2015 ymlaen. Yr anhawster yn hyn o beth—os gallaf dynnu sylw'r Gweinidog a'r Siambwr ato'n ofalus—yw bod achos o wrthdweud, wrth ddibynnu ar system newydd i wella eich canlyniadau addysgol mewn mathemateg, os credwch y gall hyn gael effaith ar PISA. Mae'r Gweinidog wedi datgan eisoes nad ydym wedi mynd yn ddigon pell ar hyd ein taith gwelliant addysgol, fel y'i gelwir, i ddisgwyl canlyniadau PISA gwell y flwyddyn nesaf. Credaf fod mis Medi 2015, felly, yn rhy gynnar i ddisgwyl i'n newid o ran mathemateg gael effaith ar PISA mor fuan.

Mae adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol yn yr arfaeth hefyd, y bydd angen iddo hefyd ystyried y gwersi o PISA ac asesiadau eraill. Yr hyn sy'n ddamniol, mewn gwirionedd, yw casgliad Estyn na all disgyblion gymhwyso sgiliau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hynny'n awgrymu imi mai'r diffyg gallu i gymhwyso sgiliau, sef yr hyn a brofir gan PISA, yw'r broblem, neu lle rydym yn methu o ran y cymariaethau rhyngwladol.

So, what can we do above and beyond what is already in the pipeline, most of which I support from the Government? I think that this turns around early intervention to break the poverty attainment gap. It is clear from numerous reports—particularly those collected together in the Save the Children 'Too Young to Fail' report, written by David Egan—that you can tell even at nine months whether pupils will be successful or not. Particularly by the age of seven, up to 80% of the difference in GCSE results has already been determined. That is, at seven, 80% of the difference in the GCSE results of the poorest children is already determined. That is the Jesuit approach, if you like, to exam results, but, nevertheless, it does underline just how important it is that we track individual pupils' development and intervene early when we see that extra support is needed, and break that cycle of low attainment and a lack of social mobility. That is why our motion does refer to the budget deal, together with the Liberal Democrats, on the important doubling of a particular grant for pupil deprivation, but there are wider questions around spending in this matter.

At the heart of this question is not only what additional resources are brought to bear, such as the pupil deprivation grant, but to challenge the whole portfolio of anti-poverty work that the Government does and to ask whether that work is really adding value to the education system, as the key proven intervention that lifts children and families out of poverty and improves the economic life of the nation. Taken together, there may well be the case that there are sufficient resources within the anti-poverty initiatives of the Government and the education portfolio that could help us to deal with this and tackle it. The problem is that they are not harnessed together; they are not evaluated together; and they have very different targets.

That contrasts strongly with the example in Scotland, where the Scottish Government's getting it right for every child approach takes through a combined wraparound for each and every child, even up to the level of an individual named health visitor, up to the age of 18, so that we actually know, and can support and intervene early if that is necessary. I will give an example of when an intervention might currently be considered. We have a 10-hours-a-week foundation phase offer throughout Wales, and extending the offer of the foundation phase to full time for all three and four-year-olds in Wales would cost £300 million. That is a lot of money, but it is an example of an early intervention strategy that could benefit children and families, and it is proven to work. In that context, and where local authorities such as Rhondda Cynon Taf are actually cutting the funding for that full-time foundation phase, we really need to ask whether such proven anti-poverty interventions, based on educational attainments, can actually take precedence over a plethora of other anti-poverty commitments by the Government.

Felly, beth y gallwn ei wneud yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar y gweill gan y Llywodraeth, yr wyf yn cefnogi'r rhan fwyaf ohono? Credaf mai'r ffocws yw ymyrryd yn gynnar er mwyn chwalu'r bwlch sy'n gysylltiedig â thlodi a chyrhaeddiad. Mae'n amlwg o nifer o adroddiadau—yn enwedig y rheini a gasglwyd ynghyd yn adroddiad Achub y Plant, 'Too Young to Fail, a ysgrifennwyd gan David Egan—y gallwch ddweud hyd yn oed yn naw mis oed a fydd disgyblion yn llwyddiannus ai peidio. Yn enwedig erbyn saith oed, mae 80% o'r gwahaniaeth mewn canlyniadau TGAU eisoes wedi'i bennu. Hynny yw, yn saith oed, mae 80% o'r gwahaniaeth o ran canlyniadau TGAU y plant tlotaf eisoes wedi'i bennu. Dyna ddull y Jeswitiaid os hoffech, o ystyried canlyniadau arholiadau, ond, serch hynny, mae'n tanlinellu pwysigrwydd olrhain datblygiad disgyblion unigol ac ymyrryd yn gynnar pan welwn fod angen cymorth ychwanegol, a thorri'r cylch hwnnw o gyrhaeddiad isel a diffyg symudedd cymdeithasol. Dyna pam mae ein cynnig yn cyfeirio at y cytundeb cyllidebol, ar y cyd â'r Democratiaid Rhyddfrydol, o ran pwysigrwydd dyblu grant penodol ar gyfer amddifadedd disgyblion, ond mae cwestiynau ehangach ynghylch gwariant yn gysylltiedig â'r mater hwn.

Wrth wraidd y cwestiwn hwn, rhaid ystyried nid yn unig pa adnoddau ychwanegol sydd eu hangen, megis y grant amddifadedd disgyblion, ond hefyd herio'r portffolio gwaith gwrthdlodi cyfan a wna'r Llywodraeth a gofyn pa un a yw'r gwaith hwnnw yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r system addysg, fel yr ymyriad profedig allweddol sy'n codi plant a theuluoedd allan o dlodi ac yn gwella bywyd economaidd y genedl. Gyda'i gilydd, mae'n bosibl bod digon o adnoddau o fewn mentrau gwrth-dlodi'r Llywodraeth a'r portffolio addysg a allai ein helpu i ymdrin â hyn a'i drechu. Y broblem yw na chânt eu cyfuno; ni chânt eu gwerthuso gyda'i gilydd; ac mae ganddynt dargedau gwahanol iawn.

Mae hynny'n gwrthgyferbynnu'n gryf â'r enghraifft yn yr Alban, lle mae dull Llywodraeth yr Alban o sicrhau bod pob plentyn yn llwyddo yn cynnwys gofal cofleidiol cyfun i bob un plentyn, hyd yn oed i'r graddau bod gan bob plentyn ymwelydd iechyd unigol penodedig hyd at 18 oed, fel ein bod mewn gwirionedd yn gwybod, ac y gallwn roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar os bydd angen. Rhoddaf enghraifft o achos lle y gellid ystyried ymyrryd. Rydym yn cynnig 10 awr yr wythnos yn y cyfnod sylfaen ledled Cymru, a byddai ehangu'r ddarpariaeth honno yn y cyfnod sylfaen i ddarpariaeth lawn amser i bob plentyn tair a phedair oed yng Nghymru yn costio £300 miliwn. Mae hynny'n swm sylweddol, ond mae'n enghraifft o strategaeth ymyrraeth gynnar a allai fod o fudd i blant a theuluoedd, ac y profwyd ei bod yn gweithio. Yn y cyd-destun hwnnw, a phan fo awdurdodau lleol fel Rhondda Cynon Taf yn cwtogi'r arian sydd ar gael i'r cyfnod sylfaen llawn amser hwnnw, mae angen inni ofyn o ddirif pa un a ellir rhoi blaenoriaeth i ymyriadau gwrthdlodi profedig o'r fath, yn seiliedig ar gyraeddiadau addysgol, yn hytrach na'r llu o ymrwymiadau gwrthdlodi eraill sydd ar waith gan y Llywodraeth.

There are other ideas, such as metacognitive and self-regulation strategies, which are much cheaper than that sort of sum, but they work in improving pupil attainment by several months, helping pupils to learn from peer-to-peer tuition, for example, from one-to-one tuition, and through social and emotional learning. All these range in cost from £40 and £20 to £200 a year per pupil. They are things that can be delivered that have proven educational attainments ranging from four to eight months in the context of the individual pupil.

It is a clearer approach that we want to see from the Government in using this range of initiatives in a flexible way, enabling schools to deliver that, but also showing and demonstrating to schools where the best practice lies, not allowing spending on things that are not proven to work, focusing on what the anti-poverty work does within communities, together with, and aligned with, educational attainment and rigorously evaluating that—it has now started to happen with Flying Start, to be fair, but it has not happened with a range of other anti-poverty interventions—and putting them together with the wider education system, which will allow us to really improve not only our PISA results, but the overall performance of our economy and the overall performance and wellbeing of our children. This is a matter that other Members of Plaid Cymru will speak to in more detail in this debate, and I will return to close the debate with what we, hopefully, will have learned from the Minister as well. However, this is one of the key tasks that any Government that is serious about Wales must now deliver on.

Mae syniadau eraill, fel strategaethau metawybyddol a hunanreoleiddio, sy'n llawer rhatach na'r math hwnnw o swm, ond maent yn gweithio i wella cyrhaeddiad disgyblion o sawl mis, gan helpu disgyblion i ddysgu drwy hyfforddiant gan gyfoedion, er enghraifft, drwy hyfforddiant un-i-un, a thrwy ddysgu cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r rhain oll yn costio o £40 a £20 i £200 y flwyddyn fesul disgybl. Maent yn bethau y gellir eu rhoi ar waith sy'n arwain at gyraeddiadau addysgol profedig yn amrywio o bedwar i wyth mis yng nghyd-destun y disgybl unigol.

Rydym am weld dull cliriach ar waith gan y Llywodraeth wrth ddefnyddio'r amrywiaeth hon o fentrau mewn ffordd hyblyg, gan alluogi ysgolion i gyflawni hynny, ond hefyd gan ddangos ac arddangos i ysgolion lle y mae'r arfer gorau, gan beidio â chaniatáu gwariant ar bethau nad oes tystiolaeth eu bod yn gweithio, gan ganolbwyntio ar yr hyn a wna'r gwaith gwrthdodi o fewn cymunedau, ynghyd â chyrhaeddiad addysgol, ac yn gyson â'r cyrhaeddiad hwnnw, a chan gynnal gwerthusiadau cadarn—mae hynny wedi dechrau digwydd gyda Dechrau'n Deg, a bod yn deg, ond nid yw wedi digwydd gydag amrywiaeth o ymyriadau gwrthdodi eraill—a'u dwyn ynghyd o fewn y system addysg ehangach, a fydd yn ein galluogi nid yn unig i wella ein canlyniadau PISA yn sylweddol, ond hefyd berfformiad cyffredinol ein heconomi a pherfformiad a lles cyffredinol ein plant. Bydd Aelodau eraill Plaid Cymru yn trafod y mater hwn yn fanylach fel rhan o'r ddaid hon, a dychwelaf i gau'r ddaid gyda'r hyn y byddwn, gobeithio, wedi'i ddysgu gan y Gweinidog hefyd. Fodd bynnag, mae hon yn un o'r tasgau allweddol y mae'n rhaid yn awr i unrhyw Lywodraeth sydd o ddifrif ynghylch Cymru ei chyflawni.

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1, 3, 4, a 5 a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi bod cyflwyno 'Premiwm Disgybl' yn un o brif ymrwymadau manifestto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac felly'n croesawu'r Grant Amddifadedd Disgyblion a gyflwynwyd yn dilyn cytundeb cyllideb 2012–13 rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru, a sicrhodd £32.4 miliwn i helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi'r cyhoeddiad 'Dysgu gwersi o'r Grant Amddifadedd Disgyblion' gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a'i argymhellion.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

I have selected the six amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1, 3, 4 and 5, tabled in his name.

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Notes that the introduction of a Welsh 'Pupil Premium' was a key Welsh Liberal Democrat manifesto commitment and subsequently welcomes the introduction of the Pupil Deprivation Grant following the 2012-13 budget deal between the Welsh Liberal Democrats and the Welsh Government, which secured £32.4 million to help break the link between poverty and educational underachievement.*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Insert as new point 4 and renumber accordingly:*

*Notes the Welsh Liberal Democrats' publication 'Learning lessons from the Pupil Deprivation Grant', and its recommendations.*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Insert as new point 4 and renumber accordingly:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Yn nodi bod y Cynulliad hwn, ar 30 Mai 2012, wedi pleidleisio'n unfrydol o blaid gwelliant gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i "sicrhau bod gwario'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn iddo gyflawni gwelliannau mewn cyrhaeddiad".*

Gwelliant 5—Aled Roberts

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:*

*cyflwyno rhaglen monitro disgyblion unigol i fesur cynnydd disgyblion, gan alluogi ysgolion i hoelio'u hymdrechion ar y disgyblion hynny nad ydynt yn cyflawni eu potensial.*

*Notes that on 30th May 2012, this Assembly voted unanimously in favour of a Welsh Liberal Democrat amendment calling on the Welsh Government to "ensure that spending of the Pupil Deprivation Grant is effectively monitored so that it delivers improvement in attainment".*

Amendment 5—Aled Roberts

*Insert as new sub-point at the end of point 4:*

*introduce an individual pupil monitoring programme to measure pupils' progress, allowing schools to target efforts at those students who are not meeting their potential.*

17:07

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf welliannau 1, 3, 4 a 5.

Mae'n bleser cael cyfrannu unwaith eto i'r ddadl. Mae'n ddadl yr ydym yn ei chael yn eithaf aml ar gyrrhaeddiad ac ar y defnydd a wneir o'r grant amddifadedd disgyblion.

Mae'n debyg fy mod, wrth gynnig y gwelliannau, yn derbyn yn union yr hyn ddywedodd Simon Thomas, sef bod y newyddion yr ydym yn eu disgwyl yr wythnos nesaf am ganlyniadau PISA yn rhai hir ddisgwylidig, ac ar ôl inni glywed rhai o'r ymatebion ddoe, hwyrach ein bod yn poeni rhywfaint am y ffordd y mae polisiâu'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn methu â mynd i'r afael â'r tangyrhaeddiad yn ein hysgolion. Rwy'n meddwl ei bod yn berffaith deg dweud bod nifer ohonom sydd ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cefnogi'n gryf yr hyn ddywedodd Simon, sef bod diffyg monitro o rai o raglenni gwrthdldodi'r Llywodraeth, ac yn cwestiynu ai gan ysgolion yn unig y mae'r cyfrifoldeb i wella cyrhaeddiad yn y pum mlynedd nesaf.

Fel plaid, rydym wedi bod yn cynnig ers 2010 bod yn rhaid rhoi adnoddau ychwanegol i'n hysgolion ni, ac felly yr wyf i'n croesawu'r ffaith bod ein ffrindiau ym Mhlaid Cymru yn awr, mae'n debyg, yn rhannu'r neges honno.

Mewn dadl debyg ym mis Gorffennaf, dywedodd Simon Thomas fod angen inni aros i weld a fyddai Siôn Corn yn troi i fyny, i weld yn union beth a fyddai'n digwydd. Wel, rydym bron yno gyda'r Nadolig, ond, er mwyn i mi ddangos tipyn bach o ewyllys da, hwyrach y byddaf yn cyfyngu fy sylwadau y prynhawn yma at y gwelliannau i'r cynnig hwn heddiw.

I move amendments 1, 3, 4 and 5.

It is a pleasure to be able to contribute once again to this debate. It is a debate that we have quite often on attainment and on the use of the pupil deprivation grant.

It seems that I, in moving the amendments, accept exactly what Simon Thomas said, that is, that the news that we are expecting next week in terms of the PISA results are ones that are long-expected, and after hearing some of the responses yesterday, maybe we are somewhat concerned about the way in which present Government policies are failing to tackle the underachievement in our schools. I think that it is fair to say that many of us on the Children and Young People Committee strongly support what Simon said, that there is a lack of monitoring in terms of some of the Government's anti-poverty programmes, and question whether the responsibility for improving attainment over the next five years lies only with the schools.

As a party, we have been proposing since 2010 that additional resources must be given to our schools, and therefore I welcome the fact that our friends in Plaid Cymru now, seemingly, share that message.

During a similar debate in July, Simon Thomas said that we needed to wait to see whether Santa Claus would turn up, to see exactly what would happen. Well, we are nearly there at Christmastime, but, so that I can show a little goodwill, maybe I will confine my comments this afternoon to the amendments tabled to this motion today.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Amendment 4 points out that, on 30 May 2012, this Assembly voted unanimously in favour of one of our amendments calling on the Welsh Government to ensure that spending, as far as the pupil deprivation grant was concerned, was effectively monitored so that it delivered improvement in attainment. I have referred previously to the learning lessons survey that we undertook in the summer as far as the pupil deprivation grant is concerned, which showed a distinct lack of clarity in how the pupil deprivation grant was applied. Our belief is that many of the reasons for that came about as a result of the failure of the previous guidance to issue clear and, more importantly, concise guidance that supported staff training and other elements. In fact, I was surprised to find that the new guidance issued in April of this year combined the pupil deprivation grant, the school effectiveness grant, and Communities First pupil deprivation grant match funding into one document that comprises 63 pages. I guess that many of us will be looking forward to reading the interim report from the Welsh Government, commissioned through Ipsos MORI, next year, although I accept that the full report will not be produced until the autumn of 2015.

Many of us have spoken about the difficulties facing disadvantaged children and their families, and that something needed to be done. I have to say that, in the debate in July, the Conservatives refused to support the amendment welcoming an increase in PDG funding, outlining a number of areas where the Conservatives believed the money would be better spent, whilst at the same time supporting it as a matter of principle. The leader of the Conservatives, in that same debate, called the money 'chicken feed', but I have to say that the youngsters who are depending on that funding to assist them in improving their attainment and life chances might see that very differently. So, it will not surprise you that we will not be supporting the Conservative amendment that merely notes the additional PDG funding. To that extent, I do support Plaid Cymru in calling for strengthened guidance and monitoring of the PDG in point 4 of today's motion.

Finally, coming to amendment 5 and the need for the Welsh Government to introduce an individual pupil monitoring programme to measure pupils' progress, we believe that this is necessary to allow schools to target efforts at those students who are not meeting their potential. We have campaigned consistently for such a system, and evidence in recent reports supports this view, which recommends a situation in which schools set highly ambitious targets. I have held meetings where I am concerned regarding some of the noises from local government with regard to officials suggesting that PDG be used to actually supplement cuts in overall budgets.

In closing, I would ask the Minister to make a commitment here today that he will stand by his response to me in CYP committee that if any local authority or politician is under the impression that the uplift in the grant is a get-out-of-jail-free card when it comes to the Minister's 1% commitment, he will disabuse them of that very rapidly.

Mae gwelliant 4 yn nodi, ar 30 Mai 2012, i'r Cynulliad hwn bleidleisio yn unfrydol o blaid un o'n gwelliannau yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwariant, o ran y grant amddifadedd disgyblion, yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwelliant mewn cyrhaeddiad. Cyfeiriais yn flaenorol at yr arolwg dysgu gwersi a gynhaliwyd gennym yn ystod yr haf mewn perthynas â'r grant amddifadedd disgyblion, a ddangosodd ddiffyg eglurder amlwg o ran sut y caiff y grant amddifadedd disgyblion ei weithredu. Credwn fod llawer o'r rhesymau am hynny yn deillio o fethiant y canllawiau blaenorol i ddarparu canllawiau clir ac, yn bwysicach, ganllawiau cryno a oedd yn ategu hyfforddiant staff ac elfennau eraill. Yn wir, roeddwn yn synnu i weld bod y canllawiau newydd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni yn cyfuno'r grant amddifadedd disgyblion, y grant effeithiolrwydd ysgolion, ac arian cyfatebol grant amddifadedd disgyblion Cymunedau yn Gyntaf o fewn un ddogfen sy'n cynnwys 63 o dudalennau. Tybiaf y bydd sawl un ohonom yn edrych ymlaen at ddarllen yr adroddiad interim gan Lywodraeth Cymru a gomisiynwyd drwy Ipsos MORI, y flwyddyn nesaf, er fy mod yn derbyn na chaiff yr adroddiad llawn ei lunio tan hydref 2015.

Mae llawer ohonom wedi sôn am yr anawsterau sy'n wynebu plant difreintiedig a'u teuluoedd, a bod angen gwneud rhywbeth. Rhaid imi ddweud, yn y ddatl ym mis Gorffennaf, gwrthododd y Ceidwadwyr â chefnogi'r gwelliant yn croesawu cynnydd o ran arian y Grant Amddifadedd Disgyblion, gan amlinellu nifer o feysydd lle y credai'r Ceidwadwyr y gellid gwario'r arian yn well, gan ei gefnogi, ar yr un pryd, fel mater o egwyddor. Cyfeiriodd arweinydd y Ceidwadwyr, yn yr un ddatl, at yr arian fel 'briwsion', ond rhaid imi ddweud y byddai'r plant ifanc hynny sy'n dibynnu ar yr arian hwnnw i'w helpu i wella eu cyrhaeddiad a'u cyfleoedd bywyd o bosibl yn ei ystyried mewn ffordd wahanol iawn. Felly, ni fydd yn syndod ichi glywed na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr sy'n gwneud dim ond nodi'r arian ychwanegol i'r Grant Amddifadedd Disgyblion. I'r graddau hynny, cefnogaf Blaid Cymru wrth alw am gryfhau'r canllawiau a'r trefniadau monitro ar gyfer y Grant ym mhwynt 4 o'r cynnig heddiw.

Yn olaf, gan ddod at welliant 5 a'r angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno rhaglen monitro disgyblion unigol i fesur cynnydd disgyblion, credwn fod angen hyn er mwyn caniatáu i ysgolion dargedu ymdrechion at y myfyrwyr hynny nad ydynt yn cyflawni eu potensial. Rydym wedi ymgyrchu'n gyson am system o'r fath, ac mae tystiolaeth mewn adroddiadau diweddar yn ategu'r farn hon, sy'n argymhell sefyllfa lle mae ysgolion yn pennu targedau uchelgeisiol iawn. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd lle rwy'n pryderu am rai o'r synau o du llywodraeth leol o ran swyddogion yn awgrymu y dylid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wneud iawn am doriadau mewn cyllidebau cyffredinol.

Wrth gloi, hoffwn ofyn i'r Gweinidog roi ymrwymiad yma heddiw y bydd yn parhau i arddel ei ymateb imi yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc sef, os bydd unrhyw awdurdod lleol neu wleidydd o dan yr argraff bod y codiad yn y grant yn rhoi cerdyn achub iddynt o ran ymrwymiad 1% y Gweinidog, y bydd yn cywiro'r gamargraff honno yn go gyflym.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliannau 2 a 6 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

I call on Angela Burns to move amendments 2 and 6, tabled in the name of William Graham.

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn nodi'r cyllid ychwanegol fesul plentyn yn y Grant Amddifadedd Disgyblion a neilltuwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2014/15.*

*Notes the extra Pupil Deprivation Grant funding per child allocated in the Draft Budget 2014/15.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a gwella'r dangosyddion ar gyfer mesur anfantais ymhlith disgyblion ysgol yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to review and improve the indicators for measuring disadvantage amongst school pupils in Wales.*

**Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 2 and 6.

Cynigiau welliannau 2 a 6.

I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate, and Simon Thomas for his very measured opening. I think that he makes some incredibly valid points about the efficiency of PISA. I only found out a couple of days ago, actually, how random some of that PISA testing is, and it really surprised me, because it was definitely given far more flavour, that it was a more constructive and coherent testing system than it appears to be on the ground. I am really interested in this debate.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl hon, ac i Simon Thomas am ei sylwadau agoriadol cytbwys. Credaf ei fod yn gwneud rhai pwyntiau hynod ddilys am effeithlonrwydd PISA. Dim ond ychydig ddiwrnodau yn ôl, mewn gwirionedd, y canfûm pa mor ddiamcan yw rhai o brofion PISA, a chefais fy synnu, oherwydd rhoddwyd yr argraff yn sicr ei fod yn system brofi fwy adeiladol a chydlynus nag ydyw ar lawr gwlad, yn ôl pob golwg. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y ddatl hon.

I just want to touch on our two amendments and then I want to turn to the one area that really does give me some cause for concern. On amendment 2, goodness me, I almost wilted under the love-in going on between you two over the pupil deprivation grant. It was especially interesting in light of the letter from your leader to the 'Glamorgan Gazette' last year, in which he questioned the pupil deprivation grant and its efficiency and sustainability. You guys have obviously sorted that out between you, so I am terribly happy to see this marriage that is made in heaven.

Hoffwn gyfeirio'n fras at ddau o'n gwelliannau ac wedyn hoffwn droi at un maes sy'n destun pryder imi. O ran gwelliant 2, bobl bach, bu bron imi wywo wrth weld y cariad rhyngoch chi'ch dau wrth sôn am y grant amddifadedd disgyblion. Roedd yn arbennig o ddiddorol o ystyried y llythyr gan eich arweinydd yn y 'Glamorgan Gazette' y llynedd, lle y cwestiynodd y grant amddifadedd disgyblion a'i effeithlonrwydd a'i gynaliadwyedd. Rydych yn amlwg wedi dod i gytundeb rhyngoch, felly rwyf wrth fy modd gweld y briodas nefolaidd hon.

We will abstain on everything to do with the pupil deprivation grant, but I want to say to the Liberal Democrats—and to Aled Roberts, whom I thank for the letter he sent to me after our last debate—that for us this is a 'jury's out'. There are some very interesting things coming out of the pupil deprivation grant. I said it last time and I will say it again: we are not quite there yet, but we are monitoring it and looking at it. We did read your report and I want to see how it beds down. We have talked about it in various committees and talked about how we can monitor it. If it proves to be as useful as we all hope it will be then we will come in and support it. However, there are still big questions to ask, one of which is how it would really help to reduce the poverty element.

Byddwn yn ymatal ar bopeth sy'n ymwneud â'r grant amddifadedd disgyblion, ond rwy'n awyddus i ddweud wrth y Democratiaid Rhyddfrydol—ac wrth Aled Roberts, y diolchaf iddo am y llythyr a anfonodd ataf yn dilyn ein dadl ddiwethaf—o'n rhan ni, nad ydym wedi'n darbwyllo. Mae rhai pethau diddorol iawn yn deillio o'r grant amddifadedd disgyblion. Dywedais y tro diwethaf ac fe'i dywedaf eto: nid ydym wedi cael pethau'n hollol iawn eto, ond rydym yn monitro'r sefyllfa ac yn ystyried y mater. Gwnaethom ddarllen eich adroddiad ac rwyf am weld sut y bydd pethau'n datblygu. Rydym wedi ei drafod mewn sawl pwyllgor ac wedi trafod sut y gallwn ei fonitro. Os bydd mor ddefnyddiol ag y mae pob un ohonom yn gobeithio, yna byddwn yn barod i ymrwmo iddo a'i gefnogi. Fodd bynnag, mae cwestiynau mawr i'w gofyn o hyd, ac un o'r cwestiynau hynny yw sut y byddai'n helpu o ddirif i leihau'r elfen dlodi.

Our amendment 6 calls upon the Welsh Government to review and improve the indicators for measuring disadvantage among school pupils in Wales. For us, this is really key, because in point 1 of your motion, Simon Thomas, you say that:

'educational performance will not improve enough to reach the Welsh Government's targets unless the attainment rates of pupils from disadvantaged backgrounds is drastically improved.'

I absolutely agree with you. Minister, I would like to ask you, briefly, about what we can do, or what you intend to do, to look at how we can truly measure a disadvantaged background. At the moment, for example, we use the measure of free school meals in almost every Government policy. However, they are available to children in families who are on out-of-work benefits only. Families with a child where the earner is on a low income do not even qualify for free school meals, let alone being among the many families we know we have in Wales who do not apply for it and therefore do not get it.

With the universal credit system coming in from Westminster, my understanding is that will take free school meals out as a useful measure of disadvantage and poverty. Can you clarify how all the Government policies predicated on the free school meals flag will then be able to go forward? What else do you think we might do to ensure that the children who are on the fringes are taken into this? Using some of these very basic measures is simply not enough to scoop some of our more disadvantaged children up. I would be very keen to see how you would like to bring that forward.

Minister, I also find myself probably going to support you—or maybe not, if you are going to support the Liberal Democrats—because we are not going to support amendment 5. The reason for that is because it talks about introducing an individual pupil monitoring programme. I love that idea, but the Government should be doing it and should have started doing it, because it is happening in places as an individual learning plan. Before we jump to another horse and say, 'Let us get that going', I would like to see the individual learning plan really taking effect and really biting. I do not want to just chop and change because it takes so long for anything to bed in in education. What I would urge you to do, Minister, is to get that individual learning plan, which will help every single child in Wales, really employed by local authorities and by schools and get it usefully reporting back on where we are with our children and what individual children need to enhance their life chances.

Mae ein gwelliant 6 yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu a gwella'r dangosyddion ar gyfer mesur anfantais ymhlith disgyblion ysgol yng Nghymru. I ni, mae hyn yn wirioneddol allweddol, oherwydd ym mhwynt 1 eich cynnig, Simon Thomas, rydych yn dweud:

'ni fydd perfformiad addysgol yn gwella digon i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru oni bai bod cyfraddau cyrhaeddiad disgyblion o gefndir difreintiedig yn gwella'n sylweddol.'

Cytunaf â chi'n llwyr, Ann. Weinidog, hoffwn ofyn ichi, yn gryno, beth y gallwn ei wneud, neu beth rydych yn bwriadu ei wneud, i ystyried sut y gallwn fynd ati o ddifrif i fesur cefndir difreintiedig. Er enghraifft, ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r mesur prydau bwyd ysgol am ddim ym mhob un o bolisiau'r Llywodraeth, fwy neu lai. Fodd bynnag, dim ond plant o deuluoedd sy'n cael budd-daliadau allan o waith sy'n gymwys i'w cael. Nid yw teuluoedd â phlentyn lle mae'r enillwr ar incwm isel hyd yn oed yn gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim, heb sôn am y llu o deuluoedd y gwyddom amdanynt yng Nghymru nad ydynt yn gwneud cais amdano ac felly nad ydynt yn ei gael.

Gyda system credyd cynhwysol arfaethedig San Steffan, rwyf ar ddeall y bydd hynny'n golygu na chaiff prydau bwyd ysgol am ddim eu defnyddio fel mesur defnyddiol o anfantais a thlodi. A allwch egluro sut y bydd holl bolisiau'r Llywodraeth sy'n seiliedig ar y faner prydau bwyd ysgol am ddim wedyn yn gallu cael eu rhoi ar waith? Beth arall y credwch y gellid ei wneud i sicrhau y caiff plant sydd ar yr ymylon eu hystyried hefyd? Nid yw defnyddio rhai o'r mesurau sylfaenol iawn hyn yn ddigon i helpu rhai o'n plant mwyaf difreintiedig. Byddwn yn awyddus iawn i weld sut yr hoffech gyflwyno hynny.

Weinidog, credaf fy mod innau hefyd yn mynd i'ch cefnogi—neu efallai ddim, os ydych yn bwriadu cefnogi'r Democratiaid Rhyddfrydol—gan nad ydym yn mynd i gefnogi gwelliant 5. Y rheswm am hynny yw ei fod yn sôn am gyflwyno rhaglen monitro disgyblion unigol. Rwyf wrth fy modd gyda'r syniad hwnnw, ond dylai'r Llywodraeth fod yn gwneud hynny a dylai fod wedi dechrau arni, gan ei bod yn digwydd mewn manau fel cynllun dysgu unigol. Cyn inni droi at ryw beth arall a dweud, 'Gadewch inni roi hynny ar waith', hoffwn weld y cynllun dysgu unigol ymsefydlu ac yn cael effaith wirioneddol. Nid wyf am newid er mwyn newid gan ei bod yn cymryd cyfnod mor hir i unrhyw beth ymsefydlu ym maes addysg. Byddwn yn erfyn arnoch, Weinidog, i annog awdurdodau lleol ac ysgolion i roi'r cynlluniau dysgu unigol hynny ar waith, a fydd yn helpu pob un plentyn yng Nghymru, gan arwain at adborth ar y sefyllfa o ran ein plant a'r hyn sydd ei angen ar blant unigol i wella eu cyfleoedd bywyd.

17:18

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Ahead of next week's PISA results and the completion of the budget the week after, this Plaid Cymru debate is a timely reminder of the importance of education. I begin my contribution this afternoon by paying tribute to teaching assistants, ahead of their celebration day this Friday, because teaching assistants do sterling work in all of our schools.

Cyn canlyniadau PISA yr wythnos nesaf a chwblhau'r gyllideb yr wythnos ganlynol, mae'r ddadl hon gan Blaid Cymru yn adnodd amserol i'n hatgoffa o bwysigrwydd addysg. Dechreuaf fy nghyfraniad y prynhawn yma drwy dalu teyrnged i gynorthwyrwr addysgu, cyn eu diwrnod dathlu ddydd Gwener, gan fod cynorthwyrwr addysgu yn gwneud gwaith rhagorol ym mhob un o'n hysgolion.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Wales is famous for its education and its teachers. Some 250 years ago, Griffith Jones's circulating schools taught a whole nation—150,000 people—to read. Almost overnight, Wales became one of the most literate nations in Europe, to the point that Catherine the Great sent education inspectors to Wales from Russia to learn from our example. For many decades, teachers were among our greatest exports, but now, all too often, we find ourselves trailing behind when Wales should be first.

This has meant lost potential and lost opportunities for our children, communities and economy. Teachers in Wales are working very hard, often under difficult circumstances, but the system is not delivering.

The recent report from the UK Social Mobility and Child Poverty Commission says that, if we improved all children's attainment to the average, we could increase gross domestic product by 4%. The report also warns that we are not on track to meet the 2020 child poverty reduction targets. This is despite the introduction of an anti-poverty Minister and schemes such as Communities First and Flying Start. In fact, the report says that we will not just miss those child poverty reduction targets, but miss them by a considerable margin, as child poverty has risen in Wales in the past decade.

We in Plaid Cymru recognise the clear link between poverty and low levels of attainment, and that is why Plaid Cymru is deeply concerned at plans by local authorities, such as Rhondda Cynon Taf in my region, to make substantial cuts to early-years children's provision.

Mae Cymru yn enwog am ei haddysg a'i hathrawon. Tua 250 mlynedd yn ôl, gwnaeth ysgolion cylchynol Griffith Jones addysgu cenedl gyfan—150,000 o bobl—i ddarllen. Bron dros nos, daeth Cymru yn un o'r gwledydd mwyaf llythrennog yn Ewrop, i'r graddau bod Catrin Fawr wedi anfon arolygwyr addysg i Gymru o Rwsia i ddilyn ein hesiampl. Ers degawdau lawer, roedd athrawon ymhlith ein hallforion mwyaf, ond nawr, yn amlach na pheidio, rydym ar eu hôl hi pan ddylai Cymru fod yn gyntaf.

Mae hyn wedi golygu potensial a gollwyd a chyfleoedd a gollwyd i'n plant, ein cymunedau a'r economi. Mae athrawon yng Nghymru yn gweithio'n galed iawn, yn aml o dan amgylchiadau anodd, ond nid yw'r system yn cyflawni.

Mae'r adroddiad diweddar gan Gomisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU yn dweud, pe baem yn gwella cyrhaeddiad pob plentyn i'r lefel gyfartalog, y gallem gynyddu cynnyrch mewnwladol crynswth 4%. Mae'r adroddiad hefyd yn rhybuddio nad ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau lleihau tlodi plant 2020, a hynny er inni gyflwyno Gweinidog gwrth-dlodi a chynlluniau megis Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Yn wir, mae'r adroddiad yn dweud y byddwn nid yn unig yn methu â chyrraedd y targedau lleihau tlodi plant hynny, ond y byddwn yn methu â'u cyrraedd o gryn dipyn, gan fod tlodi plant wedi codi yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn cydnabod y cysylltiad clir rhwng tlodi a lefelau isel o gyrhaeddiad, a dyna pam y mae Plaid Cymru yn bryderus iawn ynglŷn â chynlluniau gan awdurdodau lleol, megis Rhondda Cynon Taf yn fy rhanbarth, i wneud toriadau sylweddol i ddarpariaeth blyneddau cynnar plant.

17:21

### **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, the issue in Rhondda Cynon Taf is a regrettable one, which was forced on the council by the cuts imposed by the UK Government on the Welsh budget. I am not aware that Plaid Cymru asked for additional money to help local councils on this point. Is it not the case that, even after the proposals that it has made, Rhondda Cynon Taf's proposals would put it on a par with Plaid Cymru-run Gwynedd Council?

Yn amlwg, mae'r mater yn Rhondda Cynon Taf yn un anffodus, a orfodwyd ar y cyngor gan y toriadau a orfodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyllideb Cymru. Nid wyf yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi gofyn am arian ychwanegol i helpu cyngorau lleol ar y pwynt hwn. Onid yw'n wir, hyd yn oed ar ôl y cynigion a wnaed ganddo, y byddai cynigion Rhondda Cynon Taf yn ei wneud yn gyfartal â Chyngor Gwynedd a gaiff ei redeg gan Plaid Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:21

### **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The provision of education for three to five-year-olds is non-statutory provision. Simon Thomas has already provided arguments as to why that could be looked at. What makes no sense to me, though, is to go ahead with a cut like this in an area where there are high levels of deprivation, low economic performance and high levels of child poverty. It does not need repeating that this county includes a large number of economically deprived communities, and it is crucial that employment and skills opportunities can be taken by parents and children. Parents, if this cut goes ahead, will be unable to enter the job market because of the prohibitive costs of childcare, if childcare exists at all.

Mae darparu addysg i blant tair i bump oed yn ddarpariaeth anstatudol. Mae Simon Thomas eisoes wedi cynnig dadleuon ynghylch pam y gellid ystyried hynny. Beth sy'n ddisynnwyr yn fy marn i yw mynd ymlaen â thoriad fel hwn mewn ardal lle mae lefelau uchel o amddifadedd, perfformiad economaidd isel a lefelau uchel o dlodi plant. Nid oes angen nodi eto bod y sir hon yn cynnwys nifer fawr o gymunedau difreintiedig yn economaidd, ac mae'n hanfodol y gall rhieni a phlant fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau. Os bydd y toriad hwn yn mynd yn ei flaen, ni fydd rhieni yn gallu ymuno â'r farchnad swyddi oherwydd costau afresymol gofal plant, os oes gofal plant yn bodoli o gwbl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There are other, perhaps less obvious, impacts as well; for example, because there are fewer Welsh-language schools, parents and pupils are far more likely to live further away from them. The cumulative impact of a cut in provision will be that parents may not send their children to Welsh-medium schools further away from them, and I have been told by parents that they intend to pull their children out of Welsh-medium education so that they can go to the school nearest to them. None of this will be good for future skills or economic development in one of the most populous counties of Wales, so I hope that these proposals will be rejected.

In tackling child poverty, we know the importance of work and of improving skills for all age groups. That is why Plaid Cymru has struck Welsh budget deals in successive years that will help young people in all parts of Wales. Last year, we agreed a deal for more than 5,000 apprenticeships; that includes support for higher-level apprenticeships that will help to drive economic recovery. As I said last week, and as Simon Thomas has said today, the pupil deprivation grant has been more than doubled in this year's budget deal. It is crucial to improve attainment for all pupils, and that is why we look forward to the report on how that pupil deprivation grant will get the best outcomes for those in greatest need of help.

Plaid Cymru continues to oppose league tables that make unfair comparisons. However, we do recognise that there must be indicators to show improvement. We sincerely hope that signs of those improvements will be clear from next week's results.

Mae effeithiau eraill, llai amlwg efallai: er enghraifft, gan fod llai o ysgolion Cymraeg eu hiaith, mae rhieni a disgyblion yn llawer mwy tebygol o fyw ymhellach i ffwrdd oddi wrthynt. Effaith gronol toriad yn y ddarpariaeth fydd na fydd rhieni efallai yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ymhellach i ffwrdd oddi wrthynt, ac mae rhieni wedi dweud wrthyf eu bod yn bwriadu tynnu eu plant allan o addysg cyfrwng Cymraeg fel y gallant fynd i'r ysgol agosaf atynt. Ni fydd dim o hyn yn dda o ran sgiliau neu ddatblygu economaidd yn y dyfodol yn un o'r siroedd mwyaf poblog yng Nghymru, felly gobeithio y caiff y cynigion hyn eu gwrthod.

Wrth fynd i'r afael â thlodi plant, gwyddom pa mor bwysig yw gwaith a gwella sgiliau ar gyfer pob grŵp oedran. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi dod i gytundebau cyllidebol yng Nghymru flwyddyn ar ôl blwyddyn a fydd yn helpu pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Y llynedd, cytunwyd i gynnis 5,000 yn fwy o brentisiaethau; mae hynny'n cynnwys cefnogaeth i brentisiaethau lefel uwch a fydd yn helpu i lywio adferiad economaidd. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, ac fel y dywedodd Simon Thomas heddiw, mae'r grant amddifadedd disgyblion wedi mwy na dyblu yng nghytundeb cyllidebol eleni. Mae gwella cyrhaeddiad ar gyfer pob disgybl yn hollbwysig, a dyna pam rydym yn edrych ymlaen at yr adroddiad ar sut y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am help.

Mae Plaid Cymru yn parhau i wrthwynebu tablau cynghrair sy'n gwneud cymariaethau annheg. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod yn rhaid cael dangosyddion i ddangos gweliannau. Rydym yn mawr obeithio y gwelir arwyddion o'r gweliannau hynny yn glir yng nghanlyniadau yr wythnos nesaf.

17:24

## David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In 2010, when the last PISA figures were released, although not a Member of the Assembly, as an academic and educationist, I took a very close interest at that time. The then Minister for Education and Skills, speaking in the Chamber about the results, declared that they were 'unsatisfactory', which I, for one, agreed with, as, I am sure, did many others here. It was a very strong statement for a Minister to come out and make the claims that he did at the time, and I congratulate and applaud him for that.

Consequently, he went on to discuss the plans that he wanted to implement to make the necessary improvements. That clearly showed the Government's commitment, and the Minister's strong leadership, to addressing the gaps in attainment across the education system in Wales. I am pleased that the current Minister for Education and Skills is continuing this commitment to put a strong framework in place to provide high-quality education to all pupils in Wales.

Yn 2010, pan gyhoeddwyd y ffigurau PISA diwethaf, er nad oeddwn yn Aelod o'r Cynulliad, fel academydd ac addysgwyr, roedd gennyf ddiddordeb mawr iawn yn hynny ar y pryd. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a siaradodd yn y Siambr am y canlyniadau, eu bod yn 'anfodhaol', yr oeddwn i, o leiaf, yn cytuno ag ef, fel yr oedd sawl un arall yma hefyd, rwy'n siŵr. Roedd yn ddatganiad cryf iawn i Weinidog ei gyhoeddi a gwneud yr honiadau a wnaeth ar y pryd, ac rwy'n ei longyfarch ac yn ei gannol am hynny.

O ganlyniad, aeth yn ei flaen i drafod y cynlluniau yr oedd am eu rhoi ar waith i wneud y gweliannau angenrheidiol. Dangosodd hynny ymrwymiad y Llywodraeth yn amlwg, ac arweinyddiaeth gadarn y Gweinidog, i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad yn y system addysg yng Nghymru. Rwy'n falch bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau presennol yn parhau â'r ymrwymiad hwn i roi fframwaith cadarn ar waith i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob disgybl yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Following the release of the 2010 PISA results, policies to make the necessary improvements have been delivered, including the literacy and numeracy framework and the use of the pupil deprivation grant, and I will also applaud that grant. However, although these policies have been in place for the past two years, we will only begin to see successful outcomes in the years to come. Angela Burns used an analogy in the previous debate, and I will use one now. Education is similar to the 150,000 or 200,000 tonne ore carriers that enter Port Talbot harbour: it does not turn around instantly, it takes careful manoeuvring, taking others with you, and needs time to show progress. We will not see the improvements that we expect overnight. The teaching profession and the education system need time to adapt and change, ensuring that the literacy and numeracy framework is implemented to the highest level and that pupils are provided with the best education possible, using all of the tools at the teaching profession's disposal. That will require investment in continuing professional development to support the education workforce as well, including teaching assistants.

Now that the literacy and numeracy framework is embedded into the curricula and schemes of work within schools, we have already seen a slight reduction in the gap in attainment in the last two years. I feel that the next step that needs to be taken is to look at and embed problem-solving skills into the curriculum. Simon Thomas highlighted that that is, in fact, one of the issues that PISA looks at. I was at a Technocamps conference yesterday in Swansea, where I was encouraging primary and secondary school teachers to develop the problem-solving skills of their pupils through the use of computer science. This will ensure that mathematics, science and technology skills are developed and will therefore improve and promote STEM subjects in Wales, which we will know will develop those problem-solving skills in individuals.

We also need to make sure that the pupil deprivation grant, aimed at reducing the impact of deprivation on attainment, is used to its full potential by schools to ensure that the pupils that the grant is designed to support achieve their full potential through additional support. I agree with Aled Roberts that it is important that we monitor that it is not being used towards the 1% and is applied in local authorities. I also ask the Minister to support that position. To that end, I have written to all schools in my constituency and have received assurances from headteachers that the schools within the Aberavon constituency are, indeed, using the grant to support and develop those pupils it is intended to help through the means of teaching assistants, literacy and numeracy advisers and even ICT equipment, and many other types of approaches are being used.

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau PISA 2010, cyflwynwyd polisiau i wneud y gwelliannau angenrheidiol, gan gynnwys y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion, a gwnaf innau hefyd gymeradwyo'r grant hwnnw. Fodd bynnag, er bod y polisiau hyn wedi bod ar waith ers dwy flynedd, dim ond mewn blynyddoedd i ddod y byddwn yn dechrau gweld canlyniadau llwyddiannus. Defnyddiodd Angela Burns gyfatebiaeth yn y ddatl flaenorol a defnyddiaf un yn awr. Mae addysg yn debyg i'r cludwyr mwyn 150,000 neu 200,000 tunnell sy'n mynd i mewn i harbwr Port Talbot: nid yw'n troi o gwmpas ar unwaith, mae angen ei symud yn ofalus, gan fynd ag eraill gyda chi, ac mae angen amser arno i ddangos cynnydd. Ni welwn y gwelliannau yr ydym yn eu disgwyl dros nos. Mae angen amser ar y proffesiwn addysgu a'r system addysg i addasu a newid, gan sicrhau bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael ei weithredu ar y lefel uchaf a bod disgyblion yn cael yr addysg orau bosibl, gan ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael i'r proffesiwn addysgu. Bydd hynny'n galw am fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi'r gweithlu addysg hefyd, gan gynnwys cynorthwyr addysgu.

Gan fod y fframwaith llythrennedd a rhifedd bellach yn rhan annatod o gwricwla a chynlluniau gwaith o fewn ysgolion, rydym eisoes wedi gweld gostyngiad bach yn y bwlch mewn cyrhaeddiad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Teimlaf mai'r cam nesaf sydd angen ei gymryd yw edrych ar sgiliau datrys problemau yn y cwricwlwm a'u cynnwys ynddo. Tynnodd Simon Thomas sylw at y ffaith bod hynny, mewn gwirionedd, yn un o'r materion y mae PISA yn ei ystyried. Roeddwn yng nghynhadledd Technocamps ddoe yn Abertawe, lle roeddwn yn annog athrawon cynradd ac uwchradd i ddatblygu sgiliau datrys problemau eu disgyblion drwy ddefnyddio cyfrifiadureg. Bydd hyn yn sicrhau bod mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg yn cael eu datblygu ac felly'n gwella ac yn hyrwyddo pynciau STEM yng Nghymru, a fydd, fel y gwyddom, yn datblygu'r sgiliau datrys problemau hynny mewn unigolion.

Mae angen inni hefyd wneud yn siŵr bod y grant amddifadedd disgyblion, sydd â'r nod o leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad, yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan ysgolion i sicrhau bod y disgyblion y mae disgwyl i'r grant eu cefnogi yn cyflawni eu potensial drwy gymorth ychwanegol. Cytunaf ag Aled Roberts ei bod yn bwysig ein bod yn monitro nad yw'n cael ei ddefnyddio tuag at yr 1% ac y caiff ei gymhwyso mewn awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn gofyn i'r Gweinidog gefnogi'r safbwynt hwnnw. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi ysgrifennu at bob ysgol yn fy etholaeth ac wedi derbyn sicrwydd gan benaethiaid bod yr ysgolion yn etholaeth Aberafan, yn defnyddio'r grant, mewn gwirionedd, i gefnogi a datblygu'r disgyblion hynny y bwriedir iddo eu helpu drwy gyfrwng cynorthwyr addysgu, cynghorwyr llythrennedd a rhifedd a hyd yn oed offer TGCh, a bod llawer o fathau eraill o ddulliau gweithredu yn cael eu defnyddio.

Moving back to PISA, the then Minister for education explained that it would not be possible to measure the success of the implementation of the policies put into place since early 2011 against the results expected shortly. I hope that we will see an improvement to show that we are, indeed, moving in the right direction. However, it is important that we remember what I have previously alluded to, which is that education policy needs to take time to root, and we should see, by 2015, better results as the policies have a greater positive effect on attainment in Wales. We, as a nation, will hopefully be in the top 20 countries in those results for reading, maths and science.

I will point also to Angela Burns's comments on the complexities of the PISA calculations. I listened to a debate this morning that identified that many academics questioned the effectiveness of PISA, but the comment that was made was that it is the only game in town at this point in time. However, the question, 'Is the game a useful game?' is one that we might, perhaps, have a debate on.

I believe that it is important that we do not turn away from our current path, as that would lead to confusion and dissatisfaction within the sector. We must strengthen our resolve and follow through with the commitment we have made as a Government and ensure that all pupils in Wales are receiving a fair and thorough education to ensure the development of our future talent, ensuring that every pupil has the ability to reach their full potential.

17:29

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

I will confine my contribution to the proposed new numeracy GCSE, because it appears to me to stand at the crossroads of two significant issues: an improvement in applying number skills in real-life challenges, and part of what I would hope to achieve through the financial education and inclusion Bill that I am taking through this Assembly at the moment. It seems that the numeracy GCSE gives us a gilt-edged opportunity to set right the issues highlighted in PISA figures. I am glad that the Welsh Government has proposed this particular qualification. Introducing a survey it released this week on the two proposed maths qualifications, the Welsh Government states on its website that:

'The first of these...should provide a greater assurance of numeracy by assessing the mathematical skills used in work, general study and daily life.'

This mirrors the OECD's definition, which states that:

'Every PISA survey tests reading, mathematical and scientific literacy in terms of general competencies, that is, how well students can apply the knowledge and skills they have learned at school to real-life challenges.'

Gan droi'n ôl at PISA, eglurodd y Gweinidog addysg ar y pryd na fyddai'n bosibl mesur llwyddiant gweithredu'r polisiau a roddwyd ar waith ers dechrau 2011 yn erbyn y canlyniadau a ddisgwylir maes o law. Gobeithio y gwelwn welliant i ddangos ein bod, yn wir, yn symud i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cofio'r hyn yr wyf wedi cyfeirio ato o'r blaen, sef bod angen i bolisi addysg gymryd amser i wreiddio, a dylem weld, erbyn 2015, ganlyniadau gwell wrth i'r polisiau gael mwy o effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad yng Nghymru. Byddwn ni, fel cenedl, gobeithio, ymhlith yr 20 gwlad orau yn y canlyniadau hynny ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth.

Cyfeiriaf hefyd at sylwadau Angela Burns ar gymhlethdodau cyfrifiadau PISA. Gwrandewais ar ddadl y bore yma a nododd fod llawer o academyddion yn amau effeithiolrwydd PISA, ond y sylw a wnaed oedd mai hwn oedd yr unig beth a oedd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn, 'A yw hyn yn ddefnyddiol?' yn un y gallem ei drafod efallai.

Credaf ei bod yn bwysig nad ydym yn troi oddi ar ein llwybr presennol, gan y byddai hynny'n arwain at ddryswch ac anfodlonrwydd o fewn y sector. Rhaid inni gryfhau ein penderfyniad a chyflawni'r ymrwymiad a wnaed gennym fel Llywodraeth a sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn cael addysg deg a thrylwyr er mwyn sicrhau datblygiad ein talent yn y dyfodol, gan sicrhau bod gan bob disgybl y gallu i gyrraedd ei lawn botensial.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cyfyngaf fy nghyfraniad at y TGAU newydd arfaethedig mewn rhifedd, oherwydd yn fy marn i, mae ar groesffordd dau fater pwysig: gwelliant o ran cymhwyso sgiliau rhif mewn heriau bywyd go iawn, a rhan o'r hyn y byddwn yn gobeithio ei gyflawni drwy'r Bil addysg a chynhwysiant yr wyf yn ei dywys drwy'r Cynulliad hwn ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod y TGAU mewn rhifedd yn rhoi cyfle euraid inni unioni'r problemau a amlygwyd yn ffigurau PISA. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig y cymhwyster penodol hwn. Wrth gyflwyno arolwg a ryddhawyd ganddi yr wythnos hon ar y ddau gymhwyster mathemateg arfaethedig, noda Llywodraeth Cymru ar ei gwefan:

'Bydd yr un cyntaf o'r rhain yn ceisio cynnig gwell sicrwydd o ran rhifedd drwy asesu'r sgiliau mathemateg a ddefnyddir yn y gwaith, wrth astudio yn gyffredinol ac yn rhan o fywyd bob dydd.'

Mae hyn yn adlewyrchu diffiniad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sy'n datgan:

Mae pob arolwg PISA yn profi darllen, llythrennedd mathemategol a gwyddonol o ran cymwyseddau cyffredinol, hynny yw, pa mor dda y gall myfyrwyr gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi eu dysgu yn yr ysgol at heriau bywyd go iawn.

The Welsh Government survey also says that the proposed numeracy GCSE will assess the skills that learners will need in their everyday lives in the world of work, and in other general curriculum areas. Many questions will assess the application of mathematics in contexts that are relevant and meaningful. This reflects comments made by Estyn's strategic director, Meilyr Rowlands, who told the Policy Forum for Wales conference on literacy and numeracy in October that students in Wales lacked confidence in PISA-style questions, which heavily contextualised problems and which are expressed in words. Contextualised problems expressed in words are the way in which many students will meet mathematics in the real world, so the fundamental question here is this: are they prepared for it? Are they ready not only to manage their budgets, but to read a payslip? Are they ready to check their tax code, understand their bank statements, to compare interest rates and credit cards, to pick the right mortgage and to avoid unsustainable debt arrangements? We know that they will be bombarded with all of the above.

The picture that I have so far of what financial education is currently provided in Welsh schools, even at this early stage, cannot positively answer that fundamental question. Although mathematics as a subject touches upon these real-life issues, covering them in detail is left to personal and social education, where as little as three hours over two years at key stage 4 are devoted to matters such as managing budgets and planning for the future. It is little wonder that financial education accounts for just two of 61 outcomes at this level.

While I am encouraged by the Welsh Government's move, I am less encouraged by the way that it is going about it. The survey too often concerns itself with academic issues such as tiering and problems with marking. I would say that the content should be designed first and the delivery built to support it. As important as the structure is, I cannot see how PISA standards can be improved through a debate that does not prioritise what is required to send out financially competent and financially confident young people into the world. I would argue that this qualification requires reverse engineering. We need to begin among the financial information that we as adults regularly deal with, and find ways to take it back to the classroom in ways that are relevant to students and in ways that will remain with them for life.

I have come across many excellent initiatives and outstanding individuals delivering effective financial education who could not only make a difference to students but also in assisting hard-pressed teachers. That also needs to be part of this debate today. When we still have large class sizes in deprived areas, we are already stacking PISA against them. Most importantly, we are making it harder for students to achieve outcomes. This is what we are about in this party, and, as Simon Thomas said earlier, if we are putting strategies in place, we need to see outcomes. That is what I would like to see from my financial education Bill, and that is what we should all want to see here in the National Assembly for Wales.

Mae arolwg Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud y bydd y TGAU arfaethedig mewn rhifedd yn asesu'r sgiliau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd yn y byd gwaith, ac ym meysydd cyffredinol eraill y cwricwlwm. Bydd llawer o gwestiynau yn asesu'r ffordd y cymhwysir mathemateg mewn cyd-destunau sy'n berthnasol ac yn ystyrion. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau a wnaed gan gyfarwyddwr strategol Estyn, Meilyr Rowlands, a ddywedodd wrth gynhadledd Fforwm Polisi Cymru ar lythrennedd a rhifedd ym mis Hydref fod diffyg hyder gan fyfyrwyr yng Nghymru wrth ateb cwestiynau ar ffurf PISA, sy'n nodi problemau mewn ffordd gyd-destunol iawn a fynegir mewn geiriau. Problemau cyd-destunol a fynegir mewn geiriau yw'r hyn y bydd llawer o fyfyrwyr yn eu hwynebu wrth ymdrin â mathemateg yn y byd go iawn, felly'r cwestiwn sylfaenol yw hyn: a ydynt yn barod ar ei gyfer? A ydynt yn barod nid yn unig i reoli eu cyllidebau, ond i ddarllen slip cyflog? A ydynt yn barod i wirio eu cod treth, deall eu cyfriflenni banc, cymharu cyfraddau llog a chardiau credyd, dewis y morgais cywir ac osgi trefniadau ar gyfer dyledion anghynaliadwy? Gwyddom y cânt eu llethu gan bob un o'r uchod.

Ni all y darlun sydd gennyf hyd yn hyn o'r addysg ariannol a ddarperir ar hyn o bryd yn ysgolion Cymru, hyd yn oed ar y cam cynnar hwn, ateb yn gadarnhaol y cwestiwn sylfaenol hwnnw. Er bod mathemateg fel pwnc yn cyffwrdd â'r materion bywyd go iawn hyn, mae ymdrin â hwy yn fanwl yn rhywbeth a adewir i addysg bersonol a chymdeithasol ei wneud, lle y neilltuir cyn lleied â thair awr dros ddwy flynedd yng nghyfnod allweddol 4 i faterion megis rheoli cyllidebau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Nid yw'n syndod felly bod addysg ariannol ond yn cyfrif am ddau o'r 61 o ganlyniadau ar y lefel hon.

Er y caf fy nghalonogi gan gam gweithredu Llywodraeth Cymru, nid yw'r ffordd y mae'n mynd ati i wneud hyn yn fy nghalonogi cymaint. Yn amlach na pheidio mae'r arolwg yn ymdrin â materion academaidd megis haenau a phroblemau gyda marcio. Byddwn yn dweud y dylid cynllunio'r cynnwys yn gyntaf a'r ddarpariaeth i'w gefnogi. Er mor bwysig yw'r strwythur, ni allaf weld sut y gellir gwella safonau PISA drwy drafodaeth nad yw'n blaenoriaethu'r hyn sy'n ofynnol er mwyn anfon pobl ifanc cymwys yn ariannol a hyderus yn ariannol allan i'r byd. Byddwn yn dadlau bod angen mynd tuag at yn ôl mewn perthynas â'r cymhwyster hwn. Mae angen inni ddechrau ymysg y wybodaeth ariannol yr ydym ni fel oedolion yn delio'n rheolaidd â hi, a dod o hyd i ffyrdd o fynd â hyn yn ôl i'r ystafell ddosbarth mewn ffyrdd sy'n berthnasol i fyfyrwyr ac mewn ffyrdd a fydd yn aros gyda hwy am weddill eu bywydau.

Rwyf wedi dod ar draws llawer o fentrau rhagorol ac unigolion gwych sy'n darparu addysg ariannol effeithiol a allai nid yn unig wneud gwahaniaeth i fyfyrwyr ond hefyd a allai gynorthwyo athrawon sydd dan bwysau. Mae angen i hynny hefyd fod yn rhan o'r drafodaeth hon heddiw. Pan fo gennym ddsbarthiadau mawr mewn ardaloedd difreintiedig, rydym eisoes yn ei gwneud yn anos iddynt gyflawni canlyniadau. Dyna yw ein nod yn y blaidd hon, ac, fel y dywedodd Simon Thomas yn gynharach, os ydym yn rhoi strategaethau ar waith, mae angen inni weld canlyniadau. Dyna'r hyn yr hoffwn ei weld yn deillio o'm Bil addysg ariannol, a dyna'r hyn y dylai pob un ohonom fod eisieu ei weld yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.



Rwyf am ganolbwyntio ar y rheswm pam ei bod yn bwysig i gymdeithas ehangach ein bod yn gwella ein perfformiad yn asesiadau PISA. Nid nod ynddo'i hun yw codi safonau o ran PISA; nid ydym eisiau gweld Cymru yn codi yn y tabl rhyngwladol am resymau o falchder, ond am resymau cwbl ymarferol. Byddai hynny'n brawf o sut rydym fel cenedl yn paratoi ein pobl ifanc ar gyfer llwyddiant yn nes ymlaen yn eu bywydau, ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer unigolion a'n cenedl i lwyddo yn economaidd mewn ffordd nad ydym yn llwyddo ar hyn o bryd. Rydym eisiau gweithlu sy'n cymharu â'r gorau yn y byd.

I'ch atgoffa o beth ddywedodd Simon yn gynharach, mae'r OECD yn dweud mai'r hyn sy'n cael ei fesur o dan PISA yw nid pa mor dda mae myfyrwyr wedi gallu meistrolï cwrwicwlwm sy'n cael ei roi o'u blaenau yn yr ystafell ddosbarth, ond pa mor dda maent yn gallu defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth maent wedi eu dysgu yn yr ysgol i'w helpu i wynebu sialensiau mewn bywyd go iawn. Mae hynny'n golygu gallu pobl i gyfrannu at yr economi.

Mae'n berffaith glir bod yn rhaid i ni godi safonau ymhlith y mwyaf difreintiedig. Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu mai'r ffordd orau i wella'r economi yw datblygu system addysg sy'n gweithio ar gyfer pawb, ac sy'n helpu i dynnu pobl allan o dlodi. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod perfformiad gwael Cymru o gymharu â chenhedloedd eraill y Deyrnas Gyfunol o ran asesiadau PISA yn rhedeg ochr yn ochr â pherfformiad cymharol wael wrth geisio tynnu teuluoedd allan o dlodi. Mae un plentyn o bob tri yng Nghymru yn byw mewn tlodi, ar ôl i gostau cartrefi gael eu cymryd i ystyriaeth. Er bod hyn ryw ychydig o ganrannau yn is na 15 mlynedd yn ôl, rydym yn amlwg yn bell iawn o'r targed, sef cael gwared â thlodi plant erbyn 2020. Llai na chwarter y plant sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim sy'n cael pum gradd A\* i C mewn arholiadau TGAU, yn cynnwys mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae hynny dros 30% yn llai na phlant mewn grwpiau eraill. Mae'r gwahaniaeth y mae tlodi wedyn yn ei achosi o ran llwyddiant addysgol yn creu rhyw fath o gylch dieflig sydd wedi profi'n anodd iawn i'w dorri dros y blynyddoedd.

Mae llawer o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, wrth gwrs, yn methu â chyrraedd eu potensial mewn addysg, ac wedyn, ar ôl gadael yr ysgol, yn methu â chael swyddi da, neu'n methu â chadw'r swyddi hynny. Fel y dywedodd Leanne Wood yn gynharach, mae adroddiad diweddar y 'Social Mobility and Child Poverty Commission' ar gyfer Prydain yn awgrymu y gallai codi lefel llwyddiant pob plentyn i'r cyfartaledd ychwanegu 4% at ffigurau GDP Prydain erbyn canol y ganrif hon. Cyfeiriwyd at hynny'n barod, fel y dywedais. Gan ein bod ni'n cychwyn o lefel sydd gymaint yn is yma yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod ni, yn fwy na neb arall, yn cymryd yr her yma o ddiffrif ac yn mynd yn bellach na neb arall o ran gwella cyrhaeddiad addysgol, gan wneud hynny gyda mwy o frys.

I want to concentrate my remarks on the reason why it is important for wider society that we improve our performance in the PISA assessments. It is not an aim in and of itself to improve standards in terms of PISA; we do not want to see Wales simply going up in the international tables for reasons of pride, but for very practical reasons. That would be proof of how we as a nation are preparing our young people for success later in life, and how we are setting firm foundations for individuals and our nation as a whole to succeed economically in a way that we are not succeeding at present. We want a workforce that compares with the best in the world.

To remind you of what Simon said earlier, the OECD said that what is being measured under PISA is not how well students have been able to master the curriculum presented to them in the classroom, but how well they can apply those skills and that information learnt at school to assist them in facing challenges in everyday life. That means people's ability to contribute to the economy.

It is perfectly clear that we have to improve standards among the most disadvantaged. We in Plaid Cymru believe that the best way to improve the economy is to develop an education system that works for everyone, and that assists in bringing people out of poverty. It is no coincidence that Wales's poor performance compared with other nations within the United Kingdom in terms of the PISA assessments goes hand in hand with the relatively poor performance in pulling families out of poverty. One child in three in Wales lives in poverty, once the costs of homes are taken into account. Although the percentage is less than what it was 15 years ago, we are obviously a very long way away from achieving the target of eradicating child poverty by 2022. Less than a quarter of children who are eligible to receive free school meals achieve five A\* to C grades at GCSE, including in Welsh or English and mathematics. That is over 30% less than children in other groups. The difference that poverty creates in terms of educational attainment creates some sort of vicious circle, which has proved very difficult to break over the years.

Many pupils from disadvantaged backgrounds, of course, fail to achieve their potential in education, and then, once they leave school, they cannot get good employment, or cannot keep that good employment. As Leanne Wood said earlier, the recent Social Mobility and Child Poverty Commission report for Britain suggested that improving the attainment level for every child could add 4% to British GDP figures by the middle of this century. That has already been referred to, as I said. Given that we are starting from such a low starting point in Wales, it is important that we, more than anyone else, should take this challenge seriously and go further than anyone else in improving educational attainment, and do so with more urgency.

Ni fydd sicrhau'r math hwn o gynnydd a sgîl-ffeithiau cymdeithasol ac economaidd yn digwydd dros nos. Nid yw'n hawdd, ac nid yw'n rhad ychwaith. Rhaid buddsoddi yn ein dyfodol ni fel cenedl. Nid oes ffordd bwysicach o fuddsoddi yn ein dyfodol na buddsoddi yn safon yr addysg yr ydym yn ei roi i'n plant. Byddai Plaid Cymru yn edrych ar ffyrdd radical o ailstrwythuro'r drefn gyllido er mwyn rhoi llawer mwy o flaenoriaeth i addysg.

I gloi, nid wyf am ddechrau cymharu sefyllfa Cymru a'r sefyllfa yn Singapôr, na'r math o systemau addysg sydd yno. Mae cyd-destunau gwahanol iawn, ond mae gwersi i'w dysgu o ran y flaenoriaeth sydd wedi cael ei rhoi i addysg yno a'r effaith y mae hynny wedi'i chael. Rwyf am gyfeirio at adroddiad gan yr OECD; mae hwnnw'n dweud bod addysg wastad wedi bod yn gwbl ganolog i adeiladu Singapôr fel economi ac fel cenedl. Dyfynnaf o'r adroddiad, sy'n disgrifio system addysg Singapôr:

'The objective was to serve as the engine of human capital to drive economic growth.'

Dyna sydd eisiau inni wneud fan hyn. Mae'r Llywodraeth yno wedi bod yn glir yn ei blaenoriaethau ac wedi sicrhau bod polisi yn cael ei weithredu yn ymarferol, ac mae Singapôr yn un o'r gwledydd sy'n llwyddo orau yn ôl llinyn mesur PISA. Ni fyddwn yn cyrraedd y lefelau hynny dros nos, ond nid oes rheswm o gwbl i beidio â sicrhau bod gennym y weledigaeth am yr hyn sydd angen ei wneud. Dylai dychmygu yn awr yr hyn y gallwn ei gyflawni ar gyfer yr economi drwy wella safonau addysg fod yn hen ddigon i yrru'r Llywodraeth yn ei blaen yn hyn o beth.

Ensuring this kind of progress and social and economic impacts will not happen overnight. It does not come easily or cheaply. We have to invest in our future as a nation. There is no more important investment that we can make in our future than the investment in the quality of education that we provide to our children. Plaid Cymru would look at radical means of restructuring the funding system in order to give far more priority to education.

To conclude, I do not want to compare the situation in Wales and the situation in Singapore, or the kind of education systems that exist there. There are very different contexts, but there are lessons to be learnt in terms of the priority that has been given to education in Singapore and the impact that it has had. I want to refer to another report by the OECD; that report states that education has always been entirely central to the building of Singapore as an economy and a nation. To quote from the report, which describes the education system in Singapore:

Yr amcan oedd gweithredu fel sbardun cyfalaf dynol i lywio twf economaidd.

That is what we need to do here. The Government there has been clear about its priorities and has ensured that policy is implemented practically, and Singapore is one of the nations that are performing the best according to PISA. We will not attain those levels overnight, but there is no reason for not ensuring that we have the vision in place for what needs to be achieved. Imagining now what could be achieved for the economy by improving educational standards should be more than enough to drive the Government forward in this regard.

17:38

## Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

As a Government, we are steadfast in our shared commitment to reducing the impact of poverty on education and attainment. Alongside improving standards in literacy and numeracy, these represent the core priorities for my officials in my department, and that is why I have set challenging targets in this area. It is not my intention to short-change the young people of Wales by setting ourselves or our schools easily attainable goals that do not stretch our young people and do not drive forward the school improvement agenda. I will not apologise to this Assembly or to anyone else for aiming high.

I broadly welcome the thrust of today's motion. I intend to support it and amendments 1 to 4. I will be opposing amendment 5 laid by Aled Roberts, calling on the Welsh Government to introduce an individual pupil monitoring programme, on the basis that schools are already expected, as has been said during the debate, to make effective use of data tracking to identify pupils' learning needs. Estyn already evaluates how well schools do this as part of its inspection regime and our focus must be on making the collection and sharing of data more effective. I will also be opposing amendment 6, calling on the Government to review the indicators for measuring disadvantage among school pupils, because, while it is not a perfect measure, eligibility for free school meals is the best measure that we have for identifying and targeting support at where it is most needed.

Fel Llywodraeth, rydym yn gadarn yn ein hymrwymiad ar y cyd i leihau effaith tlodi ar addysg a chyrhaeddiad. Ochr yn ochr â gwella safonau mewn llythrennedd a rhifedd, dyma'r blaenoriaethau craidd ar gyfer fy swyddogion yn fy adran i, a dyna pam rwyf wedi gosod targedau heriol yn y maes hwn. Nid yw'n fwriad gennyf wneud cam â phobl ifanc Cymru drwy osod nodau inni ein hunain neu i'n hysgolion y gellir eu cyrraedd yn hawdd ac nad ydynt yn ymestyn ein pobl ifanc ac nad ydynt yn hyrwyddo'r agenda gwella ysgolion. Nid ymddiheuraf i'r Cynulliad hwn nac i neb arall am anelu'n uchel.

Rwy'n croesawu byrdwn y cynnig heddiw ar y cyfan. Bwriadaf ei gefnogi a gwelliannau 1 i 4. Byddaf yn gwrthwynebu gwelliant 5 a gyflwynwyd gan Aled Roberts, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen monitro disgyblion unigol, ar y sail bod disgwyl i ysgolion eisoes, fel y dywedwyd yn ystod y ddadl, wneud defnydd effeithiol o system olrhain data i nodi anghenion dysgu disgyblion. Mae Estyn eisoes yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn gwneud hyn fel rhan o'i drefn arolygu a rhaid inni ganolbwyntio ar sicrhau bod y broses o gasglu a rhannu data yn fwy effeithiol. Byddaf hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 6, sy'n galw ar y Llywodraeth i adolygu'r dangosyddion ar gyfer mesur anfantais ymhlith disgyblion ysgol, oherwydd, er nad yw'n fesur perffaith, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yw'r mesur gorau sydd gennym ar gyfer nodi a thargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It was abundantly clear in the analysis of the last PISA round in 2009 that there were systemic failures holding back the Welsh education system. We were failing all of our learners, regardless of socioeconomic background. We lagged behind both the OECD average and the other UK nations across all levels. Yet, experience tells us that quick fixes are seldom sustainable. David Rees has underscored that during the debate today.

The reform programme that we have put in place must be given time to have an impact. On more recent measures, however, reports are beginning to be encouraging. Wales is now closing the gap with England in each of the headline indicators. Last year, more pupils who were eligible for free school meals in Wales achieved expected levels at key stage 2 than they did in England.

When I go out and meet practitioners, I am heartened by their commitment to this shared agenda. In the Chamber, too, there is important cross-party support for our approach. This is evidenced by the agreement that we secured with the Liberal Democrats and Plaid Cymru on a draft budget that extended the pupil deprivation grant for an additional year and doubles the allocation of grants to schools in 2014-15. There is recognition among all sensible people that our problems will not be fixed overnight. There is also recognition that money alone cannot fix the problem. Simply throwing additional cash at our systemic problems will not be enough. This is going to take hard work, creativity and a degree of compromise on all our parts.

Let me just outline a few of the key things that we are doing. In October, we launched an action plan to deliver a highly skilled workforce and to support teaching and learning in our schools. The action plan describes what we will do to improve induction, performance management, career training and development. We are also looking at initial teacher training to provide teachers with the skills to address social inclusion, and we are working with Teach First Cymru to place the brightest graduate trainee teachers in some of our secondary schools that are working in the most challenging of circumstances. The Master's in educational practice that we have introduced includes a behaviour management module, and a further module on reducing the impact of poverty on attainment will be launched in April next year. We will have a workforce that is tuned in to these issues.

We have strengthened guidelines on the use of the pupil deprivation grant and new guidance will be published next week. My officials are also working with the consortia to arrange a series of workshops for practitioners to help them plan the most effective spend of the one-year uplift in the grant.

Roedd yn gwbl glir yn y dadansoddiad o'r cylch PISA diwethaf yn 2009 fod methiannau systemig yn rhwystro'r system addysg yng Nghymru. Roeddem yn gwneud tro gwael â'n holl ddysgwyr, ni waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Roeddem ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a gwledydd eraill y DU ar bob lefel. Eto i gyd, mae profiad yn dweud wrthym mai anaml y mae atebion cyflym yn gynaliadwy. Pwysleisiodd David Rees hynny yn ystod y ddadl heddiw.

Rhaid i'r rhaglen ddiwygio yr ydym wedi'i rhoi ar waith gael amser i gael effaith. O ran mesurau mwy diweddar, fodd bynnag, mae adroddiadau yn dechrau bod yn galonogol. Mae'r bwlbwch rhwng Cymru a Lloegr bellach yn cau ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Y llynedd, cyflawnodd mwy o ddisgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru lefelau disgwylidig yng nghyfnod allweddol 2 nag a wnaeth yn Lloegr.

Pan af allan a chyfarfod ag ymarferwyr, caf fy nghalonogi gan eu hymrwymiad i'r agenda hon a rennir. Yn y Siambr, hefyd, mae cefnogaeth drawsbleidiol bwysig i'n dull gweithredu. Mae'r cytundeb a sicrhawyd gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru ar gyllideb ddrafft a oedd yn ymestyn y grant amddifadedd disgyblion am flwyddyn ychwanegol ac yn dyblu dyraniad y grantiau i ysgolion yn 2014-15 yn brawf o hyn. Ceir cydnabyddiaeth ymhlith pobl synhwyrol na chaiff ein problemau eu datrys dros nos. Ceir cydnabyddiaeth hefyd na all arian yn unig ddatrys y broblem. Ni fydd gwario arian ychwanegol ar ein problemau systemig yn ddigon. Bydd angen gwaith caled, creadigrwydd a rhywfaint o gyfaddawdu ar ran pob un o honom.

Gadewch imi amlinellu ychydig o'r pethau allweddol yr ydym yn eu gwneud. Ym mis Hydref, lanswyd cynllun gweithredu i ddarparu gweithlu medrus ac i gefnogi addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Mae'r cynllun gweithredu yn disgrifio'r hyn a wawn i wella'r broses sefydlu, rheoli perfformiad, hyfforddi a datblygu gyrfa. Rydym hefyd yn edrych ar hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn sicrhau bod athrawon yn meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol, ac rydym yn gweithio gyda Teach First Cymru i osod yr athrawon graddedig dan hyfforddiant mwyaf disglair mewn rhai o'n hysgolion uwchradd sy'n gweithio o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Mae'r Radd Meistr mewn ymarfer addysgol a gyflwynwyd gennym yn cynnwys modiwl rheoli ymddygiad, a chaiff modiwl pellach ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ei lansio ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Bydd gennym weithlu sy'n ymwybodol o'r materion hyn.

Rydym wedi cryfhau canllawiau ar y defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion a chaiff canllawiau newydd eu cyhoeddi yr wythnos nesaf. Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda'r consortia i drefnu cyfres o weithdai i ymarferwyr i'w helpu i gynllunio'r gwariant mwyaf effeithiol o'r codiad blwyddyn yn y grant.

I am not interested in introducing burdensome bureaucracy to monitor grants, necessarily. We should be measuring outcomes—I am in agreement with Plaid Cymru on this—not activity, and we are working with the consortia to achieve effective use of all grants to support school improvement. Estyn already considers how well schools support standards of groups of learners. From September 2014, all inspection reports will include a comment on how well schools are supporting learners who are eligible for free school meals, to improve their rates of attainment and to ensure that they reach their full potential.

There will also be a specific requirement for inspection reports to refer to how well schools make use of all of their resources, including the pupil deprivation grant, to support this group of learners.

Finally, we are developing a deprivation programme that will draw together the range of activity that is under way to support children from deprived backgrounds. It will identify the gaps and develop seamless transition between programmes. However, we need to face up to this. We all agree that these are the right things to be doing. There is an enormous amount of consensus across the Chamber and out there in the country. We do not necessarily need to debate the principles of this much further. That might simply get in the way of getting the business done.

It is true that, as Rhun ap Iorwerth has stated, our economy cannot outpace the quality of its schools, and we owe it now to our children to get on with the job of raising school standards, which is the work, I would say, of a decade, raising attainment and raising the bar for all of our young people across Wales.

Nid oes gennyf ddiddordeb mewn cyflwyno biwrocratiaeth feichus i fonitro grantiau, o reidrwydd. Dylem fod yn mesur canlyniadau—cytunaf â Phlaid Cymru ar hyn—ac nid gweithgarwch, ac rydym yn gweithio gyda'r consortia i sicrhau defnydd effeithiol o'r holl grantiau i gefnogi'r gwaith o wella ysgolion. Mae Estyn eisoes yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi safonau grwpiau o ddysgwyr. O fis Medi 2014, bydd yr holl adroddiadau arolygu yn cynnwys sylw ar ba mor dda y mae ysgolion yn cefnogi dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, i wella eu cyfraddau cyrhaeddiad ac i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn potensial.

Bydd gofyniad penodol hefyd i adroddiadau arolygu gyfeirio at ba mor dda y mae ysgolion yn gwneud defnydd o'u holl adnoddau, gan gynnwys y grant amddifadedd disgyblion, i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.

Yn olaf, rydym yn datblygu rhaglen amddifadedd a fydd yn dwyn ynghyd yr ystod o weithgareddau sydd ar y gweill i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig. Bydd yn nodi'r bylchau ac yn datblygu dulliau pontio di-dor rhwng rhaglenni. Fodd bynnag, mae angen inni wynebu'r gwirionedd. Mae pob un ohonom yn cytuno mai dyma'r pethau iawn i'w gwneud. Ceir llawer iawn o gonsensus yn y Siambra a ledled y wlad. Nid oes angen inni o reidrwydd drafod yr egwyddorion hyn lawer ymhellach. Gallai hynny ein rhwystro rhag cyflawni'r busnes.

Mae'n wir, fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth, na all ein heconomi ennill y blaen ar ansawdd ei hysgolion, ac er mwyn ein plant dylem yn awr fwrw ymlaen â'r gwaith o godi safonau mewn ysgolion, sef gwaith degawd, yn fy marn i, o godi cyrhaeddiad a chodi'r safon i bob un o'n pobl ifanc ledled Cymru.

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddatl.

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:45 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n diolch i bawb a gyfrannodd at y ddatl, datl a oedd, ar y cyfan, yn un cynhwysfawr ond yn un adeiladol, rwy'n meddwl, ac roedd nifer o sylwadau'r Gweinidog wrth iddo ymateb i'r ddatl hefyd yn adeiladol. A gaf i ddweud ar y dechrau ar ran Plaid Cymru ein bod yn derbyn y gwelliannau ar y cyfan, ar wahân i welliant 2? Nid ydym yn derbyn hwnnw a byddwn yn ymatal ar welliant 1, gan ei fod yn draddodiad, bellach, i Blaid Cymru ymatal ar welliannau o'r fath, a bydd yn rhaid aros am Siôn Corn o hyd, mae'n debyg.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank everyone who contributed to the debate, a debate that was, on the whole, comprehensive and constructive, and many of the Minister's comments in his response to the debate were also constructive. May I say at the outset on behalf of Plaid Cymru that we, on the whole, accept the amendments, with the exception of amendment 2? We will not support that amendment, and we will abstain on amendment 1, as it is now a tradition for Plaid Cymru to abstain on such amendments, and we will have to wait for Father Christmas for a while yet, it would seem.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Wrth gloi'r ddadl hon, rwy'n meddwl mai un peth sydd wedi cael ei ddweud yn glir iawn gan nifer o siaradwyr yw bod hon, yn ei hanfod, yn ddadl economaidd yn ogystal â dadl am gyfiawnder cymdeithasol, oherwydd bod y cylch diefflig hwn yn dal nifer o'n teuluoedd a'n plant a'n pobl ifanc ni o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni i'w potensial llawn. Mae hynny yn golygu eu bod nhw eu hunain yn methu cael y swyddi gorau y gallent fod wedi eu cael, ond, yn gyfan oll, mae hyn yn sbrag, fel tae, ar ddatblygiad economaidd Cymru yn ogystal. Dyna pam mae'n flaenoriaeth i Blaid Cymru i sicrhau ym maes addysg ein bod yn cau'r bwlch hwn a bod codi lefel cyrhaeddiad y plant tlotaf yn rhan o dyfu'r economi yn ogystal â rhan o gyflawni cyfiawnder cymdeithasol.

Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n edrych yn ôl at araith a wnaeth y Gweinidog presennol—nid wyf yn gwybod a yw'n cofio dod i Aberystwyth yn 2008 i draddodi darlith flynyddol yng nghyd-destun tlodi plant, ond dywedodd bryd hynny nad pwnc i'r Cymoedd, neu bwnc dinesig na phwnc gwledig yw hwn ac nid yw'n bwnc ymrannol chwaith. Aeth ymlaen i ddweud bod hon yn agenda sy'n siarad am flaenoriaethau mewn datblygu economaidd, addysg ac iechyd, a bod cymdeithas sy'n symud plant allan o dlodi yn gymdeithas sy'n cael ei had-dalu dro ar ôl tro.

Rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Mae'n ddiddorol nodi, serch hynny, yn y flwyddyn cyn i'r Gweinidog wneud yr araith roedd tlodi plant yng Nghymru yn 27% ac, erbyn hyn, mae'n 32%. Felly, mae wedi gwaethygu dros y cyfnod hwnnw, er gwaethaf ymdrechion ac uchelgais y Gweinidog y tro hwnnw.

Fodd bynnag, mae gwobr sylweddol i'w hennill, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei araith. Os ydym yn buddsoddi, byddwn yn cael ein had-dalu dro ar ôl tro. Bydd yr ad-dalu, fel y soniodd nifer o siaradwyr heddiw, yn godiad yn GDP. Roedd adroddiad 'State of the Nation 2013' Alan Milburn yn dweud y byddai codi pob plentyn i'r lefel gyfartalog yn cyfrannu £56 biliwn y flwyddyn erbyn 2050, ac mae hynny'n godiad o 4% yn GDP. Os na chredwch yr adroddiad hwn, edrychwch ar adroddiad Save the Children 'Too Young to Fail' a oedd hefyd yn dweud pe baem ni wedi cau'r bwlch cyrhaeddiad ymysg plant hyd at 11 mlwydd oed, buasai hynny wedi ychwanegu, erbyn 2020, £30 biliwn neu 1.8% o GDP at ein heconomi. Rwy'n gofyn i bawb yn y Siambr: a allwch chi feddwl am un arf gwell sydd gan Lywodraeth Cymru o gynyddu'r economi na chynnydd addysg? Nid oes arfau eraill. Rydym yn dadlau weithiau yn y fan hon ynglŷn ag ambell filiwn fan hyn i ddatblygu economaidd neu ambell filiwn i ddatblygiad fan draw. Dyma rywbeth sydd yn wir yn 'game-changer' yng nghyd-destun datblygiad economaidd y wlad. Rwyf i am weld, ac mae Plaid Cymru am weld, mwy o ffocws ar, a mwy o gydlyniant rhwng y rhaglenni gwrthdlodi a'r rhaglenni addysg, gan sicrhau bod hyn yn cael ei weld yng nghyd-destun datblygu economaidd.

Rydym wedi perfformio yn wael iawn mewn cymhariaeth â rhai o'r gwledydd eraill ym Mhrydain yn nhermau PISA yn y gorffennol, ac rydym yn cymharu yn yr un modd o ran sut yr ydym yn codi teuluoedd mas o dlodi. Mae'r adroddiad y bu sawl cyfeiriad ato heddiw, gan y Social Mobility and Child Poverty Commission, yn dangos, erbyn 2013—sef eleni—ein bod yn cael ein gadael ar ein hôl mewn cymhariaeth â gwledydd eraill.

In closing this debate, one thing that has become very clear from a number of speakers is that this, at its core, is an economic argument as well as an argument about social justice, because this vicious circle is preventing so many families, children and young people from disadvantaged backgrounds from achieving to their full potential. That means that they are not attaining the best posts that they could, and, more generally, that it acts as a hindrance to the economic development of Wales. That is why it is a Plaid Cymru priority to ensure that, within education, we close the attainment gap and ensure that raising the attainment level of the most disadvantaged children is part of growing the economy as well as part of achieving social justice.

In that context, I look back to a speech given by the current Minister—I do not know whether he recalls coming to Aberystwyth in 2008 to give an annual lecture in the context of child poverty, during which he said that this is not an issue simply for the Valleys, for urban areas or rural areas alone, and that it is not a peripheral issue either. He went on to say that this is an agenda that talks of priorities in economic development, education and health, and that a society that moves children out of poverty is a society that is repaid time and again.

I agree fully with that statement. It is interesting to note, however, that, in the year before the Minister made that speech, child poverty in Wales stood at 27%, and it is now 32%. So, the situation has deteriorated over that period, despite the efforts and ambition of the Minister.

However, there is a substantial prize to be gained, as the Minister said in his speech. If we do invest, we will be repaid many times over. As many speakers have said today, that will be seen in an increase in GDP. Alan Milburn's 'State of the Nation 2013' report said that bringing every child up to the average level will achieve £56 billion per annum by 2050, an increase of 4% in GDP. If you do not believe that report, then look at Save the Children's 'Too Young to Fail' report, which also said that, if we close the attainment gap by the age of 11, it would add, by 2020, £30 billion or 1.8% of GDP to our economy. I ask everyone in the Chamber: can you think of any better tool that the Welsh Government has to improve the economy than improving education? There are no other tools. We argue occasionally about a few million here and a few million there for economic development or some other development. This is truly a game-changer in terms of economic development for Wales. I want to see, and Plaid Cymru wants to see, a greater focus on and co-ordination of anti-poverty programmes and education programmes, while ensuring that this is seen in the context of economic development.

We have performed poorly in comparison with certain other nations in Britain in terms of PISA results, and we compare just as poorly in the way that we bring families out of poverty. The report that has been mentioned a lot today, by the Social Mobility and Child Poverty Commission, demonstrates that by 2013—this year—we are being left behind in comparison with other nations.

Yn y pen draw, mae nifer o'r pethau y mae siaradwyr wedi sôn amdanynt heddiw yn costio. Mae'r gost yn gallu amrywio o'r £30 miliwn y soniais amdano ar gyfer y cyfnod sylfaen llawn i bawb, i ambell swm y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ambell ysgol. Serch hynny, mae cost o beidio â gwneud hyn, sef y gost o beidio â sicrhau bod ein plant ymysg y gorau yng ngorllewin Ewrop, yn gorgyflawni ac yn llwyddo, oherwydd hynny, i godi'r economi gyfan. Dyna fydd y gost os na weithredwn ni ar hyn. Fel dywedodd y Gweinidog, fe wnawn ni ddechrau symud ymlaen gyda'n gilydd i sicrhau safonau uwch, ond a gawn ni plis weld mwy o gydgyfeiriad a chydlynad unedig gan y Llywodraeth ar draws y portffolios ar y mater hwn?

Ultimately, a number of things that have been discussed today will cost money. They cost can vary from the £30 million that I mentioned in terms of the full foundation phase for all to certain amounts of money that could be targeted at certain schools. However, there is a cost to not doing this—the cost of not ensuring that our children are among the best in western Europe, overachieving and succeeding, because of that, in lifting our whole economy. That is the cost if we do not take action on this. As the Minister said, we will start to make progress together to ensure better attainment, but, please, can we see far more convergence and united co-ordination from the Government across all portfolios on this particular issue?

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is to agree the motion without amendment. Are there any objections? There is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I commence with the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Daeth yr adeg i bleidleisio. Cyn imi ddechrau gyda'r bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5370](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 13, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

## Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5370](#)

*Motion not agreed: For 13, Against 42, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5370](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5370](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 41, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5370](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5370](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 41, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 41, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5371](#)

[Result of the vote on motion NDM5371](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5372

Result of the vote on motion NDM5372

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 18, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 38, Against 18, Abstain 0.*

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quietly and quickly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n dawel ac yn gyflym?

17:54 **Dadl Fer**

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As no topic was tabled for this short debate we will move directly to the next short debate.

**Short Debate**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Gan na chyflwynwyd unrhyw bwnc ar gyfer y ddadl fer hon, symudwn yn uniongyrchol at y ddadl fer nesaf.

17:55 **Dadl Fer—Aildrefnwyd o 25 Medi: Manteision Canmlwyddiant Dylan Thomas i Gymru**

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'In the mustardseed sun, / By full tilt river and switchback sea / Where the cormorants scud, / In his house on stilts high among beaks / And palavers of birds / This sandgrain day in the bent bay's grave / He celebrates and spurns / His driftwood thirty-fifth wind turned age; / Herons spire and spear.

Under and round him go / Flounders, gulls, on their cold, dying trails, / Doing what they are told, / Curlews aloud in the congered waves / Work at their ways to death, / And the rhymer in the long tongued room, / Who tolls his birthday bell, / Toils towards the ambush of his wounds; / Herons, steeple stemmed, bless.'

As many in this Chamber know, these two verses are taken from Dylan Thomas's 'Poem on his Birthday'. In the year we celebrate the birth of one of Wales's most recognisable figures, I could not resist the chance to remind everyone of the words of the poet himself. It is great to be able to read poetry here in the Chamber anyway. Indeed, as I am sure we all know by now, 2014 will see 'his driftwood one hundredth wind turned age' and Wales and the world join together to 'toll his birthday bell'. So it seems a timely moment to raise this short debate on the benefits of the Dylan Thomas centenary for Wales.

Last week, we saw the launch of the centenary celebrations of the birth of Dylan Thomas in Swansea and Cardiff. It has been a privilege and pleasure to watch and support the development of the Dylan Thomas 100, a year-long celebration of Dylan's life and works. I was very privileged to be at both of the opening events. I am very grateful to the First Minister, the former Minister for culture and the present Minister for culture, whom I saw at the opening celebrations, for recognising the importance and value of such a celebration, not only for the city of Swansea and Wales, but, hopefully, for the whole world.

**Short Debate—Re-scheduled from 25 September: The Benefits of the Dylan Thomas Centenary for Wales**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

'In the mustardseed sun, / By full tilt river and switchback sea / Where the cormorants scud, / In his house on stilts high among beaks / And palavers of birds / This sandgrain day in the bent bay's grave / He celebrates and spurns / His driftwood thirty-fifth wind turned age; / Herons spire and spear.

Under and round him go / Flounders, gulls, on their cold, dying trails, / Doing what they are told, / Curlews aloud in the congered waves / Work at their ways to death, / And the rhymer in the long tongued room, / Who tolls his birthday bell, / Toils towards the ambush of his wounds; / Herons, steeple stemmed, bless.'

Fel y gŵyr sawl un yn y Siambr hon, daw'r ddau bennill hyn o gerdd Dylan Thomas, 'Poem on his Birthday'. Yn y flwyddyn lle y byddwn yn dathlu genedigaeth un o ffigyrau mwyaf adnabyddus Cymru, ni allwn ymwrthod â'r cyfle i atgoffa pawb o eiriau'r bardd ei hun. Mae'n braf gallu darllen barddoniaeth yma yn y Siambr beth bynnag. Yn wir, fel y gŵyr pob un ohonom erbyn hyn, byddwn yn dathlu ei ganmlwyddiant yn ystod 2014 a bydd Cymru a'r byd yn ymuno i ddymuno pen-blwydd hapus iddo. Felly ymddengys ei bod yn adeg briodol cyflwyno'r ddadl fer hon ar fuddiannau canmlwyddiant Dylan Thomas i Gymru.

Yr wythnos diwethaf, lanswyd dathliadau canmlwyddiant geni Dylan Thomas yn Abertawe a Chaerdydd. Bu'n ffraind ac yn bleser gwyllo a chefnogi'r broses o ddatblygu Dylan Thomas 100, dathliad blwyddyn o hyd o fywyd a gwaith Dylan. Roedd yn anrhydedd mawr imi fod yn y ddau ddiwyddiad agoriadol. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Prif Weinidog, y cyn Weinidog diwylliant a'r Gweinidog diwylliant presennol, y'u gwelais yn y dathliadau agoriadol, am gydnabod pwysigrwydd a gwerth dathliad o'r fath, nid yn unig i ddinas Abertawe a Chymru, ond, gobeithio, i'r byd i gyd.

During this debate, I want to highlight the lasting legacy that Dylan has left us, alongside the exciting national and international events that have been programmed over the next year, drawing attention to those institutions that we already have and showcasing the new talent we have in Wales. This, for me, is the lasting legacy of Dylan Thomas and the key to how this celebration of one of our most famous sons can reach well beyond 2014. Dylan was born in the 'best' room of his family home in 5 Cwmdonkin Drive in Uplands in my Swansea West constituency on 27 October 1914. If you have had a chance to visit Dylan's birthplace, you will know how great it is, and if you have not, then I highly recommend that you do so. The house has been lovingly restored by Annie and Geoff Haden to recreate as nearly as possible the way it would have looked when Dylan lived there. As a result, 5 Cwmdonkin Drive is now a living museum where poets still congregate to deliver recitals of their work and seek inspiration. Indeed, it is not just poets and musicians who like to spend time in the parlour room, but American Presidents and Prince Charles as well. You can even stay in the bedroom where Dylan was born. Then, in the morning, you can head over to the recently refurbished and much loved Cwmdonkin park where Dylan drew inspiration for his 'Hunchback in the Park', and which recently saw a huge community opening event, reflecting its place at the heart of the local community—and as a draw for tourists the world over.

Indeed, Dylan's birthplace is a significant asset for Swansea. It is clearly a great tourist destination and an excellent educational facility, attracting visitors from around the world who wish to experience the early world of Dylan. In terms of lasting legacy, 5 Cwmdonkin Drive sits firmly alongside the Dylan Thomas Centre and the boathouse in Laugharne as key tourist destinations that can, and should, continue to be marketed to provide an economic boost for the Welsh economy, not just for 2014, but well into the future.

As we all know, Dylan died prematurely in New York at the age of 39. However, his legacy is still very much alive in his words and, as his influence has grown year on year, he is justifiably considered a true Welsh great and, indeed, an international Welsh great—and that is the point, really.

At the opening ceremony for the Dylan Thomas 100 celebration, his granddaughter Hannah Ellis said that she hoped that the Dylan Thomas centenary will showcase her grandfather's witty humour and sense of fun. I could not agree more; I have loved Dylan Thomas since I was a young child growing up in Canada, actually, and seeing it as a connection to my Welsh roots and my Welsh family. His work resounds with the poetry, humour and wit that characterises the people of Swansea and Wales, and which also speaks to so many the world over and is at the heart of his appeal. As a result, his writings have been translated into over 50 languages and are revered by people from all corners of the globe, particularly in the UK, Europe, Australia and North America. His works are also currently undergoing translation into Mandarin, which is sure to bring his work to a whole new audience and, hopefully, a whole new group of literary tourists, which is the point of this debate.

Yn ystod y ddadl hon, hoffwn gyfeirio at yr etifeddiaeth barhaol a adawodd Dylan ar ein cyfer, ynghyd â'r digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol cyffrous a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan dynnu sylw at y sefydliadau hynny sydd gennym eisoes ac arddangos y dalent newydd sydd gennym yng Nghymru. Dyma, i mi, yw etifeddiaeth barhaol Dylan Thomas a'r allwedd i'r ffordd y gall y dathliad hwn o un o'n meibion enwocaf ymestyn ymhell y tu hwnt i 2014. Ganwyd Dylan yn ystafell 'orau' cartref ei deulu yn 5 Cwmdonkin Drive yn ardal Uplands yn fy etholaeth, sef Gorllewin Abertawe, ar 27 Hydref 1914. Os ydych wedi cael cyfle i ymweld â man geni Dylan, byddwch yn gwybod pa mor arbennig ydyw, ac os nad ydych, yna argymhellaf yn gryf y dylech wneud hynny. Cafodd y tŷ ei adfer yn gariadus gan Annie a Geoff Haden er mwyn ail-greu mor agos â phosibl ei olwg pan oedd Dylan yn byw yno. O ganlyniad, mae 5 Cwmdonkin Drive bellach yn amgueddfa fyw lle mae beirdd yn ymgynnull o hyd i gyflwyno datganiadau o'u gwaith ac i chwilio am ysbrydoliaeth. Yn wir, nid dim ond beirdd a cherddorion sy'n hoffi treulio amser yn y parlwr, ond Arlywyddion Americanaidd a'r Tywysog Charles hefyd. Gallwch hyd yn oed aros yn yr ystafell wely lle y ganed Dylan. Wedyn, drannoeth, gallwch fynd i barc poblogaidd Cwmdonkin a adnewyddwyd yn ddiweddar ac a fu'n ysbrydoliaeth i'r gerdd 'Hunchback in the Park', a lle y cynhaliwyd digwyddiad agoriadol cymunedol enfawr yn ddiweddar gan bwysleisio ei statws wrth wraidd y gymuned leol—ac fel atyniad i dwristiaid o bob cwr o'r byd.

Yn wir, mae man geni Dylan yn ased sylweddol i Abertawe. Mae'n amlwg yn gyrchfan gwych i dwristiaid ac yn gyfleuster addysgol ardderchog, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd sydd am gael profiad o fyd cynnar Dylan. O ran etifeddiaeth barhaol, mae 5 Cwmdonkin Drive yr un mor bwysig â Chanolfan Dylan Thomas a'r cwt cychod yn Nhalacharn fel gyrchfannau allweddol i dwristiaid y gellir parhau, ac y dylid parhau, i'w marchnata i ddarparu hwb economaidd i economi Cymru, nid dim ond yn 2014, ond ymhell i'r dyfodol.

Fel y gŵyr pob un ohonom, bu farw Dylan cyn ei amser yn 39 oed yn Efrog Newydd. Fodd bynnag, mae ei etifeddiaeth yn fyw o hyd yn ei eiriau ac, wrth i'w ddylanwad dyfu o flwyddyn i flwyddyn, caiff ei ystyried yn un o oreuon Cymru ac, yn wir, yn un o oreuon Cymru yn rhyngwladol—a dyna, mewn gwirionedd, yw'r pwynt.

Yn y seremoni agoriadol ar gyfer dathliad Dylan Thomas 100, dywedodd ei wyres Hannah Ellis ei bod yn gobeithio y bydd canmlwyddiant Dylan Thomas yn arddangos hiwmor ffraeth ei thad-cu a'i synnwyr o hwyl. Cytunaf yn llwyr; rwyf wedi bod yn hoff iawn o waith Dylan Thomas ers pan oeddwn yn blentyn bach yn tyfu i fyny yng Nghanada, a dweud y gwir, ac yn ei weld fel cysylltiad â'm gwreiddiau Cymreig a'm teulu yng Nghymru. Mae ei waith yn llawn o'r farddoniaeth, yr hiwmor a'r ffraethineb sy'n gysylltiedig â phobl Abertawe a Chymru, ac y mae cymaint o bobl ledled y byd yn uniaethu â hwy ac sydd wrth wraidd ei apêl. O ganlyniad, cyfieithwyd ei waith i fwy na 50 o ieithoedd ac mae pobl o bob cwr o'r byd yn ei goleddu, yn enwedig yn y DU, Ewrop, Awstralia a Gogledd America. Mae ei waith wrthi'n cael ei gyfieithu i'r Mandarin ar hyn o bryd, a fydd, mae'n siŵr, yn cyflwyno ei waith i gynulleidfa newydd sbon a, gobeithio, i grŵp newydd sbon o dwristiaid llenyddol, sef byrdwn y ddadl hon.



The potential and depth of Dylan's legacy is apparent from the list of scheduled events across Swansea, Cardiff, Oxford, London and America over the next year. It will be a truly international celebration with the British Council programming 'Starless and Bible Black' in Argentina, Australia, India, Canada and the USA. Closer to home, highlights include National Theatre Wales's staging of 'Under Milk Wood'. The BBC will broadcast a variety of Dylan-related material across all platforms, including a screening of a brand new single drama, 'A Poet In New York', by Andrew Davies, about the last days of Dylan in New York. Last week also saw the launch at Cardiff museum of renowned artist Sir Peter Blake's 'Llareggub' exhibition, which illustrates 'Under Milk Wood' and was also showcased on BBC Wales on Monday night. For those of you who did not catch it, it is still available on iPlayer and not to be missed. If you get the chance, go to the exhibition, because it is excellent. Even if you have not read Dylan—if you have not, you really should—the exhibition is brilliant because it brings to life the people of Wales, and you can tell who those people are, even if you do not know the names of the characters in 'Under Milk Wood'—which, sadly for me, I do, pretty much off by heart. You really can feel the life and the love in those drawings, even though Peter Blake did the illustrations well after 'Under Milk Wood' was written. So it is well worth looking at it. Blake, of course, is famous for designing the cover of The Beatles' 'Sgt. Pepper's Lonely Hearts Club Band' album, and I am also one of the sad people who has a picture of that on my hall stairs, framed. It has Dylan in the crowd, which I am told was the suggestion of John Lennon.

Staying with the art theme, LOCWS Arts is also spreading Dylan-inspired art of that sort right across the city of Swansea throughout the next year, so please visit if you have not already done so. In Swansea, the Taliesin centre will premier, 'Under Milk Wood: An Opera' by John Metcalf, while 5 Cwmdonkin Drive will host a year-long Dylanathon—I have to say, that is their name; I cannot help but feel that Dylan himself would have loathed that word—featuring contemporary local and international artists. This is just a small flavour of the events programmed for the coming year. So you can see, much like Joyce in Dublin, or Shakespeare in Stratford, Dylan's legacy reaches far beyond the city where he wrote his earliest works and it is absolutely crucial that Wales builds from this.

Mae potensial a dyfnder etifeddiaeth Dylan yn amlwg o'r rhestr o ddigwyddiadau a drefnwyd ledled Abertawe, Caerdydd, Rhydychen, Llundain ac America yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd yn ddathliad gwirioneddol ryngwladol gyda'r British Council yn trefnu 'Starless and Bible Black' yn yr Ariannin, Awstralia, India, Canada a'r Unol Daleithiau. Yn agosach gartref, mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys perfformiad o 'Under Milk Wood' gan National Theatre Wales. Bydd y BBC yn darlledu amrywiaeth o ddeunydd sy'n gysylltiedig â Dylan ar draws pob llwyfan, gan gynnwys sgrinio drama unigol newydd sbon, 'A Poet In New York', gan Andrew Davies, am ddyddiau olaf Dylan yn Efrog Newydd. Yr wythnos diwethaf hefyd, lanswyd arddangosfa'r artist adnabyddus Syr Peter Blake 'Llareggub' yn amgueddfa Caerdydd, sy'n darlunio 'Under Milk Wood' ac a ddangoswyd hefyd ar BBC Cymru nos Lun. I'r rheini ohonoch nas gwelodd, mae ar gael ar iPlayer o hyd ac mae'n werth ei wyllo. Os cewch gyfle, ewch i'r arddangosfa gan ei bod yn ardderchog. Hyd yn oed os nad ydych wedi darllen gwaith Dylan—os nad ydych wedi gwneud hynny, gwnewch da chi—mae'r arddangosfa yn wych gan ei bod yn dod â phobl Cymru yn fyw, a byddwch yn adnabod y bobl hynny, hyd yn oed os nad ydych yn gyfarwydd ag enwau cymeriadau 'Under Milk Wood'—rwyf, gwaetha'r modd, yn eu hadnabod, fwy neu lai, ar fy nghof. Gallwch deimlo'r bywyd a'r cariad yn y darluniau hynny, er na chreodd Peter Blake y darluniau tan ymhell ar ôl i 'Under Milk Wood' gael ei hysgrifennu. Felly mae'n werth eu gweld. Mae Blake, wrth gwrs, yn enwog am ddylunio clawr albwm 'Sgt. Pepper's Lonely Hearts Club Band' The Beatles, ac rwyf hefyd yn un o'r bobl anffodus hynny sydd â'r llun hwnnw mewn ffrâm ar risiau'r cyntedd. Mae Dylan yn y dorf, rhywbeth a awgrymodd John Lennon, yn ôl pob sôn.

Gan aros gyda'r thema gelfyddydol, mae LOCWS Arts hefyd yn lledaenu celf o'r math hwnnw wedi'i ysbrydoli gan Dylan ar hyd a lled dinas Abertawe drwy gydol y flwyddyn nesaf, felly ewch i ymweld os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Yn Abertawe, bydd canolfan Taliesin yn llwyfannu 'Under Milk Wood: An Opera' gan John Metcalf, tra bydd 5 Cwmdonkin Drive yn cynnal Dylanathon blwyddyn o hyd—rhaid dweud, dyna yw'r enw; ni allaf ond teimlo y byddai Dylan ei hun wedi casáu'r gair hwnnw—gan arddangos artistiaid lleol a rhyngwladol cyfoes. Dim ond blas o'r digwyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf yw hyn. Felly, fe welwch, yn yr un modd â Joyce yn Nulyn, neu Shakespeare yn Stratford, mae etifeddiaeth Dylan yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ddinas lle yr ysgrifennodd ei waith cynharaf ac mae'n hollbwysig bod Cymru yn adeiladu ar yr etifeddiaeth hon.

Alongside all this, Dylan's legacy also continues to exert its influence in the present day through the prestigious Swansea University Dylan Thomas Prize. This, for those who do not know, is an international literary award aimed at encouraging raw creative talent worldwide. The prize is aimed at writers under the age of 30, and has been running for a number of years now. At £30,000, the Dylan Thomas Prize for Young Writers is one of the largest literary awards in the world, and launches the careers of young wordsmiths from Wales and from all around the world. Founded by Peter Stead in 2006, the inaugural prize was awarded to Rhondda writer Rachel Trezise for her work 'Fresh Apples', and again, if you have not read it, you really should. This year's award went to 29-year-old California-born author Claire Vaye Watkins for her outstanding 'Battleborn'; now, I have that on my bedside table, and I have yet to read it, but the blurb looks good. The prize builds on, and trades on, the legacy of Dylan. As the journalist Carolyn Hitt said:

'the Dylan Thomas Prize brings the best young writers in the world to Swansea and connects them to the city's own young people in global exchange of inspiration and creativity'.

Those young writers go out to the schools in Swansea and speak to the people in Swansea and the young writers there, right from primary school age, about the fact that you can in fact be a writer. It does not matter where you are from, or what your background is; it does not matter what horrors you have been through. You can be a writer, or a poet, or somebody artistic. That is very important indeed.

The educational element is called the DylanED programme, which sees shortlisted authors visiting schools in the hope of inspiring that new generation of wordsmiths. I urge our Minister to consider adding the work of Dylan Thomas to our national curriculum here in Wales, as has been done in Germany. It is not actually on our curriculum at the moment.

Looking locally, it is worth highlighting what is happening in Swansea, Dylan's birthplace. That huge investment in Cwmdonkin Park I have mentioned, but that is just the start of the story. I have been impressed by the local community, which has picked up the baton and created a fantastic family and creative environment in the park. Likewise, Uplands local market started up over the summer as a not-for-profit social enterprise, and has had the twin benefits of boosting the local economy and bringing the community together in the very heart of Uplands on the last Saturday of every month. The market has even held a special literature market day to coincide with the 'Do Not Go Gentle' festival that Uplands always has, and which brings some of the best poets, musicians and artists in Europe back to Dylan's old stomping ground. This is a point that I really hope I am labouring this evening. The legacy of this year's centenary celebrations must not wither after 12 months. Much like Cwmdonkin Park, Uplands market and the 'Do Not Go Gentle' festival, I hope that Dylan's legacy will grow into a lasting legacy for us all.

Ochr yn ochr â hyn oll, mae etifeddiaeth Dylan hefyd yn parhau i gael dylanwad ar yr oes sydd ohoni drwy Wobr Dylan Thomas fawreddog Prifysgol Abertawe. Mae'r wobr hon, i'r rheini nad ydynt yn ymwybodol, yn wobr lenyddol ryngwladol wedi'i hanelu at annog talent greadigol grai ledled y byd. Mae'r wobr wedi'i hanelu at awduron o dan 30 oed, ac fe'i cynhaliwyd ers sawl blwyddyn bellach. Mae Gwobr Dylan Thomas i Awduron Ifanc, sy'n werth £30,000, ymhlith y gwobrau llenyddol mwyaf yn y byd, ac mae'n lansio gyrfaedd awduron ifanc o Gymru ac o bob cwr o'r byd. Fe'i sefydlwyd gan Peter Stead yn 2006, a chyflwynwyd y wobr gyntaf i'r awdures Rachel Trezise o'r Rhondda am ei gwaith 'Fresh Apples', ac unwaith eto, os nad ydych wedi'i ddarllen, gwnewch da chi. Cyflwynwyd y wobr eleni i'r awdures 29 oed a aned yng Nghalifornia, Claire Vaye Watkins am ei gwaith eithriadol 'Battleborn'; mae'r llyfr hwnnw ar y bwrdd wrth ymyl fy ngwely, ac nid wyf wedi'i ddarllen eto, ond mae'n argoeli'n dda. Mae'r wobr yn adeiladu ar etifeddiaeth Dylan ac yn masnachu ar yr etifeddiaeth honno. Fel y dywedodd y newyddiadurwraig Carolyn Hitt:

Daw Gwobr Dylan Thomas â'r awduron ifanc gorau yn y byd i Abertawe a'u cysylltu â phobl ifanc y ddinas ei hun gan ddarparu cyfle byd-eang i gyfnwied ysbrydoliaeth a chreadigrwydd.

Mae'r awduron ifanc hynny yn mynd allan i'r ysgolion yn Abertawe ac yn siarad â'r bobl yn Abertawe a'r awduron ifanc yno, o oedran ysgol gynradd, am y ffaith y gallwch mewn gwirionedd fod yn awdur. Does dim ots o ble y dewch, na beth yw eich cefndir; does dim ots pa erchyllterau a wynebwyd gennych. Gallwch fod yn awdur, neu'n fardd, neu'n rhywun artistig. Mae hynny'n bwysig iawn yn wir.

Cyfeirir at yr elfen addysgol fel rhaglen DylanED, ac fel rhan o'r rhaglen honno, daw awduron sydd ar y rhestr fer i ymweld ag ysgolion yn y gobaith o ysbrydoli'r genhedlaeth newydd honno o awduron. Erfyniaf ar ein Gweinidog i ystyried ychwanegu gwaith Dylan Thomas at ein cwricwlwm cenedlaethol yma yng Nghymru, fel y gwnaed yn yr Almaen. Nid yw'n rhan o'n cwricwlwm ar hyn o bryd.

Gan edrych yn lleol, mae'n werth tynnu sylw at yr hyn sy'n digwydd yn Abertawe, man geni Dylan. Rwyf wedi sôn am y buddsoddiad enfawr ym Mharc Cwmdonkin, ond megis dechrau'r daith yw hynny. Mae'r gymuned leol wedi gwneud cryn argraff arnaf, gan ymateb i'r her a chreu amgylchedd creadigol ardderchog i'r teulu yn y parc. Yn yr un modd, dechreuodd marchnad leol ardal Uplands yn ystod yr haf fel menter gymdeithasol nid er elw, gan lwyddo i hybu'r economi leol a dod â'r gymuned ynghyd yng nghanol ardal Uplands ar ddydd Sadwrn olaf bob mis. Mae'r farchnad hyd yn oed wedi cynnal diwrnod marchnad lenyddiaeth arbennig i gyd-fynd â'r wyl 'Do Not Go Gentle' a gynhelir bob blwyddyn yn ardal Uplands, ac sy'n denu rhai o feirdd, cerddorion ac artistiaid gorau Ewrop yn ôl i ardal enedigol Dylan. Gobeithio fy mod yn llwyddo i bwysleisio'r pwynt hwn heno. Rhaid sicrhau na fydd etifeddiaeth dathliadau canmlwyddiant eleni yn pylu ar ôl 12 mis. Fel Parc Cwmdonkin, marchnad ardal Uplands a'r wyl 'Do Not Go Gentle', i raddau helaeth, gobeithio y bydd etifeddiaeth Dylan yn tyfu'n etifeddiaeth barhaol i bob un oonom.

I also want to take this opportunity to make a public plea. The famous Dylan Thomas authority, Jeff Towns, continues to be very frustrated at not being able to find any moving footage of Dylan. Despite Dylan writing propaganda films for the BBC during the war, a plethora of radio plays and spending considerable amounts of time in America during the early TV boom, there is no known moving footage of Dylan. Jeff is of the mind that somewhere in the world, perhaps in a shed or an attic, or in a private collection, there may be some old film reel with the poet in motion. It would be wonderful, if in the year of his centenary, we could uncover such a lost gem. If it is out there, please find it.

Finally, I have sought tonight to highlight the enduring legacy of Dylan Thomas for Wales. The global reach of his writings and the continuing appeal of his old haunts attract very welcome tourists to our country. That goes alongside the inspiration that he has given and is yet to give to new generations of writers and artists, locals and tourists, who all benefit from the educational programmes included in the centenary and beyond.

I would like to conclude my contribution as I started, by reading one last verse from Dylan's 'Poem in October':

'My birthday began with the water- / Birds and the birds of the winged trees flying my name / Above the farms and the white horses / And I rose / In rainy autumn / And walked abroad in a shower of all my days'

I have agreed that Mike Hedges, Kirsty Williams and Suzy Davies can have some time in the debate.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i wneud ple gyhoeddus. Mae'r awdurdod enwog ar Dylan Thomas, Jeff Towns, yn parhau i fod yn rhwystredig iawn am na all ddod o hyd i unrhyw ddeunydd ffilm o Dylan. Er i Dylan ysgrifennu ffilmiau propaganda i'r BBC yn ystod y rhyfel, a lluo o ddramâu radio ac iddo dreulio cryn dipyn o amser yn America yn ystod cyfnod cynnar cyflwyno'r teledu, nid oes unrhyw ddeunydd ffilm hysbys o Dylan. Mae Jeff o'r farn rywle yn y byd, efallai mewn sied neu atig, neu mewn casgliad preifat, y gall fod hen rîl ffilm yn dangos y bardd. Byddai'n ardderchog, yn ystod blwyddyn ei ganmlwyddiant, pe gallem ddarganfod trysor coll o'r fath. Os yw'n bodoli, dewch o hyd iddo.

Yn olaf, rwyf wedi ceisio tynnu sylw at etifeddiaeth barhaus Dylan Thomas i Gymru heno. Mae cyrhaeddiad byd-eang ei waith ac apêl barhaus ei hen gynefin yn denu twristiaid y mae croeso mawr iddynt i'n gwlad. Mae hynny ochr yn ochr â'r ysbrydoliaeth y mae wedi'i rhoi ac y bydd yn parhau i'w rhoi i genedlaethau newydd o awduron ac artistiaid, pobl leol a thwristiaid, a fydd oll yn elwa ar y rhaglenni addysgol a gaiff eu cyflwyno fel rhan o'r canmlwyddiant a thu hwnt.

Hoffwn gloi fy nghyfraniad fel y dechreuais, drwy ddarllen pennill arall o gerdd Dylan 'Poem in October':

'My birthday began with the water- / Birds and the birds of the winged trees flying my name / Above the farms and the white horses / And I rose / In rainy autumn / And walked abroad in a shower of all my days'

Rwyf wedi cytuno y gall Mike Hedges, Kirsty Williams a Suzy Davies gael rhywfaint o amser yn y ddadl.

18:06

### **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I thank Julie James for giving me a minute of her time and bringing this discussion here today.

Dylan Thomas was, undoubtedly, one of the great twentieth-century poets, who had success in the United States of America as well as in Britain. I do not believe that enough has been done in Wales to promote him. When I was young he was called a 'no-good boyo from Llareggub' by many, more known for his drinking than his poetry. However, if you compare him with James Joyce from Dublin, a man also known for taking the odd drink, Dublin boasts a James Joyce centre and a Bloomsday on 16 June each year. I believe that we need to do the same for Dylan Thomas in Wales.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Julie James am roi munud o'i hamser imi ac am gyflwyno'r drafodaeth hon yma heddiw.

Dylan Thomas, yn ddi-os, oedd un o feirdd gorau'r ugeinfed ganrif, a gafodd lwyddiant yn Unol Daleithiau America yn ogystal ag ym Mhrydain. Ni chredaf fod digon wedi'i wneud yng Nghymru i'w hyrwyddo. Pan oeddwn yn ifanc, cyfeiriwyd ato fel 'boio da-i-ddim o Lareggub' gan sawl un, yn fwy adnabyddus am ei yfed na'i farddoniaeth. Fodd bynnag, os cymharwch ef â James Joyce o Ddulyn, dyn a oedd hefyd yn adnabyddus am yfed diod neu ddau, mae Dulyn yn gartref balch i ganolfan James Joyce ac yn cynnal 'Bloomsday' ar 16 Mehefin bob blwyddyn. Credaf fod angen inni wneud yr un peth i Dylan Thomas yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:07

### **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, thank Julie James for bringing this debate to the Chamber and for giving us a chance to use this location to celebrate a Welshman of international status who not only brought the voice of Wales to the world but also the many characters that make up the Wales that we all know and love.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i Julie James am gyflwyno'r ddadl hon i'r Siambr, ac am roi cyfle inni ddefnyddio'r lleoliad hwn i ddathlu Cymro o statws rhyngwladol a lwyddodd nid yn unig i gyflwyno llais Cymru i'r byd ond hefyd i gyflwyno'r lluo o gymeriadau sy'n rhan o'r Gymru y mae pob un ohonom yn ei hadnabod ac yn ei charu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I was heartened, despite having missed the launch myself due to illness, that this is a very outward-looking festival. It is looking out to the world. Apart from being an opportunity for literary tourism, the presence of Dylan is a historic one that we can capitalise on for destination tourism. I hope that that will be done sensitively but effectively.

Roedd yn galonogol clywed, er imi fethu'r achlysur lansio fy hun oherwydd salwch, bod yr ŵyl hon, i raddau helaeth, yn un sy'n edrych tuag allan. Mae'n ceisio cynnwys pob cwr o'r byd. Yn ogystal â chyfle i hybu twristiaeth lenyddol, mae presenoldeb Dylan yn gyfle hanesyddol y gallwn fanteisio arno o ran twristiaeth gyrchfan. Gobeithio y caiff hyn ei wneud mewn modd sensitif ond effeithiol.

18:07

### **Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

I congratulate Julie James on her contribution here this afternoon, which did much to bring alive the spirit of Dylan. I, myself, was Lilly, Mrs Beynon's treasure, and I do not think the audience in the school play has ever got over that fact. I assure Members that my trips to the Mumbles mile as a teenager were for literary research purposes to gain a better understanding of 'Return Journey'.

Hoffwn longyfarch Julie James ar ei chyfraniad yma y prynhawn yma, a lwyddodd i ddod ag ysbryd Dylan yn fyw. Chwaraeais innau, fy hun, ran Lilly, trysor Mrs Beynon, ac ni chredaf fod cynulleidfara'r ddrama ysgol honno erioed wedi dod dros y ffaith honno. Gallaf sicrhau'r Aelodau mai at ddibenion gwaith ymchwil llenyddol y teithiais ar hyd milltir y Mwmbwls fel merch yn ei harddegau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o 'Return Journey'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mike Hedges has already mentioned Bloomsday. This year is a wonderful year to celebrate the centenary, but I hope that we can garner all the hard work, excitement and will that is there for a permanent opportunity to celebrate Dylan and sell Wales to the world. Bloomsday is now an international festival that highlights the works of James Joyce. There are many people in Wales and beyond who would like to see the creation of a Dylan day. My old school mate, Cerys Matthews, herself a Swansea girl, is very keen to play her part alongside other people to work with the Welsh Government to see what can be done to ensure that this is just the start of an international and local celebration of Dylan so that we can keep him at the forefront of our minds, bring him to a new generation of scholars and readers and also gain that wonderful economic legacy that we could gain if we support all those who have done so well to date.

Soniodd Mike Hedges eisoes am Bloomsday. Mae eleni yn flwyddyn wych i ddathlu'r canmlwyddiant, ond gobeithio y gallwn gywain yr holl waith caled, y cyffro a'r ewyllys amlwg er mwyn sicrhau cyfle parhaol i ddathlu Dylan a gwerthu Cymru i'r byd. Mae Bloomsday bellach yn ŵyl ryngwladol sy'n tynnu sylw at waith James Joyce. Mae llawer o bobl yng Nghymru a thu hwnt a fyddai'n hoffi gweld diwrnod Dylan yn cael ei greu. Mae fy hen ffrind ysgol, Cerys Matthews, ei hun yn hanu o Abertawe, yn awyddus iawn i chwarae ei rhan ochr yn ochr â phobl eraill i weithio gyda Llywodraeth Cymru i weld beth y gellir ei wneud i sicrhau mai megis dechrau'r daith yw hyn o ran sefydlu dathliad rhyngwladol a lleol o Dylan er mwyn inni allu ei gadw mewn cof, ei gyflwyno i genhedlaeth newydd o ddysgwyr a darllenwyr a meithrin yr etifeddiaeth economaidd ardderchog honno y gallem ei chael pe byddem yn cefnogi pob un sydd wedi gwneud cystal hyd yn hyn.

18:09

### **Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister for Culture and Sport to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:09

### **John Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I begin by thanking Julie James for bringing this debate to the Chamber today, and for bringing Dylan Thomas's poetry to the Chamber, showing what a great poet he was, also a great writer. His work has taken Wales to the world and brought the world to Wales, which is a fantastic asset for any county and absolutely brilliant for the new emerging Wales under our new democracy.

Dechreuaf drwy ddiolch i Julie James am gyflwyno'r ddatl hon i'r Siambr heddiw, ac am gyflwyno barddoniaeth Dylan Thomas i'r Siambr, gan ddangos ei fod yn fardd arbennig, ac hefyd yn awdur arbennig. Mae ei waith wedi cyflwyno Cymru i'r byd ac wedi denu'r byd i Gymru, sy'n ased ardderchog i unrhyw wlad ac yn hollol wych i'r Gymru newydd sy'n esblygu o dan ein democratiaeth newydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Dylan Thomas 100, or DT100, will of course celebrate the centenary of his birth, and it will be a year-long festival. It will be led by the Welsh Government together with the Arts Council of Wales and local authority partners, and it will include events and activities right across Wales and beyond. Julie has already outlined a number of the events that will be taking place, including the quite amazing exhibition by Sir Peter Blake at the national museum. It is a must-see 'Under Milk Wood' exhibition, and I know that many people have been to see it already, and many more will. Indeed, it is a wonderful asset to the national museum itself in terms of attracting a new audience from a wide geographical area, well beyond Wales. There will be that full year of activities, including new television and radio productions, film projects, new publications and academic initiatives, bringing Dylan to a new audience. This will reach many young people in Wales, including through our educational offer, which will be a significant part of the year and beyond.

We will have all of our national institutions linking in with this: the National Library of Wales, National Museum Wales, the BBC and National Theatre Wales. The theatre will include some new touring productions of some of Dylan's best-known works. We will have a visual arts celebration reaching out across generations to inspire artists, audiences and visitors alike, involving schools and community groups, and online participants, right across Swansea, for example, creating new artworks. There will be a photo marathon celebrating Dylan's life and work, hosted from his birthplace—again, very impressively mentioned by Julie here today in terms of its significance and importance. Laugharne will feature, as indeed it must, including some of the settings that most inspired Dylan—the writing shed and the boat house. Laugharne will play host to the Dylan weekends, which will see guests curating different weekends with a change in focus, covering poetry, biography, music, film, radio and comedy. Again, as Julie mentioned, the Dylan Thomas Centre and Swansea as a whole will be absolutely at the centre of the year of events, and rightly so.

It will be right across Wales, including north Wales—Bangor University, for example, will host musical productions. We will see Chapter Arts Centre in Cardiff offering 'Lleisiau/Voices', a celebration and investigation of Wales's long and, I think, rich history of performance of the spoken word. Ffotogallery will put on 'Bedazzled: A Welshman in New York', which will be a series of performance-based events and encounters. There is such a lot going on throughout that year, right across Wales and beyond, which I will come to in a moment.

Bydd Dylan Thomas 100, neu DT100, wrth gwrs yn dathlu canmlwyddiant ei eni, a bydd yn ŵyl blwyddyn o hyd. Caiff ei harwain gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Chyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid awdurdodau lleol, a bydd yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau ledled Cymru a thu hwnt. Mae Julie eisoes wedi cyfeirio at nifer o ddiwyddiadau a fydd yn mynd rhagddynt, gan gynnwys yr arddangosfa eithaf anhygoel gan Syr Peter Blake yn yr amgueddfa genedlaethol. Mae'n arddangosfa 'Under Milk Wood' y mae'n rhaid ei gweld, a gwn fod llawer o bobl wedi bod i'w gweld yn barod, ac y bydd llawer mwy yn gwneud hynny. Yn wir, mae'n ased ardderchog i'r amgueddfa genedlaethol ei hun o ran denu cynulleidfa newydd o ardal ddaeryddol eang, ymhell y tu hwnt i Gymru. Bydd blwyddyn lawn o weithgareddau, gan gynnwys cynrychiadau teledu a radio newydd, prosiectau ffilm, cyhoeddiadau newydd a mentrau academaidd, gan gyflwyno Dylan i gynulleidfa newydd. Bydd yn cyrraedd llawer o bobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys drwy ein harlwy addysgol, a fydd yn rhan bwysig o'r flwyddyn a thu hwnt.

Bydd pob un o'n sefydliadau cenedlaethol yn gysylltiedig â'r broses hon: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, y BBC a National Theatre Wales. Bydd y theatr yn cynnwys cynrychiadau teithiol newydd o rai o enghreifftiau o waith mwyaf adnabyddus Dylan. Byddwn yn cynnal dathliad celfyddydau gweledol a fydd yn ymestyn ar draws cenedlaethau i ysbrydoli artistiaid, cynulleidfaoedd ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan gynnwys ysgolion a grwpiau cymunedol, a chyfranogwyr ar-lein, o bob rhan o Abertawe, er enghraifft, yn creu darnau newydd o gelf. Bydd marathon ffotograffau yn dathlu bywyd a gwaith Dylan, o'i fan geni—y cyfeiriwyd ato, unwaith eto, yn huawdl iawn gan Julie yma heddiw o ran ei arwyddocâd a'i bwysigrwydd. Caiff Talacharn ei chynnwys, yn amlwg, gan ei bod yn cynnwys rhai o'r lleoliadau a ysbrydolodd Dylan fwyaf—y sied ysgrifennu a'r cwt cychod. Cynhelir penwythnosau Dylan yn Nhalacharn, lle bydd gwesteion yn gyfrifol am derfnu gwahanol benwythnosau gyda newid ffocws ar gyfer pob un, gan gynnwys barddoniaeth, cofiannau, cerddoriaeth, ffilm, radio a chomedi. Unwaith eto, fel y soniodd Julie, bydd Canolfan Dylan Thomas ac Abertawe yn gyffredinol yn sicr wrth wraidd y flwyddyn o ddiwyddiadau, yn haeddiannol ddigon.

Caiff ei chynnal ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys y Gogledd—bydd Prifysgol Bangor, er enghraifft, yn cynnal cynrychiadau cerddorol. Bydd Canolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd yn cynnig 'Lleisiau/Voices', dathliad ac ymchwiliad i hanes hir a chyfoethog Cymru, fe gredaf, o'r gair llafar. Bydd Ffotogaleri yn cyflwyno 'Bedazzled: A Welshman in New York', sef cyfres o ddiwyddiadau a chyfarfyddiadau yn seiliedig ar berfformiad. Mae cymaint o bethau yn mynd rhagddynt drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru a thu hwnt, y cyfeiriaf ato maes o law.

We do know of course, touched on by Members here today, that Dylan's international profile is such an opportunity for Wales and such an asset, and very important to our tourism offer. We must make sure that we capitalise on that throughout this year. We want to improve the appreciation of Dylan Thomas at home and abroad. We want to provide a focus to attract tourists to Wales during this year, and give Dylan Thomas fans from outside Wales the impetus to visit the region, either for the first time or for a repeat visit. We want to use the anniversary as an opportunity to further enhance the Welsh schools curriculum, touched upon by the debate here today, with themes that reflect the writer's life and works. Major events are so important. Plans are in development for a gala event, 'Dylan's Birthday Party', which will celebrate the best of literature, theatre, poetry and music, and feature special guests. That work at BBC Wales and S4C will include a broadcasting season of Dylan Thomas-themed programming, as we heard about earlier.

In education, I think that it is important to mention that we will see Dylan's work brought to the attention of young people right across Wales. The education programme will inspire young people with workshops in schools, an international writing competition and a touring show. Digital resources to support teachers will be introducing the work of Dylan, and have been commissioned, and will be a lasting legacy. A new digital hub has been developed and designed responsively to be available across multiple platforms, such as mobile and tablet, and the website [www.dylanthomas100.org](http://www.dylanthomas100.org) will allow visitors to explore, consume and share.

Internationally, the British Council has been very generous in confirming an extensive programme of activities to run throughout the festival, entitled 'Starless and Bible Black', and the impact of Dylan Thomas internationally will allow us to target the international programme to key overseas business markets for Wales, so important to our economic programme.

All of this will ensure that Dylan Thomas 100 activity will have a lasting international legacy that Julie mentioned so strongly earlier, and will undoubtedly be important in terms of a lasting outcome from this year of celebrations and activities. We will see Dylan's profile raised internationally, and with that the profile of Wales.

In concluding, Dylan Thomas is a wonderful icon for Wales. We use that word 'icon' very regularly and perhaps sometimes it is overused, but it is truly fitting as far as Dylan Thomas is concerned. Our vision at the outset of Dylan Thomas 100 is of a compelling, inspiring celebration of the life, work and influence of Dylan Thomas through that programme of cultural and academic activity. It will enthuse people in Wales and across the globe. It will bring new visitors to our country, and its impact will be a fitting legacy for the longer term.

Gwyddom wrth gwrs, fel y crybwyllwyd gan Aelodau yma heddiw, fod proffil rhyngwladol Dylan yn gyfle ardderchog i Gymru ac yn ased ardderchog, ac yn bwysig iawn o ran ein diwydiant twristiaeth. Rhaid inni sicrhau y manteisir ar hynny drwy gydol y flwyddyn. Rydym am wella gwerthfawrogiad o Dylan Thomas gartref a thramor. Rydym am ddarparu ffocws i ddenu twristiaid i Gymru yn ystod y flwyddyn hon, a rhoi'r cymhelliant i bobl o'r tu allan i Gymru sy'n hoff o Dylan Thomas ymweld â'r rhanbarth, naill ai am y tro cyntaf neu i ddychwelyd. Rydym am ddefnyddio'r canmlwyddiant fel cyfle i wella cwricwlwm ysgolion Cymru ymhellach, y soniwyd amdano fel rhan o'r ddadl yma heddiw, gyda themâu sy'n adlewyrchu bywyd a gwaith yr awdur. Mae digwyddiadau mawr mor bwysig. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiad gala, 'Parti Pen-blwydd Dylan', a fydd yn dathlu'r gorau mewn llenyddiaeth, y theatr, barddoniaeth a cherddoriaeth, ac a fydd yn cynnwys gwesteion arbennig. Bydd y gwaith hwnnw gan BBC Cymru ac S4C yn cynnwys tymor darlledu o raglennu yn seiliedig ar Dylan Thomas, fel y clywsom yn gynharach.

Ym maes addysg, credaf ei bod yn bwysig sôn y bydd gwaith Dylan yn cael ei ddwyn i sylw pobl ifanc ledled Cymru. Bydd y rhaglen addysg yn ysbrydoli pobl ifanc gyda gweithdai mewn ysgolion, cystadleuaeth ysgrifennu ryngwladol a sioe deithiol. Bydd adnoddau digidol i helpu athrawon yn cyflwyno gwaith Dylan, ac maent wedi cael eu comisiynu, a byddant yn etifeddiaeth barhaol. Datblygwyd hwb digidol newydd a ddyluniwyd mewn ffordd ymatebol er mwyn sicrhau ei fod ar gael ar draws llwyfannau lluosog, megis ffonau symudol a llechi, a bydd y wefan [www.dylanthomas100.org](http://www.dylanthomas100.org) yn rhoi cyfle i ymwelwyr archwilio, defnyddio a rhannu.

Yn rhyngwladol, mae'r British Council wedi bod yn hael iawn wrth gadarnhau y caiff rhaglen helaeth o weithgareddau ei chynnal drwy gydol yr ŵyl, o'r enw 'Starless and Bible Black', a bydd effaith Dylan Thomas yn rhyngwladol yn ein galluogi i dargedu'r rhaglen ryngwladol at farchnadoedd busnes tramor allweddol i Gymru, sydd mor bwysig i'n rhaglen economaidd.

Bydd hyn oll yn sicrhau y bydd gan weithgareddau Dylan Thomas 100 etifeddiaeth ryngwladol barhaol fel y crybwyllodd Julie mor gryf yn gynharach, a bydd yn sicr yn bwysig o ran sicrhau canlyniad parhaol i ddathliadau a gweithgareddau eleni. Caiff proffil Dylan ei godi'n rhyngwladol, ac felly hefyd broffil Cymru.

I gloi, mae Dylan Thomas yn eicon gwych i Gymru. Rydym yn defnyddio'r gair 'eicon' yn rheolaidd iawn ac weithiau efallai y caiff ei ordefnyddio, ond mae'n wirioneddol addas yn achos Dylan Thomas. Ein gweledigaeth o'r cychwyn cyntaf o ran Dylan Thomas 100 yw dathliad cymhellol ac ysbrydoledig o fywyd, gwaith a dylanwad Dylan Thomas drwy'r rhaglen honno o weithgareddau diwylliannol ac academaidd. Bydd yn ennyn brwdfrydedd pobl yng Nghymru a thros y byd i gyd. Bydd yn denu ymwelwyr newydd i'n gwlad, a bydd ei heffaith yn etifeddiaeth addas i'r tymor hwy.

18:17

**Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, and that brings today's proceedings to a close.

Diolch, Weinidog, daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:17.*

*The meeting ended at 18:17*